

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

09/07/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Adroddiad Jillings](#)
[Urgent Question: The Jillings Report](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Ymateb i'r Adolygiad Strategol o Wasanaethau Ambiwllans Cymru](#)
[Statement: Update on the Response to the Strategic Review of Welsh Ambulance Services](#)

[Datganiad: Cynnnydd o ran Datblygiad Rhaglenni Cyllid Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 ac Adroddiad Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad 'Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf'](#)
[Statement: Progress on the Development of European Structural Fund Programmes 2014-2020 and the Welsh Government Report on the 'Wales and the EU: Partnership for Jobs and Growth' Consultation](#)

[Datganiad: Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin](#)
[Statement: Reform of the Common Agricultural Policy](#)

[Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol y Bil Sector Amaethyddol \(Cymru\)](#)
[Motion to Approve the General Principles of the Agricultural Sector \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig i Gymeradwyo Penderfyniad Ariannol y Bil Sector Amaethyddol \(Cymru\)](#)
[Motion to Approve the Financial Resolution of the Agricultural Sector \(Wales\) Bill](#)

[Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 \(Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 \(Cymru\) 2013 a Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 \(Diwygiad i Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol\) \(Cymru\) 2013](#)
[The Housing and Regeneration Act 2008 \(Consequential Amendments to the Mobile Homes Act 1983\) \(Wales\) Order 2013 and the Mobile Homes Act 1983 \(Amendment of Schedule 1 and Consequential Amendments\) \(Wales\) Order 2013](#)

[Y GIG yng Nghymru—Dysgu o Ymchwiliad Francis](#)
[The NHS in Wales—Learning from the Francis Inquiry](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd
(Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer
(Rosemary Butler) in the Chair.

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Ardaloedd Menter Cymru

Welsh Enterprise Zones

13:31 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog dynnu sylw at y prif wersi sydd wedi cael eu dysgu yn sgîl adolygiadau o bolisi'r 1980au ar ardaloedd menter wrth sefydlu'r gyfres newydd o ardaloedd menter Cymru? OAQ(4)1172(FM)

1. Will the First Minister highlight what main lessons have been learnt from reviews of the 1980s policy on enterprise zones when setting-up the new set of Welsh enterprise zones? OAQ(4)1172(FM)

- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- We recognise the shortcomings of the 1980s approach to enterprise zones. Today's enterprise zones in Wales are building capability for the benefit of the economy over the long term. This acts to minimise potential displacement while encouraging the spill over of benefits to the broader region.
- Rydym yn cydnabod diffygion dull y 1980au o ymdrin ag ardaloedd menter. Mae'r ardaloedd menter yng Nghymru heddiw yn datblygu gallu er budd yr economi dros y tymor hir. Diben hyn yw lleihau dadleoli posibl gan annog gorlif o fuddion i'r rhanbarth ehangach.
- 13:31 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the First Minister for his response. As the First Minister is well aware, each job cost £24,000 and a lot of them were just relocated within the area. More especially, the rate relief was often negated by rent increases. How will the Welsh Government ensure that rate relief offers direct benefits to the businesses located in these new enterprise zones and does not just flow straight into the pockets of the building and land owners?
- Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ymateb. Fel y mae'r Prif Weinidog yn gwbl ymwybodol, costiodd pob swydd £24,000 a dim ond eu hadleoli o fewn yr ardal a ddigwyddodd gyda llawer ohonynt. Yn fwy penodol, cafodd y rhyddhad ardrethi ei negyddu gan gynydd i rent yn aml. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rhyddhad ardrethi yn cynnig manteision uniongyrchol i'r busnesau sydd wedi eu lleoli yn yr ardaloedd menter newydd hyn ac nad ydynt yn llifo'n syth i mewn i bocedi perchnogion yr adeiladau a'r tir?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- Indeed. Our business rate support operates as a grant scheme, which is very different to the previous relief scheme, which reduced business rate liabilities to any business in an enterprise zone. Our scheme requires businesses to apply and then meet certain eligibility requirements designed to promote growth. The grant is then claimed once their rates have been paid. So, owners of buildings and enterprise zones would not be eligible under the terms of the scheme unless they were operating a business in the premises that met the eligibility criteria.
- Ie wir. Mae ein cymorth ardrethi busnes yn gweithredu fel cynllun grant, sy'n wahanol iawn i'r cynllun rhyddhad blaenorol, a oedd yn lleihau rhwymedigaethau ardrethi busnes i unrhyw fusnes mewn ardal fenter. Mae ein cynllun ni'n ei gwneud hi'n ofynnol i fusnesau wneud cais ac yna bodloni gofynion cymhwysedd penodol a gynlluniwyd i hybu twf. Yna caiff grant ei hawlio ar ôl i'r ardrethi gael eu talu. Felly, ni fyddai perchnogion adeiladau ac ardaloedd menter yn gymwys o dan delerau'r cynllun oni bai eu bod yn gweithredu busnes ar y safle sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd.
- 13:32 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh Conservatives are certainly pleased by the conversion on the road to Damascus that has gone on within the Welsh Government on the subject of enterprise zones over the last two years. I am pleased that you have accepted our policy, First Minister. My question relates to issues about the 1980s enterprise zone compared with those that we have today. Back in the 1980s, Welsh inward investment stood at around a high of 15%, but that has fallen off markedly over recent years—it was down to 3% when the enterprise zones were announced by your Government. How do you see enterprise zones being used as a mechanism to improve inward investment into Wales?
- Mae Ceidwadwyr Cymru yn sicr yn falch â'r dröedigaeth ar y ffordd i Ddamascus sydd wedi digwydd o fewn Llywodraeth Cymru ar y pwnc o ardaloedd menter dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rwy'n falch eich bod wedi derbyn ein polisi, Brif Weinidog. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â materion yn ymwneud ag ardal fenter y 1980au o'i chymharu â'r rhai sydd gennym ni heddiw. Yn ôl yn y 1980au, roedd mewnfuddsoddiad i Gymru yn sefyll ar uchafbwynt o tua 15%, ond mae hynny wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar—roedd i lawr i 3% pan gyhoeddwyd yr ardaloedd menter gan eich Llywodraeth. Ym mha ffordd ydych chi'n gweld y bydd ardaloedd menter yn cael eu defnyddio fel dull o wella mewnfuddsoddiad i Gymru?
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- Recent figures have seen a 123% increase in direct foreign investment into Wales. The enterprise zones are a part of the armoury of developing the Welsh economy, but we also have to remember the need to promote Wales overseas. That is something that the Minister for Economy, Science and Transport and I have been doing on a regular basis.
- Mae ffigurau diweddar wedi dangos cynnydd o 123% mewn buddsoddiad uniongyrchol i Gymru o dramor. Mae'r ardaloedd menter yn rhan o'r arfogaeth ar gyfer datblygu economi Cymru, ond mae'n rhaid i ni gofio hefyd yr angen i hyrwyddo Cymru dramor. Mae hynny'n rhywbeth y mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a Thrafnidiaeth a minnau wedi bod yn ei wneud yn rheolaidd.

13:33	Llyr Huws Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Pa fesuryddion mae eich Llywodraeth wedi'u sefydlu er mwyn dod i'r casgliad a yw'r parthau menter presennol yn llwyddiannus ai peidio?</p>	<p>What measurement tools has your Government introduced in order to judge whether or not the current enterprise zones are a success?</p>
13:33	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mwy o swyddi, yn amlwg. Mae'r parthau menter yn wahanol ar draws Cymru; mae hynny'n wir. Fodd bynnag, mae'n bwysig dros ben ein bod yn gallu dangos bod GVA a niferoedd swyddi yn cynyddu. Bydd mwy o fanylion yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn hon ynglŷn â sut y dylid mesur llwyddiant y parthau menter ac, wrth gwrs, rydym yn barod i wrando ar safbwyntiau Aelodau ynglŷn â sut y dylem fesur y pethau hyn.</p>	<p>More jobs is an obvious one. The enterprise zones are different across Wales; that is true. However, it is extremely important that we can demonstrate an increase in GVA and in job numbers. More details on how the success of enterprise zones should be measured will be published by the end of the year, and, we are, of course, willing to listen to Members' views on how we should measure these things.</p>
13:34	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>As the Member mentioned, one of the criticisms of the 1980s programme was that the cost per job created was around about £26,000, or its equivalent in today's money. What cost per job would you be content with in your enterprise zones in order to consider them a success?</p>	<p>Fel y nodwyd gan yr Aelod, un o'r beirniadaethau o raglen y 1980au oedd bod pob swydd a grëwyd wedi costio tua £26,000, neu'r swm cyfwerth yn arian heddiw. Pa gost fesul swydd fydddech chi'n fodlon ei derbyn yn eich ardaloedd menter chi er mwyn gallu eu hystyried yn llwyddiant?</p>
13:34	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is very difficult to come up with a global figure of cost per job. What we are interested in is ensuring that the package that we have in place is sufficient to attract jobs to the enterprise zones around Wales. What we do not want is to repeat the mistakes of the 1980s, when jobs were not attracted but merely displaced from one part—particularly of a city, like Swansea—to another. It is also the case that, in many enterprise zones around the UK in the 1980s, nothing happened. Swansea was perhaps one of the more successful, but it is right to say that a number of businesses that moved into the Swansea enterprise zone simply moved there from somewhere else, rather than being attracted from new.</p>	<p>Mae'n anodd iawn dod o hyd i ffigur cyffredinol o ran cost fesul swydd. Yr hyn sydd o ddiddordeb i ni yw sicrhau bod y pecyn sydd gennym ar waith yn ddigonol i ddenu swyddi i'r ardaloedd menter ledled Cymru. Yr hyn nad ydym eisiau yw ailadrodd camgymeriadau'r 1980au, pan na ddenwyd swyddi, dim ond eu hadleoli o un ardal—yn enwedig o fewn dinas, fel Abertawe—i ardal arall. Mae hefyd yn wir na ddigwyddodd unrhyw beth mewn llawer o ardaloedd menter ledled y DU yn ystod y 1980au. Abertawe efallai oedd un o'r rhai mwyaf llwyddiannus, ond mae'n iawn i ddweud bod nifer o fusnesau a symudodd i mewn i ardal fenter Abertawe wedi symud yno o rywle arall, yn hytrach na chael eu denu o'r newydd.</p>
	Prynu Cartref Cyntaf	First-time Buyers
13:35	Peter Black Bywgraffiad Biography <i>2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am allu pobl sy'n ceisio prynu eu cartref cyntaf i wneud hynny? OAQ(4)1170(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video
		<p><i>2. Will the First Minister make a statement on access to housing for first time buyers? OAQ(4)1170(FM)</i></p>
13:35	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes; they can access housing through housing associations, of course, and through local authorities that offer assistance under the Welsh Government's homebuy and rent first schemes. Private developers also offer schemes to help first-time buyers, which are detailed on their websites and are advertised widely. We look forward, of course, to seeing the devolution of stamp duty, in order to assist first-time buyers further.</p>	<p>Gwnaf, gallant gael gafael ar dai trwy gymdeithasau tai, wrth gwrs, a thrwy awdurdodau lleol sy'n cynnig cymorth dan gynlluniau cymorth prynu a rhent yn gyntaf Llywodraeth Cymru. Mae datblygwyr preifat hefyd yn cynnig cynlluniau i helpu prynwyr tro cyntaf, a cheir manylion ar eu gwefannau ac fe'u hysbysebwr yn eang. Rydym yn edrych ymlaen, wrth gwrs, at ddatganoli'r dreth stamp, er mwyn cynorthwyo prynwyr tro cyntaf ymhellach.</p>

- 13:35 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you for that answer, First Minister, and for your anticipation, no doubt, of the statement by the UK Government. In terms of new buy Cymru, we are still waiting for news on that scheme. If you are not able to relaunch that scheme, or to get a launch date for it, by the summer recess, will you consider strengthening the homebuy and rent first schemes, to try to tackle the situation? According to Shelter figures, some people in Wales are waiting up to 15 years to be able to afford to get onto the housing ladder. That is an unacceptable wait, and we need to do something about it. Therefore, if new buy Cymru is not available, will you look at how we can reinforce other schemes?
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, ac am eich rhagwelediad, yn ddiaw, o'r datganiad gan Lywodraeth y DU. O ran NewBuy Cymru, rydym yn dal i aros am newyddion am y cynllun hwnnw. Os nad ydych yn gallu ail-lansio'r cynllun hwnnw, neu gael dyddiad lansio ar ei gyfer, erbyn toriad yr haf, a wnewch chi ystyried cryfhau cynlluniau cymorth prynu a rhent yn gyntaf i geisio mynd i'r afael â'r sefyllfa? Yn ôl ffigurau Shelter, mae rhai pobl yng Nghymru yn disgwyl hyd at 15 mlynedd i allu fforddio i ymuno â'r ysgol dai. Mae hwnnw'n gyfnod annerbyniol i aros, ac mae angen i ni wneud rhywbeth ynglŷn â'r peth. Felly, os nad yw NewBuy Cymru ar gael, a wnewch chi ystyried sut y gallwn ni atgyfnerthu cynlluniau eraill?
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The situation with regard to new buy Cymru is that lenders are assessing their position. They require additional information relating to the help-to-buy scheme before making a commitment to new buy Cymru. Therefore, that information will be helpful in terms of taking a final decision on new buy Cymru. However, should new buy Cymru find itself in a position where it is not moving forward at a satisfactory rate, we will look at possible alternatives in the future.
- Y sefyllfa o ran NewBuy Cymru yw bod darparwyr benthyciadau yn asesu eu sefyllfa. Maen nhw eisiau gwybodaeth ychwanegol ynghylch y cynllun cymorth i brynu cyn gwneud ymrwymiad i NewBuy Cymru. Felly, bydd y wybodaeth honno'n ddefnyddiol o ran gwneud penderfyniad terfynol am NewBuy Cymru. Fodd bynnag, pe byddai NewBuy Cymru yn gweld ei fod mewn sefyllfa lle nad yw'n symud ymlaen mewn modd boddhaol, byddwn yn ystyried dewisiadau eraill posibl yn y dyfodol.
- 13:36 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- First Minister, with no Welsh first-time buyers scheme, and sizeable deposits required to secure a mortgage, people are having to wait up to 12 years to get their foot onto the property ladder. What would be your advice to them?
- Brif Weinidog, gan nad oes cynllun prynwyr tro cyntaf yng Nghymru, a bod angen blaendaliadau sylweddol i sicrhau morgais, mae pobl yn gorfod aros hyd at 12 mlynedd i gael eu troed ar yr ysgol eiddo. Beth fyddai eich cyngor iddyn nhw?
- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- It is important that people understand that there are a variety of ways in which to get accommodation, whether that is through housing associations, through the private rented sector, or through shared equity schemes, for example; there are examples of those schemes across Wales, such as community land trusts. There are also schemes such as the one that was recently announced by the UK Government, which we are looking to see further details on, to see whether a Welsh scheme could dovetail successfully with that scheme.
- Maen bwysig bod pobl yn deall bod nifer o wahanol ffyrdd o gael llety, pa un a yw hynny trwy gymdeithasau tai, trwy'r sector rhentu preifat, neu drwy gynlluniau rhannu ecwiti, er enghraifft; ceir enghreifftiau o'r cynlluniau hynny ledled Cymru, fel ymddiriedolaethau tir cymunedol. Ceir cynlluniau hefyd fel yr un a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU, yr ydym ni'n aros i gael mwy o fanylion amdano, i weld a allai cynllun yng Nghymru asio'n llwyddiannus â'r cynllun hwnnw.
- 13:37 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Minister, on average, first-time buyers are now well into their 30s, which is enough to make any parent groan—I can see people in the Chamber thinking about that. The challenge that we face is the disparity between wages and house prices. What will you do to make Wales a high-wage economy? Would you condemn the use of practices such as zero-hours contracts?
- Weinidog, ar gyfartaledd, mae prynwyr tro cyntaf ymhell yn eu 30au erbyn hyn, sy'n ddigon i wneud unrhyw riant riddfan—gallaf weld pobl yn y Siambwr yn meddwl am hynny. Yr her sy'n ein hwynebu yw'r anghyfartaledd rhwng cyflogau a phrisiau tai. Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod economi cyflog uchel yng Nghymru? A fydddech chi'n condemnio'r defnydd o arferion fel contractau dim oriau?

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, I would. It is important to emphasise that the way to increase people's rate of pay, in the medium to long term, is through increased emphasis on skills. We know, looking at the world economy, that those who have the skills that are required are those who are paid the most. In years gone by, it was economic policy, followed in the 1980s and 1990s, that investors should come to Wales on the basis that we were cheaper than anywhere else. That is consigned very much to the dustbin. That is also why, with the various apprenticeship schemes that we have, and through the work that we do with higher education, we realise that, the more skills our people have, the better paid they will be.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byddwn, mi fyddwn. Mae'n bwysig pwysleisio mai'r ffordd o gynyddu cyflogau pobl, yn y tymor canol a'r tymor hir, yw trwy roi mwy o bwyslais ar sgiliau. Rydym yn gwybod, o edrych ar economi'r byd, mai'r rhai sy'n meddu ar y sgiliau y mae angen amdanynt, yw'r rhai sy'n cael eu talu fwyaf. Yn y blynyddoedd a fu, y polisi economaidd, a ddilynwyd yn y 1980au a'r 1990au, oedd y dylai buddsoddwyr ddod i Gymru ar y sail ein bod yn rhatach nag yn unrhyw le arall. Mae hynny'n sicr wedi ei adael yn y gorffennol. Dyna pam hefyd, gyda'r gwahanol gynlluniau prentisiaeth sydd gennym, a thrwy'r gwaith yr ydym ni'n ei wneud ym maes addysg uwch, yr ydym yn sylweddoli mai po fwyaf o sgiliau sydd gan ein pobl, yr uchaf fydd eu cyflogau.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma mae arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

First Minister, the Betsi Cadwaladr University Local Health Board has lost three of its most senior people, following damning reports on its governance. Last week, we heard about a superbug outbreak, and this week it is mental health care, with consultants saying that the governance is not fit for purpose. This has all happened on your watch, First Minister. When did your Government first become aware of the failings within the Betsi Cadwaladr health board?

Brif Weinidog, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi colli tri o'i bobl uchaf, yn dilyn adroddiadau damniol ar ei lywodraethu. Yr wythnos diwethaf, clywsom am achos o arch-fyg, a gofal iechyd meddwl yw hi'r wythnos hon, wrth i ymgynghorwyr ddweud nad yw'r llywodraethu yn addas i'w ddiben. Mae hyn i gyd wedi digwydd dan eich goruchwyliaeth chi, Brif Weinidog. Pryd daeth eich Llywodraeth yn ymwybodol am y tro cyntaf o'r methiannau o fewn bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I became aware when the reports were published. It is right to say that there is a desperate need to improve governance on the health board, and the Minister for Health and Social Services has taken steps, as he has outlined, to ensure that that governance is strengthened, by ensuring that officials are available to support the board, as well as moving forward rapidly to a strengthening of the leadership of the board.

Des i'n ymwybodol pan gyhoeddwyd yr adroddiadau. Mae'n iawn dweud bod angen dybryd i wella llywodraethu ar y bwrdd iechyd, ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymryd camau, fel y mae wedi amlinellu, i sicrhau bod llywodraethu'n cael ei gryfhau, trwy sicrhau bod swyddogion ar gael i gefnogi'r bwrdd, yn ogystal â symud ymlaen yn gyflym at gryfhau arweinyddiaeth y bwrdd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, that is not good enough. It is your job to run the health service in Wales, and it is your job to monitor things. Betsi Cadwaladr has lost its chair, its vice-chair and its chief executive, and consultants have no faith in the management. You set great store by the views of consultants, so what are you going to do about this?

Brif Weinidog, nid yw hynny'n ddigon da. Eich gwaith chi yw rhedeg y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a'ch gwaith chi yw monitro pethau. Mae Betsi Cadwaladr wedi colli ei gadeirydd, ei is-gadeirydd a'i brif weithredwr, ac nid oes gan ymgynghorwyr unrhyw ffydd yn y rheolwyr. Rydych chi'n rhoi pwys mawr ar farn ymgynghorwyr, felly beth ydych chi'n mynd i'w wneud am hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Listen to the consultants and put in place better management and leadership in the future. That is something that the Minister for Health and Social Services has made absolutely clear. The situation in Betsi Cadwaladr is not acceptable. As a Government, when we see these difficulties arise, we take very firm and swift action to deal with them.
- 13:40 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, I am astounded that you were not aware of this before. You have allowed the failing Betsi Cadwaladr health board to outsource the care of babies to a different health service rather than try to develop services here. That looks to me like a lack of confidence. While all of this is happening, Betsi Cadwaladr is already openly looking at a further reorganisation, possibly moving patients across the border. Should there now be a complete renewal of the board membership before any further changes to hospital services take place in the north?
- 13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I have three points to make. First of all, renewing the entire board runs the risk of creating a very dangerous vacuum, and that is something that we have to bear in mind very firmly. I do not know what the leader of Plaid Cymru was suggesting when she said that maternity services were being moved. She knows full well that I have put in place a review in terms of neonatology, and I look forward to receiving the results of that review in the autumn. I am not sure whether she was aware of that; she seemed to indicate that she was not. We take very seriously the need to promote Wales and to promote the health service. That is why we take action when these things arise, and we will continue to do so. Wherever there are difficulties, wherever there are weaknesses in the health service, the people of Wales can be guaranteed that we will take swift and decisive action.
- 13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams. Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.
- 13:41 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
First Minister, do you agree with your chief nursing officer, who said that the number of patients per nurse should not exceed seven during the daytime? Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno gyda'ch prif swyddog nyrsio, a ddywedodd na ddylai nifer y cleifion fesul nyrs fod yn fwy na saith yn ystod y dydd?
- 13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
These are matters for the chief nursing officer, who will make her views known to the Minister for health. He will be listening carefully to the views of the chief nursing officer, with a view to implementing what she says is required for the health service. Mae'r rhain yn faterion i'r prif swyddog nyrsio, a fydd yn gwneud ei barn yn hysbys i'r Gweinidog iechyd. Bydd ef yn gwrando'n ofalus ar farn y prif swyddog nyrsio, gyda'r nod o roi ar waith yr hyn y mae hi'n ei ddweud sydd ei angen ar gyfer y gwasanaeth iechyd.

- 13:42 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The chief nursing officer issued that guidance over a year ago, yet Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, Cardiff and Vale University Local Health Board and Hywel Dda Local Health Board have all reported that they do not meet the 1:7 ratio. The safe staffing alliance states that 1:8 is the level at which care is considered to be unsafe, putting patients at risk. Given that you are all about swift action and implementation, how long will you tolerate staffing levels that are considered unsafe and that have the potential to put patients at risk?
- Cyhoeddodd y prif swyddog nyrsio y canllawiau hynny dros flwyddyn yn ôl, ac eto mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i gyd wedi dweud nad ydynt yn bodloni'r gymhareb 1:7. Mae'r gynghrair staffio diogel yn datgan mai 1:8 yw'r lefel pryd yr ystyrir nad yw gofal yn ddiogel, gan roi cleifion mewn perygl. O gofio eich bod yn frwd dros gymryd camau a gweithredu'n gyflym, am ba hyd y byddwch chi'n goddef lefelau staffio yr ystyrir nad ydynt yn ddiogel ac sydd â'r potensial i roi cleifion mewn perygl?
- 13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- That is one of the reasons, of course, why we are going through a process of reconfiguration, something that her party has opposed—not entirely, I think that it is fair to say; she has made her view clear here that she will support some sort of reconfiguration, although she has not said what sort of reconfiguration that is. It is clear that the health service needs to change, in order to create a safe and sustainable future for the health service. As part of that, of course, we will look to see the ratio that she has mentioned being met.
- Dyna un o'r rhesymau, wrth gwrs, pam yr ydym ni'n mynd trwy broses o ad-drefnu, rhywbeth y mae ei phlaid hi wedi ei wrthwynebu—nid yn gyfan gwbl, credaf ei bod yn deg i ddweud; mae hi wedi gwneud ei safbwynt yn eglur yma y bydd yn cefnogi rhyw fath o ad-drefnu, er nad yw hi wedi dweud pa fath o ad-drefnu fydd hynny. Mae'n amlwg bod angen i'r gwasanaeth iechyd newid, er mwyn creu dyfodol diogel a chynaliadwy i'r gwasanaeth iechyd. Yn rhan o hynny, wrth gwrs, byddwn yn ceisio sicrhau bod y gymhareb y mae hi wedi ei chrybwyll yn cael ei bodloni.
- 13:43 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- One of the reasons given for what happened in mid Staffordshire was a lack of attention to workforce planning, First Minister. Is it not time that you listened to your chief nursing officer, to the Royal College of Nursing and to evidence from the USA and Australia, that minimum staffing levels, entrenched in law, are the most effective way of ensuring the best care for patients and for ensuring that staffing levels are actually met?
- Un o'r rhesymau a roddwyd am yr hyn a ddigwyddodd yng nghanolbarth Swydd Stafford oedd y diffyg sylw i gynllunio'r gweithlu, Brif Weinidog. Onid yw'n bryd i chi wrando ar eich prif swyddog nyrsio, ar y Coleg Nyrsio Brenhinol ac ar dystiolaeth o'r Unol Daleithiau ac Awstralia, mai lefelau staffio gofynnol, sydd wedi'u hymwreiddio yn y gyfraith, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau'r gofal gorau i gleifion ac i sicrhau y bodlonir lefelau staffio mewn gwirionedd?
- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I am concerned about the parallel that the leader of the Liberal Democrats draws between Mid Staffs and the situation here in Wales. It is a wholly irresponsible parallel to draw. The situation in Mid Staffs was not even typical of the NHS in England. Bandyng around what happened in Mid Staffs as if it was some kind of typical scenario for the NHS in Wales, or, indeed, the NHS in England, I do not think is hugely helpful. That is why— [Interruption.] If she listens, she might learn something. [Laughter.] That is why it is important for us to get the structure of the health service right, to get the ratio of staffing right and, of course, to move away from the suggestion that any kind of issue in the health service is bound to lead to a mid-Staffs-type situation. That sort of comment, I have to say, I deplore.
- Rwy'n pryderu am y gymhariaeth y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud rhwng Canolbarth Swydd Stafford a'r sefyllfa yma yng Nghymru. Mae'n gymhariaeth gwbl anghyfrifol i'w gwneud. Nid oedd y sefyllfa yng Nghanolbarth Swydd Stafford yn nodweddiadol o'r GIG yn Lloegr hyd yn oed. Nid wyf yn meddwl bod sôn am yr hyn a ddigwyddodd yng Nghanolbarth Swydd Stafford fel pe byddai'n rhyw fath o sefyllfa nodweddiadol yn y GIG yng Nghymru, neu, hyd yn oed, y GIG yn Lloegr, fawr o gymorth i neb. Dyna pam—[Torri ar draws.] Os gwnaiff hi wrando, efallai y bydd hi'n dysgu rhywbeth. [Chwerthin.] Dyna pam mae'n bwysig i ni gael strwythur y gwasanaeth iechyd yn iawn, i gael y gymhareb staffio yn iawn ac, wrth gwrs, i symud i ffwrdd oddi wrth yr awgrym bod unrhyw fath o broblem yn y gwasanaeth iechyd yn siŵr o arwain at sefyllfa debyg i'r un yng Nghanolbarth Swydd Stafford. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n gresynu clywed y math yna o sylwadau.
- 13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.
- Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:44

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

First Minister, two weeks ago, your Minister for Education and Skills resigned from his post. At the time, letters were exchanged between you and him. The letter that the former Minister sent to you said:

'I therefore feel that I have no option but to offer you my resignation today.'

In your reply, you said:

'It is with great regret that I accept your resignation.'

On 'The Wales Report' on Sunday, you were asked by Huw Edwards, 'If Leighton Andrews had not resigned, would you have continued with him in Government?' and you said, 'Yes, that much is correct'. However, in interviews given by the former Minister for education to Wales Online and to 'The Rhondda Leader', he said that you asked him to resign. What is the case?

Brif Weinidog, bythefnos yn ôl, ymddiswyddodd eich Gweinidog Addysg a Sgiliau o'i swydd. Ar y pryd, cyfnewidiwyd llythyrau rhyngoch chi ac ef. Roedd y llythyr a anfonodd y cyn-Weinidog atoch yn dweud:

Rwy'n teimlo felly nad oes gen i unrhyw ddewis ond cynnig fy ymddiswyddiad i chi heddiw.

Yn eich ateb, dywedasoch:

Rwy'n derbyn eich ymddiswyddiad gyda gofid mawr.

Ar 'The Wales Report' ddydd Sul, gofynnwyd i chi gan Huw Edwards, 'Pe na byddai Leighton Andrews wedi ymddiswyddo, a fydddech chi wedi parhau ag ef yn y Llywodraeth?' a dywedasoch, 'Byddwn, mae cymaint â hynny'n gywir'. Fodd bynnag, mewn cyfweiliadau a roddwyd gan y cyn-Weinidog addysg i Wales Online ac i 'The Rhondda Leader', dywedodd eich bod wedi gofyn iddo ymddiswyddo. Beth yw'r gwir?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I remember exactly what I said. I said that, when it came to the resignation of Leighton Andrews, the situation did not arise as to whether somebody should no longer be in their position because a resignation had taken place. I was then asked the question—I do not know if you saw this—whether I would be looking—I forget what the exact phrase was—for Leighton Andrews to come back into Government in the future, and the answer that I gave was, 'yes'.

Rwy'n cofio'n union yr hyn a ddywedais i. Dywedais, pan ddigwyddodd ymddiswyddiad Leighton Andrews, nad oedd y sefyllfa'n codi o ran pa un a ddylai rhywun fod yn ei swydd mwyach gan fod ymddiswyddiad wedi digwydd. Yna gofynnwyd y cwestiwn i mi—nid wyf yn gwybod a welsoch chi hyn—pa un a fyddwn i'n gobeithio—rwy'n anghofio beth oedd yr union ymadrodd—y byddai Leighton Andrews yn dychwelyd i'r Llywodraeth yn y dyfodol, a'r ateb a roddais oedd, 'byddwn'.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The issue that I am raising with you is that the former Minister for education says quite clearly in the interviews that he has given that you asked him to resign. You are saying in your letter that you regretted that he resigned. Also, on 'The Wales Report', you made the point that he would have continued in Government. [Interruption].

Y mater rwy'n ei godi gyda chi yw bod y cyn-Weinidog addysg yn dweud yn eithaf eglur yn y cyfweiliadau y mae wedi eu rhoi eich bod wedi gofyn iddo ymddiswyddo. Rydych chi'n dweud yn eich llythyr ei bod yn edifar gennych ei fod wedi ymddiswyddo. Hefyd, ar 'The Wales Report', gwnaethoch y pwynt y byddai wedi parhau yn y Llywodraeth. [Torri ar draws.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order.

Trefn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is quite a difference between the two scenarios. I am merely asking you to clarify this: did you ask him to resign when you met with him two weeks ago today?

Mae cryn wahaniaeth rhwng y ddwy sefyllfa. Y cwbl rwy'n ei ofyn yw i chi egluro hyn: a wnaethoch chi ofyn iddo ymddiswyddo pan gawsoch chi gyfarfod ag ef bythefnos yn ôl i heddiw?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:46 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I doubt very much whether the leader of the opposition understands his own question. He has lost most of the rest of us. The reality is that the Minister for education submitted his resignation, and I accepted it. The Minister for education is someone who has huge talent, and is someone who, I have no doubt, will play a part in Government in the future.
- Rwy'n amau'n fawr iawn a yw arweinydd yr wrthblaid yn deall ei gwestiwn ei hun. Mae wedi colli y rhan fwyaf o'r gweddill ohonom ni. Y gwir amdani yw bod y Gweinidog addysg wedi cynnig ei ymddiswyddiad, a fy mod innau wedi ei dderbyn. Mae'r Gweinidog addysg yn rhywun sydd â dawn enfawr, ac yn rhywun a fydd, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth, yn cyflawni swyddogaeth yn y Llywodraeth yn y dyfodol.
- 13:46 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You are clearly unable to give a clear answer to the questions that I have put to you. Therefore, that discrepancy will continue. The other point that we learned about last week was the very close relationship that you enjoy with the Unite union. Indeed, the report that came out said that the model of co-operation that you enjoy with Unite, and the 20 Members of your group who subscribe to Unite, is a model for the UK Government. Given the deplorable actions—[Interruption].
- Mae amlwg nad ydych chi'n gallu rhoi ateb eglur i'r cwestiynau yr wyf wedi eu gofyn i chi. Felly, bydd yr anghysondeb hwnnw'n parhau. Y pwynt arall i ni ei ddysgu yr wythnos diwethaf oedd y berthynas agos iawn sydd gennych chi ag undeb Unite. Yn wir, mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn dweud bod y model o gydweithredu yr ydych chi'n ei fwynhau gydag Unite, a'r 20 aelod o'ch grŵp sy'n tanysgrifio i Unite, yn fodel ar gyfer Llywodraeth y DU. O ystyried y gweithredoedd gresynus—[Torri ar draws].
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order, please. Let us listen to Andrew R. T. Davies's question.
- Trefn, os gwelwch yn dda. Gadewch i ni wrando ar gwestiwn Andrew R.T. Davies.
- 13:47 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Given the deplorable actions that have been undertaken in other parts of the United Kingdom, do you therefore subscribe to the changes that your leader in London has announced today, or do you believe that the model that you undertake is a better model for governance and relations with the unions?
- O ystyried y gweithredoedd gresynus sydd wedi cael eu cyflawni mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, a ydych chi felly'n cytuno â'r newidiadau y mae eich arweinydd yn Llundain wedi eu cyhoeddi heddiw, neu a ydych chi'n credu bod y model sydd gennych chi yn fodel gwell ar gyfer llywodraethu a chysylltiadau gyda'r undebau?
- 13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
There are a number of points here. First of all, the leader of the opposition has raised the events of two weeks ago. I noticed that, in his press conference today, he claimed that when I said that we were looking to get a commercial operator in to run Cardiff Airport, this was something that I had said from new. If he had listened for the past eight weeks, he would have heard me say that on many occasions. That shows the level of listening that he sometimes exhibits in this Chamber and outside it. I have nothing to be ashamed of, and neither does my party, in the relationship that we have with the Unite union. I listened very carefully to what Ed Miliband said. Certainly, there are issues that I believe need to be taken forward, in terms of moving the Labour Party forward. I am with him on that. However, I do not see that we should be ashamed of having a very open link with a trade union. His party has links with expat tax-avoiding millionaires, and he has the sheer brass neck to come to this Chamber and suggest some kind of improper relationship between us and a trade union that represents working people. I suggest to him that he needs to get his own house in order before he can preach to us.
- Ceir nifer o bwyntiau yma. Yn gyntaf oll, mae arweinydd yr wrthblaid wedi codi digwyddiadau o bythefnos yn ôl. Sylwais, yn ei gynhadledd i'r wasg heddiw, ei fod yn honni pan ddywedais ein bod yn edrych i gael gweithredwr masnachol i mewn i redeg Maes Awyr Caerdydd, bod hyn yn rhywbeth roeddwn i wedi ei ddweud o'r newydd. Pe byddai wedi gwrandao am yr wyth wythnos diwethaf, byddai wedi fy nghlywed yn dweud hynny lawer gwaith. Mae hynny'n dangos faint o wrando y mae'n ei wneud weithiau yn y Siambr hon a'r tu allan iddi. Nid oes gennyf ddim i fod â chywilydd ohono, ac nid oes gan fy mhlaid ychwaith, o ran y berthynas sydd gennym ag undeb Unite. Gwrandawais yn astud iawn ar yr hyn a ddywedodd Ed Miliband. Yn sicr, mae materion rwy'n credu y mae angen mynd i'r afael â nhw, o ran symud y Blaid Lafur yn ei blaen. Rwy'n cydweld ag ef yn hynny o beth. Fodd bynnag, nid wyf yn gweld y dylem fod â chywilydd o fod â pherthynas agored iawn gydag undeb llafur. Mae gan ei blaid ef gysylltiadau â miliynyddion alltud sy'n osgoi talu trethi, ac mae'n ddigon digywilydd i ddod i'r Siambr hon ac awgrymu bod rhyw fath o berthynas amhriodol rhyngom ni a'r undeb llafur sy'n cynrychioli pobl sy'n gweithio. Rwy'n awgrymu iddo y dylai roi trefn ar ei faterion ei hun cyn y gall bregethu wrthym ni.

Gwasanaeth Ambiwllans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed

Ambulance Provision in Brecon and Radnorshire

- 13:48 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau ambiwlans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1185(FM)
- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. The trust, of course, works with local health boards to maintain high-quality responses and services across Wales, including in Brecon and Radnorshire.
- 13:49 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
First Minister, a freedom of information response has revealed that, in the last six months, Brecon and Radnorshire ambulances have routinely been called to answer calls outside their areas. In the worst cases, they have been responding to AS1 calls—those are the most urgent calls—in places such as Mumbles, Newcastle Emlyn and Llanfyllin in north Montgomeryshire. The Minister for Health and Social Services tells me that this is a matter for the Welsh Ambulance Services NHS Trust. However, when paramedics are coming to me, worried that they are leaving Brecon and Radnorshire with inadequate cover, surely that is a matter for your Government. What will you do to ensure that my constituents have adequate levels of ambulance cover?
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Minister for health will be making a statement later this afternoon, generally with regard to the ambulance service. I saw the article that was published with the information to which the leader of the Liberal Democrats made reference, and I will be asking the Minister for health to respond more fully to her in order to respond to the questions that she has asked on behalf of her constituents.
- 13:50 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We know that one of the problems with the performance of the ambulance service in Brecon and Radnorshire, and indeed across the country, is the inability of people to get through accident and emergency departments into in-patient beds because beds have been axed over the past few years under your Government's stewardship. Can you tell us what plans you have to increase the availability of in-patient beds across Wales? There is a great deal of concern, particularly in Ysbyty Gwynedd and other places, where Dr Tony Roberts, the chair of the Gwynedd consultants, said earlier today that those
- 'who need to be in hospital aren't getting in'.
3. Will the First Minister make a statement on ambulance provision in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)1185(FM)
- Gwnaf. Mae'r ymddiriedolaeth, wrth gwrs, yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i gynnal ymatebion a gwasanaethau o ansawdd uchel ledled Cymru, gan gynnwys ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed.
- Brif Weinidog, mae ymateb rhyddid gwybodaeth wedi dangos, yn ystod y chwe mis diwethaf, bod ambiwlans Brycheiniog a Sir Faesyfed wedi cael eu galw i ateb galwadau y tu allan i'w hardaloedd fel mater o drefn. Yn yr achosion gwaethaf, maen nhw wedi bod yn ymateb i alwadau AS1—dyna'r galwadau mwyaf brys—mewn lleoedd fel y Mwmbwls, Castell Newydd Emlyn a Llanfyllin yng ngogledd Sir Drefaldwyn. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud wrthyf mai mater i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yw hwn. Fodd bynnag, pan fo parafeddygon yn dod ataf i, yn poeni eu bod yn gadael Brycheiniog a Sir Faesyfed heb ddigon o wasanaeth, does bosibl nad yw hynny'n fater i'ch Llywodraeth. Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod gan fy etholwyr lefelau digonol o wasanaethau ambiwlans?
- Bydd y Gweinidog Iechyd yn gwneud datganiad yn ddiweddarach y prynhawn yma, ar y gwasanaeth ambiwlans yn gyffredinol. Gwelais yr erthygl a gyhoeddwyd yn cynnwys y wybodaeth mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cyfeirio ati, a byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd ymateb iddi'n fwy llawn er mwyn ymateb i'r cwestiynau y mae wedi eu gofyn ar ran ei etholwyr.
- Rydym yn gwybod mai un o'r problemau gyda pherfformiad y gwasanaeth ambiwlans ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, ac yn wir ledled y wlad, yw anallu pobl i gael trwy adrannau damweiniau ac achosion brys i mewn i welyau cleifion mewnol gan fod nifer y gwelyau wedi gostwng yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf dan stiwardiaeth eich Llywodraeth. A allwch chi ddweud wrthym pa gynlluniau sydd gennych chi i gynyddu'r gwelyau sydd ar gael i gleifion mewnol ledled Cymru? Ceir llawer iawn o bryder, yn enwedig yn Ysbyty Gwynedd a mannau eraill, lle dywedodd Dr Tony Roberts, cadeirydd ymgynghorwyr Gwynedd, yn gynharach heddiw nad yw'r rhai
- y mae angen iddynt fod yn yr ysbyty yn cael mynd i mewn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That is down to beds. We know that there are plans to cut more. What are you doing about it?

Mae hynny oherwydd gwelyau. Rydym yn gwybod bod cynlluniau i dorri mwy. Beth ydych chi'n ei wneud am y peth?

13:50

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

This is the first time for many weeks that we have not heard about record-breaking cuts in the health service. I wonder if the party opposite has learned its lesson: that it cannot pick figures out of thin air and not be held to account over them.

It is for each local health board to ensure that it has a sufficient number of beds. It is correct to say, however, that over the course of the winter there have been enormous and frankly unforeseen pressures on the health service. That is something that is beginning to tail off, but it is right to say that those pressures have been there. From our point of view, the Minister for Health and Social Services will be discussing the issue further with local health boards in order to ensure that they have sufficient beds available in order for there to be a flow of people, either through A&E or from ambulances through A&E, to the hospitals.

Dyma'r tro cyntaf ers wythnosau lawer nad ydym ni wedi clywed am y toriadau uchaf erioed yn y gwasanaeth iechyd. Tybed a yw'r blaid gyferbyn wedi dysgu ei gwers: sef nad yw'n gallu tynnu ffigurau o'r awyr heb gael eu dwyn i gyfrif amdanynt.

Mater i bob bwrdd iechyd lleol yw sicrhau bod ganddo nifer ddigonol o welyau. Mae'n gywir i ddweud, fodd bynnag, y bu pwysau aruthrol, ac annisgwyl a dweud y gwir, ar y gwasanaethau iechyd yn ystod y gaeaf. Mae hynny'n rhywbeth sy'n dechrau gwella, ond mae'n iawn i ddweud bod y pwysau hynny wedi bod yno. O'n safbwynt ni, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn trafod y mater ymhellach gyda byrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o welyau ar gael fel bod llif o bobl, naill ai drwy adrannau damweiniau ac achosion brys neu o ambiwlansys drwy adrannau damweiniau ac achosion brys, yn mynd i mewn i'r ysbytai.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:51

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This question is about ambulance provision in Brecon and Radnorshire.

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r ddarpariaeth o ambiwlansys ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:51

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae etholwyr yng nghefn gwlad fy rhanbarth, megis Brycheiniog a sir Faesyfed, yn dibynnu llawer iawn ar y gwasanaeth ambiwlans awyr ar hyn o bryd. Gan roi heibio, am y tro, y dadlau gwleidyddol ynglŷn â pha wasanaethau a fydd yn cael eu symud, yn fy marn i bydd mwy o alw ar y gwasanaeth ambiwlans awyr mewn ardaloedd megis Brycheiniog a sir Faesyfed wrth inni fynd ymlaen. Pa gamau, felly, a ydych yn eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau bod gwasanaeth ambiwlans awyr ar gael i Gymru sy'n gallu gweithio ddydd a nos, pan fo tywydd braf a thywydd drwg?

First Minister, constituents in rural parts of my region, such as Brecon and Radnorshire, are very dependent upon the air ambulance service at present. Putting aside, for the moment, the political knockabout about which services are being moved, in my opinion there will be greater demand on the air ambulance service in areas like Brecon and Radnorshire as we move forward. So, what steps are you as a Government taking to ensure that the air ambulance service for Wales can work day and night, in good weather and in bad weather?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:52

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae hyn wedi bod yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn ag ail-sefydlu—os caf ddefnyddio'r gair hwnnw—y gwasanaeth iechyd, wrth ddeall pwysigrwydd y gwasanaeth ambiwlans awyr. Nid wyf yn credu bod y gwasanaeth ei hun wedi gofyn am gymorth o'r Llywodraeth. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus dros ben yn codi arian ei hun. Bore Sadwrn, byddaf yn Abertawe i lansio wâc—i ddefnyddio'r gair hwnnw o Rydaman—i gefnogi gwaith y gwasanaeth ambiwlans awyr. Felly, mae'n wir i ddweud fod y gwasanaeth yn bwysig dros ben, ac mae'n wir i ddweud ein bod yn ystyried mwy o ffyrdd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cael ei gryfhau yn y dyfodol.

This has been part of the discussion on the reconfiguration—if I can use that word—of the health service, understanding the importance of the air ambulance service. I do not believe that the service itself has sought any support from the Government. It has been very successful in raising its own funds. On Saturday morning, I will be in Swansea to launch the walk to support the air ambulance service. So, it is true to say that it is an exceptionally important service, and it is true to say that we are looking at different means of strengthening the service in future.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Canllawiau Cynllunio â'r Iaith Gymraeg

Planning Guidelines and the Welsh Language

- 13:53 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau cynllunio ynghylch yr iaith Gymraeg? OAQ(4)1173(FM)
4. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's plans to publish planning guidelines regarding the Welsh language? OAQ(4)1173(FM)
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Gwnes i ddatgan yn y gynhadledd fawr ar yr iaith Gymraeg ddydd lau diwethaf y bydd TAN 20 yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.
I confirmed at the big conference on the Welsh language last Thursday that the revised TAN 20 will be published in the autumn.
- 13:53 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Mae'r ffaith bod eich Llywodraeth wedi cymryd dwy flynedd a hanner—neu mi fydd hi'n ddwy flynedd ers cyhoeddi'r ymgynghoriad—yn awgrymu nad yw'r Llywodraeth yn gweld hwn fel blaenoriaeth. Yn sylfaenol, y tu ôl i TAN 20 ac o fewn y broses gynllunio, mae rhagdybiaethau o ran y boblogaeth sy'n rhan o'r cynlluniau lleol cyffredinol. A wnech adolygu sut mae'r rhagolygon hyn yn y gorffennol wedi cyfateb â'r cynnydd gwirioneddol, a chyhoeddi'r ffigurau er mwyn inni gael cymhariaeth i weld beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a gafodd ei ragdybio a'r ffigurau go iawn, sydd wedyn yn effeithio ar natur y twf rhagdybiedig o fewn ardaloedd?
The fact that your Government has taken two and a half years—or it will have been two and a half years—since the consultation was launched does suggest that the Government does not see this as a priority. Fundamentally, behind TAN 20 and within the planning process, there are presumptions in terms of population that are part of the general local plans. Can you tell us how these estimates have, in the past, corresponded to the real increases, and will you publish the figures so that we can compare the differences between the projections and the actual figures, which then impact upon the nature of the projected growth in areas?
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Gwnaf godi hwn gyda'r Gweinidog. Mae hwn yn bwynt a gafodd ei wneud wythnos diwethaf, nid ynglŷn â'r gorffennol, ond ynglŷn â beth ddylai'r ffigurau twf fod yn y dyfodol. Dyna pam yr oedd yn bwysig dros ben i wrando ar y pethau a oedd yn cael eu dweud yn y gynhadledd ei hun, cyn i ni gyhoeddi TAN 20 newydd. Byddaf yn trafod hwn gyda'r Gweinidog er mwyn ysgrifennu yn ôl atoch gyda'r ateb.
I will raise this with the Minister. This is a point that was made last week, not with regard to the past but with regard to what the growth figures should be in the future. That is why it is exceptionally important to listen to what was being said at the conference, before we publish a new TAN 20. I will discuss this with the Minister so that I can write to you with a reply.
- 13:54 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
As the First Minister is aware, once you drop below 70% of the population speaking Welsh, it starts losing its capacity to be the language of general conversation and community. Will the First Minister give consideration to supporting the Welsh language being the primary consideration for planning applications in either lower layer super output areas or wards where the Welsh-speaking population exceeds 70%?
Fel y mae'r Prif Weinidog yn ymwybodol, pan fydd llai na 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, mae'n dechrau colli ei gallu i fod yn iaith sgwrsio cyffredinol a chymunedol. A wnaiff y Prif Weinidog roi ystyriaeth i gefnogi'r iaith Gymraeg fel y brif ystyriaeth ar gyfer ceisiadau cynllunio mewn ardaloedd cynnyrch ehangach haen is neu wardiau lle mae'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn fwy na 70%?
- 13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
That would not cover many wards in Wales. I am not sure if 70% is the right figure. It is the figure that is often used, but given that we have many communities that are still strong Welsh-speaking communities that are below 70%, it would mean that only wards in Gwynedd, Ynys Môn and Conwy would qualify. That would not be right. For example, there is one ward in Carmarthenshire that is nearly 70% and others that are close to it. Therefore, I would not have a definition that was quite that narrow. Nevertheless, it is important, after the comments that were made last week, that we look carefully at how TAN 20 might be used to help the language in the future.
Ni fyddai hynny'n cwmpasu llawer o wardiau yng Nghymru. Nid wyf yn siŵr mai 70% yw'r ffigur cywir. Dyma'r ffigur a ddefnyddir yn aml, ond o ystyried bod gennym lawer o gymunedau sy'n dal yn gymunedau Cymraeg eu hiaith cryf sy'n is na 70%, byddai'n golygu mai dim ond wardiau yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy fyddai'n gymwys. Ni fyddai hynny'n iawn. Er enghraifft, ceir un ward yn Sir Gaerfyrddin sydd bron yn 70% ac eraill sy'n agos at hynny. Felly, ni fyddai fy niffiniad i yn hollol mor gul â hynny. Serch hynny, mae'n bwysig, ar ôl y sylwadau a wnaed yr wythnos diwethaf, ein bod yn edrych yn ofalus ar sut y gellid defnyddio TAN 20 i helpu'r iaith yn y dyfodol.

13:55 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fel y gwyddom, mae rhai nodiadau cyngor technegol, neu TANs, yn debygol o gario mwy o bwys nag eraill, ac mae'r cofnod o ymatebion gweinidogol i gwestiynau Aelodau am TAN 8 ac MTAN yn ddiddorol iawn, er enghraifft. Sut byddwch yn monitro faint o bwys a fydd yn cael ei roi ar y TAN 20 newydd neu i unrhyw ganllawiau eraill newydd gan awdurdodau cynllunio?

As we know, some TANs are likely to carry greater weight than others, and the record of ministerial responses to Members' questions on TAN 8 and the MTAN are very interesting, for example. How will you monitor the weighting given to the new TAN 20 or to any other new guidance issued by planning authorities?

13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae pob TAN yr un mor gryf â'r lleill. Nid oes hierarchaeth o TANs. Mae'n bwysig dros ben bod awdurdodau lleol yn ystyried pob TAN ac yn peidio ffafrio un mwy na'r lleill.

All TANs are of equal force. There is no hierarchy of TANs. It is very important that local authorities consider each and every TAN and do not favour one over the others.

13:56 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n derbyn bod y Gweinidog cynllunio wedi awgrymu ei fod yn awyddus i wrando ar y sgwrs fawr ynghylch y TAN 20 newydd, ond wrth i'r safonau iaith gael eu gwrthod gan y cyn Weinidog, awgrymwyd y byddai ymgynghoriad rhwng canol mis Gorffennaf a mis Tachwedd ynghylch y safonau a fydd yn cael eu hawgrymu gan y Llywodraeth ac y byddai datganiad cyn i'r ymgynghoriad hwnnw ddigwydd. A ydym yn glynu at yr un amserlen, neu a oes oedi wedi bod ynghylch safonau iaith newydd y Llywodraeth?

I accept that the Minister for planning has suggested that he is eager to listen to the big conversation on the new TAN 20, but when the language standards were rejected by the former Minister, it was suggested that there should be a consultation between mid July and November on the standards proposed by the Government, and that a statement would be issued prior to the consultation taking place. Are we adhering to the same timetable, or has there been a delay with the Government's new language standards?

13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Na. Bydd yr ymgynghoriad ynghylch safonau yn dechrau yn yr hydref. Yn fy marn i, nid yw'n briodol dechrau unrhyw fath o ymgynghoriad yn awr, ym mis Gorffennaf, felly mae'n bwysig dros ben fod hynny'n cymryd lle yn ystod yr hydref er mwyn gwneud datganiad yn fuan, yn ystod dechrau flwyddyn nesaf.

No. The consultation on standards will commence in the autumn. In my opinion, it would not be appropriate to start any consultation now, in July, so it is very important that this happens during the autumn so that a statement can be made early next year.

Cysylltiad â'r Comisynwyr Heddlu a Throseddau

Engagement with the Police and Crime Commissioners

13:57 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will the Minister make a statement on the north—sorry; I apologise, but I am looking at tomorrow's question.

A wnaiff y Gweinidog wneud datganiad ar y gogledd—mae'n ddrwg gennyf, rwy'n ymddiheuro, ond rwy'n edrych ar gwestiwn yfory.

5. Pa gysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael â'r Comisynwyr Heddlu a Throseddau? OAQ(4)1174(FM)

5. What engagement has the Welsh Government had with the Police and Crime Commissioners? OAQ(4)1174(FM)

13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Could I thank the Member for his generous heads up to one of the Ministers? However, he did not give much away, I think that is fair to say.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei rybudd caredig ymlaen llawn i un o'r Gweinidogion? Fodd bynnag, ni ddatgelodd ryw lawer, rwy'n credu ei bod yn deg dweud.

The Minister for Local Government and Government Business met three of the four police and crime commissioners and two deputy commissioners on 27 June 2013, and she has regular meetings scheduled. Other Ministers have been in correspondence with the commissioners on matters of mutual interest.

Cafodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth gyfarfod gyda thri o'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddau a dau ddirprwy gomisiynydd ar 27 Mehefin, 2013, ac mae hi wedi trefnu cyfarfodydd rheolaidd. Mae Gweinidogion eraill wedi bod yn gohebu â'r comisiynwyr ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

13:58

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Despite the brilliant work of individual police officers, the former system was incapable of demanding change, and the new system deliberately tipped the balance of power towards local democratic accountability. Given that the role has the enormous potential to increase public safety, which Labour and independent commissioners now increasingly acknowledge, how do you respond to recognition that this democratic element of scrutiny of police authorities will drive them to apply independent scrutiny perhaps more fully than their predecessors?

Er gwaethaf gwaith gwych plismyn unigol, nid oedd y system flaenorol yn gallu mynnu newid, ac mae'r system newydd yn troi cydbwysedd y grym tuag at atebolrwydd democrataidd lleol yn fwrriadol. O ystyried bod gan y swyddogaeth y potensial enfawr i gynyddu diogelwch y cyhoedd, y mae Llafur a chomisïynwyr annibynnol yn ei gydnabod fwyfwy, sut ydych chi'n ymateb i gydnabyddiaeth y bydd yr elfen ddemocrataidd hon o graffu ar awdurdodau heddlu yn eu sbarduno i ddefnyddio craffu annibynnol yn fwy llawn na'u rhagflaenwyr efallai?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I do not think that there is any evidence of that yet, I must say. We have seen what has happened in one police area in Wales. I make no further comment on that, but we have all seen what has been reported. I have seen no evidence at this moment in time that the police and crime commissioners will necessarily add to increased scrutiny of the police. I think that the jury—if you forgive the analogy—is very much out on that issue, but, nevertheless, we will continue to work with the commissioners in order to reduce crime and to keep communities safe, which is something that we have added to with our funding of 500 community support officers across Wales.

Nid wyf yn credu bod unrhyw dystiolaeth o hynny eto, mae'n rhaid i mi ddweud. Rydym ni wedi gweld yr hyn sydd wedi digwydd mewn un ardal heddlu yng Nghymru. Nid wyf yn gwneud unrhyw sylw pellach ar hynny, ond rydym ni i gyd wedi gweld yr hyn a adroddwyd. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd y bydd y comisïynwyr heddlu a throseddau o reidrwydd yn ychwanegu at ragor o graffu ar yr heddlu. Credaf fod y rheithgor—os gwnewch chi faddau'r gyfatebiaeth—yn sicr yn dal i bendroni ar y mater hwnnw, ond, serch hynny, byddwn yn parhau i weithio gyda'r comisïynwyr er mwyn lleihau trosedd a chadw cymunedau'n ddiogel, sy'n rhywbeth yr ydym ni wedi ychwanegu ato trwy ariannu 500 o swyddogion cymorth cymunedol ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:59

Christine Chapman [Bywgraffiad Biography](#)

Over the last 10 years, there has been a significant increase in the number of women sent to prison. There are currently 247 women in prison in England with home addresses in Wales. The majority of them have been convicted of non-violent offences and are serving short sentences. This not only has an adverse effect on their children, but quite often intensifies the problems that contributed to their offending in the first place. We know that women's centres provide a lifeline for many women, designed as safe places for information, support and training. What discussions are you having with police and crime commissioners in Wales on reducing women's reoffending? Would you agree that a woman-centred, community-based approach to this has positive social and economic outcomes?

Dros y 10 mlynedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn nifer y menywod a anfonwyd i'r carchar. Ar hyn o bryd, ceir 247 o fenywod yn y carchar yn Lloegr sydd â chyfeiriadau cartref yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu heuogfarnu o droseddau di-drais ac maent yn bwrw cyfnod dedfrydau byr yn y carchar. Mae hyn nid yn unig yn cael effaith andwyol ar eu plant, ond yn aml iawn yn gwaethygu'r problemau a gyfrannodd at eu troseddu yn y lle cyntaf. Rydym yn gwybod bod canolfannau i fenywod yn cynnig cymorth hanfodol i lawer o fenywod, a'u bod wedi'u cynllunio fel mannau diogel i gael gwybodaeth, cefnogaeth a hyfforddiant. Pa drafodaethau ydych chi'n eu cael gyda chomisïynwyr heddlu a throseddu yng Nghymru ar leihau aildroseddu gan fenywod? A fydddech chi'n cytuno bod dull cymunedol sy'n canolbwyntio ar fenywod o ymdrin â hyn yn arwain at ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:00

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First of all, I should say that I have not had any discussions personally, but the Minister will have heard what has been said. It is important, first of all, to reduce reoffending. That is crucial. Whether that is done in a community setting, which would be the preference of any individual, or through a custodial setting, depends very much on the case. The percentage of women in the prison system tends to hover around 4% or 5%. It is never a very large percentage. It is very difficult to give a view on whether there are particular offenders who might not have been sentenced to imprisonment in different circumstances without knowing their circumstances—speaking as somebody who worked in the system for 10 years and more.

What we do need, however, is a women's prison in Wales—preferably more than one—because it cannot be right that, where women receive sentences of custody, they cannot serve those sentences in Wales, close to their families, where those sentences have been imposed. So, I agree entirely that there is a need to focus on the most effective ways of preventing reoffending. However, where there are custodial sentences, it is important that people are able to serve those sentences at a reasonable distance from their families.

Yn gyntaf oll, dylwn ddweud nad wyf wedi cael unrhyw drafodaethau yn bersonol, ond bydd y Gweinidog wedi clywed yr hyn a ddywedwyd. Mae'n bwysig, yn gyntaf oll, lleihau aildroeddu. Mae hynny'n hollbwysig. Mae pa un a wneir hynny yn y gymuned, a dyna fyddai dewis unrhyw unigolyn, neu yn y ddalfa, yn dibynnu i raddau helaeth ar yr achos. Mae canran y menywod yn y system garchardai yn tueddu i fod oddeutu 4% neu 5%. Nid yw byth yn ganran fawr iawn. Mae'n anodd iawn rhoi barn ar ba un a oes troseddwr penodol na fyddent wedi cael eu dedfrydu i garchar dan amgylchiadau gwahanol, heb wybod eu hamgylchiadau—gan siarad fel rhywun a weithiodd yn y system am 10 mlynedd a mwy.

Yr hyn sydd ei angen arnom, fodd bynnag, yw carchar i fenywod yng Nghymru—mwy nag un yn ddedfrydol—gan na all fod yn iawn, pan fo merched yn cael eu dedfrydu i gael eu cadw yn y ddalfa, na allant fwrw cyfnod y dedfrydau hynny yng Nghymru, yn agos at eu teuluoedd, lle y dyfarnwyd y dedfrydau hynny. Felly, rwy'n cytuno'n llwyr fod angen canolbwyntio ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o atal aildroeddu. Fodd bynnag, pan geir dedfrydau o garchar, mae'n bwysig fod pobl yn gallu bwrw cyfnod y dedfrydau hynny o fewn pellter rhesymol i'w teuluoedd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, a ydych yn credu bod digon o eglurder ynglŷn ag union rôl comisiynwyr yr heddlu, neu a oes perygl y gwelwn gomisiynwyr yn ymyrryd yn ormodol yng ngweithgareddau'r heddlu o ddydd i ddydd drwy Gymru, yn hytrach na chyflawni'r rôl o atebolrwydd i'r cyhoedd, sef y rheswm dros eu sefydlu?

First Minister, do you believe that there is sufficient clarity about the exact role of police commissioners, or is there a risk that we will see commissioners intervening excessively in the day-to-day activities of the police in Wales, rather than fulfilling the role of being accountable to the public, which was the reason for establishing them?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid fy syniad i oedd y comisiynwyr, ond mae'n anodd, oherwydd nad oes modd i gomisiynwyr ymyrryd ynglŷn â'r hyn y mae'r heddlu yn ei wneud o ddydd i ddydd. Nhw sy'n gyfrifol, wrth gwrs, yn llygaid y cyhoedd, ond heb y pwerau i sicrhau bod yr heddlu, fel y byddent yn ei weld e, yn gwneud yr hyn y byddent eisiau i'r heddlu ei wneud. Felly, nid wyf yn genfigennus o'r swydd sydd ganddynt. Fodd bynnag, credaf fod rhai comisiynwyr—. Mae Alun Michael yn enghraifft o rywun sydd â llawer iawn o egni ac sydd yn gweithio'n galed dros ben er mwyn sicrhau bod proffil y comisiynydd a gwaith y comisiynydd yn cael eu hystyried gan bobl de Cymru.

The commissioners were not my idea, but it is difficult, because there is no way for commissioners to intervene in the day-to-day activities of the police. They are responsible, in the eyes of the public, but they do not have the powers to ensure that the police, as they would see it, are doing what they would want the police to be doing. So, I do not envy their task. However, I do think that there are some commissioners—. Alun Michael is an example of someone who has a great deal of energy and is working very hard to ensure that the profile of the commissioner and the work of the commissioner are taken into account by the people of south Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Banc y Gymdeithas Fawr

Big Society Bank

14:02

Suzu Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo defnyddio Banc y Gymdeithas Fawr gymaint â phosibl ymysg cyrff anllywodraethol yng Nghymru?
OAQ(4)1171(FM)

6. What is the Welsh Government doing to promote maximum use of the Big Society Bank among non-government organisations in Wales?
OAQ(4)1171(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I think that it is called big society capital now, as it clearly could not have been a bank, given the banking laws, but never mind. It is a matter for the UK Government to promote big society capital products, which can be accessed by all parts of the UK. We provide funding for third sector infrastructure organisations to provide a range of support for organisations in Wales, including advice on potential sources of funding.
- 14:03 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer. You are quite right to say that it is capital. Fewer than a dozen organisations in Wales have received big society capital funding via intermediaries, but one of those is a community housing services organisation in Aberavon in my region. In your earlier reply, you were not very clear, but do you see a role for the Welsh Government in helping housing associations and other social entrepreneurs with relevant aims to contribute to meeting our actual housing need and to mitigating your Government's failure to meet our own housing targets in the past?
- 14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, no. A total of 2,489 affordable homes were built up to 2011-12, and that good work is continuing. We would encourage all organisations in Wales to look to source funding from all potential sources, whether that is the Welsh Government, the UK Government or, exceptionally importantly, the European Union, without which we would see very severe financial difficulties here in Wales.
- 14:04 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, with finance drying up for small to medium-sized businesses following the financial crash of 2007 and never really recovering since, Plaid Cymru firmly believes that now is a good time to create a Welsh business bank at arm's length from the Government. Despite initiatives such as Finance Wales, we know that small businesses are still finding it very difficult to get hold of funding. There is a state-owned bank in almost every European country. If Wales had one, we could fill that void. First Minister, do you accept that private sector growth is vital to our economic recovery, and, if you do accept that, can you please explain to us why a Welsh business bank is not a top priority for your Government?
- Rwy'n meddwl ei fod yn cael ei alw'n gyfalaf y gymdeithas fawr bellach, gan na allai fod wedi bod yn fanc yn amlwg, o ystyried y deddfau bancio, ond ta waeth. Mater i Lywodraeth y DU yw hyrwyddo cynhyrchion cyfalaf y gymdeithas fawr, sydd ar gael i bob rhan o'r DU. Rydym ni'n darparu cyllid i sefydliadau seilwaith trydydd sector i ddarparu amrywiaeth o gymorth i sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys cyngor ar ffynonellau posibl o gyllid.
- Diolch i chi am yr ateb yna. Rydych chi yn llygad eich lle wrth ddweud mai cyfalaf yw hyn. Mae llai na dwsin o sefydliadau yng Nghymru wedi derbyn cyllid cyfalaf y gymdeithas fawr trwy gyfryngwyr, ond sefydliad gwasanaethau tai cymunedol yn Aberafan yn fy rhanbarth i yw un o'r rheiny. Yn eich ateb yn gynharach, nid oeddech yn eglur iawn, ond a ydych chi'n gweld swyddogaeth i Lywodraeth Cymru o ran helpu cymdeithasau tai ac entrepreneuriaid cymdeithasol eraill ag amcanion perthnasol i gyfrannu at ddiwallu ein hanghenion tai gwirioneddol, ac i liniaru methiant eich Llywodraeth i gyflawni ein targedau ein hunain o ran tai yn y gorffennol?
- Wel, nac ydw. Adeiladwyd cyfanswm o 2,489 o dai fforddiadwy hyd at 2011-12, ac mae'r gwaith da hwnnw'n parhau. Byddem yn annog pob sefydliad yng Nghymru i geisio cael gafael ar gyllid o bob ffynhonnell bosibl, boed yng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, neu, yn eithriadol bwysig, yr Undeb Ewropeaidd, y byddem yn gweld anawsterau ariannol difrifol iawn yma yng Nghymru hebddi.
- Brif Weinidog, ar ôl i fusnesau bach a chanolig eu maint ddiodef prinder cyllid yn dilyn argyfwng ariannol 2007 a'r ffaith nad yw'r sefyllfa wedi gwella fawr ers hynny, mae Plaid Cymru yn credu'n gryf bod nawr yn amser da i greu banc busnes yng Nghymru sydd ar wahân i'r Llywodraeth. Er gwaethaf mentrau fel Cyllid Cymru, rydym yn gwybod bod busnesau bach yn dal i'w chael hi'n anodd iawn cael gafael ar gyllid. Mae banc sy'n eiddo i'r wladwriaeth ym mhob gwlad yn Ewrop bron. Pe byddai gan Gymru fanc o'r fath, gallem lenwi'r bwlch hwnnw. Brif Weinidog, a ydych chi'n derbyn bod twf y sector preifat yn hanfodol i'n hadferiad economaidd, ac, os ydych chi'n derbyn hynny, a fyddech cystal ag esbonio i ni pam nad yw banc busnes yng Nghymru yn un o brif flaenoriaethau eich Llywodraeth?

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I would argue that there are several state-owned banks in the UK, not just the one. We have seen that with some of the bigger banks. In order for an organisation to be a bank it needs, if I remember rightly, at least £100 million in working capital to begin with. It is certainly not a panacea. It takes an enormous amount of money to set up. We believe that, in Finance Wales, we have the situation correct and, of course, we are working with regard to procurement: our procurement levels in Wales are far higher than those in Scotland. I note that Plaid Cymru, over the course of the last few days, has been critical of a Visit Wales contract that was awarded, despite the fact that it was awarded by one of its own Ministers.

Byddwn yn dadlau bod sawl banc sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn y DU, nid dim ond un. Rydym ni wedi gweld hynny gyda rhai o'r banciau mwy. Er mwyn i sefydliad fod yn fanc mae angen o leiaf £100 miliwn o gyfalaf gweithio arno i ddechrau, os rwy'n cofio'n iawn. Nid yw'n ateb i bob problem yn sicr. Mae angen cael swm enfawr o arian i'w sefydlu. Rydym yn credu, trwy Gyllid Cymru, bod y sefyllfa'n gywir gennym ac, wrth gwrs, rydym yn gweithio o ran caffael: mae ein lefelau caffael yng Nghymru yn llawer uwch na'r rhai yn yr Alban. Nodaf fod Plaid Cymru, yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf, wedi bod yn feirniadol o gontract Croeso Cymru a ddyfarnwyd, er gwaethaf y ffaith iddo gael ei ddyfarnu gan un o'i Gweinidogion ei hun.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Post Brenhinol

Royal Mail

14:05

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion i breifateiddio'r Post Brenhinol? OAQ(4)1187(FM)

7. What discussions have taken place between the Welsh Government and the UK Government regarding the proposals to privatise Royal Mail? OAQ(4)1187(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have had no discussions with the UK Government regarding these proposals, although, of course, we would view any privatisation with great suspicion.

Nid ydym wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion hyn, er, wrth gwrs, y byddem yn amheus iawn am unrhyw breifateiddio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for that answer, First Minister, because selling off the Royal Mail will be disastrous for rural communities. It is the same old Tory story: break it up, sell it off, massive job cuts, worse services, a quick buck, and long-term price rises. My worry is that the financial stability of the post offices in rural villages will be put under serious strain. So, can you outline how the Welsh Government might help cushion the blow, First Minister, and have you considered whether there is scope to devolve the services to Wales? It could provide an opportunity for a Welsh bank, as well as to protect rural services.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, gan y bydd gwerthu'r Post Brenhinol yn drychinebus i gymunedau gwledig. Yr un hen stori Doriaidd yw hon: ei dorri'n ddarnau, ei werthu, cael gwared ar lwyth o swyddi, gwasanaethau salach, ceiniog gyflym, a chynnydd hirdymor i brisiau. Fy mhryder i yw y bydd sefydlogrwydd ariannol y swyddfeydd post mewn pentrefi gwledig yn cael ei roi o dan straen ddifrifol. Felly, a allwch chi amlinellu sut y gallai Llywodraeth Cymru helpu i leddfu'r boen, Brif Weinidog, ac a ydych chi wedi ystyried a oes lle i ddatganoli'r gwasanaethau i Gymru? Gallai gynnig cyfle ar gyfer banc i Gymru, yn ogystal â diogelu gwasanaethau gwledig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We need to separate out the Royal Mail from the Post Office. The Royal Mail is one issue; the Post Office is another. It would not be possible to devolve the Royal Mail without setting up a separate Welsh postal service, with, I suppose, separate Welsh stamps. Not even in Northern Ireland is that devolved, and I would not advocate it here either. In terms of post offices, we have, as a Government, provided support for post offices over time with the post office development and post office diversification funds. Post offices have benefitted from about £1 million every year in business rates relief paid by the Welsh Government as well. However, the great challenge is to ensure that post offices continue to have a business base, because, over the years, that business base, quite often because of different behaviour among the population, has been whittled away.

Mae angen i ni wahanu'r Post Brenhinol oddi wrth Swyddfa'r Post. Mae'r Post Brenhinol yn un mater; mae Swyddfa'r Post yn un arall. Ni fyddai'n bosibl datganoli'r Post Brenhinol heb sefydlu gwasanaeth post ar wahân i Gymru, gyda, mae'n debyg, stampiau ar wahân i Gymru. Nid yw hynny wedi ei ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon hyd yn oed, ac ni fyddwn yn ei argymhell yma ychwaith. O ran swyddfeydd post, rydym ni, fel Llywodraeth, wedi rhoi cymorth i swyddfeydd post dros gyfnod drwy'r cronfeydd datblygu swyddfeydd post ac arallgyfeirio swyddfeydd post. Mae swyddfeydd post wedi elwa o tua £1 filiwn bob blwyddyn mewn rhyddhad ardrethi busnes a delir gan Lywodraeth Cymru hefyd. Fodd bynnag, yr her fawr yw sicrhau bod swyddfeydd post yn parhau i fod â sylfaen fusnes, oherwydd, dros y blynyddoedd, mae'r sylfaen fusnes honno, yn aml oherwydd gwahanol ymddygiad ymhlith y boblogaeth, wedi cael ei erydu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:07

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I have been contacted by the owner of a successful publishing business in my region who is Royal Mail's largest customer in his area. This business is naturally concerned about potential changes to the cost structure, as well as about the future role of the Office of Communications as a regulator. Can you confirm what plans you have to meet members of the publishing industry in north Wales to discuss these matters, and what assurances have you sought from UK Ministers about potential changes to the charging structure for commercial customers and the future regulation of Royal Mail?

Brif Weinidog, mae perchennog busnes cyhoeddi llwyddiannus yn fy rhanbarth i, ac ef yw cwsmer mwyaf y Post Brenhinol yn ei ardal, wedi cysylltu â mi. Yn naturiol, mae'r busnes hwn yn pryderu am newidiadau posibl i'r strwythur prisiau, yn ogystal ag am swyddogaeth y Swyddfa Gyfathrebu fel rheoleiddwr yn y dyfodol. A allwch chi gadarnhau pa gynlluniau sydd gennych i gyfarfod ag aelodau'r diwydiant cyhoeddi yng ngogledd Cymru i drafod y materion hyn, a pha sicrwydd ydych chi wedi gofyn amdano gan Weinidogion y DU am newidiadau posibl i strwythur prisiau i gwsmeriaid masnachol a rheoleiddio'r Post Brenhinol yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Two points. First of all, we are open to discussions with any Welsh business that seeks our help, that much is true, but these are things that are being pushed forward by her party. She talks as if it is a different party entirely to the party that she is a member of that is pushing through these changes. The reality is that it is important as well for the Secretary of State for Wales to make these points on behalf of Welsh businesses in cabinet. If he does that, we are, of course, ready to support anything that he might do to support Welsh businesses and their concerns with regard to changes to the Royal Mail.

Dau bwynt. Yn gyntaf oll, rydym yn agored i drafodaethau gydag unrhyw fusnes yng Nghymru sy'n gofyn am ein cymorth, mae hynny'n wir, ond mae'r rhain yn bethau sy'n cael eu gwthio ymlaen gan ei phlaid hi. Mae hi'n siarad fel pe byddai'n blaid hollol wahanol i'r blaid y mae hi'n aelod ohoni sy'n cyflawni'r holl newidiadau hyn. Y gwir amdani yw ei bod yn bwysig hefyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud y pwyntiau hyn ar ran busnesau yng Nghymru yn y cabinet. Os bydd yn gwneud hynny, rydym ni, wrth gwrs, yn barod i gefnogi unrhyw beth y gallai ei wneud i gefnogi busnesau Cymru a'u pryderon am newidiadau i'r Post Brenhinol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:08

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A all y Prif Weinidog ein sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cadw golwg â llygaid barcud ar effeithiau newidiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt gael eu preifateiddio ar ddsbarthu yn y gymuned wledig, yn yr ystyr bod symudiad oddi wrth y Post Brenhinol, er enghraifft, yn sicrhau mynd i godi costau unedol dosbarthu i mewn ac allan o ardaloedd gwledig, ac, yn wir, yn waeth na hynny, y gallai canlyniadau gweithredu diwydiannol yn erbyn hynny achosi colli gwasanaethau yn ddirifol?

Can the First Minister give us an assurance that the Welsh Government is keeping a very close eye on the impacts of changes to public services as they are privatised on the distribution in rural communities, in the sense that a move away from the Royal Mail, for example, is certainly going to increase the unitary costs of distributing in and out of rural areas and, indeed, worse than that, the impacts of industrial action against that could lead to a serious loss of services?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n delio â hyn yn dweud y bydd un 'delivery' bob dydd, chwe diwrnod yr wythnos, ac un pris. Er hynny, un cwestiwn sy'n codi yw: pryd bydd pethau yn cael eu delifro? A fydd yn digwydd diwedd y prynhawn, pan fo busnesau wedi bod yn erfyn rhywbeth i gyrraedd yn y bore? Nid yw hynny'n rhan o'r ddeddfwriaeth ei hun. Felly, mae cwestiynau sy'n dal heb eu hateb ar hyn o bryd, a byddwn fel Llywodraeth, fel y dywedodd yr Aelod, yn cadw llygad barcud ar ddatblygiadau yn Llundain.

The legislation dealing with this states that there will be one delivery a day, six days a week, for one price. However, the question that arises is: when will things be delivered? Will it be late afternoon, when businesses have been expecting something to arrive in the morning? That is not part of the legislation itself. So, questions remain unanswered at present, and we, as a Government, as the Member said, will be keeping a close eye on developments in London.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Amodau Gwaith ar gyfer Gweithwyr Gofal

Working Conditions for Care Workers

14:10

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella amodau gwaith ar gyfer gweithwyr gofal yng Nghymru? OAQ(4)1186(FM)

8. What is the Welsh Government doing to improve the working conditions for care workers in Wales? OAQ(4)1186(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The professional contribution of care staff is central to this Government's ambitions for sustainable social services. We provide an £8 million grant to support the development of staff to enable the provision of high-quality, citizen-centred social care. Employment terms are the responsibility of employers, although, of course, we would want to ensure that employers employ fair practices when recruiting and employing people.

Mae cyfraniad proffesiynol aelodau staff gofal yn ganolog i uchelgais y Llywodraeth hon i sicrhau gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Rydym ni'n darparu grant o £8 miliwn i gefnogi datblygiad aelodau staff i alluogi darparu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion. Cyfrifoldeb cyflogwyr yw telerau cyflogaeth, er, wrth gwrs, y byddem eisiau sicrhau bod cyflogwyr yn defnyddio arferion teg wrth recriwtio a chyflogi pobl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that, First Minister. I was very disappointed to read recently that a number of local authorities in Wales deliberately procure the services of adult social care workers in slots of 15 minutes. First Minister, will you agree that this is a totally unacceptable practice, which is neither in the interests of the person receiving this vital care or of those providing the valuable service? Will you outline what steps your Government will be taking to steer local authorities in Wales away from this appalling practice?

Diolch yn fawr iawn ichi am hynna, Brif Weinidog. Roeddwn yn siomedig iawn i ddarllen yn ddiweddar bod nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn caffael gwasanaethau gweithwyr gofal cymdeithasol i oedolion mewn hiciau o 15 munud yn fwiadol. Brif Weinidog, a wnech chi gytuno bod hwn yn arfer cwbl annerbyniol, nad yw o les i'r unigolyn sy'n derbyn y gofal hanfodol hwn na'r rhai sy'n darparu'r gwasanaeth gwerthfawr hwn? A wnech chi amlinellu 'r camau y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i lywio awdurdodau lleol yng Nghymru oddi wrth yr arfer echrydus hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I could not agree more with the Member. The statutory commissioning framework guidance issued to all local authorities in August 2010 makes the position clear. We are aware of the recent reports that have been provided. The Deputy Minister for Social Services has asked Care and Social Services Inspectorate Wales to undertake a review of local authorities' commissioning of homecare services in response to the concerns that have been raised.

Ni allwn gytuno mwy â'r Aelod. Mae'r canllawiau fframwaith comisiynu statudol a gyflwynwyd i bob awdurdod lleol ym mis Awst 2010 yn gwneud y sefyllfa'n eglur. Rydym yn ymwybodol o'r adroddiadau diweddar sydd wedi eu darparu. Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gynnal adolygiad o brosesau comisiynu gwasanaethau gofal cartref awdurdodau lleol mewn ymateb i'r pryderon a godwyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:11 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, a survey published during carers week last month showed that 66% of carers have experienced depression, and that nearly all carers surveyed—92%—say that they feel far more stressed because of their caring role. With around 370,000 carers in Wales, and some 345 people taking on a new caring role every day, with regard to the amount of assistance that your Government can presently offer, will your Government consider the compulsory registration of carers?
- Brif Weinidog, roedd arolwg a gyhoeddwyd yn ystod wythnos gofalwyr mis diwethaf yn dangos bod 66% o ofalwyr wedi dioddef o iselder, a bod bron i'r holl ofalwyr a holwyd—92%—yn dweud eu bod yn teimlo dan lawer mwy o straen oherwydd eu swyddogaeth ofalu. Gan fod tua 370,000 o ofalwyr yng Nghymru, a bod tua 345 o bobl yn dechrau swyddogaeth ofalu newydd bob dydd, o ran faint o gymorth y gall eich Llywodraeth ei gynnig ar hyn o bryd, a wnaiff eich Llywodraeth ystyried cofrestru gorfodol ar gyfer gofalwyr?
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- These are matters that I am sure that the Deputy Minister is considering, and I will ask her to respond to you in due course with an update on her thinking.
- Mae'r rhain yn faterion rwy'n siŵr bod y Dirprwy Weinidog yn eu hystyried, a byddaf yn gofyn iddi ymateb i chi maes o law gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ei safbwyntiau.
- 14:12 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, a vital aspect of the working conditions of care workers is to know that they will not be victimised if they blow the whistle on bad practice. In a week when the Jillings report is very much focusing our minds, what will the Welsh Government be doing to ensure that care workers will not be victimised by their employer if they report unacceptable and damaging behaviour by their fellow workers or even by their employers?
- Brif Weinidog, un agwedd hanfodol ar amodau gwaith gweithwyr gofal yw gwybod na fyddant yn cael eu herlid os byddant yn chwythu'r chwiban ar arferion gwael. Mewn wythnos pan fo adroddiad Jillings yn sicr yn canolbwyntio ein meddyliau, beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau na fydd gweithwyr gofal yn cael ei herlid gan eu cyflogwr os byddant yn hysbysu am ymddygiad annerbyniol a niweidiol gan eu cydweithwyr neu hyd yn oed gan eu cyflogwyr?
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- It is absolutely crucial that people are free to report matters of concern to them. We are always looking at further ways to develop the protection and encouragement of whistleblowers. We know—the Jillings report is one example of this—that it is absolutely crucial that, where bad practice, and, if it exists, dangerous practice, is identified, it is brought to our attention, and to the relevant authorities' attention, as quickly as possible.
- Mae'n gwbl hanfodol bod pobl yn rhydd i hysbysu am faterion sy'n peri pryder iddynt. Rydym ni bob amser yn ystyried mwy o ffyrdd o ddatblygu'r diogelu a'r anogaeth i'r rhai sy'n chwythu'r chwiban. Rydym yn gwybod—mae adroddiad Jillings yn un enghraifft o hyn—ei bod yn gwbl hanfodol, pan nodir arfer gwael, ac, os yw'n bodoli, arfer peryglus, y tynnir ein sylw ato, a sylw'r awdurdodau perthnasol, cyn gynted â phosibl.
- 14:13 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, you will be aware that, because of the UK Government spending cuts, there is untoward pressure on local authorities, particularly in respect of moving services closer towards increased privatisation. The Welsh Government's Social Care and Well-being (Wales) Bill, particularly with the use of direct payments, will place an increased duty to look at alternative models for the provision of care. Does the First Minister share my concerns that, by the time that the Bill might come into force, we may have moved so far down the road of privatisation of these services that it may undermine the intentions of the Bill?
- Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol, oherwydd toriadau gwario Llywodraeth y DU, bod pwysau trwm ar awdurdodau lleol, yn enwedig o ran symud gwasanaethau'n nes at fwy o breifateiddio. Bydd Bil Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) Llywodraeth Cymru, yn enwedig gyda'r defnydd o daliadau uniongyrchol, yn cyflwyno mwy o ddyletswydd i ystyried modelau amgen o ddarparu gofal. A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy mhryderon, erbyn yr adeg y gallai'r Bil ddod i rym, ei bod yn bosibl y byddwn wedi symud mor bell i lawr y ffordd o breifateiddio'r gwasanaethau hyn, y gallai hynny dansellio amcanion y Bil?
- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- All we can say is that we are determined to take the Bill forward; it is not the policy of the Welsh Government to look to privatisation as an example, or, indeed, a solution. We believe that social services should rest very firmly in the public sector in order to deliver an excellent service for all of our people.
- Y cwbl y gallwn ni ei ddweud yw ein bod yn benderfynol o fwrw ymlaen â'r bil; nid yw'n bolisi Llywodraeth Cymru i ystyried preifateiddio fel esiampl, nac, yn wir, fel ateb. Rydym o'r farn y dylai gwasanaethau cymdeithasol fod yn gadarn iawn o fewn y sector cyhoeddus er mwyn darparu gwasanaeth rhagorol i'n holl bobl.

Blaenoriaethau ar gyfer Gofal Iechyd Sylfaenol

Priorities for Primary Healthcare

- 14:14 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer gofal iechyd sylfaenol? OAQ(4)1181(FM)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. They are set out in the programme for government and the local healthcare plan. They include more care and support for people at home, or in their local community.
- Gwnaf. Maen nhw wedi eu nodi yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu a'r cynllun gofal iechyd lleol. Maen nhw'n cynnwys mwy o ofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi, neu yn eu cymuned leol.
- 14:14 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that answer, First Minister. High-street optometrists are a highly skilled and, I fear, under-used workforce that can play a greater role in providing care closer to home and preventing unnecessary hospital admissions. Will the Welsh Government commit to exploring how optometrists' expertise can be better used?
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae optometryddion stryd fawr yn hynod fedrus ac, rwy'n ofni, yn weithlu sy'n cael ei danddefnyddio, a allai gyflawni swyddogaeth fwy o ran darparu gofal yn nes i'r cartref ac atal derbyniadau diangen i'r ysbty. A wnaiff Llywodraeth Cymru ymrwymo i archwilio sut y gellir defnyddio arbenigedd optometryddion yn well?
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Indeed so. Over the last 10 years, the role of the optometrist has been developed through the Wales eye care service. It is right to say that, 10 or 15 years ago, optometrists were not allowed to use the full range of their expertise, particularly with regard to monitoring cataracts. There was a time when, if a cataract was identified by an optometrist, that person had to be referred immediately to a consultant who would then see that person and say, 'Come back in six months'. If you multiply that many times over, you get a waiting list. As soon as that situation was changed, consultants were able to spend more of their time dealing with people who were in need of a cataract operation at that time.
- Yn wir. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae swyddogaeth yr optometrydd wedi cael ei datblygu trwy wasanaeth gofal llygaid Cymru. Mae'n iawn i ddweud, 10 neu 15 mlynedd yn ôl, nad oedd optometryddion yn cael defnyddio pob agwedd ar eu harbenigedd, yn enwedig o ran monitro cataractau. Roedd adeg, pe byddai cataract yn cael ei nodi gan optometrydd, pryd y byddai'n rhaid atgyfeirio'r unigolyn hwnnw'n syth at ymgynghorydd, a fyddai'n gweld yr unigolyn hwnnw wedyn ac yn dweud, 'Dewch yn ôl mewn chwe mis'. Pe byddech yn lluosu hynny lawer gwaith drosodd, mae gennych restr aros. Cyn gynted ag y newidiwyd y sefyllfa honno, roedd ymgynghorwyr yn gallu treulio mwy o'u hamser yn ymdrin â phobl a oedd angen llawdriniaeth cataract ar yr adeg honno.
- However, some services that are now available include low vision rehabilitation services, the management of minor acute eye conditions and extended eye examinations for at-risk groups. To support that, the Wales Optometry Postgraduate Education Centre, which is the first of its kind in the world, was launched in Cardiff University in 2009.
- Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau sydd ar gael bellach yn cynnwys gwasanaethau adsefydlu golwg gwan, rheoli mân gyflyrau llygaid aciwt ac archwiliadau llygaid estynedig ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl. Er mwyn cefnogi hynny, lansiwyd Canolfan Addysg Optometrig Ôl-raddedig Cymru, sef y cyntaf o'i math yn y byd, ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2009.

- 14:15 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, one of the things that have concerned many people in Wales is the recent announcement of a moratorium on primary care capital investment across the country, which was announced by your Minister for Health and Social Services. You will recall that in the last financial year, there was an £82 million bail-out given to the NHS in order to help it break even in this financial year. That was as a result of project slippage on capital expenditure. Are we setting the system up so that there is some project slippage in this financial year, because of your record-breaking cuts of over £800 million that you are inflicting on the Welsh NHS?
- Brif Weinidog, un o'r pethau sydd wedi achosi pryder i lawer o bobl yng Nghymru yw'r cyhoeddiad diweddar o foratoriwrm ar fuddsoddiad cyfalaf mewn gofal sylfaenol ar draws y wlad, a gyhoeddwyd gan eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddwch yn cofio, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, y rhoddwyd swm o £82 miliwn i'r GIG er mwyn ei helpu i adennill costau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Roedd hynny o ganlyniad i lithriad prosiect ar wariant cyfalaf. A ydym ni'n trefnu'r system fel bod rhywfaint o lithriad prosiect yn y flwyddyn ariannol hon, oherwydd eich toriadau uchaf erioed o dros £800 miliwn yr ydych chi'n eu gorfodi ar y GIG yng Nghymru?
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- What is the figure this week? It is like casting a fly for a fish to take: it does not take it the first time around, but the second time, it cannot resist it—£500 million, £800 million, £814 million, £812 million, £534 million, £800 million. I am sorry if I sound like an agricultural auctioneer, but that is exactly how the Tories are. [Laughter.] The reality is that we have dealt with winter pressures in a way that the people of Wales would have wanted us to. He is saying that that money should not have been spent and that the winter pressures should not have been met. The reality of the situation is—[Interruption.] He can shout as much as he wants to—
- Beth yw'r ffigur yr wythnos hon? Mae fel castio pluen bysgota i bysgodyn ei chymryd: nid yw'n ei chymryd y tro cyntaf, ond yr ail dro, ni all ei gwrthod—£500 miliwn, £800 miliwn, £814 miliwn, £812 miliwn, £534 miliwn, £800 miliwn. Mae'n ddrwg gennyf os wyf yn swnio fel arwerthwr amaethyddol, ond dyna'n union sut y mae'r Toriaid. [Chwerthin.] Y gwir amdani yw ein bod wedi ymdrin â phwysau'r gaeaf yn y ffordd y byddai pobl Cymru wedi dymuno i ni ei wneud. Mae'n dweud na ddylai'r arian fod wedi cael ei wario ac na ddylai pwysau'r gaeaf fod wedi cael ei leddfu. Gwirionedd y sefyllfa yw— [Torri ar draws.] Caiff weiddi cymaint ag y mae'n dymuno—
- 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Trefn.
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Listen and learn. The reality of the situation is this: we have had our capital budget cut by 40% by the UK Government, and we cannot spend money that we do not have. However, we are indeed fortunate that we have a Minister for Finance who is looking at very innovative ways of developing the capital budget in Wales to ensure that we have services for our people delivered by a Government that our people elected.
- Gwrandewch a dysgwch. Y gwir am y sefyllfa yw hyn: mae ein cyllideb cyfalaf wedi cael ei thorri 40% gan Lywodraeth y DU, ac ni allwn wario arian nad oes gennym. Fodd bynnag, rydym ni wir yn ffodus bod gennym Weinidog Cyllid sy'n edrych ar ffyrdd arloesol iawn o ddatblygu'r gyllideb cyfalaf yng Nghymru i sicrhau bod gennym wasanaethau ar gyfer ein pobl a ddarperir gan Lywodraeth a etholwyd gan ein pobl.
- 14:17 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae meddyg teulu sydd wedi sefydlu practis yn fy etholaeth i wedi dweud yn gyhoeddus mai'r rheswm dros brinder meddygon teulu yng nghefn gwlad yw'r ffaith bod y Gymraeg yn cael ei dysgu yn yr ysgolion. Rwy'n cymryd eich bod yn ystyried y sylwadau hynny'n rhai haerllug a hiliol. A ydych chi'n ystyried bod gallu meddyg i siarad a chyfathrebu ym mamiaith y claf yn un o hawliau sylfaenol pobl? Sut mae hyfforddi rhagor o feddygon dwyieithog, er mwyn diwallu'r angen sydd yn y Gymru wledig ac yng Nghymru'n gyffredinol?
- A GP who has established a practice in my constituency has stated publicly that the reason for the shortage of GPs in rural areas is because Welsh is taught in local schools. I assume that you take these comments to be racist and arrogant. Do you believe that the ability of a doctor to communicate in a patient's mother tongue is one of the fundamental rights that people have? How can we train more bilingual doctors in order to meet the need that exists in rural Wales?

14:17

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae'n amlwg yn fantais i siarad Cymraeg mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf. Nid wyf yn credu bod rhaid gwneud hynny. Rwy'n gwybod o brofiad bod pentrefi mewn ardaloedd Cymraeg ac ynddynt feddygon teulu nad oedd yn gallu siarad Cymraeg, ac roedd y meddyg yn cael ei barchu fel aelod pwysig o'r gymuned. Nid wyf yn credu ei bod yn iawn dweud—ac rwy'n siŵr bod yr Aelod yn cydfynd â hyn—mai oherwydd bod ysgolion yn defnyddio'r Gymraeg fel y cyfrwng dysgu y mae problem. Nid dyna'r broblem o gwbl, wrth gwrs.

Mae sawl peth i'w wneud. Yn gyntaf, mae'n rhaid hyfforddi mwy o doctoriaid, ond nid yw hynny'n datrys y broblem, achos mae doctoriaid yn mynd ar draws y byd ac maent yn gallu gweithio lle bynnag maen nhw'n mo'yn. Mae angen hefyd sicrhau, trwy'r ymgyrch recriwtio sydd wedi'i sefydlu, bod digon o feddygon ar gael yng nghefn gwlad a bod digon ohonynt yn gallu darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

It is clearly an advantage to be able to speak Welsh in areas where the Welsh language is strong. I do not believe that that has to be the case. I know from experience of villages in Welsh-speaking areas where there were GPs who were not able to speak Welsh, and the doctor was respected as an important part of the community. I do not believe that it is right to say—and I am sure that the Member will agree—that there is a problem because of Welsh-medium schools. That is not the problem, of course.

There are a number of things to be done. First, more doctors have to be trained, although that does not resolve the problem, because doctors can work wherever they want across the globe. We also need to ensure, by way of the recruitment campaign that we have established, that there are sufficient numbers of doctors available in rural areas and that sufficient numbers are able to provide a service through the medium of Welsh.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, a number of general practitioners across Mid and West Wales have been in touch with me because of their concerns about the potential loss of minimum practice income guarantee funding for their practices, and the future sustainability that would be impacted by the loss of such funding. Would you please make a statement regarding that particular funding source and its future in terms of the Welsh NHS?

Brif Weinidog, mae nifer o feddygon teulu ledled canolbarth a gorllewin Cymru wedi bod mewn cysylltiad â mi oherwydd eu pryderon am y posibilrwydd o gollir isafswm incwm meddygfa sicr ar gyfer eu meddygfeydd, a'r cynaliadwyedd yn y dyfodol a fyddai'n cael ei effeithio drwy golli cyllid o'r fath. A fydddech chiystal â gwneud datganiad ynghylch y ffynhonnell ariannu benodol honno a'i dyfodol o ran y GIG yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First, I would say to GPs that there is no need to be concerned about the sustainability of practices. We recognise, particularly now when the emphasis is more strongly on primary care, the need to ensure that we have a robust GP service across Wales—in both urban and rural areas. I will ask the Minister for health to respond to you with regard to that particular issue; it is important to give that word of reassurance to GPs.

Yn gyntaf, byddwn yn dweud wrth feddygon teulu nad oes angen pryderu am gynaliadwyedd meddygfeydd. Rydym yn cydnabod, yn enwedig nawr bod y pwyslais yn gryfach ar ofal sylfaenol, yr angen i sicrhau bod gennym wasanaeth meddygon teulu cadarn ledled Cymru—mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog iechyd i ymateb i chi o ran y mater penodol hwnnw; mae'n bwysig rhoi'r gair yna o gysur i feddygon teulu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Cwestiwn Brys: Adroddiad Jillings

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have accepted an urgent question under Standing Order No. 12.66. I call on Jocelyn Davies to ask the urgent question.

Urgent Question: The Jillings Report

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Jocelyn Davies i ofyn y cwestiwn brys.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn dilyn cyhoeddi adroddiad Jillings? EAQ(4)0307(HSS)

Will the Minister make a statement following the publication of the Jillings report? EAQ(4)0307(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:20 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services
 The Welsh Government is aware of the publication of the Jillings report, but had no role in the decision to publish. There is nothing that we can add to what is already in the public domain.
 Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o gyhoeddiad adroddiad Jillings, ond nid oedd ganddi unrhyw ran yn y penderfyniad i gyhoeddi. Nid oes unrhyw beth y gallwn ei ychwanegu at yr hyn sydd eisoes wedi ei wneud yn gyhoeddus.
- 14:20 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you, Deputy Minister. This report on extensive physical and sexual abuse of children in north Wales has been suppressed for nearly 20 years, and that was to protect adults, councils and other agencies including the police, and it is still heavily redacted. The full truth is still not known to us. What we do know is that children suffered for many years. Deputy Minister, do you think that we will ever see a full, unedited version of this report? Will your Government consider enshrining your whistleblowing policies into legislation, rather than issuing guidance, and making whistleblowing a statutory duty?
 Diolch i chi, Ddirprwy Weinidog. Mae'r adroddiad hwn ar gam-drin corfforol a rhywiol helaeth o blant yng ngogledd Cymru wedi cael ei atal ers bron i 20 mlynedd, ac roedd hynny er mwyn amddiffyn oedolion, cynghorau ac asiantaethau eraill gan gynnwys yr heddlu, ac mae'n dal i fod wedi ei ail-olygu'n helaeth. Nid yw'r holl wirionedd yn hysbys i ni o hyd. Yr hyn yr ydym ni yn ei wybod yw bod plant wedi dioddef ers blynyddoedd lawer. Ddirprwy Weinidog, a ydych chi'n credu y byddwn ni byth yn gweld fersiwn lawn, heb ei golygu, o'r adroddiad hwn? A wnaiff eich Llywodraeth ystyried troi eich polisiau chwythu'r chwiban yn ddeddfwriaeth, yn hytrach na chyhoeddi canllawiau, a gwneud chwythu'r chwiban yn ddyletswydd statudol?
- 14:20 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 The Jillings report was commissioned by the former Clwyd County Council in 1994, and it has, therefore, been for the successor north Wales authorities to consider the need to publish the report and the appropriate handling arrangements for doing so. It is not for me to comment on that publication. However, following the release of the interim operation Pallial report on 29 April, the authorities have taken legal advice and consider that there are no further exemptions that apply in relation to the release of a redacted version of the report. I will take your comments on whistleblowing very seriously. As you know, as the First Minister has previously said this afternoon, we must ensure that people are free to raise concerns and that that is supported.
 Comisiynwyd adroddiad Jillings gan yr hen Gyngor Sir Clwyd ym 1994, a mater, felly, i awdurdodau olynol gogledd Cymru fu ystyried yr angen i gyhoeddi'r adroddiad a'r trefniadau priodol ar gyfer gwneud hynny. Nid fy lle i yw gwneud sylwadau ar y cyhoeddiad hwnnw. Fodd bynnag, ar ôl cyhoeddi adroddiad dros dro ymgyrch Pallial ar 29 Ebrill, mae'r awdurdodau wedi cymryd cyngor cyfreithiol ac o'r farn nad oes unrhyw eithriadau pellach sy'n berthnasol o ran cyhoeddi fersiwn o'r adroddiad wedi'i golygu. Byddaf yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'ch sylwadau ar chwythu'r chwiban. Fel y gwyddoch, ac fel y mae'r Prif Weinidog wedi ei ddweud eisoes y prynhawn yma, mae'n rhaid i ni sicrhau bod pobl yn rhydd i godi pryderon ac y cefnogir hynny.
- 14:21 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 We must remember that this report was suppressed for 17 years, and it identifies widespread and long-term abuse at homes in the 1970s and the 1980s. Wrexham councillor and abuse victim Keith Gregory has said that if it had come out sooner
 Mae'n rhaid i ni gofio bod yr adroddiad hwn wedi cael ei atal ers 17 mlynedd, a'i fod yn nodi cam-drin eang a hirdymor mewn cartrefi yn y 1970au a'r 1980au. Mae'r cynghorydd yn Wrecsam, Keith Gregory, sydd wedi dioddef camdriniaeth, wedi dweud pe byddai wedi dod allan yn gynharach:
 'it would have helped us a lot. I think it would have protected more children.'
 y byddai wedi bod o gymorth mawr i ni. Rwy'n credu y byddai wedi diogelu mwy o blant.
 The NSPCC said that although the report was commenting on 'appalling child protection failures' in the past, it could be commenting on events now. That was said yesterday.
 Dywedodd yr NSPCC, er bod yr adroddiad yn cynnig sylwadau ar 'fethiannau amddiffyn plant echrydus' yn y gorffennol, y gallai fod yn cynnig sylwadau ar ddigwyddiadau nawr. Dywedwyd hynny ddoe.

How, therefore, will or is the Welsh Government liaising with operation Pallial and the Macur review of the Waterhouse inquiry concerning matters such as the Flintshire council internal audit manager inquiry on 38 protected disclosures under the 'whistleblowing' Act, including a massive salary and overtime payments to an administrative worker servicing the Waterhouse inquiry into child sexual abuse, remembering that he won his tribunal; and to the allegation by the solicitor who successfully defended Steve Messham, whom we know appeared on television and started this process off late last autumn, against fabricated charges of benefit fraud? The solicitor stated at a public meeting that I attended that he demanded a public inquiry into the relationship between North Wales Police and Flintshire council and stated that he had been threatened and intimidated because of his involvement in the case. Perhaps we need answers to questions over whether these matters and others had something to do with that 17-year delay.

Sut, felly, y bydd neu y mae Llywodraeth Cymru yn cydgyssylltu ag ymgyrch Pallial ac adolygiad Macur o ymchwiliad Waterhouse yn ymwneud â materion fel ymchwiliad rheolwr archwiliad mewnol cyngor Sir y Fflint ar 38 o ddatgeliadau a ddiogelir dan y Ddeddf 'chwythu'r chwiban', gan gynnwys cyflog enfawr a thaliadau goramser i weithiwr gweinyddol a oedd yn gwasanaethu ymchwiliad Waterhouse i gam-drin plant yn rhywiol, gan gofio ei fod wedi ennill ei achos tribiwnlys; ac i'r honiad gan y cyfreithiwr a amddiffynnodd Steve Messham yn llwyddiannus, y gwyddom iddo ymddangos ar y teledu a chychwyn y broses hon yn hwyr yr hydref diwethaf, yn erbyn honiadau ffug o dwyll budd-dal? Dywedodd y cyfreithiwr mewn cyfarfod cyhoeddus yr oeddwn yn bresennol ynddo ei fod wedi galw am ymchwiliad cyhoeddus i'r berthynas rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir y Fflint a dywedodd ei fod wedi cael ei figwth a'i ddychryn oherwydd ei ran yn yr achos. Efallai fod angen atebion i gwestiynau yn ymwneud a pha un a oedd gan y materion hyn ac eraill rywbeth i'w wneud â'r oedi hwnnw am 17 mlynedd.

14:23

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is important, of course, and I am sure that we all agree, that the formal structures put in place through operation Pallial and the Macur review are allowed to pursue their investigations robustly. The Welsh Government is responsible for matters that lie within our legal competence, and we have co-operated fully with the Macur review. We will continue, as ever, to be supportive of that ongoing work. Keith Bristow, as you know, the director general of the National Crime Agency, has been invited by the chief constable of North Wales Police to lead operation Pallial, which will review the historic police investigations and investigate any fresh allegations reported to the police into the alleged historical abuse. The Permanent Secretary met Mr Bristow on 11 March and has also met the deputy director of the Serious Organised Crime Agency to discuss the leadership arrangements for the operation and its strategic intentions, as well as the role of the strategic co-ordinating group that has been established, which sits alongside the management of the criminal investigation. As you know, the Home Secretary announced the Macur review on 6 April and the Rt Hon Lady Justice Macur is undertaking a review of the tribunal inquiry into the abuse of children in care in north Wales, conducted by Sir Ronald Waterhouse. The Welsh Government possessed substantial numbers of registered files relating to the original Waterhouse inquiry. Those files have now been transferred to the review for consideration.

Mae'n bwysig, wrth gwrs, ac rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno, y dylid caniatáu i'r strwythurau ffurfiol a roddwyd ar waith trwy ymgyrch Pallial ac adolygiad Macur ddilyn eu hymchwiliadau'n drylwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am faterion sydd o fewn ein cymhwysedd cyfreithiol, ac rydym ni wedi cydweithredu'n llawn ag adolygiad Macur. Byddwn yn parhau, fel erioed, i fod yn gefnogol o'r gwaith parhaus hwnnw. Mae Keith Bristow, fel y gwyddoch, cyfarwyddwr cyffredinol yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol, wedi cael ei wahodd gan brif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i arwain ymgyrch Pallial, a fydd yn adolygu'r ymchwiliadau hanesyddol gan yr heddlu ac yn ymchwilio i unrhyw honiadau newydd a adroddir i'r heddlu am y cam-drin hanesyddol honedig. Cyfarfu'r Ysgrifennydd Parhaol â Mr Bristow ar 11 Mawrth ac mae hefyd wedi cyfarfod â dirprwy gyfarwyddwr yr Asiantaeth Difrifol a Threfnedig i drafod y trefniadau arweinyddiaeth ar gyfer yr ymgyrch a'i hamcanion strategol, yn ogystal â swyddogaeth y grŵp cyd-drefnu strategol sydd wedi ei sefydlu, ac sy'n eistedd ochr yn ochr â'r ymchwiliad troseddol. Fel y gwyddoch, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref adolygiad Macur ar 6 Ebrill ac mae'r Gwir Anrhydeddus Arglwyddes Ustus Macur yn cynnal adolygiad o'r ymchwiliad tribiwnlys i gam-drin plant mewn gofal yng ngogledd Cymru, a gynhaliwyd gan Syr Ronald Waterhouse. Roedd Llywodraeth Cymru yn meddu ar nifer sylweddol o ffeiliau cofrestredig yn ymwneud ag ymchwiliad gwreiddiol Waterhouse. Mae'r ffeiliau hynny wedi eu trosglwyddo i'r adolygiad eu hystyried erbyn hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ddoe yn ei gwneud hi'n eithaf amlwg bod adroddiad cyn adroddiad Jillings wedi cael ei guddio gan Gyngor Sir Clwyd. A oes angen i chi, fel Llywodraeth, edrych ar y sefyllfa o gwmnïau yswiriant yn bygwth cynghorau mai hwy fyddai'n gyfrifol am unrhyw iawndal, a'r ffaith, o achos hynny, bod swyddogion y cynghorau yn dweud wrth gynghorwyr unigol mai hwy fyddai'n gyfrifol am yr iawndal os nad ydynt yn cymryd eu cyngor i guddio adroddiad. Dyna'r broblem: y ffaith bod y cwmnïau yswiriant yn bygwth cyfrifoldeb ar gynghorwyr unigol, ac, oherwydd hynny, eu bod yn derbyn cyngor gan swyddogion i guddio adroddiadau.

The report published yesterday makes it quite clear that there was a report prior to the Jillings report that was suppressed by Clwyd County Council. Is there a need for you, as a Government, to look at the situation whereby insurance companies threaten the councils that they would be liable for any compensation, and the fact that, as a result, council officials say to councillors that if they do not take that advice to suppress a report, then the individual councillors would be liable for the compensation. That is the problem: the fact that the insurance companies are threatening responsibility on individual councillors, and, as a result, they are taking advice from officials to suppress reports.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:26

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf, wrth gwrs, wedi darllen am rôl y cwmnïau yswiriant, ac rydym yn gwybod fod hynny wedi cael ei ddweud. Mater i'r awdurdodau lleol oedd cyhoeddi'r adroddiad hwn, ac rydym nawr wedi gweld ei gyhoeddi ddoe. Fodd bynnag, nid fy lle i yw dweud mwy nawr am rôl yr awdurdodau lleol na chyn-awdurdod Clwyd.

I have, of course, read about the role of the insurance companies, and we know that that has been said. It was a matter for the local authorities to publish this report, and we have now seen that happening yesterday. However, it is not for me to say any more now about the role of the local authorities or the former Clwyd authority.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:26

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is no doubt that the publication of this report yesterday will cause a great deal more distress for the victims of historic child abuse. Will the Minister acknowledge that this is very distressing for the victims and tell us what is being done to help them with counselling and with this process which, no doubt, is of huge distress to them?

Nid oes amheuaeth y bydd cyhoeddi'r adroddiad hwn ddoe yn achosi llawer mwy o ofid i'r rhai sydd wedi dioddef cam-drin plant hanesyddol. A wnaiff y Gweinidog gydnabod bod hyn yn peri gofid mawr i'r rhai sydd wedi dioddef a dweud wrthym beth sy'n cael ei wneud i'w helpu o ran cynghori personol a'r broses hon sydd, yn ddiau, yn peri gofid mawr iddynt?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:27

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, of course. I agree that yesterday's publication must have been distressing. I am advised that, in taking the decision to publish the report, the authorities ensured that the release was co-ordinated and sensitively managed to cause as little distress as possible to those who might have been affected by the publication. As part of the detailed handling plan, the authorities contacted the 203 known victims of abuse to ensure that they were aware of the issues and the intention to publish, and former employees of the homes who were not implicated in any of the activities linked to abuse. The process of redaction has also been a significant one, involving considerable involvement with legal advisers and those involved with operation Pallial. The strategic co-ordinating group, which I have already mentioned and is led by Keith Bristow, has considered the wider UK and Welsh picture. It has found that, in the main, arrangements are in place and that counselling needs are being met in all areas, with the exception of one area, namely Cardiff. That is being pursued by the lead local authority representative.

Gwnaf, wrth gwrs. Rwy'n cytuno bod y cyhoeddiad ddoe yn siŵr o fod wedi peri gofid. Fe'm hysbysir bod yr awdurdodau, wrth wneud y penderfyniad i gyhoeddi'r adroddiad, wedi sicrhau bod y cyhoeddiad wedi ei gydgyssylltu a'i reoli'n sensitif er mwyn achosi cyn lleied o ofid â phosibl i'r rhai a allai fod wedi cael eu heffeithio gan y cyhoeddiad. Yn rhan o'r cynllun manwl o ran triniaeth, cysylltodd yr awdurdodau â 203 o'r rhai yr oedd yn ymwybodol eu bod wedi dioddef cam-drin i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion a'r bwriad i gyhoeddi, a chyn-weithwyr yn y cartrefi nad oeddent yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â cham-drin. Mae'r broses o olygu hefyd wedi bod yn un sylweddol, gan gynnwys ymgysylltiad sylweddol â chynghorwyr cyfreithiol a'r rhai a oedd yn rhan o ymgyrch Pallial. Mae'r grŵp cydgysylltu strategol, yr wyf wedi sôn amdano eisoes ac a arweinir gan Keith Bristow, wedi ystyried y darlun ehangach o ran Cymru a'r DU. Mae wedi canfod, ar y cyfan, bod trefniadau ar waith a bod anghenion cynghori personol yn cael eu bodloni ym mhob ardal, ac eithrio un ardal, sef Caerdydd. Mae cynrychiolydd arweiniol yr awdurdod lleol yn gweithio ar hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

I have several changes to report to this week's business. The Minister for Finance will make a statement on progress on the development of European structural fund programmes for 2014 to 2020, and the Welsh Government report on the 'Wales and the EU: Partnership for Jobs and Growth' consultation. The Minister for Natural Resources and Food will make a statement on the reform of the common agricultural policy. As a consequence, the statements on transport priorities and the Safer Communities for All update on chapter 7 of the programme for government will be issued as written statements. Finally, I have postponed the legislative consent motion on the Care Bill. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gen i nifer o newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd y Gweinidog Cyllid yn gwneud datganiad ar gynnydd ar ddatblygu rhaglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020, ac adroddiad Llywodraeth Cymru ar ymgynghoriad 'Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf'. Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwneud datganiad ar ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin. O ganlyniad, bydd y datganiadau ar flaenoriaethau trafniadaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf am Cymunedau Mwy Diogel ar bennod 7 y rhaglen ar gyfer llywodraethu yn cael eu cyhoeddi fel datganiadau ysgrifenedig. Yn olaf, rwyf wedi gohio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Gofal. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w gweld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for two statements: the first on cystic fibrosis, which is one of the UK's most common life-threatening inherited conditions. Over 9,000 people in the UK have cystic fibrosis, and over 2 million carry the faulty gene, which is equal to one in 25 of the population. Two weeks ago, I questioned the Minister for Finance about services for cystic fibrosis patients, and she told me that she had regular discussions with the Minister for Health and Social Services and that all these services had been assessed by the Welsh Health Specialist Services Committee, which is preparing a review against the Cystic Fibrosis Trust standards. A summary of that review will be presented to a management group for consideration in July. Could we therefore have a statement so that we know what summary has been presented to the management group this month, noting that the Cystic Fibrosis Trust standards referred to state that every service in Wales is understaffed with regard to the widely accepted standards of care, and that centres and clinics are understaffed, with many lacking nursing, physiotherapy, psychology, social worker, pharmacy and dietetic support, which are crucial in the care of someone with cystic fibrosis.

Secondly, and finally, I ask for a statement regarding the Caernarfon and Bontnewydd bypass. This project, as you know, is funded, proposed and ultimately decided upon by the Welsh Government. Last November, a meeting was held at the Welsh Government's office in Llandudno Junction, with local business and community representatives, when it was agreed that another independent economic impact study would be done. That study would determine future direction. However, in May, the new Minister wrote to say that the study had never been done to assess the impact on business, but rather simply to assess the cost and compensation to those businesses. That was the first time that the businesses and community representatives had ever heard this mooted. Reference has been made to saving money and to best-fitting criteria, although copious evidence is available to the contrary—

Galwaf am ddau ddatganiad: y cyntaf ar ffibrosis systig, sy'n un o gyflyrau etifeddol mwyaf cyffredin y DU sy'n peryglu bywyd. Mae gan dros 9,000 o bobl yn y DU ffibrosis systig, ac mae dros 2 filiwn yn cario'r genyn diffygiol, sy'n cyfateb i un o bob 25 o'r boblogaeth. Bythefnos yn ôl, holais y Gweinidog Cyllid am wasanaethau ar gyfer cleifion ffibrosis systig, a dywedodd wrthyf ei bod yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a bod yr holl wasanaethau hyn wedi cael eu hasesu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sy'n paratoi adolygiad yn erbyn safonau'r Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig. Bydd crynodeb o'r adolygiad hwnnw yn cael ei gyflwyno i grŵp rheoli ei ystyried ym mis Gorffennaf. A allem ni gael datganiad felly fel ein bod yn gwybod pa grynodeb sydd wedi ei gyflwyno i'r grŵp rheoli y mis hwn, gan nodi bod safonau'r Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig y cyfeiriwyd atynt yn datgan nad oes gan yr un gwasanaeth yng Nghymru ddigon o staff ar gyfer y safonau gofal a dderbynnir yn eang, ac nad oes digon o staff mewn canolfannau a chlinigau, a bod diffyg cymorth nyrsio, ffisiotherapi, seicoleg, gweithwyr cymdeithasol, fferylliaeth a dietegol, sy'n hanfodol i ofalu am rywun sydd â ffibrosis systig.

Yn ail, ac yn olaf, gofynnaf am ddatganiad ynglŷn â ffordd osgoi Caernarfon a'r Bontnewydd. Fel y gwyddoch, mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu, ei gynni ac yn cael ei benderfynu yn y pen draw, gan Lywodraeth Cymru. Fis Tachwedd diwethaf, cynhaliwyd cyfarfod yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno, gyda busnesau a chynrychiolwyr y gymuned leol, pryd y cytunwyd y byddai astudiaeth annibynnol arall o effaith economaidd yn cael ei chynnal. Byddai'r astudiaeth honno yn penderfynu ar y cyfeiriad yn y dyfodol. Fodd bynnag, ym mis Mai, ysgrifennodd y Gweinidog newydd i ddweud na chynhaliwyd yr astudiaeth erioed i asesu'r effaith ar fusnes, ond yn hytrach dim ond er mwyn asesu'r gost ac iawndal i'r busnesau hynny. Dyna'r tro cyntaf i'r busnesau a'r cynrychiolwyr cymunedol glywed sôn am hyn erioed. Gwnaed cyfeiriadau at arbed arian a meini prawf sy'n gweddu orau, er bod tystiolaeth helaeth ar gael i'r gwrthwyneb—

14:31	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I think you have explained why you want the statement in quite some detail. Could you just finish off?	Rwy'n credu eich bod wedi esbonio pam yr ydych eisiau'r datganiad mewn modd manwl iawn. A wnech chi ddod at y terfyn?	Senedd.tv Fideo Video
14:31	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography Many other relevant and evidence-based concerns have been raised with me by local people as recently as last Friday in a face-to-face meeting. These concerns demand a public answer.	Mae llawer o bryderon perthnasol eraill, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi cael eu codi gyda mi gan bobl leol mor ddiweddar â dydd Gwener diwethaf mewn cyfarfod wyneb yn wyneb. Mae'r pryderon hyn yn galw am ateb cyhoeddus.	Senedd.tv Fideo Video
14:32	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I thank Mark Isherwood for those questions. It is up to local health boards to provide health services for their local population, and that includes services for sufferers of cystic fibrosis. In relation to your question regarding the bypass, the Minister for Economy, Science and Transport will be making a written statement later this week on transport priorities.	Diolchaf i Mark Isherwood am y cwestiynau yna. Cyfrifoldeb byrddau iechyd lleol yw darparu gwasanaethau iechyd i'w poblogaeth leol, ac mae hynny'n cynnwys gwasanaethau i'r rhai sy'n dioddef o ffbrosis systig. O ran eich cwestiwn am y ffordd osgoi, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad ysgrifenedig ar flaenoriaethau trafndiaeth yn ddiweddarach yr wythnos hon.	Senedd.tv Fideo Video
14:32	Mike Hedges Bywgraffiad Biography Can we have a debate on the proposal from Silk part 2 when it reports?	A allwn ni gael trafodaeth ar y cynnig o ran 2 Silk pan fydd yn adrodd?	Senedd.tv Fideo Video
14:32	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I am sure that when Silk part 2 reports—I know that we are awaiting a definitive date from the UK Government—the First Minister will make a statement.	Rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad pan fydd rhan 2 Silk yn adrodd—rwy'n gwybod ein bod yn disgwyl am ddyddiad pendant gan Lywodraeth y DU.	Senedd.tv Fideo Video
14:32	Simon Thomas Bywgraffiad Biography Rydym newydd glywed y Prif Weinidog yn dweud mewn ateb i gwestiwn bod yr ymgynghoriad ar safonau'r iaith Gymraeg wedi'i ohirio unwaith eto. Mae'n anffodus ein bod wedi clywed hynny mewn ateb i gwestiwn, yn hytrach na thrwy ddatganiad swyddogol gan y Llywodraeth, boed, gorau oll, yn ddatganiad yn y Siambr hon neu yn ddatganiad ysgrifenedig. Gofynnaf ichi felly i fynd yn ôl at y Prif Weinidog a gofyn am y datganiad llawn hwnnw er mwyn esbonio'r amserlen ar gyfer y safonau hyn. Dywedodd y cyn-Weinidog yn glir, wrth gyhoeddi y byddai ymgynghoriad yn dechrau nawr, fod hynny er mwyn sicrhau bod yr amserlen yn cyrraedd deddfwriaeth erbyn diwedd y flwyddyn nesaf. Mae angen bod yn siŵr nad oes gan y Prif Weinidog unrhyw fwriad i ohirio'r ddeddfwriaeth, er bod y gohirio pellach, anffodus hwn yn yr ymgynghoriad wedi digwydd.	We have just heard the First Minister state in response to a question that the consultation on the Welsh language standards has been deferred once again. It is unfortunate that we are informed of that in response to a question, rather than in an official statement from the Government, albeit, best of all, a statement in the Chamber, or a written statement. I ask you, therefore, to return to the First Minister to ask for a full statement, explaining to us the timetable for the standards. The former Minister had made it clear, in announcing that there would be a consultation commencing now, that that was to ensure that the timetable would lead to legislation by the end of next year. We need certainty that the First Minister does not wish to delay the legislation, even though there is this further, unfortunate deferral in the consultation process.	Senedd.tv Fideo Video
14:33	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I am sure the First Minister does not wish to delay it. I do not think I can add to what he said, but I will certainly ask him if he will bring the statement forward in due course.	Rwy'n siŵr nad yw'r Prif Weinidog yn dymuno ei gohirio. Nid wyf yn meddwl y gallaf ychwanegu at yr hyn a ddywedodd, ond byddaf yn sicr yn gofyn iddo a fydd yn cyflwyno'r datganiad maes o law.	Senedd.tv Fideo Video

14:33

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could you arrange for a written statement from the Minister for Economy, Science and Transport on the maintenance of Wales's trunk roads? Obviously, maintenance is necessary and desirable, but it should be carried out in a timely fashion. There are temporary traffic lights at the A40 at Glangwryney. There is no evidence of any work being carried out at that particular site, nor is there a plan as to when the work will be started or completed. This is causing grave concern for people who have to travel back and forth to Abergavenny for economic development purposes, as well as for emergency services trying to access the hospital. Perhaps we could have a statement from the Minister on her expectations as to how maintenance work is carried out.

A allech chi drefnu datganiad ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar gynnal a chadw cefnffyrdd Cymru? Yn amlwg, mae cynnal a chadw yn angenrheidiol ac yn ddymunol, ond dylai gael ei gyflawni mewn ffordd amserol. Ceir goleuadau traffig dros dro ar yr A40 yn Llangwryne. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw waith yn cael ei wneud ar y safle penodol hwnnw, ac nid oes cynllun o ran pryd y bydd y gwaith yn cael ei ddechrau neu ei gwblhau. Mae hyn yn achosi pryder mawr i bobl sy'n gorfod teithio yn ôl ac ymlaen i'r Fenni at ddibenion datblygu economaidd, yn ogystal ag i'r gwasanaethau brys sy'n ceisio cyrraedd yr ysbyty. Tybed a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog ar ei disgwyliadau o ran sut y mae gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:34

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, that would have an impact on economic development and, as you say, for road users. I will raise the issue with the Minister for Economy, Science and Transport and ask her to update the Assembly in due course.

Yn amlwg, byddai hynny'n cael effaith ar ddatblygiad economaidd ac, fel y dywedwch, ar ddefnyddwyr y ffordd. Byddaf yn codi'r mater gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ac yn gofyn iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad maes o law.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:34

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, is it possible to have a statement from the Minister for Natural Resources and Food on fly-grazing? Last week, in credit to the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals, it undertook a successful prosecution of one of the main centre points of this practice—Tommy Price—who was given a custodial sentence. However, I fear that that is not the end of the process. I appreciate that the Minister has been very involved, along with his officials, and that, some time ago, consideration was given to this issue and statements were made. However, there has now been at least six to eight months since any update on the progress of the Welsh Government and local authorities in addressing the overall picture of fly-grazing. Therefore, is it possible to have a statement from the Minister? I would also commend the work of the RSPCA in this field, particularly in relation to the successful prosecution that was brought forward last week.

Weinidog, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar bori anghyfreithlon? Yr wythnos diwethaf, er clod i'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, erlynodd yn llwyddiannus un o'r prif ganolbwyntiau ar gyfer yr arfer hwn—Tommy Price—a dderbyniodd ddedfryd o garchar. Fodd bynnag, rwy'n ofni mai nad dyna ddiwedd y broses. Rwy'n sylweddoli bod y Gweinidog wedi bod yn rhan fawr o hyn, ynghyd â'i swyddogion, a, chryn amser yn ôl, y rhoddwyd ystyriaeth i'r mater hwn ac y gwnaed datganiadau. Fodd bynnag, bu o leiaf chwech i wyth mis erbyn hyn ers y cafwyd unrhyw newyddion am gynnydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o ran mynd i'r afael â'r darlun cyffredinol ar gyfer pori anghyfreithlon. Felly, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog? Byddwn hefyd yn canmol gwaith yr RSPCA yn y maes hwn, yn enwedig o ran yr erlyniad llwyddiannus a wnaed yr wythnos diwethaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:35

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister will issue a written statement on fly-grazing this week.

Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar bori anghyfreithlon yr wythnos hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:35

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wish to ask for two related statements. The first is on the community support officer roles, which the Welsh Government has funded. They are certainly helping my community feel safer. However, I know that people who have been affected by hate crimes feel particularly victimised and isolated. Therefore, can we have a statement on how the Welsh Government can help and support such victims of crime, and how we can ensure that the new officers who are being funded by the Welsh Government receive appropriate training to meet their needs? In addition, helping people who have been affected by hate crimes often requires the bringing together of a range of different organisations to devise the appropriate solution. Therefore, could we also have a statement on how the Welsh Government can encourage partnership working between the police, local authorities, housing providers, and other relevant groups to achieve this aim?

Weinidog, hoffwn ofyn am ddau ddatganiad cysylltiedig. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r swyddi swyddog cymorth cymunedol, y mae Llywodraeth Cymru wedi eu hariannu. Maen nhw'n sicr yn helpu fy nghymuned i i deimlo'n fwy diogel. Fodd bynnag, rwy'n gwybod bod pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb yn teimlo eu bod yn cael eu herlid a'u hynysu yn benodol. Felly, a allwn ni gael datganiad ar sut y gall Llywodraeth Cymru helpu a chefnogi'r rhai sy'n dioddef troseddau o'r fath, a sut y gallwn sicrhau bod y swyddogion newydd sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru yn cael hyfforddiant priodol i ddiwallu eu hanghenion? Hefyd, mae helpu pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb yn aml yn gofyn am ddod ag amrywiaeth o wahanol sefydliadau at ei gilydd i ddod o hyd i'r ateb priodol. Felly, a allem ni hefyd gael datganiad ar sut y gall Llywodraeth Cymru annog gwaith partneriaeth rhwng yr heddlu, awdurdodau lleol, darparwyr tai, a grwpiau perthnasol eraill i gyrraedd y nod hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. The CSOs are certainly playing a huge role in the community, and the additional 500—I believe that we have recruited 480 now of the 500 that is in our programme for government commitment—are working very well alongside the other CSOs and the police force. On Thursday, the Minister for Communities and Tackling Poverty will launch 'Tackling Hate Crimes and Incidents: a Framework for Action', which will set out how the Welsh Government will tackle hate crimes and incidents. That will be out for consultation until mid-October. Your point on partnership working is key; it is very important that we have that partnership working, and an excellent start has been made, which has enabled the development of the draft framework that is now coming forward.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Mae'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yn sicr yn chwarae rhan fawr yn y gymuned, ac mae'r 500 ychwanegol—rwy'n credu ein bod wedi recriwtio 480 erbyn hyn o'r 500 sydd yn ein hymrwymiad yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu—yn gweithio'n dda iawn ochr yn ochr â Swyddogion Cymorth Cymunedol eraill a'r heddlu. Ddydd lau, bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn lansio 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu', a fydd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â throseddau a digwyddiadau casineb. Cynhelir ymgynghoriad ar hwnnw tan ganol fis Hydref. Mae eich pwynt ar weithio mewn partneriaeth yn allweddol; mae'n bwysig iawn bod y gwaith partneriaeth hwnnw gennym, ac mae dechrau ardderchog wedi ei wneud, sydd wedi galluogi datblygiad y fframwaith drafft sy'n cael ei gyflwyno nawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae llawer o bobl yn y gogledd yn poeni yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fodd bynnag, ers hynny, yn ystod y 10 diwrnod diwethaf, mae nifer o lythyrau wedi cael eu hanfon at Aelodau Cynulliad yn awgrymu bod pethau hyd yn oed yn waeth na'r sefyllfa a adlewyrchwyd yn yr adroddiad. Gan na fyddwn ni fel Cynulliad yma am ryw 10 wythnos dros doriad yr haf, a oes bwriad gan y Llywodraeth i ddweud yn union pa fath o drefniadau fydd ar waith yn y bwrdd iechyd yn ystod y cyfnod hwnnw?

Minister, many people in north Wales are concerned following the publication of the report on Betsi Cadwaladr University Local Health Board. However, since then, over the past 10 days, a number of letters have been received by Assembly Members suggesting that things are even worse than the situation outlined in the report. As the Assembly will not be sitting for some 10 weeks during the summer recess, is it the Government's intention to outline exactly what arrangements will be in place within the health board during that time?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister for Health and Social Services is looking very closely at this, and is looking to support Betsi Cadwaladr university health board on several levels. Members will be aware that David Jenkins, who is a very experienced chair, has been asked by the Minister to go and help there. The Minister will be issuing a written statement before the summer recess.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych yn ofalus iawn ar hyn, ac yn ceisio cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar sawl lefel. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod y Gweinidog wedi gofyn i David Jenkins, sy'n gadeirydd profiadol iawn, fynd yno i helpu. Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig cyn toriad yr haf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:38 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yesterday, the National Society for the Prevention of Cruelty to Children launched a new campaign to help parents talk to their children about sexual abuse, in a simple, non-frightening and age-appropriate way. I warmly welcome this campaign, and I believe that it provides a timely opportunity to ask for a Welsh Government statement, updating us on your current efforts to prevent child sexual abuse.
- Ddoe, lansiodd y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant ymgyrch newydd i helpu rhieni i siarad â'u plant am gam-drin rhywiol, mewn ffordd syml, nad yw'n eu dychryn ac sy'n briodol i'w hoedran. Rwy'n croesawu'r ymgyrch hon yn fawr, ac rwy'n credu ei bod yn cynnig cyfle amserol i ofyn am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am eich ymdrechion presennol i atal cam-drin plant yn rhywiol.
- 14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- This is an area that I have discussed, not with the NSPCC at this point, but with other third sector organisations. I will be very happy to bring a statement forward, at the relevant time.
- Mae hwn yn faes yr wyf wedi ei drafod, nid gyda'r NSPCC ar hyn o bryd, ond gyda sefydliadau trydydd sector eraill. Byddaf yn hapus iawn i gyflwyno datganiad, ar yr adeg berthnasol.
- 14:39 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I welcome the commitment to a statement from the Minister for health in respect of Betsi Cadwaladr health board, and I look forward to hearing from the Minister on the intervention, if any, that the Welsh Government might be able to take forward in respect of the situation there. May I request that specific reference be made in that statement to the risk-adjusted mortality index comments, which have been referred to in the media today, and which seem to indicate that there are significant risks at Ysbyty Gwynedd in particular? Perhaps the Minister can comment in his statement on that.
- Rwy'n croesawu'r ymrwymiad i ddatganiad gan y Gweinidog iechyd o ran bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, ac edrychaf ymlaen at glywed gan y Gweinidog am yr ymyrraeth, os bydd un, y gallai Llywodraeth Cymru ei gwneud o ran y sefyllfa yno. A gaf fi ofyn y cyfeirir yn benodol yn y datganiad hwnnw at sylwadau ar y mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg, y cyfeiriwyd atynt yn y cyfryngau heddiw, ac sy'n ymddangos fel eu bod yn nodi bod risgiau sylweddol yn Ysbyty Gwynedd yn benodol? Efallai y gall y Gweinidog wneud sylwadau ar hynny yn ei ddatganiad.
- May I also ask for a statement from the Minister on the recent measles outbreak? We were all very relieved to see that the measles outbreak was deemed to be officially over by Public Health Wales, but, of course, there are concerns about the cost of responding to the measles outbreak in Abertawe Bro Morgannwg, as over £470,000 has been spent in firefighting this disease. It is quite right that this money has been spent, but what assurances can the Minister give us that other services in that health board area will not deteriorate as a result of the diversion of resources, in a very tight financial settlement, to deal with the measles outbreak?
- A gaf fi ofyn hefyd am ddatganiad gan y Gweinidog ar yr achosion diweddar o'r frech goch? Rydym i gyd yn falch iawn o weld bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi bod yr achosion o'r frech goch wedi dod i ben yn swyddogol, ond, wrth gwrs, ceir pryderon am y gost o ymateb i'r achosion o'r frech goch yn Abertawe Bro Morgannwg, gan fod dros £470,000 wedi cael ei wario yn ymladd y clefyd hwn. Mae'n hollol iawn bod yr arian hwn wedi cael ei wario, ond pa sicrwydd all y Gweinidog ei roi i ni na fydd gwasanaethau eraill yn ardal y bwrdd iechyd yn dirywio o ganlyniad i ailgyfeirio adnoddau, mewn setliad ariannol tynn iawn, i ymdrin â'r achosion o'r frech goch?
- 14:40 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You heard me say that the Minister will be bringing a statement forward before the summer recess, and he has heard your comments on the risk-adjusted mortality index figures.
- Clywsoch fi'n dweud y bydd y Gweinidog yn cyflwyno datganiad cyn toriad yr haf, ac mae wedi clywed eich sylwadau ar y ffigurau mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg.
- In relation to the measles outbreak, we are certainly very pleased that it has now ended. The way forward, I think, is to continue to encourage parents to have their children vaccinated, and that is a very important message that the Minister is giving out. Clearly, he will need to look at the costs and at the lessons that we can learn from that.
- O ran yr achosion o'r frech goch, rydym ni'n sicr yn falch iawn eu bod wedi dod i ben erbyn hyn. Y ffordd ymlaen, rwy'n credu, yw parhau i annog rhieni i sicrhau bod eu plant yn cael brechlyn, ac mae honno'n neges bwysig iawn y mae'r Gweinidog yn ei chyfleu. Yn amlwg, bydd angen iddo edrych ar y costau ac ar y gwersi y gallwn eu dysgu o hynny.

- 14:41 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that the Minister for business will agree that the victory of the British and Irish Lions on the weekend, with so many Welsh players—led by my constituent, Sam Warburton—is a huge boost for Wales. Would she be able to find time in the timetable of the Assembly to fit in an opportunity to mark this great achievement, which I think will be an inspiration to everybody in Wales, and to children in particular?
- Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 2.41 p.m.*
- Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog busnes yn cytuno bod buddugoliaeth Llewod Prydain ac Iwerddon dros y penwythnos, â chymaint o chwaraewyr o Gymru—wedi'u harwain gan fy etholwr, Sam Warburton—yn hwb enfawr i Gymru. A fyddai hi'n gallu dod o hyd i amser yn amserlen y Cynulliad i gynnwys cyfle i ddathlu'r llwyddiant mawr hwn, yr wyf yn credu y bydd yn ysbrydoliaeth i bawb yng Nghymru, ac i blant yn arbennig?
- The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 2.41 p.m.*
- 14:41 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, it was certainly an incredible match on Saturday. It was good to see so many Welsh players in the British and Irish Lions team. Unfortunately, I do not think that we will be able to find time in the timetable at the current time; it is a very busy timetable at present, but I am sure that we will all join in congratulating Warren Gatland and his team.
- Oedd, roedd yn sicr yn gêm anhygoel ddydd Sadwrn. Roedd yn dda gweld cymaint o chwaraewyr Cymru yn nhîm Llewod Prydain ac Iwerddon. Yn anffodus, nid wyf yn credu y byddwn yn gallu dod o hyd i amser yn yr amserlen ar hyn o bryd; mae'n amserlen brysus iawn ar hyn o bryd, ond rwy'n siŵr y byddwn i gyd yn uno i longyfarch Warren Gatland a'i dîm.
- 14:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Items 3 and 4 on the agenda will now be issued as written statements.
- Bydd eitemau 3 a 4 ar yr agenda erbyn hyn yn cael eu cyhoeddi fel datganiadau ysgrifenedig.
- 14:42 **Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Ymateb i'r Adolygiad Strategol o Wasanaethau Ambiwllans Cymru** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Statement: Update on the Response to the Strategic Review of Welsh Ambulance Services**
- Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The
- Minister for Health and Social Services*
- Rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn i roi datganiad pellach i'r Aelodau, gan amlinellu ymateb y Llywodraeth i adolygiad McClelland o wasanaethau ambiwlans Cymru. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i staff y gwasanaethau ambiwlans am eu hymgysylltiad parhaus drwy gydol yr adolygiad. Mae eu hymroddiad a'u hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau hanfodol, sy'n achub bywydau, wedi bod yn amlwg drwy gydol y craffu dwys dros nifer o fisoedd. Roedd ysbryd cyfunol staff y gwasanaeth ambiwlans i'w weld yn llawn wrth weithio gyda staff y gwasanaethau iechyd gwladol, yr heddlu a'r gwasanaethau tân yn ystod y digwyddiad diweddar yn ymwneud â phum plentyn a phedwar oedolyn y tu allan i ysgol yn y Rhws.
- I am grateful for this opportunity to provide a further statement to Members, setting out the Government's response to the McClelland review of Welsh ambulance services. I would like to start by thanking ambulance services staff for their continuing engagement throughout the review period. Their dedication and commitment to providing essential, life-saving services has been apparent throughout a period of intense scrutiny over many months. The admirable, collective spirit of ambulance service staff was fully demonstrated when working with NHS, police and fire service colleagues during the recent incident involving five children and four adults outside a school in Rhoose.
- Nododd yr Athro McClelland yn briodol ac yn eglur fod angen i ni greu amgylchedd lle y gall staff ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd gorau sy'n cynnig y canlyniadau gorau i gleifion. Bydd y rhaglen ddiwygio a ddaw yn sgîl ei hadroddiad yn ein galluogi i gyrraedd y nod hwnnw.
- Professor McClelland quite rightly and clearly stipulated that we need to create an environment in which staff can provide services of the highest quality that result in the best outcomes for patients. The reform programme that follows her report is designed to allow us to achieve that goal.

I described a first set of decisions in response to Professor McClelland's review in a written statement to Assembly Members on 23 May. In that, I fully endorsed her proposition that the future for the ambulance service should be clinically focused and firmly embedded in the unscheduled care system. I accepted the McClelland recommendation that front-line staff should be trained and empowered to make a wider range of clinically safe and effective decisions. Funding has been set aside in this financial year to invest in advanced practitioner roles and additional training for ambulance technicians.

The review was very clear that our current eight-minute target for responding to the most urgent calls makes little clinical sense and is only very weakly supported by evidence. Work has already begun to develop a new set of indicators that provide an intelligent suite of clinically informed targets and standards. I expect these to be in place by April 2014. In the meantime, I have required the local health boards and the ambulance service to publish more comprehensive information on ambulance response times that provide a greater transparent context to performance.

In the written statement of 23 May, I also said that we would look to make progress with the review's recommendation that patient transport services be disaggregated from emergency services and placed directly with the local health boards. There are complexities in doing so. Patient transport covers a spectrum of provision, ranging from routine transport for out-patient appointments to the clinical support needed for cancer and renal patients. There are some 450 staff involved in patient transport, and up to 1.3 million transport journeys each year. It also provides the health courier service, which employs over 120 people deploying a fleet of some 90 vehicles, which transport material such as mail, laundry, medical records, pathology material, blood products, pharmacy supplies, controlled drugs and the transport of nuclear medicine and radioactive waste. In view of the challenges associated with altering arrangements of this complexity, I have asked chief executives of local health boards and the ambulance service to prepare a staged implementation plan for disaggregation by the end of September.

I now turn to the main new decisions to be announced today. I have considered carefully the three options for structural change outlined in the McClelland review. Both option 1 and option 3 have attractions, but following a full appraisal I have concluded that option 2 offers the best available way forward, from legal, infrastructural and workforce perspectives. Option 2 secures a national delivery model based on a commissioner/provider relationship between local health boards and the ambulance service. In future, therefore, local health boards will be responsible for securing the provision of ambulance services in Wales, and the ambulance service will be a delivery organisation, supplying the emergency medical services that local health boards require.

Disgrifiais set gyntaf o benderfyniadau mewn ymateb i adolygiad yr Athro McClelland mewn datganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad ar 23 Mai. Ynddo, roeddwn yn llwyr gefnogi ei chynnig y dylai pwyslais y gwasanaeth ambiwlans yn y dyfodol ganolbwyntio ar faterion clinigol ac y dylai fod wedi'i wreiddio'n gadarn yn y system gofal heb ei drefnu. Derbyniais argymhelliad McClelland y dylai staff rheng flaen gael eu hyfforddi a'u grymuso i wneud ystod ehangach o benderfyniadau sy'n glinigol ddiogel ac effeithiol. Mae arian wedi ei neilltuo yn y flwyddyn ariannol hon i fuddsoddi mewn swyddogaethau ymarferwyr uwch ac mewn hyfforddiant ychwanegol i dechnegwyr ambiwlans.

Roedd yr adolygiad yn glir iawn nad yw ein targed o wyth munud ar hyn o bryd ar gyfer ymateb i'r galwadau mwyaf brys yn gwneud llawer o synnwyr clinigol a bod y dystiolaeth sy'n ei ategu'n wan iawn. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i ddatblygu set newydd o ddangosyddion sy'n darparu cyfres o dargedau a safonau sy'n seiliedig ar wybodaeth glinigol. Rwyf yn disgwyl y bydd y rhain ar waith erbyn mis Ebrill 2014. Yn y cyfamser, rwyf wedi ei gwneud yn ofynnol i'r byrddau iechyd lleol a'r gwasanaeth ambiwlans gyhoeddi gwybodaeth fwy cynhwysfawr am amseroedd ymateb ambiwlansys sy'n rhoi cyd-destun mwy tryloyw i berfformiad.

Yn y datganiad ysgrifenedig ar 23 Mai, dywedais hefyd y byddem yn ceisio gwneud cynnydd o ran argymhelliad yr adolygiad y dylai gwasanaethau cludo cleifion gael eu gwahanu oddi wrth y gwasanaethau brys ac y dylid rhoi'r cyfrifoldeb amdanynt yn uniongyrchol i'r byrddau iechyd lleol. Mae cymhlethdodau ynghlwm â hynny. Mae cludo cleifion yn cwmpasu sbectrwm o ddarpariaeth, o gludiant arferol ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol i'r gefnogaeth glinigol sydd ei hangen ar gleifion â chanser a chleifion arenol. Mae rhyw 450 o staff yn ymwneud â chludo cleifion, a hyd at 1.3 miliwn o siwrneiau cludiant bob blwyddyn. Mae hyn hefyd yn cynnwys y gwasanaeth negeswyr iechyd, sy'n cyflogi dros 120 o bobl ac yn defnyddio fflyd o tua 90 o gerbydau, sy'n cludo defnyddiau megis post, dillad i'w golchi, cofnodion meddygol, deunydd patholeg, cynhyrchion gwaed, cyflenwadau fferyllol, cyffuriau rheoledig ac yn cludo meddyginiaeth niwclear a gwastraff ymbelydrol. Ac ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â newid trefniadau mor gymhleth â hyn, rwyf wedi gofyn i brif weithredwyr y byrddau iechyd lleol a'r gwasanaeth ambiwlans baratoi cynllun gweithredu fesul cam ar gyfer gwahanu erbyn diwedd mis Medi.

Trof yn awr at y prif benderfyniadau newydd a gaiff eu cyhoeddi heddiw. Rwyf wedi ystyried yn ofalus y tri opsiwn ar gyfer newid strwythurol a amlinellir yn adolygiad McClelland. Mae agweddau deniadol i opsiwn 1 ac opsiwn 3, ond ar ôl cynnal gwerthusiad llawn rwyf wedi dod i'r casgliad mai opsiwn 2 sy'n cynnig y ffordd orau ymlaen, o safbwynt cyfreithiol, o ran seilwaith ac o ran y gweithlu. Mae opsiwn 2 yn sicrhau model cyflenwi cenedlaethol yn seiliedig ar berthynas comisiynydd/darparwr rhwng byrddau iechyd lleol a'r gwasanaeth ambiwlans. Yn y dyfodol, felly, bydd byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru, a bydd y gwasanaeth ambiwlans yn sefydliad darparu, ac yn cyflenwi'r gwasanaethau meddygol brys sydd eu hangen ar fyrdau iechyd lleol.

Within that model, I have explored in detail the possibility of dissolving the Welsh Ambulance Services NHS Trust in its entirety and creating a wholly new legal structure. While that would signal the strongest break with the past, there are a number of important disadvantages that make that course of action unattractive at this time. It would take considerable time to complete, and this would result in months of continuing and corrosive uncertainty. Two thousand Welsh ambulance service staff would need to be transferred, through Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006 arrangements, to a new organisation. Substantial, specialist and, no doubt, expensive legal advice would be required to make all this happen. For these reasons, I have decided not to proceed in this way. Instead, I will use the comprehensive powers available to me within the existing legal framework to implement option 2, and will monitor its operation and performance carefully as it is introduced.

Specifically, I will take the following four actions. First, I will establish a new delivery arm that will be responsible for the commissioning of ambulance services. The seven chief executives of the local health boards will all be members of that new organisation, and will be required to work collaboratively to commission ambulance services. I will use my powers of direction to remove the responsibility for commissioning ambulance services away from Welsh Health Specialised Services Committee and place responsibility for commissioning such services instead with the new national body. While WHSSC will continue to secure low-volume specialist services, the very different business of commissioning the high-volume ambulance services will be placed with the new national delivery organisation.

Secondly, to mark the new future of the ambulance service I believe that it needs to be renamed. A consultation exercise is necessary, with an opening proposition that the new organisation should be known simply as the Welsh emergency medical service. I want a name that better describes the emergency clinical service that is being provided and one that the public can understand, and use, as such.

Thirdly, I will reinvigorate the current non-executive membership of the board. By the end of August, seven such places will be available for appointment or renewal. All will be subject to a fair and open recruitment exercise. In a new departure, each of the seven non-executives will be assigned to provide advice to one of the seven local health boards. I will expect them to attend local health board meetings and to act as a powerful conduit between the boards and the service that they are, collectively, securing.

Fourthly, funding arrangements will be simplified. The national delivery organisation will oversee a new direct financial flow, in which money will move, in a single stage, from the LHBs as purchasers to the delivery organisation.

O fewn y model hwnnw, rwyf wedi edrych yn fanwl ar bosibilrwydd diddymu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn ei chyfanrwydd a chreu strwythur cyfreithiol hollol newydd. Er mai dyna fyddai'r ffordd gryfaf o dorri'r cysylltiad â'r gorffennol, mae nifer o anafteision pwysig sy'n peri nad yw'r penderfyniad hwnnw'n ddeniadol ar hyn o bryd. Byddai'n cymryd cryn dipyn o amser i'w gwblhau, a byddai hynny'n arwain at fisoedd o ansicrwydd parhaus ac andwyol. Byddai angen trosglwyddo dwy fil o staff gwasanaeth ambiwlans Cymru, yn unol â threfniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006, i sefydliad newydd. Byddai angen cryn dipyn o gyngor cyfreithiol, arbenigol, a fyddai'n siŵr o fod yn ddud i wneud i hyn i gyd ddigwydd. Am y rhesymau hyn, rwyf wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen fel hyn. Yn lle hynny, byddaf yn defnyddio'r pwerau cynhwysfawr sydd ar gael imi o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol i roi opsiwn 2 ar waith, a byddaf yn monitro'n ofalus sut y mae'n gweithio ac yn perfformio wrth iddo gael ei gyflwyno.

Yn benodol, dyma'r pedwar cam y byddaf yn eu cymryd. Yn gyntaf, byddaf yn sefydlu cangen gyflenwi newydd a fydd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ambiwlans. Bydd saith prif weithredwr y byrddau iechyd lleol i gyd yn aelodau o'r sefydliad newydd hwnnw, a bydd yn ofynnol iddynt gydweithio i gomisiynu gwasanaethau ambiwlans. Byddaf yn defnyddio fy mhwerau cyfarwyddo i dynnu'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau ambiwlans oddi ar Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ac yn rhoi'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau o'r fath i'r corff cenedlaethol newydd. Er y bydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru'n parhau i sicrhau gwasanaethau arbenigol cyfaint isel, caiff y gwaith gwahanol iawn o gomisiynu gwasanaethau ambiwlans cyfaint uchel ei roi i'r sefydliad cyflenwi cenedlaethol newydd.

Yn ail, i nodi dyfodol newydd y gwasanaeth ambiwlans, rwyf yn credu bod angen rhoi enw newydd iddo. Mae angen cynnal proses ymgynghori, gyda chynnig agoriadol y dylid galw'r sefydliad newydd hwn, yn syml, yn wasanaeth meddygol brys Cymru. Hoffwn weld enw sy'n rhoi disgrifiad gwell o'r gwasanaeth brys clinigol sy'n cael ei ddarparu ac yn un y gall y cyhoedd ei ddeall, a'i ddefnyddio, felly.

Yn drydydd, byddaf yn adfywio aelodaeth anweithredol bresennol y bwrdd. Erbyn diwedd mis Awst, bydd saith o leodd o'r fath ar gael i'w penodi neu eu hadnewyddu. Bydd y cyfan yn destun proses recriwtio deg ac agored. Mewn datblygiad newydd, gofynnir i bob un o'r saith aelod anweithredol ddarparu cyngor i un o'r saith bwrdd iechyd lleol. Byddaf yn disgwyl iddynt fynychu cyfarfodydd byrddau iechyd lleol a bod yn gyfryngwyr pwerus rhwng y byrddau a'r gwasanaeth y maent, gyda'i gilydd, yn ei sicrhau.

Yn bedwerydd, bydd trefniadau cyllid yn cael eu symleiddio. Bydd y sefydliad cyflenwi cenedlaethol yn goruchwyllo llif ariannol uniongyrchol newydd, lle bydd arian yn symud, mewn un cam, o'r byrddau iechyd lleol fel prynwyr i'r sefydliad cyflenwi.

The process of review and reform is not an easy one, but it is essential if we are to provide an ambulance service that meets the demands of today's Wales. In doing so, there is a great deal to build on, but also some important elements of necessary change. I hope that today's statement will provide the certainty needed to move ahead with that change and to create a service that we would all wish to see.

To do this, I return to the McClelland review itself. It found that the fundamental problem has been that current accountability and governance arrangements for ambulance services in Wales are multiple, complex and lacking in clarity and transparency. Today's statement puts in place a future structure that is simple, clear and aligned directly with better delivery for patients.

14:51

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your statement, Minister. We know that having a high-quality ambulance service for Wales is absolutely critical. Ambulances are a very important part of our emergency services. We know that the underperformance that we have seen in the ambulance service over the past 12 months, with not one of those months seeing the target of responding to 65% of the most urgent calls within eight minutes being hit, has been unacceptable, putting a lot of pressure on patient confidence. We do not know what outcomes there were for the patients affected by ambulances that have been delayed.

I want to take this opportunity to pay tribute to the ambulance service staff who, in spite of all the pressure, are getting on with their jobs on a day-to-day basis. Many of the issues that affect ambulance performance are outside of their control—issues beyond hospital doors, for example—yet they soldier on on those front lines, doing an excellent job, as we saw in the Rhoose incident to which you referred.

However, it is time for transformational change for our ambulance service. The McClelland review was an important part of helping us to underpin the change that was necessary. Siobhan McClelland put options on the table as opportunities to go forward; I will turn to those in a moment.

Minister, in your statement, you referred to the training of ambulance service technicians and to the advanced practitioner roles. How much cash have you set aside for those purposes, and how many individuals might benefit from the resources that you are making available?

I very much welcome the development of the more intelligent suite of performance indicators; that is something that I fully support and endorse. However, it is also important, Minister, that we can benchmark performance in Wales against performance in other parts of the UK and beyond. Can you give us assurances that the eight-minute target will still be available for people to use to scrutinise performance and benchmark it against other parts of the UK?

Nid yw'r broses adolygu a diwygio'n un hawdd, ond mae'n hanfodol os ydym am ddarparu gwasanaeth ambiwlans sy'n bodloni gofynion Cymru heddiw. Wrth wneud hynny, mae llawer iawn i adeiladu arno, ond mae angen gwneud rhai newidiadau pwysig hefyd. Rwyf yn gobeithio y bydd y datganiad heddiw'n rhoi'r sicrwydd sydd ei angen i symud ymlaen â'r newid hwnnw a chreu gwasanaeth yr hoffem i gyd ei weld.

Er mwyn gwneud hyn, dof yn ôl at adolygiad McClelland ei hun. Canfu'r adolygiad mai'r broblem sylfaenol yw bod trefniadau presennol y gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru, o ran atebolrwydd a llywodraethu, yn lluosog ac yn gymhleth ac nad ydynt yn ddigon eglur a thryloyw. Mae'r datganiad heddiw'n sefydlu strwythur at y dyfodol sy'n syml, yn glir ac yn cyd-fynd yn uniongyrchol â gwell darpariaeth i gleifion.

Diolch am eich datganiad, Weinidog. Rydym yn gwybod ei bod yn gwbl hanfodol cael gwasanaeth ambiwlans o safon uchel i Gymru. Mae ambiwlansys yn rhan bwysig iawn o'n gwasanaethau brys. Rydym yn gwybod bod y tanberfformio a welsom yn y gwasanaeth ambiwlans yn ystod y 12 mis diwethaf, lle na lwyddwyd i gyrraedd y targed o ymateb i 65% o'r galwadau mwyaf brys o fewn wyth munud yn yr un o'r misoedd hynny, wedi bod yn annerbyniol, ac wedi rhoi llawer o bwysau ar hyder cleifion. Nid ydym yn gwybod beth oedd y canlyniadau i'r cleifion hynny yr effeithiodd oedi yn amser ymateb yr ambiwlansys arnynt.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i staff y gwasanaeth ambiwlans sydd, er gwaethaf yr holl bwysau, yn bwrw ymlaen â'u gwaith o ddydd i ddydd. Mae llawer o'r materion sy'n effeithio ar berfformiad ambiwlansys y tu hwnt i'w rheolaeth—materion y tu hwnt i ddrwsau'r ysbty, er enghraifft—ac eto maent yn brwydro ymlaen ar y rhengoedd blaen hynny, yn gwneud gwaith rhagorol, fel y gwelsom yn y digwyddiad yn y Rhws y cyfeiriasoch ato.

Fodd bynnag, mae'n bryd inni weddnewid ein gwasanaeth ambiwlans. Roedd adolygiad McClelland yn bwysig o ran ein helpu i roi sylfaen i'r newid yr oedd ei angen. Cyflwynodd Siobhan McClelland opsiynau o ran cyfleoedd i symud ymlaen; byddaf yn troi at y rheini yn y man.

Weinidog, yn eich datganiad, cyfeiriasoch at hyfforddi technegwyr y gwasanaeth ambiwlans ac at swyddogaethau ymarferwyr uwch. Faint o arian ydych chi wedi ei neilltuo at y dibenion hynny, a faint o unigolion a allai elwa o'r adnoddau a fydd ar gael?

Mae'n dda iawn gennyf weld y bydd cyfres fwy deallus o ddangosyddion perfformiad yn cael ei datblygu; mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi ac yn ei gymeradwyo'n llwyr. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig, Weinidog, gallu meincodi perfformiad yng Nghymru yn erbyn perfformiad mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt. A allwch roi sicrwydd inni y bydd y targed o wyth munud yn dal i fod ar gael i bobl ei ddefnyddio i graffu ar berfformiad a'i feincodi yn erbyn rhannau eraill o'r DU?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I certainly welcome your reaffirmed commitment to disaggregating patient transport services. I realise that there are practical problems to overcome, so I support the phased approach that you have suggested will now be taken forward. I look forward to hearing more about that as the phased approach is agreed.

Turning, if I may, to the options that Siobhan McClelland put out, you are pursuing the least radical option that was on the table. It is quite clear that the current arrangements are not working through WHSSC. However, I do not see this particular solution as being a significant departure from the current arrangements, in that you still have a commissioner role, with health boards effectively having their hands on the resources and no direct resources coming from the Welsh Government to the ambulance service; instead, they still pass through the hands of health boards, which, as we know, are under financial pressures of their own. I appreciate that you are telling us that a national delivery body will be established and that that will be accountable to you and to us for the running of the ambulance service, but I wonder, Minister, whether you would be prepared to give a commitment to us today that, if that new service model is not successful when you are doing your monitoring and evaluation, you will consider revisiting the options in Siobhan McClelland's paper. Perhaps you could look at the specialised health board model, which I feel has much more attraction in terms of introducing some direct accountability to you as the Minister for health for the delivery of ambulance services on the ground. I appreciate that you said that that might be a difficult solution to deliver and that time is of the essence—I agree with all of that—but we should not flag up concerns about time if we are simply to end up with a second-best option. The first-best option that we can have is the one that we ought to pursue. If option 1 in Siobhan McClelland's paper—the specialised health board model, with direct accountability in delivery and direct funding from the Welsh Government to an ambulance service—is the right way forward, that is what we ought to pursue.

You have referred to a renaming of the organisation. I am not averse to that, at all, but rebranding an organisation alone will not deliver the sea change and cultural change that we need in the delivery of services on the ground. I certainly do not like the opening proposition of 'the Welsh emergency medical service'. I do not think that that says what the ambulance service actually does, which is to deliver an ambulance service. The public will want to be able to call it an ambulance service and will still refer to it as 'the ambulance service' regardless of whatever name you put on the tin. If, in the tin, we find an ambulance service being delivered, it is important to still call it that. Changing it to reflect the paramedic workforce and the increased clinical work that the ambulance service will do in the future might be an option, but I am certainly not impressed with the name that you have put forward today.

Rwyf yn sicr yn croesawu'r ymrwymiad yr ydych wedi'i ategu i wahanu gwasanaethau cludo cleifion. Rwyf yn deall bod angen goresgyn rhai problemau ymarferol, felly rwyf yn cefnogi'r dull graddol yr ydych wedi awgrymu y dylid bwrw ymlaen ag ef. Edrychaf ymlaen at glywed mwy am hynny wrth ichi gytuno ar y dull graddol.

I droi, os caf, at yr opsiynau a gynigiodd Siobhan McClelland, rydych yn dewis yr opsiwn lleiaf radical a oedd ar y bwrdd. Mae'n eithaf amlwg nad yw'r trefniadau presennol yn gweithio drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod y dull penodol hwn yn wahanol iawn i'r trefniadau presennol; mae gennych swyddogaeth comisiynydd o hyd, mae'r adnoddau i bob diben yn nwylo'r byrddau iechyd ac nid oes adnoddau uniongyrchol yn dod gan Lywodraeth Cymru i'r gwasanaeth ambiwlans; yn hytrach, maent yn dal i fynd drwy ddwylo'r byrddau iechyd, sydd, fel y gwyyddom, o dan bwysau ariannol eu hunain. Rwyf yn cydnabod eich bod yn dweud wrthym y bydd corff cyflenwi cenedlaethol yn cael ei sefydlu ac y bydd hwnnw'n atebol i chi ac i ni o ran cynnal y gwasanaeth ambiwlans, ond tybed, Weinidog, a fydddech yn fodlon rhoi ymrwymiad inni heddiw, os nad yw'r model gwasanaeth newydd yn llwyddiannus pan wnewch eich gwaith monitro a gwerthuso, y byddwch yn ystyried edrych eto ar yr opsiynau ym mhapur Siobhan McClelland. Efallai y gallech edrych ar fodel y bwrdd iechyd arbenigol; credaf fod hwnnw'n llawer mwy atyniadol o ran cyflwyno rhywfaint o atebolrwydd uniongyrchol i chi fel y Gweinidog iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau ambiwlans ar lawr gwlad. Rwyf yn cydnabod eich bod wedi dweud y gallai fod yn anodd cyflawni hynny, a bod amser yn brin—rwyf yn cytuno â hynny i gyd—ond ni ddylem fod yn sôn am bryderon o ran amser os mai'r opsiwn ail orau a gawn yn y pen draw. Y dewis gorau y gallwn ei gael yw'r y dylem ei ddewis. Os mai opsiwn 1 ym mhapur Siobhan McClelland—model y bwrdd iechyd arbenigol, gydag atebolrwydd uniongyrchol o ran cyflenwi ac ariannu uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i wasanaeth ambiwlans—yw'r ffordd iawn ymlaen, dyna'r un y dylem ei dilyn.

Rydych wedi cyfeirio at roi enw newydd i'r sefydliad. Nid wyf yn gwrthwynebu hynny, o gwbl, ond ni fydd ailfrandio sefydliad yn ddigon ar ei ben ei hun i ysgogi'r newid diwylliannol sylweddol y mae ei angen arnom o ran darparu gwasanaethau ar lawr gwlad. Yn sicr, nid wyf yn hoff o'r cynnig agoriadol, 'gwasanaeth meddygol brys Cymru'. Nid wyf yn meddwl bod hynny'n dweud beth y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei wneud mewn gwirionedd, sef darparu gwasanaeth ambiwlans. Bydd y cyhoedd am allu ei alw'n wasanaeth ambiwlans a byddant yn dal i gyfeirio ato fel 'y gwasanaeth ambiwlans' beth bynnag yw'r enw a roddwch iddo. Os mai gwasanaeth ambiwlans sy'n dal i gael ei gyflenwi mewn gwirionedd, mae'n bwysig parhau i'w alw'n hynny. Efallai y byddai'n opsiwn, yn y dyfodol, ei newid i adlewyrchu'r gweithlu parafeddygon a'r gwaith clinigol cynyddol y bydd y gwasanaeth ambiwlans yn ei wneud, ond yn sicr nid wyf yn hoff iawn o'r enw yr ydych wedi ei gynnig heddiw.

You have mentioned that you want to reinvigorate the non-executive membership of the board. That is a wise decision, but many people will question why you are prepared to do it in respect of this organisation but not in respect of other health organisations that are facing very serious problems with their governance and accountability arrangements, as we have been hearing over the past couple of weeks, for example, in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area. Perhaps you could tell us why there is a slightly different approach with those organisations.

It is important that we have the opportunity to scrutinise this as Assembly Members. I gave you the commitment of my party when this review process was commissioned that we would work with you to secure improvements in the delivery of ambulance services, and that commitment still stands, but we want to see some significant improvement on the ground, across Wales, for patients in a short timescale. If developing the system further, in terms of how the board is made up and whether it needs to be a specialist health board, needs to be reconsidered in the future, we will need to do that and revisit this issue. However, I give you our commitment again today to work with you to deliver an ambulance service that we can be proud of, on behalf of patients across the country.

14:59

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Darren Millar for his recognition of the importance of the ambulance service and for the continuing work of its staff. I also thank him for his continuing direct and constructive interest in this topic. I look forward to going on having those conversations with him as some of the detail of today's statement is worked out.

In terms of the specific questions that he raised in his contribution, the Welsh Government spends £82 million every year in the training of staff within the health service. The ambulance service has its share of that. My statement referred to a specific sum of £0.2 million being made available in this year for the purposes that I identified there.

Darren asked whether the eight-minute figure will continue to be available for scrutiny, and I give him an assurance that it will be. We will have a new intelligent suite of clinically driven targets, but I understand that, for the purposes of continuity and comparability, the raw material for being able to continue to track the eight-minute target is necessary, and that will be continued.

He is absolutely right that renaming an organisation alone does not bring about the change that we need to see, and it is just one of a series of measures that I have outlined this afternoon. I look forward to hearing from him with any other ideas he may have about a name. I am by no means wedded to the starting proposition that I outlined today. We will consult, and there may be a whole range of other possibilities. I want a name that marks a break, not simply with the past of the ambulance service, but which does something better to communicate to the public the proper purpose of this organisation. For that reason, we need something that communicates that to the public. I look forward to discussing what the possibilities might be.

Rydych wedi dweud yr hoffech adfywio aelodaeth anweithredol y bwrdd. Mae hwnnw'n benderfyniad doeth, ond bydd llawer o bobl yn holi pam eich bod yn barod i wneud hynny ar gyfer y sefydliad hwn, ond nid ar gyfer sefydliadau iechyd eraill sy'n wynebu problemau difrifol iawn o ran eu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd, fel yr ydym wedi bod yn ei glywed dros yr ychydig wythnosau diwethaf, er enghraifft, yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Efallai y gallech ddweud wrthym pam y defnyddir dull ychydig yn wahanol ar gyfer y sefydliadau hynny.

Mae'n bwysig ein bod yn cael cyfle i graffu ar hyn fel Aelodau'r Cynulliad. Rhoddais ymrwymiad fy mhlaid ichi pan gomisiynwyd proses yr adolygiad hwn y byddem yn cydweithio â chi i sicrhau gwelliannau o ran darparu gwasanaethau ambiwlans, ac mae'r ymrwymiad hwnnw'n dal yn gadarn, ond hoffem weld gwelliannau sylweddol ar lawr gwlad ar gyfer cleifion, ledled Cymru, a hynny mewn byr o amser. Os bydd angen ystyried datblygu'r system ymhellach yn y dyfodol, o ran cyfansoddiad y bwrdd ac a oes angen iddo fod yn fwrdd iechyd arbenigol, bydd angen inni wneud hynny ac ailedrych ar y mater hwn. Fodd bynnag, rwyf yn rhoi ein hymrwymiad ichi eto heddiw i gydweithio â chi i ddarparu gwasanaeth ambiwlans y gallwn fod yn falch ohono, ar ran cleifion ledled y wlad.

Diolch i Darren Millar am gydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth ambiwlans ac am waith parhaus staff y gwasanaeth. Rwyf hefyd yn diolch iddo am ei ddi-ddordeb uniongyrchol ac adeiladol parhaus yn y pwnc hwn. Rwyf yn edrych ymlaen at barhau i gael y sgysiau hynny gydag ef wrth inni archwilio rhai o fanylion y datganiad heddiw.

O ran y cwestiynau penodol a gododd yn ei gyfraniad, mae Llywodraeth Cymru'n gwario £82 miliwn bob blwyddyn ar hyfforddi staff o fewn y gwasanaeth iechyd. Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn cael cyfran o hynny. Roedd fy natganiad yn cyfeirio at swm penodol o £0.2 miliwn sydd ar gael eleni at y dibenion a nodais.

Gofynnodd Darren a fydd y ffigur wyth munud yn parhau i fod ar gael inni gael craffu arno, ac rwyf yn ei sicrhau y bydd. Bydd gennym gyfres newydd ddeallus o dargedau clinigol, ond rwyf ar ddeall, at ddibenion parhad a chymaroldeb, fod angen cadw'r deunydd crai i allu parhau i olrhain y targed wyth munud, a bydd hynny'n parhau.

Mae yn llygad ei le wrth ddweud na fydd rhoi enw newydd i'r sefydliad yn ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau'r newid y mae angen inni ei weld, a dim ond un o gyfres o fesurau yr wyf wedi sôn amdanynt y prynhawn yma yw hynny. Edrychaf ymlaen at glywed unrhyw syniadau eraill sydd ganddo am enw. Rwyf yn bell o fod wedi ymrwymo'n llwyr i'r cynnig cychwynnol a amlinellais heddiw. Byddwn yn ymgynghori, ac efallai'n wir y bydd ystod eang o bosibiliadau eraill. Hoffwn gael enw sy'n nodi ein bod nid yn unig yn torri oddi wrth orffennol y gwasanaeth ambiwlans, ond sy'n gwneud rhywbeth yn well i gyfleu i'r cyhoedd beth yw diben priodol y sefydliad hwn. Am y rheswm hwnnw, mae angen rhywbeth sy'n cyfleu hynny i'r cyhoedd. Rwyf yn edrych ymlaen at drafod y posibiliadau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As far as non-executives are concerned, the position as far as the current board is concerned is that, naturally, just by the chance of when people were previously appointed, seven people's terms of office will come to an end by the end of August. Some of those people would, in the normal run of events, have possibly been eligible for a period of further appointment. They will all be able to reapply for positions for the future, should they wish to do so, but there will be no automaticity about that, because I am looking to refresh this organisation for the future.

Finally, I probably would not dispute what the Member said about option 2 being the least radical of the three available. However, for all of the reasons that I outlined, the need for continuity, the need to be able to preserve the service during a period of significant change, it is the one that I have decided on. There is a tension between what I want to do, which is to go on monitoring that change and make sure that it is delivering what we want, and the requirement that Siobhan McClelland set out very clearly in her foreword. She said there,

'I feel strongly that this Review should result in decisive actions and a collective commitment to allow the decisions and changes that flow from them to mature.'

While we will review and monitor the implementation of the new arrangements, we have to give it a fair chance, without something hanging over the head of it all of the time, thinking that further change could be coming down the track quickly at it.

O ran aelodau anweithredol, y sefyllfa o ran y bwrdd ar hyn o bryd yw y bydd cyfnod saith o bobl yn eu swyddi yn dod i ben erbyn diwedd mis Awst, a hynny'n digwydd bod oherwydd yr adeg pan gafodd pobl eu penodi. Gallai rhai o'r bobl hynny, dan amgylchiadau arferol, fod wedi bod yn gymwys am gyfnod arall. Bydd modd i bob un ohonynt wneud cais am swyddi eto yn y dyfodol, os dymunant wneud hynny, ond ni fydd dim yn awtomatig am hynny, oherwydd fy mwriad yw adnewyddu'r sefydliad hwn at y dyfodol.

Yn olaf, mae'n debyg na fyddwn yn anghytuno â'r hyn a ddywedodd yr Aelod mai opsiwn 2 yw'r lleiaf radical o'r tri sydd ar gael. Fodd bynnag, am yr holl resymau a amlinellais, yr angen am barhad, yr angen i allu cynnal y gwasanaeth yn ystod cyfnod o newid sylweddol, dyna'r un yr wyf wedi ei ddewis. Mae tensiwn rhwng yr hyn yr hoffwn ei wneud, sef parhau i fonitro'r newid hwnnw a gwneud yn siŵr ei fod yn darparu'r hyn yr ydym am ei gael, a'r gofyniad a nododd Siobhan McClelland yn glir iawn yn ei rhagair. Dywedodd,

'Rwyf yn gadarn o'r farn y dylai'r Adolygiad hwn arwain at gamau gweithredu pendant ac ymrwymiad ar y cyd i sicrhau y caiff y penderfyniadau a'r newidiadau a fydd yn deillio ohonynt gyfle i aeddfedu.'

Er y byddwn yn adolygu ac yn monitro gweithrediad y trefniadau newydd, mae'n rhaid inni roi cyfle teg iddynt, heb fod rhywbeth yn eu bygwth drwy'r amser, a meddwl y gallai newid pellach effeithio arnynt cyn bo hir.

15:03

Jenny Rathbone [Bywgraffiad Biography](#)

I very much congratulate the Minister on his evolutionary, rather than revolutionary, approach to transforming the ambulance service. That does not shy away from the necessary changes required to ensure that everybody who needs an emergency medical service is able to get it in the timescales that are clinically required. Therefore, it is absolutely right that we ensure that everybody has the right to get that emergency medical service. Just imagine how frightening it is if your family member is having a heart attack or a stroke, or is unconscious as a result of an accident. Therefore, I think that you have made the right decision in transferring the patient transport services, which are very important in ensuring that people can get to and from the specialist services that they need, often across health board boundaries. It is also important that we have a single Wales ambulance service, by another name, to ensure that people get the right specialist care in the event that they have a life-threatening emergency.

Unlike Darren Millar, I do not have a problem with changing the name, because the word 'ambulance' merely comes from the word 'ambulatory', meaning 'to walk'. It emphasises that you should not be calling 999 unless you have an emergency. Unfortunately, it is the case that some people still avail themselves of the 999 service even when it is not a real emergency.

Rwyf yn llongyfarch y Gweinidog yn fawr iawn am ei ddull esblygiadol, yn hytrach na chwyldroadol, o drawsnewid y gwasanaeth ambiwlans. Bydd y dulliau hynny'n ddigon cryf i wneud y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod pawb y mae angen gwasanaeth meddygol brys arnynt yn gallu ei gael o fewn yr amserlenni clinigol gofynnol. Felly, mae'n hollol briodol ein bod yn sicrhau bod gan bawb hawl i gael y gwasanaeth meddygol brys hwnnw. Dychmygwch pa mor frawychus yw hi os yw aelod o'ch teulu'n cael trawiad ar y galon neu strôc, neu'n anymwybodol ar ôl bod mewn damwain. Felly, rwyf yn meddwl eich bod wedi gwneud y penderfyniad iawn wrth drosglwyddo'r gwasanaethau cludo cleifion, sy'n bwysig iawn o ran sicrhau y gall pobl gyrraedd y gwasanaethau arbenigol sydd eu hangen arnynt a mynd oddi yno wedyn, yn aml ar draws ffiniau'r byrddau iechyd. Mae hefyd yn bwysig bod gennym un gwasanaeth ambiwlans i Gymru, dan enw arall, i sicrhau bod pobl yn cael gofal arbenigol priodol mewn argyfyngau sy'n bygwth eu bywydau.

Yn wahanol i Darren Millar, nid oes gennyf broblem o ran newid yr enw, oherwydd daw'r gair 'ambiwllans' o'r gair 'ambulatory', sy'n golygu 'cerdded'. Mae'n pwysleisio na ddylech fod yn ffonio 999 oni bai bod gennych argyfwng. Yn anffodus, mae'n wir fod rhai pobl yn dal i ddefnyddio'r gwasanaeth 999 hyd yn oed pan nad yw'n argyfwng go iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is an excellent idea to ensure that the chief executives of each of the seven health boards are putting their heads together to make sure that they have the service that the population of Wales requires, so that in the event of emergencies, people are quickly given the service that they need. I wonder if you could provide more information on how the call centre that receives the 999 calls triages competing emergency calls. What clinical back-up do they get to enable them to make those complex decisions under huge pressure? I am assuming that it is not like the way in which the English coalition Government has transformed NHS Direct into the cheapo NHS 111 service. However, I welcome your approach in unpicking the eight-minute response time to produce more meaningful and intelligent targets to enable us to save people's lives effectively.

I would like to know what proportion of the ambulance crews have already received advanced practitioner training and, what I think most people would call, paramedic training—maybe it is something slightly different and perhaps you could clarify that. How many additional ambulance staff do you expect to get trained with the £0.25 million that you have set aside within this financial year?

15:06

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for her endorsement of the continuing national organisation of an ambulance service. Option 3 in the McClelland review floated the idea of disaggregating the whole of the ambulance service—emergency, as well as patient transport—and handing that to the LHBs. There was an intellectual coherence about that argument, but there were concerns among most people that I spoke to that it would create seven sets of boundaries across Wales and make a national provision much more difficult.

Jenny Rathbone was right to point to the fact that if you are having a cardiac episode, an eight-minute target is probably not what you need clinically at all—you need something a good deal swifter than that. Clinically sophisticated targets will allow us to do that. We have a call handling system in Wales that is based on expertise, where people are fully trained to make those triage decisions. There are some interesting experiments that are going on in different parts of Wales to improve the way that we do that and to learn across the boundaries of different emergency services in terms of making those decisions. We have every intention of learning from the 111 experience in England.

The Member asked about ambulance service staff. There has been a 23% increase in ambulance staff over the last 10 years. There was a 3.5% increase in ambulance staff in the last year, which is the largest percentage increase of any part of the health service. There has been a 45% increase in ambulance paramedic staff over that period, as the ambulance service has—which I think she was pointing to—moved away from being a transport service to one that is clinically and medically driven.

Mae'n syniad gwyb sicrhau bod prif weithredwyr pob un o'r saith bwrdd iechyd yn rhoi eu pennau at ei gilydd i wneud yn siŵr eu bod yn cynnig y gwasanaeth sydd ei eisiau ar boblogaeth Cymru, fel bod pobl, mewn argyfyngau, yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt yn gyflym. Tybed a allech roi rhagor o wybodaeth am sut y mae'r ganolfan alwadau sy'n derbyn y galwadau 999 yn brysbennu galwadau brys sy'n cystadlu. Pa wasanaethau clinigol wrth gefn sydd ganddynt er mwyn eu galluogi i wneud y penderfyniadau cymhleth hynny o dan bwysau enfawr? Rwyf yn tybio nad yw'n debyg i'r ffordd y mae Llywodraeth glymblaid Lloegr wedi trawsnewid Galw Iechyd yn wasanaeth ceiniog a dimau, NHS 111. Fodd bynnag, rwyf yn croesawu'r ffordd yr ydych wedi edrych yn fanwl ar yr amser ymateb o wyth munud i gynhyrchu targedau mwy ystyrion a deallus i'n galluogi i achub bywydau pobl yn effeithiol.

Hoffwn wybod pa gyfran o'r criwiau ambiwlans sydd eisoes wedi cael hyfforddiant ymarferwyr uwch a'r hyn yr wyf yn meddwl y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei alw'n hyfforddiant parafeddygon—efallai mai rhywbeth ychydig yn wahanol ydyw ac efallai y gallech egluro hynny. Faint o staff ambiwlans ychwanegol ydych chi'n disgwyl fydd yn cael hyfforddiant â'r £0.25 miliwn yr ydych wedi'i neilltuo yn y flwyddyn ariannol hon?

Diolch i'r Aelod am ei chefnogaeth i barhau i drefnu gwasanaeth ambiwlans yn genedlaethol. Roedd opsiwn 3 adolygiad McClelland yn cyflwyno'r syniad o wahanu'r gwasanaeth ambiwlans cyfan—yr elfen frys, yn ogystal â chludo cleifion—a'i drosglwyddo i'r byrddau iechyd lleol. Roedd cydlyniant deallusol i'r ddadl honno, ond roedd y rhan fwyaf o'r bobl y siaradais â hwy'n pryderu y byddai'n creu saith set o ffiniau ar draws Cymru ac yn ei gwneud yn anos o lawer sicrhau darpariaeth genedlaethol.

Roedd Jenny Rathbone yn iawn i dynnu sylw at y ffaith ei bod yn debygol, os ydych yn cael pwl cardiaidd, nad targed wyth munud sydd ei angen arnoch yn glinigol o gwbl—mae angen rhywbeth llawer cynt na hynny arnoch. Bydd targedau clinigol soffistigedig yn ein galluogi i wneud hynny. Mae gennym system trin galwadau yng Nghymru sy'n seiliedig ar arbenigedd, lle caiff pobl eu hyfforddi'n llawn i wneud y penderfyniadau brysbennu hynny. Mae rhai arbrofion diddorol yn digwydd mewn gwahanol rannau o Gymru i wella'r ffordd yr ydym yn gwneud hynny ac i ddysgu ar draws ffiniau'r gwahanol wasanaethau brys o ran gwneud y penderfyniadau hynny. Mae'n fwriad gennym ddysgu o'r profiad 111 yn Lloegr.

Gofynnodd yr Aelod am staff y gwasanaeth ambiwlans. Bu 23% o gynnydd yn nifer y staff ambiwlans yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Bu 3.5% o gynnydd yn nifer y staff ambiwlans yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sef y cynnydd canrannol mwyaf yn unrhyw ran o'r gwasanaeth iechyd. Bu 45% o gynnydd yn nifer staff parafeddygol ambiwlansys dros y cyfnod hwnnw, gan fod y gwasanaeth ambiwlans—rwyf yn meddwl mai at hyn yr oedd hi'n cyfeirio—wedi troi o fod yn wasanaeth cludiant i fod yn wasanaeth clinigol a meddygol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On behalf of Plaid Cymru, I think that we would give a cautious welcome to your proposal. However, we will be expecting results and we would like to expect these results sooner rather than later. I too, like Darren Miller and Jenny Rathbone, wish to pay tribute to the personnel, the front-line professionals in our ambulance service. They are highly skilled personnel who witness daily incidents that most of us would flinch at and, probably, not cope with. They are true heroes and heroines. I also welcome the disaggregation. Minister, this is plain common sense—well done. This should have happened years ago and I applaud you for that move in particular.

However, I have some questions, Minister, please. Local health authority budgets were not agreed until October last year, which, clearly, would affect planning. How will you ensure that the LHBs get their budgets, perhaps, a little bit earlier? I have another question about cross-border working, which Jenny Rathbone briefly touched upon, particularly the south Wales programme that is currently ongoing.

May I cite to you, Minister, the case of Gwendoline Davies, a constituent from Caerphilly in my region, who was taken ill on Sunday night? She has a rare form of cancer, and has been treated by consultants and specialists at Llandough, Heath and Velindre hospitals. She was taken ill on Sunday night and an ambulance was called, and with ambulance staff conveying her to Llandough—the hospital where the details of her illness were being taken—they were told as they got to the gates of Llandough Hospital that because she was not living under the south Glamorgan health trust area, she should be sent to the Royal Gwent Hospital. The ambulance had to turn around and drive to the Royal Gwent. I do not know how many miles it is—I would guess about 25. So, the ambulance clearly did not make its target, but that is not of an issue to me—the issue is that Gwendoline Davies was in that ambulance, seriously ill, and she should have been taken into Llandough, in my opinion. You kindly met me just before Plenary today to tell me that you would be looking into that. How are we going to stop that from happening, Minister? It wastes the time of ambulances, but, more importantly, it increases the risk to patients.

Minister, we all know that structural changes cost time and money. I agree that this is a softer option. How can you be sure that whichever option you would have announced today, of the three that were available, that they will work and that we will not be in this position again in six months' time? That is an important question to answer.

Ar ran Plaid Cymru, rwyf yn meddwl y byddem yn rhoi croeso gofalus i'ch cynnig. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl canlyniadau a hoffem ddisgwyl y canlyniadau hynny cyn gynted â phosibl. Rwyf finnau hefyd, fel Darren Miller a Jenny Rathbone, am dalu teyrnged i'r personél, y gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn ein gwasanaeth ambiwlans. Maent yn bersonél medrus iawn sy'n dyst i ddiwyddiadau bob dydd a fyddai'n gwneud i'r rhan fwyaf ohonom wingo ac, yn ôl pob tebyg, na fyddem yn gallu ymdopi â hwy. Maent yn arwyr ac yn arwresau, yn wir. Rwyf hefyd yn croesawu'r gwahanu. Weinidog, mae hyn yn gwneud synnwyr—da iawn chi. Dylai hyn fod wedi digwydd flynyddoedd yn ôl ac rwyf yn eich llongyfarch am y cam hwnnw'n arbennig.

Fodd bynnag, mae gennyf rai cwestiynau, Weinidog, os gwelwch yn dda. Ni chytunwyd ar gyllidebau awdurdodau iechyd lleol tan fis Hydref y llynedd; yn amlwg, byddai hynny'n effeithio ar gynllunio. Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod y byrddau iechyd lleol yn cael eu cyllidebau, o bosibl, ychydig yn gynt? Mae gennyf gwestiwn arall am weithio trawsffiniol, a grybwyllwyd gan Jenny Rathbone, yn enwedig rhaglen y de sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

A gaf i sôn, Weinidog, am achos Gwendoline Davies, etholwr o Gaerffili yn fy rhanbarth i, a aeth yn sâl nos Sul? Mae ganddi fath prin o ganser, ac mae wedi ei thrin gan ymgynghorwyr ac arbenigwyr yn ysbytai Llandochoau, y Mynydd Bychan a Felindre. Cafodd ei tharo'n wael nos Sul a galwyd ambiwlans, ac wrth i staff yr ambiwlans ei chludo i Llandochoau—yr ysbyty lle'r oedd manylion ei salwch yn cael eu cymryd—dywedwyd wrthynt wrth gyrraedd giatiau Ysbyty Llandochoau y dylid ei hanfon i Ysbyty Brenhinol Gwent, gan nad oedd yn byw yn ardal ymddiriedolaeth iechyd de Morgannwg. Bu'n rhaid i'r ambiwlans droi a gyrru i Ysbyty Brenhinol Gwent. Nid wyf yn gwybod faint o filltiroedd yw hynny—byddwn yn dyfalu ei fod tua 25. Felly, yn amlwg ni chyrrhaeddodd yr ambiwlans y targed, ond nid dyna yw'r broblem i mi—y broblem yw fod Gwendoline Davies yn yr ambiwlans, yn ddifrifol wael, ac y dylai fod wedi cael mynd i Llandochoau, yn fy marn i. Buooch mor garedig â chwrrd â mi ychydig cyn y Cyfarfod Llawn heddiw i ddweud wrthyf y byddech yn edrych ar hynny. Sut ydym ni'n mynd i atal hynny rhag digwydd, Weinidog? Mae'n gwastraffu amser ambiwlansys, ond, yn bwysicach, mae'n cynyddu'r risg i gleifion.

Weinidog, rydym i gyd yn gwybod bod newidiadau strwythurol yn costio amser ac arian. Rwyf yn cytuno bod hwn yn opsiwn meddalach. Sut y gallwch fod yn siŵr y bydd pa bynnag opsiwn y byddech wedi ei gyhoeddi heddiw, o'r tri a oedd ar gael, yn gweithio ac na fyddwn yn y sefyllfa hon eto ymhen chwe mis? Mae hwnnw'n gwestiwn pwysig i'w ateb.

I look forward to collaborative working. Local authorities working together is much-trumpeted in this Chamber, but it is good that local health boards should work together. I am pleased that the seven highly paid chief executives—that is quite a contentious issue where I live—are working together, but you, Minister, have a duty to tell them that you expect them to get it right and that you have the right to hold them to account. If they do not get it right, this is the last chance saloon here, and I am afraid, Minister, that in last chance saloons other people are often held to account, and I would not like it to be you, with respect.

Rwyf yn edrych ymlaen at weld cydweithio'n digwydd. Mae cydweithio rhwng awdurdodau lleol wedi cael llawer o sylw yn y Siambr hon, ond mae'n dda o beth bod byrddau iechyd lleol yn cydweithio. Rwyf yn falch bod y saith prif weithredwr sy'n ennill cyflogau uchel—mae hynny'n fater eithaf dadleuol lle'r wyf fi'n byw—yn cydweithio, ond mae'n ddyletswydd arnoch chi, Weinidog, i ddweud wrthynt eich bod yn disgwyl iddynt wneud hyn yn iawn a bod gennych hawl i'w dal i gyfrif. Os na wnânt hyn yn iawn, dyma fydd 'salŵn y cyfle olaf', ac mae arnaf ofn, Weinidog, mai rhywun arall sy'n aml yn cael ei ddal i gyfrif yn 'salŵn y cyfle olaf', ac ni hoffwn feddwl mai chi fyddai hwnnw, gyda pharch.

15:12

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

I will begin by saying a few words on the issue that Lindsay Whittle started with, namely that of results. I do not want us to get drawn into a discussion of the ambulance service that does not give some recognition to its real achievements in relation to results. Between 1 April 2012 and 31 March 2013, 101,253 patients received a response within eight minutes. That is 31,000 or 44% more than received a response within eight minutes only as recently as 2006-07. So, more people than ever are being seen within the eight-minute target. The percentage is a problem, because there are even more than that using the service than used to use it. So, the ambulance service in most parts of Wales provides a service that people appreciate. Its budgets have been sorted out much earlier this year; they were sorted out within a week or two of the start of the financial year, and I am determined that that will continue. The arrangements that I have announced today will make that much more likely.

I was very concerned at the individual case that you mentioned to me before Plenary started today, and I will investigate that. What lies behind it is an important point that the Member has drawn our attention to, namely that you can only really understand ambulance services as part of the wider unscheduled care system. If ambulances are unable to deliver patients in a timely fashion to the right place, their performance is directly affected by that. In this case, the person either should have been accepted at the hospital at which they arrived, or they should have been properly directed to the correct destination in the first place.

The new body made up of the seven chief executives is intended to do exactly what Lindsay Whittle said. It is a place where they must pool their sovereignty in order to create a Wales-wide service. That is what we have lacked, I think, in the arrangements that we have had so far. They are accountable to me, I am accountable to you, and you will be able to scrutinise them through me, as this new arrangement is put into being.

Rwyf am ddechrau drwy ddweud ychydig eiriau ar y mater y dechreuodd Lindsay Whittle drwy sôn amdano, sef canlyniadau. Nid wyf am inni gael ein llusgo i drafodaeth am y gwasanaeth ambiwlans nad yw'n rhoi rhywfaint o gydnabyddiaeth i'r hyn y mae wedi'i gyflawni mewn gwirionedd o ran canlyniadau. Rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, cafodd 101,253 o gleifion ymateb o fewn wyth munud. Mae hynny'n 31,000 neu 44% yn fwy nag a gafodd ymateb o fewn wyth munud mor ddiweddar â 2006-07. Felly, mae mwy o bobl nag erioed yn cael eu gweld o fewn y targed wyth munud. Mae'r ganran yn broblem, oherwydd mae hyd yn oed yn fwy na hynny'n defnyddio'r gwasanaeth nag oedd yn arfer ei ddefnyddio. Felly, mae'r gwasanaeth ambiwlans yn y rhan fwyaf o Gymru'n darparu gwasanaeth y mae pobl yn ei werthfawrogi. Cafwyd trefn ar ei gyllidebau'n llawer cynharach eleni; cafwyd trefn arnynt o fewn wythnos neu ddwy ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, ac rwyf yn benderfynol y bydd hynny'n parhau. Bydd y trefniadau yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw'n gwneud hynny'n fwy tebygol o lawer.

Roeddwn yn bryderus iawn am yr achos unigol y soniasoch wrthyf amdano cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn heddiw, a byddaf yn ymchwilio i hynny. Mae cefndir hyn yn codi pwynt pwysig y mae'r Aelod wedi tynnu ein sylw ato, sef bod yn rhaid, er mwyn deall y gwasanaethau ambiwlans, eu hystyried yn rhan o'r system gofal heb ei drefnu ehangach. Os na all ambiwlansys gludo cleifion yn amserol i'r lle cywir, bydd hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar eu perfformiad. Yn yr achos hwn, dylai'r unigolyn dan sylw naill ai fod wedi cael ei derbyn i'r ysbyty lle cyrhaeddodd yr ambiwlans, neu dylai fod wedi cael ei anfon yn briodol i'r ysbyty cywir yn y lle cyntaf.

Bwriad y corff newydd sy'n cynnwys y saith prif weithredwr yw gwneud yn union yr hyn a ddywedodd Lindsay Whittle. Mae'n fan lle mae'n rhaid iddynt gyfuno eu sofraniaeth er mwyn creu gwasanaeth Cymru gyfan. Dyna sydd ar goll, yn fy marn i, o'r trefniadau a fu gennym hyd yn hyn. Maent hwy'n atebol i mi, rwyf fi'n atebol i chi, a byddwch chi'n gallu craffu arnynt drwof fi, wrth i'r trefniant newydd hwn ddod i rym.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The term 'last chance saloon', Deputy Presiding Officer, refers to the saloons at the edge of Indian territory where people can buy their last alcohol before they move into the territory. I suggest that we are way into Indian territory now, and, if we do not get this plan right now, we will not get to the other side of it.

Minister, you have been asked the question a couple of times this afternoon, but you have yet to give an answer as to how many additional advanced practitioners will be created as a result of the investment that you have made. It is a welcome investment, and I acknowledge that there are more staff in the ambulance trust than previously, but, as a result of this investment, how many more advanced practitioners will we see?

You say that the issue around PTS is complex and I would concur. You say that there is now a plan of work in place to move towards a stage where the PTS service is disaggregated from the ambulance trust. What is the end point when you expect that disaggregation to occur?

I welcome very much what you have previously said, and have repeated today, about the need to move towards a more intelligent set of targets, and I acknowledge that it is your commitment to carry on publishing the eight-minute response time targets as well. Could you tell me on what basis the new, intelligent set of targets will be developed? Those targets already exist in ambulance trusts in England. They are clinically robust and clinically tested. I do not see any good reason as to why ours would need to be any different, and it would give us a useful benchmarking opportunity, so that we can measure not only our progress here in Wales, but our progress against our neighbours. I would be grateful if you could explain to me what those new, clinically-driven targets will look like.

The McClelland report says that, if you were to move to option 2, as you have outlined today, the ambulance trust's legal status as a trust, as defined under the National Health Service (Wales) Act 2006, would no longer be appropriate. You have given very good reasons for not wanting to officially wind up the organisation, and I do not disagree with them, but could you outline what the status of the newly renamed organisation will be?

Mae'r term 'salŵn y cyfle olaf', Ddirprwy Lywydd, yn cyfeirio at y salwnau ar gyrion tiriogaethau Indiaidd lle gall pobl brynu alcohol am y tro olaf cyn symud i mewn i'r diriogaeth. Byddwn yn awgrymu ein bod gryn bellter i mewn i'r diriogaeth Indiaidd yn awr, ac, os na chawn y cynllun hwn ar unwaith, na fyddwn yn llwyddo i gyrraedd yr ochr arall.

Weinidog, gofynnwyd y cwestiwn ichi sawl gwaith y prynhawn yma, ond nid ydych eto wedi rhoi ateb i ddweud faint o uwch ymarferwyr ychwanegol a gaiff eu creu o ganlyniad i'r buddsoddiad yr ydych wedi'i wneud. Mae'n fuddsoddiad i'w groesawu, ac rwyf yn cydnabod bod mwy o staff yn yr ymddiriedolaeth ambiwlans nag o'r blaen, ond, o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, faint o ymarferwyr uwch ychwanegol y byddwn yn eu gweld?

Rydych yn dweud bod mater y gwasanaethau cludo cleifion yn gymhleth a byddwn yn cytuno â hynny. Rydych yn dweud bod cynllun gwaith ar y gweill i symud tuag at sefyllfa lle mae'r gwasanaeth cludo cleifion yn cael ei wahanu oddi wrth yr ymddiriedolaeth ambiwlans. Beth yw'r diweddbywynt lle'r ydych yn disgwyl i'r gwahanu hwnnw ddigwydd?

Rwyf yn croesawu'n fawr yr hyn yr ydych wedi'i ddweud o'r blaen, ac wedi'i ailadrodd heddiw, am yr angen i symud tuag at set fwy deallus o dargedau, ac rwyf yn cydnabod eich bod wedi ymrwymo i barhau i gyhoeddi'r targedau amser ymateb o wyth munud hefyd. A allwch ddweud wrthyf ar ba sail y bydd y gyfres newydd, ddeallus o dargedau'n cael ei datblygu? Mae'r targedau hynny eisoes yn bodoli mewn ymddiriedolaethau ambiwlans yn Lloegr. Maent yn glinigol gadarn ac wedi'u profi'n glinigol. Nid wyf yn gweld dim rheswm da pam y byddai angen i'n rhai ni fod yn wahanol mewn unrhyw ffordd, a byddai'n rhoi cyfle defnyddiol inni i feincnodi, fel y gallwn fesur nid yn unig ein cynnydd yma yng Nghymru, ond ein cynnydd o'i gymharu â'n cymdogion. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio imi sut y bydd y targedau newydd, clinigol hyn yn edrych.

Mae adroddiad McClelland yn dweud, pe baech yn symud i opsiwn 2, fel yr ydych wedi'i amlinellu heddiw, na fyddai statws cyfreithiol yr ymddiriedolaeth ambiwlans fel ymddiriedolaeth, fel y'i diffinnir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, yn briodol mwyach. Rydych wedi rhoi rhesymau da iawn dros beidio â bod eisiau dirwyn y sefydliad i ben yn swyddogol, ac nid wyf yn anghytuno â hwy, ond a wnech chi amlinellu beth fydd statws y sefydliad dan yr enw newydd?

Could you also outline what the legal status of the new national delivery organisation will be and who will lead it? At that organisation, the seven LHBs, as identified in the McClelland report, will have to agree the seven LHB strategic needs assessments. There will have to be a great deal of negotiation as to the balance between delivering on all-Wales targets and the needs of individual communities. What we do know about an all-Wales ambulance trust is that it works against the needs—I believe—of rural areas. As I have often outlined in this Chamber, areas such as mine are left without cover, as our ambulances are sent to more populous parts of Wales to try to meet all-Wales targets, potentially leaving those in rural and isolated Valleys communities without access to emergency services, which they also need. So, could you explain to me who, in that new national delivery organisation, will broker on issues such as the competing needs of national and local delivery, and on issues around tolerances of handover, which has been one of the issues that have bedevilled the ambulance trust?

The McClelland report also says that, if you were to move to this model, you would need to bolster commissioning skills within the Welsh NHS. Could you outline today how you will account for that potential disadvantage of the system that you are moving to?

The McClelland report also identified that such a model would increase transactional costs and, indeed, your rebranding exercise will incur a cost. Could you outline what assessment you have carried out of the additional transactional costs that will arise from this system and the costs associated with rebranding and renaming the organisation?

Critically, in the report, McClelland went on to say that, if you were to move to option 2:

'Retaining a national service may not deliver sufficient change, both real and perceived, in terms of improving working practices and culture.'

How will you overcome those particular problems, and what confidence do you have that this model will be the one that will see the transformational change that you are looking for?

It also goes on to say that a national service has, in the past, struggled to move to being the clinically focused service that you aspire to. What direction will you give to the two new organisations to ensure that the change that has not happened to date will happen in the future?

A wnewch chi hefyd amlinellu beth fydd statws cyfreithiol y sefydliad cyflenwi cenedlaethol newydd a phwy fydd yn ei arwain? Yn y sefydliad hwnnw, bydd yn rhaid i'r saith bwrdd iechyd lleol, fel y nododd adroddiad McClelland, gytuno ar asesiadau o anghenion strategol y saith bwrdd iechyd lleol. Bydd angen llawer iawn o drafod am y cydbwysedd rhwng cyrraedd targedau Cymru gyfan ac anghenion cymunedau unigol. Yr hyn yr ydym yn ei wybod am ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru gyfan—credaf—yw ei bod yn gweithio yn erbyn anghenion ardaloedd gwledig. Fel yr wyf wedi'i ddweud yn aml yn y Siambr hon, caiff ardaloedd fel fy etholaeth i eu gadael heb wasanaeth, wrth i'n cerbydau ambiwlans gael eu hanfon i rannau mwy poblog o Gymru i geisio cyrraedd targedau Cymru gyfan, a gall hynny adael y rhai yng nghymunedau gwledig ac anghysbell y Cymoedd heb fynediad at y gwasanaethau brys sydd eu hangen arnynt. Felly, a wnewch chi egluro imi pwy, yn y sefydliad cyflenwi cenedlaethol newydd hwnnw, fydd yn brocera ar faterion megis y gystadleuaeth rhwng anghenion cyflenwi cenedlaethol a lleol, ac ar faterion yn ymwneud â hyblygrwydd trosglwyddo, sy'n un o'r materion sydd wedi plagio'r ymddiriedolaeth ambiwlans?

Mae adroddiad McClelland hefyd yn dweud, pe baech yn symud i'r model hwn, y byddai angen ichi gryfhau sgiliau comisiynu o fewn y GIG yng Nghymru. A wnewch chi amlinellu heddiw sut y byddwch yn rhoi cyfrif am yr anfantais bosibl honno yn y system yr ydych yn symud ati?

Roedd adroddiad McClelland hefyd yn nodi y byddai model o'r fath yn cynyddu costau trafodaethol ac, yn wir, bydd costau i'ch ymarfer ailfrandio. A wnewch chi amlinellu pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r costau trafodaethol ychwanegol a fydd yn deillio o'r system hon a'r costau sy'n gysylltiedig ag ailfrandio'r sefydliad a rhoi enw newydd iddo?

Yn allweddol, yn yr adroddiad, aeth McClelland ymlaen i ddweud, pe baech yn symud i opsiwn 2:

'Mae'n bosibl na fydd cadw gwasanaeth cenedlaethol yn darparu digon o newid, mewn termau real a chanfyddedig, o ran gwella arferion gwaith a diwylliant.'

Sut y byddwch yn goresgyn y problemau penodol hynny, a pha hyder sydd gennych mai'r model hwn fydd yr un a fydd yn sicrhau'r gweddnewidiad yr ydych yn chwilio amdano?

Mae hefyd yn mynd ymlaen i ddweud bod gwasanaeth cenedlaethol, yn y gorffennol, wedi ei chael yn anodd newid i roi sylw penodol i faterion clinigol fel yr hoffech iddo'i wneud. Pa gyfarwyddyd y byddwch yn ei roi i'r ddau sefydliad newydd i sicrhau y bydd y newid nad yw wedi digwydd hyd yma yn digwydd yn y dyfodol?

Minister, it is right for us to acknowledge the huge increase in the number of persons carried by our Welsh ambulance service. The demand for that service, and the growth in that demand, have been enormous. Any organisation would have struggled to keep pace with that demand. What assessment has the Welsh Government carried out as to the adequacy of the funding made available for ambulance services to meet the Government's targets? If you have carried out such an analysis, will you publish it?

Weinidog, mae'n iawn inni gydnabod y cynnydd enfawr yn nifer y bobl sy'n cael eu cludo gan ein gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru. Mae'r galw am y gwasanaeth hwnnw, a'r twf yn y galw hwnnw, wedi bod yn aruthrol. Byddai unrhyw sefydliad wedi ei chael yn anodd ateb y galw hwnnw. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran digonolrwydd y cyllid sydd ar gael i wasanaethau ambiwlans i gyrraedd targedau'r Llywodraeth? Os ydych wedi cynnal dadansoddiad o'r fath, a wneuch chi ei gyhoeddi?

15:21

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On the first question that the Member raised, I will write with the specific figures, but the £0.25 million that I mentioned in my response to Darren Millar is for the training of people already in the system, rather than of new people coming into the system. I will make sure that you have a note of exactly how many people we expect to be trained in that way. In September, I will be able to let Members know of the staged process as far as patient transport services are concerned, and where the end point in that will come. I am not certain that it would be the most sensible course of action to have a complete plan worked out well into the distance. There may be some points where we will need to test the model, see where we get to, and then make some decisions, but I will certainly make that information available.

On the clinical targets that we will have in future, I have no doubt that we will be drawing on evidence from elsewhere, because the aim is to agree a set of targets with those people who have the necessary clinical and medical expertise so that, when a call comes in, the nature of the call is established and that person gets the response that they need, within the time that they need in order to attend to the condition that they have presented. There is a group, chaired by the deputy chief executive of NHS Wales, that has the necessary clinical expertise around the table. It is working on the new targets for Wales and it will be taking into consideration the evidence available from elsewhere.

As far as the new body and how it will be set up are concerned, I will use my power of direction under section 19 of the National Health Service (Wales) Act 2006, which allows me to create the framework around that organisation and to provide it with the responsibilities that we will want to see it discharge in future.

I understand the points that Kirsty Williams made about rural areas, although, from a dispassionate look at the performance of the ambulance service, I would say that a far larger proportion of people are seen within the eight-minute target in rural Wales than in parts of urban Wales. This is one of those areas in which it turns out that rural Wales is rather well served compared with some other areas that are highlighted in this Chamber regularly by the Members who represent those constituencies.

O ran y cwestiwn cyntaf a ofynnodd yr Aelod, byddaf yn ysgrifennu ato i roi'r ffigurau penodol, ond mae'r £0.25 miliwn a grybwyllais yn fy ateb i Darren Millar ar gyfer hyfforddi pobl sydd eisoes yn y system, yn hytrach na phobl newydd sy'n dod i mewn i'r system. Byddaf yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael nodyn o union nifer y bobl yr ydym yn disgwyl iddynt gael eu hyfforddi fel yna. Ym mis Medi, byddaf yn gallu rhoi gwybod i'r Aelodau am y broses fesul cam o ran gwasanaethau cludo cleifion, a beth fydd diwedd y broses honno. Nid wyf yn siŵr pa mor gall fyddai llunio cynllun cyflawn yn bell i'r dyfodol. Gall fod rhai pwyntiau lle bydd angen inni brofi'r model, gweld lle'r ydym yn cyrraedd, ac yna wneud penderfyniadau, ond byddaf yn sicr yn sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael.

O ran y targedau clinigol a fydd gennym yn y dyfodol, nid oes amheuaeth gennyf y byddwn yn galw ar dystiolaeth o fannau eraill, oherwydd y nod yw cytuno ar set o dargedau â'r bobl hynny sydd â'r arbenigedd clinigol a meddygol sydd ei angen er mwyn sicrhau, pan ddaw galwad, eu bod yn cael gwybod beth yw natur yr alwad a bod yr unigolyn dan sylw'n cael yr ymateb sydd ei angen arno, o fewn yr amser gofynnol er mwyn rhoi sylw i'r cyflwr y mae wedi'i gyflwyno. Mae grŵp, dan gadeiryddiaeth dirprwy brif weithredwr GIG Cymru, sydd â'r arbenigedd clinigol angenrheidiol o amgylch y bwrdd. Mae'n gweithio ar y targedau newydd i Gymru a bydd yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o fannau eraill.

O ran y corff newydd sydd dan sylw, a'r ffordd y caiff ei sefydlu, byddaf yn defnyddio fy ngrym cyfarwyddo o dan adran 19 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, sy'n caniatáu imi greu'r fframwaith o gwmpas y sefydliad hwnnw a rhoi'r cyfrifoldebau iddo yr hoffem ei weld yn eu cyflawni yn y dyfodol.

Rwyf yn deall y pwyntiau a wnaeth Kirsty Williams am ardaloedd gwledig, er, o edrych yn ddiuedd ar berfformiad y gwasanaeth ambiwlans, byddwn yn dweud bod cyfran lawer uwch o bobl yn cael eu gweld o fewn y targed wyth munud yng nghefn gwlad Cymru nag mewn rhannau o ardaloedd trefol Cymru. Mae hwn yn un o'r meysydd hynny lle mae'n dod i'r amlwg bod cefn gwlad Cymru'n cael gwasanaeth eithaf da o'i chymharu â rhai ardaloedd eraill y tynnir sylw atynt yn y Siambr hon yn rheolaidd gan yr Aelodau sy'n cynrychioli'r etholaethau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member was absolutely right to point to the issue of handover. In the last two months, as performance has improved in the post-winter period, there has been quite a dramatic improvement in a lessening of the hours lost to the ambulance service because of problems at handover—a 300% increase there.

The Member faithfully drew out some of the reservations that the McClelland review highlights in relation to option 2, but option 2 is, nevertheless, one of the options that the McClelland review does endorse. McClelland carries out that analysis for all three of the options. I think that the structure that I have outlined today minimises the issue of transaction costs. They would have been far greater had a different sort of design been delivered.

Does it provide a sufficient break with the past? I think I recognised, in the statement that I made, that this is one of the things that we have to make sure that we do within option 2. We are renaming and strengthening the board, creating a new national framework, and, within that, I am discussing with the chief executive of NHS Wales the potential appointment of a chief ambulance commissioner for Wales to lead the strengthening of the commissioning process and also to add to the transparency of the process so that Members in this Chamber, as well as others, would know specifically who the lead person in the commissioning area is and where we would need to go to if we thought that there were issues that needed to be addressed.

Roedd yr Aelod yn llygad ei lle wrth dynnu sylw at fater trosglwyddo. Yn ystod y ddau fis diwethaf, wrth i berfformiad wella yn y cyfnod ar ôl y gaeaf, bu gwelliant eithaf dramatig o ran lleihau nifer yr oriau a gollodd y gwasanaeth ambiwlans oherwydd problemau wrth drosglwyddo—300% o gynydd.

Rhoddodd yr Aelod sylw ffyddlon i rai o'r amheuan y mae adolygiad McClelland yn eu hamlygu o ran opsiwn 2, ond mae opsiwn 2, er hynny, yn un o'r opsiynau y mae adolygiad McClelland yn eu cymeradwyo. Mae McClelland yn gwneud y dadansoddiad hwnnw ar gyfer pob un o'r tri opsiwn. Rwyf yn credu bod y strwythur yr wyf wedi'i amlinellu heddiw'n lleihau mater costau trafodaethol. Byddent wedi bod yn llawer mwy pe bai cynllun gwahanol wedi'i ddefnyddio.

A yw'n torri cysylltiad â'r gorffennol yn ddigonol? Rwyf yn credu fy mod wedi cydnabod, yn y datganiad a wneuthum, fod hyn yn un o'r pethau y mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ein bod yn eu gwneud yn opsiwn 2. Rydym yn rhoi enw newydd i'r bwrdd ac yn ei gryfhau, gan greu fframwaith cenedlaethol newydd, ac, o fewn hynny, rwyf yn trafod â phrif weithredwr GIG Cymru y posibilrwydd o benodi prif gomisiynydd ambiwlans i Gymru i arwain y gwaith o gryfhau'r broses gomisiynu a hefyd i ychwanegu at dryloywder y broses fel y byddai Aelodau yn y Siambr hon, yn ogystal ag eraill, yn gwybod yn benodol pwy yw'r arweinydd o ran comisiynu a ble y byddai angen inni fynd pe baem yn credu bod materion y mae angen rhoi sylw iddynt.

15:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are nearly out of time and I have three Members left to speak. So, you have just one minute each, I am afraid.

Mae ein hamser bron â dod i ben ac mae gennyf dri Aelod arall sydd am siarad. Felly, mae arnaf ofn mai dim ond munud yr un sydd gennych.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:26 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the statement is very positive. What I am particularly concerned with is how you see the development of training. The creation of a clinical service is obviously going to require, in many ways, a much more co-ordinated approach to training, so that we do not have the situation of north Wales ambulance men going down to London, London ambulance men coming to Wales and so on. I wonder whether you have given any thought as to how that aspect might develop.

Weinidog, mae'r datganiad yn gadarnhaol iawn. Yr hyn yr wyf yn arbennig o bryderus amdano yw sut yr ydych yn gweld hyfforddiant yn datblygu. Yn amlwg, bydd creu gwasanaeth clinigol yn mynnu, mewn llawer ffordd, dull hyfforddi llawer mwy cydlynol, fel na chawn sefyllfa lle mae dynion ambiwlans y gogledd yn mynd i lawr i Lundain, dynion ambiwlans Llundain yn dod i Gymru ac yn y blaen. Tybed a ydych wedi meddwl o gwbl sut y gallai'r agwedd honno ddatblygu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:27 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member for drawing attention to that point. I am aware that there are what appear on the surface to be some rather strange pathways to training within the Welsh ambulance service. It is very important that the service has strong links with higher education institutions in different parts of Wales, so that people can get training close to where they live and so that it can take account of family commitments and so on. I look forward to discussing this with the Member and with others to make sure that we get the right pattern for Wales.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am dynnu sylw at y pwynt hwnnw. Rwyf yn ymwybodol bod rhai o'r llwybrau at hyfforddiant o fewn gwasanaeth ambiwlans Cymru'n edrych yn eithaf rhyfedd ar yr wyneb. Mae'n bwysig iawn fod gan y gwasanaeth gysylltiadau cryf â sefydliadau addysg uwch mewn gwahanol rannau o Gymru, fel y gall pobl gael hyfforddiant yn agos at ble y maent yn byw ac fel y gallant ystyried ymrwymadau teuluol ac yn y blaen. Rwyf yn edrych ymlaen at drafod hyn â'r Aelod a chydag eraill i wneud yn siŵr ein bod yn cael y patrwm iawn i Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:27 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I certainly think we would welcome the establishment of an ambulance commissioner. That seems a very worthwhile step forward. Some of us here, of course, will remember when these times and targets were altered previously, in 2006. Our concern, Minister, will be whether you can really give an assurance that these targets will be met before any reconfiguration takes place.
- Rwyf yn sicr yn meddwl y byddem yn croesawu sefydlu comisiynydd ambiwlans. Mae hynny'n gam gwerthfawr iawn ymlaen. Bydd rhai ohonom yma, wrth gwrs, yn cofio'r tro diwethaf y newidiwyd yr amseroedd a'r targedau hyn, yn 2006. Ein pryder, Weinidog, fydd a allwch roi sicrwydd mewn gwirionedd y caiff y targedau hyn eu bodloni cyn i unrhyw ad-drefnu ddigwydd.
- 15:27 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have set out the timetable for the reconfiguration. I think that it is very important for the ambulance service to know what it is working to. I want these new arrangements in place by 1 April next year, and that is the timetable I will be working to.
- Rwyf wedi nodi amserlen yr ad-drefnu. Credaf ei bod yn bwysig iawn fod y gwasanaeth ambiwlans yn gwybod beth yw ei dargedau. Hoffwn i'r trefniadau newydd hyn fod ar waith erbyn 1 Ebrill y flwyddyn nesaf, a dyna'r amserlen y byddaf yn gweithio ati.
- 15:28 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I was pleased that the first paragraph in your statement paid tribute to all the staff in the service. As somebody who worked in the emergency services before coming here, I know that the staff sometimes feel undervalued when we all start picking at the targets.
- Rwyf yn falch bod paragraff cyntaf eich datganiad yn talu teyrnged i holl staff y gwasanaeth. Fel rhywun a fu'n gweithio yn y gwasanaethau brys cyn dod yma, rwyf yn gwybod bod y staff weithiau'n teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi pan fyddwn i gyd yn dechrau pigo ar y targedau.
- On the target of eight minutes, I think that you said that there were 101,253 patients who had received a response within eight minutes. Can you tell me what percentage that relates to in terms of how this figure has been broken down as to whether the eight minutes was applicable or not?
- O ran y targed wyth munud, rwyf yn meddwl eich bod wedi dweud bod 101,253 o gleifion wedi cael ymateb o fewn wyth munud. A allwch ddweud wrthyf pa ganran yw hynny o ran sut y mae'r ffigur hwn wedi cael ei ddadansoddi i weld a oedd yr wyth munud yn berthnasol ai peidio?
- 15:28 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for her expertise in this area, which it is very well recognised.
- Diolch i'r Aelod am ei harbenigedd yn y maes hwn; yn sicr, caiff hynny ei gydnabod.
- There has been an increase in the number of calls to the ambulance service. Within that increasing number of calls, the percentage of category A calls has seen a further increase and that is how we are led to the set of figures that we have today. What I have done, in response to questions that were raised in the Chamber earlier in the year, is to have already secured the publication of a wider set of data every month, so that it is possible for Members to see not simply the proportion of calls met within eight minutes, but those met within four minutes, five minutes, eight minutes, nine minutes, and right up to 20 minutes, so that we have a better sense of exactly the issue that the Member has raised.
- Bu cynnydd yn nifer y galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans. O fewn y nifer cynyddol hwnnw o alwadau, mae canran y galwadau categori A wedi cynyddu ymhellach a dyna sut y cawsom y set o ffigurau sydd gennym heddiw. Yr hyn yr wyf wedi ei wneud eisoes, mewn ymateb i gwestiynau a godwyd yn y Siambr yn gynharach yn y flwyddyn, yw sicrhau bod set ehangach o ddata'n cael ei chyhoeddi bob mis, fel y gall Aelodau weld nid yn unig gyfran y galwadau yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud, ond y rhai yr ymatebwyd iddynt o fewn pedwar munud, pum munud, wyth munud, naw munud, a hyd at 20 munud, er mwyn inni gael gwell ymdeimlad o'r union fater y mae'r Aelod wedi'i godi.

Datganiad: Cynnydd o ran Datblygiad Rhaglenni Cyllid Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 ac Adroddiad Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad 'Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwff'

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance

The European Union is essential for the success of the UK. A fully engaged UK is crucial to the success of the EU and, with it, the future success of Wales. As many as 150,000 jobs in Wales depend on our access to the single market and the clear benefits it provides in terms of facilitating the flow of trade and investment. Indeed, more than 450 firms from other member states are located in Wales, providing over 50,000 jobs.

Since 2007, Wales has benefitted from just over £1.8 billion in funding from Europe, providing a boost for businesses, people and communities through very difficult economic times. As the First Minister has made clear, now is the time for a focus on what really matters to people and what really matters to the Welsh Government and to this Assembly, which is to develop a strong economy, investing in our infrastructure and creating jobs for a highly skilled workforce.

That is why I am pleased to update Members this afternoon on the outcome of the joint public consultation, 'Wales and the EU: Partnership for Jobs and Growth', and the development, in partnership, of future programmes to help us achieve our priorities for Wales. I will focus on the consultation outcomes as they relate to structural funds, and the Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies, will update Members later this afternoon on the reform of the common agricultural policy and rural development funds.

Statement: Progress on the Development of European Structural Fund Programmes 2014-2020 and the Welsh Government Report on the 'Wales and the EU: Partnership for Jobs and Growth' Consultation

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn hanfodol i lwyddiant y DU. Mae Teyrnas Unedig gwbl ymroddedig yn hanfodol i lwyddiant yr UE ac, ynghyd â hynny, i lwyddiant Cymru yn y dyfodol. Mae cynifer â 150,000 o swyddi yng Nghymru'n dibynnu ar gymryd rhan yn y farchnad sengl a'r manteision amlwg y mae'n eu darparu o ran hwyluso llif masnach a buddsoddi. Yn wir, mae mwy na 450 o gwmnïau o aelod-wladwriaethau eraill wedi'u lleoli yng Nghymru, ac yn darparu dros 50,000 o swyddi.

Ers 2007, mae Cymru wedi elwa ar ychydig dros £1.8 biliwn o gyllid o Ewrop, sydd wedi rhoi hwb i fusnesau, pobl a chymunedau drwy adeg anodd iawn yn economaidd. Fel y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddatgan yn glir, nawr yw'r amser i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i bobl a'r hyn sy'n wirioneddol bwysig i Lywodraeth Cymru ac i'r Cynulliad hwn, sef datblygu economi gref, buddsoddi yn ein seilwaith a chreu swyddi i weithlu medrus iawn.

Dyna pam yr wyf yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau y prynhawn yma ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd, 'Cymru a'r Undeb Ewropeaidd: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwff', ac am ddatblygu, mewn partneriaeth, y rhaglenni yn y dyfodol i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru. Byddaf yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â chronfeydd strwythurol, a bydd y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, Alun Davies, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn nes ymlaen y prynhawn yma am ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin a chronfeydd datblygu gwledig.

I would first like to highlight to Members the significant milestones achieved over the last couple of weeks, with political agreement of the EU budget and the UK Government's announcement of regional structural funds allocations. These are critical milestones, following representations made by Welsh Ministers and inter-governmental negotiations, to achieve a fairer and more equitable settlement to support our ambitious programme for Welsh Government commitments to boost economic growth and create jobs. Indeed, the 2014–20 allocation for Wales, at 2014 prices, of €2.4 billion or some £2.0 billion, represents a significant uplift from the indicative allocations agreed by the UK Prime Minister at the European Council in February. That said, despite being clear in our negotiations that we wished to see the maximum amount of funds directed to west Wales and the Valleys—our less developed region—this region will see a reduction in its funding of 4% to around £1.67 billion. In contrast, the budget for east Wales will increase to around £340 million. The regional allocations will still need to be agreed by the European Commission, but it is clear that we face a different funding landscape to that previously envisaged.

To maximise the opportunities from the available EU funds, tough choices will need to be made about how and where they should be spent to maximise the potential for sustainable economic growth and jobs. I believe that we have reached out across Wales to involve partners, stakeholders and the public in this very important debate, including through the European programmes partnership forum and work streams; last year's reflections exercise; and more recently through a full public consultation, supported by Welsh Government regional events, and a number of sector-led events, including those organised by the Wales Council for Voluntary Action for the third sector, the Welsh Local Government Association for local government, and Business Wales.

The public consultation closed on 23 April and the 126 written responses received have now been assessed by independent consultants. Today, I published the consultant's structural funds report on the Welsh Government and Wales European Funding Office websites. This report demonstrates overwhelming support from stakeholders for our future investment proposals and our guiding principles of partnership, concentration, integration and simplification of EU funds. As a result, I do not propose to make substantial changes to our investment priorities, which remain as follows: infrastructure; business competitiveness; research and innovation; energy; helping people into work; and improving skills.

However, I will highlight some new developments in response to the comments received and the UK Government's recent confirmation of the regional funding allocations for west Wales and the Valleys and east Wales. To address these issues, the Welsh Government will introduce a new 'tackling poverty through sustainable employment' priority into the east Wales programme and refocus the equivalent 'helping people into work' priority in west Wales and the Valleys. In line with our tackling poverty action plan, at least 20% of ESF programme funding will be spent on tackling poverty and promoting social inclusion.

Yn gyntaf, hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at y cerrig milltir sylweddol a gyrhaeddwyd yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, gyda chytundeb gwleidyddol ar gyllideb yr UE a chyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch dyraniadau'r cronfeydd strwythurol rhanbarthol. Mae'r rhain yn gerrig milltir allweddol, yn dilyn sylwadau a wnaed gan Weinidogion Cymru a thrafodaethau rhynglywodraethol, er mwyn sicrhau setliad tecach a mwy cyfartal i gefnogi ein rhaglen uchelgeisiol ar gyfer ymrwymadau Llywodraeth Cymru i hybu twf economaidd a chreu swyddi. Yn wir, mae dyraniad Cymru ar gyfer 2014–20, ar sail prisiau 2014, o €2.4 biliwn neu ryw £2.0 biliwn, yn gynydd sylweddol o'r dyraniadau dangosol a gytunwyd gan Brif Weinidog y DU yn y Cyngor Ewropeaidd ym mis Chwefror. Wedi dweud hynny, er inni ei gwneud yn glir yn ein trafodaethau yr hoffem weld y swm uchaf posibl o arian yn cael ei gyfeirio i'r gorllewin a'r Cymoedd—ein rhanbarth llai datblygedig—bydd cyllid y rhanbarth hwn yn gostwng 4% i tua £1.67 biliwn. Ar y llaw arall, bydd cyllideb y dwyrain yn cynyddu i tua £340 miliwn. Bydd angen i'r Comisiwn Ewropeaidd gytuno ar y dyraniadau rhanbarthol, ond mae'n amlwg ein bod yn wynebu tirlun ariannu gwahanol i'r un a ragwelwyd.

Er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael drwy gronfeydd yr UE, bydd angen gwneud dewisiadau anodd am sut a lle y dylid eu gwario er mwyn gwneud y gorau o'r potensial o ran swyddi a thwf economaidd cynaliadwy. Credaf ein bod wedi estyn allan ledled Cymru i gynnwys partneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn y ddadl bwysig iawn hon, gan gynnwys drwy'r fforwm partneriaeth rhaglenni Ewropeaidd a ffrydiau gwaith; ymarfer myfyrdodau y llynedd; ac yn fwy diweddar drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn, wedi'i ategu gan ddiwyddiadau rhanbarthol Llywodraeth Cymru, a nifer o ddiwyddiadau dan arweiniad y sectorau, gan gynnwys y rhai a drefnwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer y trydydd sector, gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer llywodraeth leol, a chan Fusnes Cymru.

Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar 23 Ebrill ac mae'r 126 o ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd wedi eu hasesu gan ymgynghorwyr annibynnol. Heddiw, cyhoeddais adroddiad yr ymgynghorydd ar gronfeydd strwythurol ar wefannau Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn dangos cefnogaeth aruthrol gan randdeiliaid i'n cynigion buddsoddi yn y dyfodol ac i'n hegwyddorion arweiniol—partneriaeth, crynodi, integreiddio a symleiddio cronfeydd yr UE. O ganlyniad, nid wyf yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'n blaenoriaethau buddsoddi, sef: seilwaith; cystadleurwydd busnes; ymchwil ac arloesi; ynni; helpu pobl i gael gwaith; a gwella sgiliau.

Fodd bynnag, tynnaf sylw at rai datblygiadau newydd mewn ymateb i'r sylwadau a gafwyd a chadarnhad diweddar Llywodraeth y DU o'r dyraniadau cyllid rhanbarthol i'r gorllewin a'r Cymoedd ac i'r dwyrain. Er mwyn ymdrin â'r materion hyn, bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno blaenoriaeth newydd 'trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy' i raglen y dwyrain ac yn newid pwyslais y flaenoriaeth gyfatebol 'helpu pobl i gael gwaith' yn y gorllewin a'r Cymoedd. Yn unol â'n cynllun gweithredu ar drechu tlodi, bydd o leiaf 20% o arian y rhaglen ESF yn cael ei wario ar drechu tlodi a hyrwyddo cynhwysiant gymdeithasol.

The Welsh Government will also introduce some target infrastructure investments in the east Wales programme, which align with the priorities of the Wales infrastructure investment plan and which will create the greatest possible benefits for west Wales and the Valleys. The current 60%/40% split of resources will be retained between ERDF and ESF in west Wales and the Valleys, and there will be an increase the ESF share for investing in people, skills and tackling poverty in east Wales to 50%.

There is also the important issue of match funding, particularly in light of the UK Government's spending round. We will therefore seek to negotiate with the European Commission—where the regulations allow—an increase to EU intervention rates to alleviate pressures on internal and external match funding budgets.

Work is now progressing on the detailed development of the operational programmes, for submission to the European Commission in the autumn, as well as our contribution to the overarching UK partnership agreement. We are also taking forward work on the implementation arrangements, including delivering the recommendations of the Guilford review, and establishing a single Wales programme monitoring committee for structural funds and the RDP, so that we are fit for purpose to deliver on the next round of programmes for growth and jobs in Wales.

In particular, work on Dr Guilford's central recommendation—the development of an economic prioritisation framework to help direct the use of the European structural and investment funds, to maximise integration, and drive synergies between Welsh Government strategies and investment—is also progressing well, and the framework will be published this autumn.

I am pleased to report to Members that Wales is well advanced with its preparations, and informal discussions on the next steps are already under way with the European Commission. Subject to the agreement of the EC regulations in the autumn, we are very well placed to submit and negotiate our programmes, with the aim of reaching agreement before the end of the year, and to approve funding for projects from early 2014.

Partnership has been fundamental to this progress, and I would like to thank Members and stakeholders for their valuable and positive contributions. I look forward to your continued support in ensuring the successful launch and delivery of this new round of funding next year.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno rhai buddsoddiadau seilwaith targed yn rhaglen y dwyrain, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru a fydd yn creu'r buddion mwyaf posibl i orllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd y rhaniad adnoddau rhwng ERDF ac ESF yn y gorllewin a'r Cymoedd, sy'n 60%/40% ar hyn o bryd, yn cael ei gadw, a bydd cynnydd yn y gyfran ESF i fuddsoddi mewn pobl, sgiliau a threchu tlodi yn y dwyrain i 50%.

Mae arian cyfatebol hefyd yn fater pwysig, yn enwedig yng ngoleuni cylch gwariant Llywodraeth y DU. Byddwn felly'n ceisio trafod â'r Comisiwn Ewropeaidd—lle mae'r rheoliadau'n caniatáu hynny—i sicrhau cynnydd i gyfraddau ymyrraeth yr UE i leddfu pwysau ar gyllidebau arian cyfatebol mewnol ac allanol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygiad manwl y rhaglenni gweithredu, i'w cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn yr hydref, yn ogystal â'n cyfraniad at gytundeb partneriaeth cyffredinol y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith ar y trefniadau gweithredu, gan gynnwys cyflawni argymhellion adolygiad Guilford, a sefydlu un pwyllgor monitro rhaglenni i Gymru ar gyfer y cronfeydd strwythurol a'r cynllun datblygu gwledig, er mwyn sicrhau ein bod yn addas at y diben o gyflenwi'r cylch nesaf o raglenni twf a swyddi yng Nghymru.

Yn benodol, mae gwaith ar argymhelliad canolog Dr Guilford —datblygu fframwaith blaenoriaethu economaidd i helpu i gyfeirio'r ffordd y caiff cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd eu defnyddio, i sicrhau cymaint â phosibl o integreiddio, a hybu synergeddau rhwng strategaethau Llywodraeth Cymru a buddsoddi—hefyd yn mynd rhagddo'n dda, a chaiff y fframwaith ei gyhoeddi yn yr hydref.

Rwyf yn falch o ddweud wrth yr Aelodau fod paratodau Cymru'n mynd rhagddynt yn dda iawn, a bod trafodaethau anffurfiol am y camau nesaf eisoes ar y gweill â'r Comisiwn Ewropeaidd. Yn amodol ar gytundeb ar reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn yr hydref, rydym mewn sefyllfa dda iawn i gyflwyno a thrafod ein rhaglenni, gyda'r nod o ddod i gytundeb cyn diwedd y flwyddyn, a chymeradwyo cyllid i brosiectau o ddechrau 2014 ymlaen.

Mae partneriaeth wedi bod yn hanfodol i'r cynnydd hwn, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau ac i randdeiliaid am eu cyfraniadau gwerthfawr a chadarnhaol. Edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth barhaus i sicrhau y caiff y cylch newydd hwn o gyllid ei lansio a'i gyflwyno'n llwyddiannus y flwyddyn nesaf.

15:37

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the statement, Minister. I wish to welcome at the outset our delight, at this side of the Chamber, that the 2014-20 allocation for Wales will be £2 billion. That is a significant uplift from the indicative allocations that were agreed by our Prime Minister. This is especially welcome, as it is also in the context of a EU budget real-term freeze.

Diolch am y datganiad, Weinidog. Hoffwn ddechrau drwy nodi ein llawenydd, ar yr ochr hon i'r Siambr, ynglŷn â'r ffaiht y bydd dyraniad Cymru ar gyfer 2014-20 yn £2 biliwn. Mae hynny'n gynnydd sylweddol o'r dyraniadau dangosol y cytunwyd arnynt gan Brif Weinidog y DU. Mae hyn i'w groesawu'n fawr, gan ei fod hefyd wedi digwydd yng nghyd-destun rhewi cyllideb yr UE mewn termau real.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Once again, I wish to welcome the commitment to Dr Guilford's central recommendations, and the establishing of a Wales programme monitoring committee for structural funds and the RDP. I would argue that this must embrace independent members, and especially representatives from the private sector, if this is to be fit for purpose, as you suggest. Therefore, my first question is this: what will the make-up of this committee be, and will it be cross-sector?

You also mention in your statement the need for tough choices on how and where the money should be spent, to maximise the potential for sustainable economic growth. Therefore, can you outline at this stage what lessons you have taken from last year's reflection exercise, in terms of your broad vision of where you envisage the priority of the next spending round?

I welcome also, Minister, your clear commitment to infrastructure. However, what exactly do you mean by that? Are we to see new roads, better roads and investment to build on electrification, or are you talking about digital infrastructure, building on the back of further UK Government investment in our broadband infrastructure? I would welcome some clarity on that, because the word 'infrastructure' is sometimes bandied around far too much in the Chamber, without any real meaning or detail.

Finally, on the importance of match funding, which is an issue that we have historically been quite poor at—and, as a long-term Government Minister, you must be well versed with those failings—what assurances, or details of lessons learned, can you offer the Chamber at this stage? We all recognise the importance of this, but in your statement you note that you want to increase the ability to do it, whereas in past funding rounds, we very rarely made full use, or partial use, of match funding.

These are just a few of the key issues for me in this statement. However, I am sure that there will be many further questions, as the detail surrounding these programmes, and further statements, arise.

Unwaith eto, hoffwn groesawu'r ymrwymiad i argymhellion canolog Dr Guilford, a sefydlu pwyllgor monitro rhaglenni Cymru ar gyfer cronfeydd strwythurol a'r cynllun datblygu gwledig. Byddwn yn dadlau bod yn rhaid iddo groesawu aelodau annibynnol, yn enwedig cynrychiolwyr o'r sector preifat, er mwyn bod yn addas at ei ddiben, fel yr awgrymwch. Felly, dyma fy nghwestiwn cyntaf: beth fydd cyfansoddiad y pwyllgor hwn, ac a fydd yn un traws-sector?

Rydych hefyd yn nodi yn eich datganiad fod angen gwneud dewisiadau anodd ynghylch sut a ble y dylid gwario'r arian, er mwyn gwneud y gorau o'r potensial o ran twf economaidd cynaliadwy. Felly, a allwch amlinellu ar hyn o bryd pa wersi yr ydych wedi'u dysgu o ymarfer myfyrio y llynedd, o ran eich gweledigaeth gyffredinol ynghylch lle'r ydych yn rhagweld y bydd blaenoriaeth y cylch gwariant nesaf?

Rwyf hefyd yn croesawu, Weinidog, eich ymrwymiad clir i seilwaith. Fodd bynnag, beth yn union ydych chi'n ei olygu wrth hynny? A fyddwn yn gweld ffyrdd newydd, ffyrdd gwell a buddsoddi er mwyn adeiladu ar drydaneiddio, ynteu a ydych yn sôn am seilwaith digidol, gan adeiladu ar fuddsoddiad pellach Llywodraeth y DU yn ein seilwaith band eang? Byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurder ar hynny, gan fod y gair 'seilwaith' weithiau'n cael ei daflu o gwmpas yn rhy aml o lawer yn y Siambr, heb unrhyw ystyriaeth yn manylion go iawn.

Yn olaf, o ran pwysigrwydd arian cyfatebol, sy'n fater lle'r ydym yn hanesyddol wedi gwneud yn eithaf gwael—mae'n siŵr eich bod chi, fel Gweinidog Llywodraeth hirdymor, yn gyfarwydd iawn â'r methiannau hynny—pa sicrwydd, neu fanylion am wersi a ddysgwyd y gallwch eu cynnig i'r Siambr ar hyn o bryd? Rydym i gyd yn cydnabod pwysigrwydd hyn, ond yn eich datganiad rydych yn nodi eich bod am gynyddu'r gallu i wneud hynny, ac eto, mewn cylchoedd cyllido yn y gorffennol, anaml iawn yr ydym wedi defnyddio arian cyfatebol yn llawn, neu'n rhannol.

Dyma rai o'r materion allweddol yn y datganiad hwn i mi. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr y bydd llawer mwy o gwestiynau, ar ôl inni glywed manylion y rhaglenni hyn, a datganiadau pellach.

15:39

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Byron Davies, and I welcome his positive response this afternoon. In terms of the way forward with the single programme monitoring committee, this will provide an even more holistic assessment of the impact and effectiveness of the funds, set against that new economic prioritisation framework that you have welcomed—the work that was recommended by Dr Guilford.

In terms of determining the PMC's membership, arrangements are currently under way. A public appointments process will be announced this week; so, that should be established later this year. That will enable decisions to be made on the approval of first EU projects from early 2014.

Diolch i Byron Davies; rwyf yn croesawu ei ymateb cadarnhaol y prynhawn yma. O ran y ffordd ymlaen i'r un pwyllgor monitro rhaglenni, bydd hyn yn rhoi asesiad mwy cyfannol fyth o effaith ac effeithiolrwydd y cronfeydd, yng nghyd-destun y fframwaith blaenoriaethu economaidd newydd yr ydych wedi'i groesawu—y gwaith a argymhellwyd gan Dr Guilford.

O ran pennu aelodaeth y pwyllgor monitro rhaglenni, mae trefniadau ar y gweill. Caiff proses penodiadau cyhoeddus ei chyhoeddi yr wythnos hon; felly, dylid sefydlu'r pwyllgor yn nes ymlaen eleni. Bydd hynny'n ein galluogi i wneud penderfyniadau am gymeradwyo'r prosiectau UE cyntaf o ddechrau 2014 ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is important that lessons are learned. As far as the delivery of programmes is concerned, WEFO is leading best practice across the EU. It has already strengthened its evaluation arrangements at programme and project level for current programmes. However, it is important that we are moving forward in reducing bureaucracy and streamlining processes. For example, WEFO has re-designed its application and appraisal process for the 2007-13 programmes. I am sure that that will also be welcomed as a result of the Finance Committee report, which considered issues around reducing bureaucracy, streamlining and integration. It is also important to learn lessons in procurement and get better at it, as has been the case across the Welsh Government. That has been helped, of course, by the Welsh Government's review of public sector procurement, which completed last year. It is important that we recognise, in terms of the investment priorities, the opportunities that we have, the guiding principles in terms of concentrating resources, better integration of EU funds, and simplifying access to funds. That will be important in terms of the focus that we will place in terms of infrastructure. It is also important that we recognise that the regional split is different from what we had anticipated in terms of west Wales and the Valleys and east Wales. We have to ensure that there is a cross-over and synergy in terms of that regional split in terms of programme development. That will particularly apply to infrastructure projects.

The final question about match funding is challenging in relation to the spending rounds and the opportunities that we have. I mentioned the fact that we were looking at intervention rates, given that there is a potential within the draft regulations for us to increase the intervention rates of west Wales and the Valleys programmes by around 10%. We would have to negotiate this change with the European Commission. This has to be an opportunity to have greater flexibility to mitigate potential match funding pressures.

15:42

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

Weinidog, croesawaf yn fawr y datganiad a'r diweddariad ar yr ymgynghoriad yn dilyn adroddiad Guilford. Rwyf hefyd yn croesawu'n fawr eich brawddeg agoriadol yn eich datganiad clir fod bod o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn fuddiol i'r Deyrnas Unedig. Rydym yn deall hynny yng Nghymru—neu o leiaf mae'r rhan fwyaf ohonom yn deall hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sydd yn y Siambr hon yn deall hynny, ac mae'n drueni na allwch chi berswadio'r glymblaid yn San Steffan o hynny.

Rwy'n croesawu'n fawr y trafodaethau rydych wedi'u cael er mwyn diogelu'r cronfeydd ar gyfer Cymru. Mae'r setliad ei hunan yn un i'w groesawu'n fawr, ond fel rwy'n siŵr y byddech yn ei werthfawrogi, rwy'n pryderu am y gostyngiad yn yr arian ar gyfer gorllewin Cymru a hen gymoedd diwydiannol y de. Mae'r gostyngiad o 4% yn y fan honno yn un sylweddol. Gofynnwn i chi ystyried sut y gallwch sicrhau bod yr arian sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er mwyn ceisio sicrhau nad yw'r gostyngiad hwnnw'n effeithio'n ormodol ar y buddsoddiad.

Mae'n bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu. O ran cyflenwi rhaglenni, mae WEFO yn arwain arfer gorau ledled yr UE. Mae eisoes wedi cryfhau ei threfniadau arfarnu ar lefel rhaglenni a phrosiectau ar gyfer rhaglenni cyfredol. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn symud ymlaen o ran lleihau biwrocratiaeth a symleiddio prosesau. Er enghraifft, mae WEFO wedi ail-lunio ei phroses gwneud ceisiadau a gwerthuso ar gyfer rhaglenni 2007-13. Rwyf yn siŵr y caiff hynny hefyd ei groesawu yn sgil adroddiad y Pwyllgor Cyllid, a oedd yn ystyried materion yn ymwneud â lleihau biwrocratiaeth, symleiddio ac integreiddio. Mae hefyd yn bwysig dysgu gwersi am gaffael a'i wneud yn well, fel sydd wedi bod yn wir ar draws Llywodraeth Cymru. Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o gaffael yn y sector cyhoeddus, a gwblhawyd y llynedd, wedi bod o gymorth yn hynny o beth, wrth gwrs. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod, o ran y blaenoriaethau buddsoddi, y cyfleoedd sydd gennym, yr egwyddorion arweinïol o ran crynodi adnoddau, integreiddio cronfeydd yr UE yn well, a symleiddio mynediad at gyllid. Bydd hynny'n bwysig o ran y pwyslais y byddwn yn ei roi o ran seilwaith. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn cydnabod bod y rhaniad rhanbarthol yn wahanol i'r hyn yr oeddem wedi'i ddisgwyl o ran y gorllewin a'r Cymoedd ac o ran y dwyrain. Rhaid inni sicrhau bod gorgyffwrdd a synergedd o ran y rhaniad rhanbarthol hwnnw wrth ddatblygu rhaglenni. Bydd hynny'n arbennig o berthnasol i brosiectau seilwaith.

Mae'r cwestiwn olaf am arian cyfatebol yn heriol o ran y cylchoedd gwariant a'r cyfleoedd sydd gennym. Soniais am y ffaith ein bod yn edrych ar gyfraddau ymyrryd, o gofio bod potensial o fewn y rheoliadau drafft inni i gynyddu cyfraddau ymyrryd rhaglenni'r gorllewin a'r Cymoedd oddeutu 10%. Byddai'n rhaid inni drafod y newid hwn â'r Comisiwn Ewropeaidd. Rhaid i hyn fod yn gyfle i sicrhau mwy o hyblygrwydd i liniaru pwysau posibl o ran arian cyfatebol.

Minister, I greatly welcome this statement and the update on the consultation following the Guilford report. I also greatly welcome the opening sentence of your clear statement that being within the European Union is of benefit to the United Kingdom. We understand that in Wales—or at least most of us do. Most of us who are in the Chamber understand that, and it is a shame that you cannot also persuade the coalition in Westminster of that.

I welcome greatly the discussions that you have had to safeguard the funds for Wales. The settlement itself is to be greatly welcomed but, as I am sure that you will appreciate, I am concerned about the reduction in money for west Wales and the old industrial valleys of the south. A 4% reduction there is a substantial one. We ask you to consider how you can ensure that the money that remains is used effectively in order to ensure that that reduction does not have an excessive impact on the investment.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Nodaf eich cyfeiriad at arian cyfatebol. Wrth gwrs, byddem yn dadlau y dylai Cymru edrych yn fanwl iawn ar y posibiladau a'r potensial sy'n codi o weithgaredd y Banc Buddsoddi Ewrop yn y fan hon. Rydych wedi cydnabod bod y setliad ariannol y mae'r Cynulliad yn ei dderbyn, yn enwedig o ran arian cyfalaf, yn ei gwneud hi'n anodd. Mae hynny'n sicr yn treiddio i lawr i lefel yr awdurdodau lleol, oherwydd yr effeithir ar y setliad maent yn ei dderbyn wrthym ni gan hynny. Mae Banc Buddsoddi Ewrop yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol yn y fan hon. Yn wir, fe all ei bresenoldeb fel partner yn rhai o'r prosiectau a rhaglenni hyn sicrhau hefyd fod modd cael telerau sydd hyd yn oed yn fwy ffafriol am fuddsoddiadau o'r sector preifat.

Felly, rwy'n croesawu'n fawr yr hyn sydd yn y datganiad hwn, ac yn eich llongyfarch chi a'ch rhagflaenydd am eich trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Rwyf hefyd yn falch iawn o weld bod Llywodraeth Cymru yn dal i ddatgan yn glir bod Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd yn beth llesol yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

I also note your reference to match funding. Of course, I would argue that Wales should look carefully at the possibilities and potential that arise from the activity of the European Investment Bank in this sense. You have acknowledged that the financial settlement that the Assembly receives, particularly in terms of capital funds, makes it difficult. That certainly filters down to the local authority level, because the settlement that they receive from us is affected by that. The European Investment Bank does offer genuine opportunities in this context. Indeed, its presence as a partner in some of the projects and programmes could ensure even more favourable terms for investment from the private sector.

Therefore, I welcome greatly the contents of the statement, and I congratulate you and your predecessor on your discussions with the United Kingdom Government. I am very pleased to see that the Welsh Government continues to maintain that Wales as part of the European Union is beneficial in both an economic and cultural context.

15:45

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My very strategic message as the Minister for Finance is, again, to say how important the European Union is to Wales, as it is to the success of the UK, and to know that this is a message that resonates and is received in terms of the response not just from communities, but from business and the private sector in particular in Wales, along with the recognition of access to the single market and the clear benefits of trade and investment. Of course, I think that we have a very clear responsibility as Ministers, and I welcome your support for pressing home the message about the benefits that we get from our membership of the European Union. In fact, only this morning, I met a group from one of the many European territorial co-operation partnerships that we are engaged with, with member states and regions from member states across the European Union. It is about recognising that, as a result of that, we are investing, through our structural funds, in many innovative and pioneering research and development projects, involving Pembrokeshire and Bangor University, which relate to our economic and energy needs, and which also benefit those partners that are engaged across the European Union.

It is also very important to recognise that we have worked hard to deliver a better settlement for Wales as a result of intergovernmental negotiations, as a result of being proactive in recognising that we faced a potential reduction of £400 million for Wales. However, the UK Government has delivered a fairer, more equitable settlement, in that parts of the UK should take a 5% cut in its structural funds budget settlement. As a result of that, we now have that better outcome of an allocation of just over £2 billion. However, I would say that it has resulted in a difficulty in how we manage the regional allocations.

Fy neges strategol iawn fel Gweinidog Cyllid, unwaith eto, yw dweud pa mor bwysig yw'r Undeb Ewropeaidd i Gymru, ac i llyddiant y DU, a fy mod yn gwybod bod hon yn neges sy'n taro deuddeg ac yn cael ei derbyn o ran yr ymateb nid yn unig gan gymunedau, ond gan fusnesau a'r sector preifat yn benodol yng Nghymru, ynghyd â chydnabod mynediad i'r farchnad sengl a manteision amlwg masnach a buddsoddi. Wrth gwrs, rwyf yn credu bod gennym gyfrifoldeb clir iawn fel Gweinidogion, ac rwyf yn croesawu eich cefnogaeth i bwysleisio'r neges am fanteision bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Yn wir, dim ond y bore yma, cyfarfûm â grŵp o un o'r nifer o bartneriaethau cydweithredu tiriogaethol Ewropeaidd yr ydym yn ymwneud â hwy, sy'n cynnwys aelod-wladwriaethau a rhanbarthau o aelod-wladwriaethau o bob rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n fater o gydnabod ein bod, yn sgil hynny, yn buddsoddi, drwy ein cronfeydd strwythurol, mewn llawer o brosiectau ymchwil a datblygu arloesol, sy'n cynnwys Prifysgol Bangor a sir Benfro, sy'n ymwneud â'n hanghenion economaidd a'n hanghenion ynni, ac sydd hefyd o fudd i'r partneriaid hynny yr ydym yn ymgysylltu â hwy ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

Mae hefyd yn bwysig iawn cydnabod ein bod wedi gweithio'n galed i sicrhau setliad gwell i Gymru o ganlyniad i drafodaethau rhynglywodraethol, drwy fod yn rhagweithiol o ran cydnabod ein bod yn wynebu gostyngiad posibl o £400 miliwn i Gymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno setliad tecach, mwy cyfartal, oherwydd dylai rhannau o'r DU gymryd toriad 5% yn eu setliad cyllideb cronfeydd strwythurol. O ganlyniad i hynny, mae gennym yn awr ganlyniad gwell, sef dyraniad ychydig dros £2 biliwn. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud ei fod wedi peri anhawster o ran y ffordd yr ydym yn rheoli'r dyraniadau rhanbarthol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would just say, however, that we then have to look at every opportunity to ensure that there is synergy, and, of course, I have commented on that already, in terms of the ways in which we develop backbone projects in particular, which are part of the recommendations in Grahame Guilford's report. There are also the infrastructure developments, in terms of the split that I have already announced between the ERDF and the ESF across west Wales and the Valleys and east Wales.

I would say that I welcome very much the work that you have done as a member of the Committee of the Regions in accessing European Investment Bank funding, which is already benefiting many strategic projects in Wales, while also recognising that this can also feature in terms of infrastructure opportunities for finance, and that, of course, is important to our Wales infrastructure investment plan.

15:49

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, I welcome the statement made by the Minister. I think that we must all acknowledge the importance of European structural funding to Wales. I am obviously very disappointed in the reduction in funding for west Wales and the Valleys, which includes Swansea. However, I must say that I support the investment priorities of the Government.

I have three questions. What is being done to reverse the reduction in ESF-funded college courses outlined to the Finance Committee earlier this year? What proportion of the research and innovation work will be done in conjunction with Welsh universities? Thirdly, will energy investments support non-traditional renewable energy production—that is, tidal and geothermal?

15:49

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges for his questions. As for the important decisions that will have to be made as we develop our programmes, their impact on the investment priorities are very clear in terms of our structural funds. In terms of research and innovation being a key investment priority, we do not intend to change that, and, of course, we not only recognise sustainable energy and energy efficiency as a key investment priority, but we have to reflect that as we now move towards the programmes that we will be approving as we move forward with the regulations in the weeks to come.

We also recognise that we have to look at the issues raised in terms of the European social fund, and certainly I would hope to respond to that in due course. The important decision that we have made in terms of aligning the European social fund with tackling poverty through sustainable employment is a key change, and a key step forward in terms of a more strategic approach to using our European social fund. I am sure that you will agree that the split that we have agreed in terms of ERDF and ESF in west Wales and the Valleys—the 60:40 split in resources—and then increasing the ESF share in east Wales will be important in terms of tackling poverty through sustainable employment. Clearly, that will then help us and steer us in terms of the way forward in preparing the programmes, which will be announced later this year.

Hoffwn ddweud, fodd bynnag, fod yn rhaid inni edrych ar bob cyfle i sicrhau synergedd, ac, wrth gwrs, rwyf wedi gwneud sylwadau am hynny eisoes, o ran y ffyrdd yr ydym yn datblygu prosiectau asgwrn cefn yn arbennig, sy'n rhan o'r argymhellion yn adroddiad Grahame Guilford. Mae datblygiadau seilwaith hefyd, o ran y rhan ydym yn wyf eisoes wedi'i gyhoeddi rhwng yr ERDF a'r ESF ar draws y gorllewin a'r Cymoedd, a'r dwyrain.

Rhaid imi ddweud fy mod yn croesawu'n fawr y gwaith yr ydych wedi'i wneud fel aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau i gael gafael ar arian Banc Buddsoddi Ewrop, sydd eisoes o fudd i lawer o brosiectau strategol yng Nghymru, a chydabod hefyd y gall hyn hefyd fod yn ystyriaeth o ran cyfleoedd seilwaith o ran cyllid, sydd, wrth gwrs, yn bwysig i'n cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.

Yn gyntaf oll, croesawaf ddatganiad y Gweinidog. Rwyf yn meddwl bod yn rhaid inni i gyd gydnabod pwysigrwydd cyllid strwythurol Ewropeaidd i Gymru. Wrth gwrs, rwyf yn siomedig iawn ynghylch y gostyngiad yn y cyllid i'r gorllewin a'r Cymoedd, sy'n cynnwys Abertawe. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud fy mod yn cefnogi blaenoriaethau buddsoddi'r Llywodraeth.

Mae gennyf dri chwestiwn. Beth sy'n cael ei wneud i wrthdroi'r gostyngiad mewn cyrsiau coleg a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a amlinellwyd i'r Pwyllgor Cyllid yn gynharach eleni? Pa gyfran o'r gwaith ymchwil ac arloesi a gaiff ei wneud ar y cyd â phrifysgolion Cymru? Yn drydydd, a fydd buddsoddiadau ynni'n cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn ffyrdd nad ydynt yn draddodiadol—hynny yw, y llanw a geothermal?

Diolch i Mike Hedges am ei gwestiynau. O ran y penderfyniadau pwysig y bydd yn rhaid eu gwneud wrth inni ddatblygu ein rhaglenni, mae eu heffaith ar y blaenoriaethau buddsoddi'n glir iawn o ran ein cronfeydd strwythurol. O ran ymchwil ac arloesi fel blaenoriaeth fuddsoddi allweddol, nid ydym yn bwriadu newid hynny, ac, wrth gwrs, rydym nid yn unig yn cydnabod ynni cynaliadwy ac effeithlonrwydd ynni fel blaenoriaeth fuddsoddi allweddol, ond rhaid inni adlewyrchu hynny wrth inni symud yn awr tuag at y rhaglenni y byddwn yn eu cymeradwyo wrth inni symud ymlaen â'r rheoliadau yn ystod yr wythnosau i ddod.

Rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid inni edrych ar y materion a godwyd o ran cronfa gymdeithasol Ewrop, ac yn sicr byddwn yn gobeithio ymateb i hynny maes o law. Mae'r penderfyniad pwysig yr ydym wedi'i wneud o ran alinio'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd â threchu tloidi drwy gyflogaeth gynaliadwy yn newid allweddol, ac yn gam allweddol ymlaen o ran dull mwy strategol o ddefnyddio ein cronfa gymdeithasol Ewropeaidd. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno y bydd y rhan ydym wedi cytuno arno o ran ERDF ac ESF yn y gorllewin a'r Cymoedd—y rhan ydym yn cydnabod mewn adnoddau—ac yna gynyddu cyfran ESF yn y dwyrain yn bwysig o ran trechu tloidi drwy gyflogaeth gynaliadwy. Yn amlwg, bydd hynny o gymorth inni ac yn ein llywio o ran y ffordd ymlaen wrth baratoi'r rhaglenni, a gaiff eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I thank the Minister for her statement today and for iterating the importance of EU membership to Wales and the UK. Of course, my own parliamentary colleagues are very much signed up to that view, and if you could just persuade your Westminster colleagues of the same, we would really be getting somewhere. I welcome the fact that we now have a £2 billion budget across the whole of Wales to deliver the programmes. This money has the potential to have a transformative effect on the Welsh economy, but the trick is to convert that potential into reality if this really is to be the last time we are classed as having one of the poorest regions in Europe. Critical to that, as you have identified in the past, Minister, is developing a greater role for the private sector: long-term sustainable jobs that do not have to be supported by public sector funding will come from the private sector, and a growing and improving private sector in Wales is what we would all wish to see.

I note that of the 126 consultation responses that you have published, only 19 were from the private sector. That is only 15%. Are you content that this is an adequate proportion? Are these 19 private sector responses representative of all parts of west Wales and the Valleys and east Wales? Do you have responses from companies in each of Wales's target sectors for economic development?

If you want to make sure that the private sector in Wales fully buys into the opportunity, what more will you do to engage with it as you are developing the programmes? Obviously, this is a relatively small amount at the moment. I would also ask about the sector events that the Welsh Government supported. The events for the public and third sector were led by their own representative bodies, so why was the one for businesses led by a Welsh Government department?

With regard to establishing a Wales programme monitoring committee, I am wondering if you can give us a progress update on appointments to that committee and, particularly, a timetable for when you expect that to be completed. Will the committee be designing its own monitoring and research mechanisms, or is that something that the Welsh Government will deliver, as a strategic framework, on its behalf?

Looking at your infrastructure investment priorities, when will you be publishing targets in terms of infrastructure improvements, business, competitive research and innovation, energy, helping people into work and improving skills? When will you be publishing targets for those? Finally, with the new programme due to begin next year, what baseline measurements have been taken already, and are being taken at present, to allow you to measure percentage change in these priorities objectively, accurately and credibly?

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw ac am bwysleisio pa mor bwysig yw hi fod Cymru a'r DU yn aelodau o'r UE. Wrth gwrs, mae fy nghyd-weithwyr seneddol i'n bendant yn cyd-fynd â'r farn honno, ac os gallech berswadio eich cyd-weithwyr chithau yn San Steffan i fod o'r un farn, byddem yn cymryd camau breision. Croesawaf y ffaith fod gennym bellach gyllideb o £2 biliwn ledled Cymru i gyflenwi'r rhaglenni. Mae potensial i'r arian hwn gael effaith drawsffurfiol ar economi Cymru, ond y gamp yw troi'r potensial hwnnw'n realiti os mai dyma'r tro olaf yn wir inni gael ein hystyried yn rhywle sy'n cynnwys un o'r rhanbarthau tlotaf yn Ewrop. Un elfen hanfodol o hynny, fel yr ydych wedi'i nodi yn y gorffennol, Weinidog, yw datblygu mwy o rôl i'r sector preifat: bydd swyddi cynaliadwy hirdymor nad ydynt yn gorfod cael eu cefnogi gan gyllid sector cyhoeddus yn dod o'r sector preifat, ac mae sector preifat sy'n tyfu ac yn gwella yng Nghymru yn rhywbeth y byddem i gyd yn hoffi ei weld.

Nodaf mai dim ond 19 o'r 126 o ymatebion i'r ymgynghoriad yr ydych wedi'u cyhoeddi a ddaeth o'r sector preifat. Dim ond 15% yw hynny. A ydych yn fodlon bod hon yn gyfran ddiagonol? A yw'r 19 ymateb hyn gan y sector preifat yn gynrychioliadol o bob rhan o'r gorllewin a'r Cymoedd, a'r dwyrain? A oes gennych ymatebion gan gwmnïau ym mhob sector yng Nghymru a gafodd ei dargedu ar gyfer datblygu economaidd?

Os ydych am wneud yn siŵr bod y sector preifat yng Nghymru'n gwbl ymroddedig i'r cyfle, beth arall y byddwch yn ei wneud i ymgysylltu â'r sector wrth ichi ddatblygu'r rhaglenni? Yn amlwg, mae hwn yn swm cymharol fach ar hyn o bryd. Hoffwn ofyn hefyd am ddiwyddiadau'r sectorau a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd digwyddiadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector eu harwain gan eu cyrff cynrychioliadol eu hunain, felly pam y cafodd y digwyddiad i fusnesau ei arwain gan un o adrannau Llywodraeth Cymru?

O ran sefydlu pwyllgor monitro rhaglenni Cymru, tybed a allwch roi'r newyddion diweddaraf inni am y penodiadau i'r pwyllgor hwnnw ac, yn benodol, amserlen ar gyfer pryd yr ydych yn disgwyl y bydd hynny wedi'i gwblhau. A fydd y pwyllgor yn llunio ei fecanweithiau monitro ac ymchwil ei hun, ynteu a yw hynny'n rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu, fel fframwaith strategol, ar ei ran?

A throi at eich blaenoriaethau buddsoddi mewn seilwaith, pryd y byddwch yn cyhoeddi targedau o ran gwella isadeiledd, busnes, ymchwil ac arloesi cystadleuol, ynni, helpu pobl i gael gwaith a gwella sgiliau? Pryd y byddwch yn cyhoeddi targedau ar gyfer y pethau hynny? Yn olaf, a'r rhaglen newydd yn dechrau y flwyddyn nesaf, pa fesuriadau sylfaenol sydd eisoes wedi'u cymryd, ac sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd, er mwyn caniatáu ichi fesur newid canrannol yn y blaenoriaethau hyn yn wrthrychol, yn gywir ac yn gredadwy?

I thank Eluned Parrott for her support for the proactive role that we are playing as a Welsh Government in Europe. That was certainly welcomed in my recent visit to Brussels, and I was also pleased to invite the Minister for Europe, David Lidington, to visit Cardiff, and he has accepted that invitation as a result of a very constructive joint ministerial committee that was held with devolved administrations very recently.

In terms of the response from the private sector, I think that you must recognise, as I know that you do, this sector's active engagement not only in the existing programme monitoring committee, but in the European funding partnership forum. It is also actively engaged through Business Wales, which led the consultation. Business Wales represents the social partnership of the private sector, and, in terms of its representation of the private sector, it is rooted in business and industry.

I also recognise Grahame Guilford's review, which focuses on an economic prioritisation framework. Importantly, this has been reflected in the meetings that I have attended where the private sector has noted the importance of the background projects, for example, and the opportunities to concentrate resources. There are also economic opportunities to align private finance with the smart specialisation strategy, 'Innovation Wales' and the Wales infrastructure plan. These initiatives are all welcomed by the private sector.

I have already responded to the questions about the single programme monitoring committee. The membership will be drawn up through a public appointments process. Clearly, that will include the private sector as well.

In terms of the backbone projects that will take us forward, these build on the strategic approach already used for current programmes. They will also enable us to look not just at opportunities in terms of modern apprenticeships and Jobs Growth Wales, but at JEREMIE and its successor, and at access to new financial opportunities.

It is important that we also respond to useful common themes that have come from the Enterprise and Business Committee in terms of strengthening links between our policies on innovation, science and infrastructure. We will be moving forward with our programme development. The preparations are under way, with detailed development as a result of this consultation. We are on track in terms of submitting operational programmes in parallel with the UK partnership agreement this autumn. I can then clearly lay out the targets in terms of the milestones for the next stage.

Diolch i Eluned Parrott am ei chefnogaeth i'r rhan ragweithiol yr ydym yn ei chwarae fel Llywodraeth Cymru yn Ewrop. Yn sicr, croesawyd hynny yn ystod fy ymweliad diweddar â Brwsel, ac roeddwn hefyd yn falch o wahodd y Gweinidog dros Ewrop, David Lidington, i ymweld â Chaerdydd, ac mae wedi derbyn y gwahoddiad hwnnw yn sgil pwyllgor gweinidogol ar y cyd adeiladol iawn a gynhaliwyd gyda gweinyddiaethau datganoledig yn ddiweddar iawn.

O ran yr ymateb gan y sector preifat, rwyf yn meddwl bod yn rhaid ichi gydnabod, fel y gwn eich bod yn ei wneud, ymgysylltiad gweithredol y sector hwn nid yn unig yn y pwyllgor monitro rhaglenni sy'n bodoli eisoes, ond yn y fforwm partneriaeth cyllid Ewropeaidd. Mae hefyd yn cymryd rhan weithredol drwy Fusnes Cymru, a arweiniodd yr ymgynghoriad. Mae Busnes Cymru'n cynrychioli partneriaeth gymdeithasol y sector preifat, ac, o ran cynrychioli'r sector preifat, mae ei wreiddiau ym myd busnes a diwydiant.

Rwyf hefyd yn cydnabod adolygiad Grahame Guilford, sy'n canolbwyntio ar fframwaith blaenoriaethu economaidd. Yn bwysig iawn, mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y cyfarfodydd yr wyf wedi'u mynychu lle mae'r sector preifat wedi nodi pwysigrwydd y prosiectau cefndir, er enghraifft, a'r cyfleoedd i ganolbwyntio adnoddau. Ceir cyfleoedd economaidd hefyd i alinio cyllid preifat â'r strategaeth arbenigo craff, 'Arloesedd Cymru' a chynllun seilwaith Cymru. Mae'r sector preifat yn croesawu'r mentrau hyn i gyd.

Rwyf eisoes wedi ymateb i'r cwestiynau am yr un pwyllgor monitro rhaglenni. Caiff yr aelodau eu dewis drwy broses penodiadau cyhoeddus. Yn amlwg, bydd hynny'n cynnwys y sector preifat hefyd.

O ran y prosiectau asgwrn cefn a fydd yn mynd â ni ymlaen, mae'r rhain yn adeiladu ar y dull strategol a ddefnyddir eisoes ar gyfer rhaglenni cyfredol. Byddant hefyd yn ein galluogi i edrych nid yn unig ar gyfleoedd o ran prentisiaethau modern a Thwf Swyddi Cymru, ond ar JEREMIE a'i olynydd, ac ar fanteisio ar gyfleoedd ariannol newydd.

Mae'n bwysig ein bod hefyd yn ymateb i themâu cyffredin defnyddiol a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Menter a Busnes o ran cryfhau'r cysylltiadau rhwng ein polisiau ar arloesedd, gwyddoniaeth a seilwaith. Byddwn yn symud ymlaen â'n gwaith o ddatblygu rhaglenni. Mae'r paratodau ar y gweill, gyda datblygiad manwl o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn. Rydym ar y trywydd iawn o ran cyflwyno rhaglenni gweithredol ochr yn ochr â chytundeb partneriaeth y DU yr hydref hwn. Yna byddaf yn gallu amlinellu'r targedau'n glir o ran y cerrig milltir ar gyfer y cam nesaf.

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is good to hear that there is such unanimity of purpose around the successful negotiations that you have managed to have on Europe, Minister. Had we left this to David Cameron, it would have left us with a £400 million reduction in structural funds, rather than the £130 million that we have obtained. Congratulations to you and Derek Vaughan; I know that you have worked hard to obtain the money that we need for these regions in Europe.

I was disturbed to get an e-mail from Derek Vaughan saying that the other three Members of the European Parliament from Wales had not voted for the successful settlement that you have obtained, and that this could delay the release of funds. Could you clarify how big a risk that might be and what it says about how hard these other three MEPs are working to ensure that Wales gets the best possible deal from Europe?

Mae'n dda clywed bod ymdeimlad mor unfrydol o bwrpas o ran y trafodaethau llwyddiannus yr ydych wedi llwyddo i'w cael am Ewrop, Weinidog. Pe baem wedi gadael hyn i David Cameron, byddai wedi ein gadael â gostyngiad o £400 miliwn yn y cronfeydd strwythurol, yn hytrach na'r £130 miliwn yr ydym wedi'i gael. Llongyfarchiadau i chi ac i Derek Vaughan; gwn eich bod wedi gweithio'n galed i gael yr arian sydd ei angen arnom ar gyfer y rhanbarthau hyn yn Ewrop.

Roedd e-bost a gefais oddi wrth Derek Vaughan, yn dweud nad oedd tri Aelod arall Cymru o Senedd Ewrop wedi pleidleisio o blaid y setliad llwyddiannus yr ydych wedi'i gael, ac y gallai hyn achosi oedi o ran rhyddhau'r arian, yn peri gofid imi. A allech egluro pa mor fawr y gallai'r risg hwnnw fod a'r hyn y mae'n ei ddweud am ba mor galed y mae'r tri ASE arall hyn yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n cael y fargen orau bosibl o Ewrop?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Jenny Rathbone—you give me the opportunity to congratulate Derek Vaughan MEP. I have to say that having met with all of the European MEPs for Wales, except for the UK Independence Party MEP—I have been unable to meet with him, although I have met him in another context—they have all praised Derek Vaughan. He has had a particular role in terms of taking forward the financial arrangements and negotiations. I think that we would all, across the Chamber, want to congratulate Derek Vaughan on the role that he has played.

However, it is also important to recognise that, although we have succeeded in ensuring that we got that better deal and that we did not have that potential £400 million reduction, it was as a result of intensive lobbying not just by Welsh Ministers, but by MEPs like Derek Vaughan; I am sure that other MEPs also played their part. As a result of that we now have, overall for 2014, over £2 billion that will be invested in Wales through the European Union. As you quite rightly say, last week it was the European Parliament that had to vote on the agreement that was reached the previous week at Council level, and I regret that Derek Vaughan MEP was the only Welsh MEP who voted for that budget in Parliament last week. However, let us take this forward across this Chamber as recognition that we have that £2 billion.

We have a very full response to the consultation. We have a fit-for-purpose monitoring authority. We have learned many lessons and we have benefited from the work that has been done by committees across this Assembly to improve the way that we move forward in the next phase of programmes, and, indeed, we will have a single programme monitoring committee that will be recruited through a full Nolan public appointments process. We should look forward now to ensuring that Wales benefits and contributes to the European Union in the way that we would all wish.

Diolch, Jenny Rathbone—rydych wedi rhoi cyfle imi i longyfarch Derek Vaughan ASE. Rhaid imi ddweud, ar ôl cwrdd â phob ASE Ewropeaidd dros Gymru, ac eithrio'r ASE o Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig—nid wyf wedi gallu cwrdd ag ef, er fy mod wedi cwrdd ag ef mewn cyd-destun arall—eu bod i gyd wedi canmol Derek Vaughan. Roedd ganddo swyddogaeth benodol o ran bwrw ymlaen â'r trafodaethau a'r trefniadau ariannol. Credaf y byddem i gyd, ar draws y Siambr, yn awyddus i longyfarch Derek Vaughan ar y rhan y mae wedi'i chwarae.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod, er ein bod wedi llwyddo i sicrhau ein bod yn cael y fargen well honno ac na chawsom y gostyngiad posibl hwnnw o £400 miliwn, fod hynny o ganlyniad i lobio dyfal nid yn unig gan Weinidogion Cymru, ond gan Aelodau o Senedd Ewrop fel Derek Vaughan; rwyf yn siŵr bod Aelodau Seneddol Ewropeaidd eraill wedi chwarae eu rhan. O ganlyniad i hynny mae gennym yn awr, ar y cyfan ar gyfer 2014, dros £2 biliwn a gaiff ei fuddsoddi yng Nghymru drwy'r Undeb Ewropeaidd. Fel y dywedwch, yr wythnos diwethaf, bu'n rhaid i Senedd Ewrop bleidleisio ar y cytundeb a gafwyd yr wythnos flaenorol ar lefel y Cyngor, ac mae arnaf ofn mai Derek Vaughan ASE oedd yr unig ASE o Gymru a bleidleisiodd o blaid y gyllideb honno yn y Senedd yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, gadewch inni fwrw ymlaen â hyn ar draws y Siambr hon i gydnabod bod gennym y £2 biliwn hwnnw.

Mae gennym ymateb llawn iawn i'r ymgynghoriad. Mae gennym awdurdod monitro addas i'r diben. Rydym wedi dysgu llawer o wersi, ac rydym wedi elwa o'r gwaith sydd wedi ei wneud gan bwyllgorau ar draws y Cynulliad hwn i wella'r ffordd yr ydym yn symud ymlaen yn y cyfnod nesaf o raglenni, ac, yn wir, bydd gennym un pwyllgor monitro rhaglenni a gaiff ei recriwtio drwy broses penodiadau cyhoeddus Nolan lawn. Dylem edrych ymlaen yn awr at sicrhau bod Cymru'n elwa ac yn cyfrannu at yr Undeb Ewropeaidd yn y ffordd y byddem i gyd yn ei ddymuno.

16:01	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Point of Order, under Standing Order No. 13.9. Jenny Rathbone sought to indicate that Wales's three other MEPs had tried to argue the case for a reduction in money to Europe. I acknowledge the work that Derek Vaughan carried out, but I intentionally did not refer to the work that Jill Evans has done, because I did not want this to become a party political issue. I was happy to congratulate Government Ministers on their work as well. However, the fact of the matter is that Jill Evans was the only MEP to argue against a reduction in the European budget, so it is totally wrong to give the impression that she was not fighting the case for Wales. She was fighting the case for Wales, and I would like the Member to reflect on her statement.</p>	<p>Pwynt o Drefn; o dan Reol Sefydlog Rhif 13.9. Ceisiodd Jenny Rathbone awgrymu bod tri ASE arall Cymru wedi ceisio dadlau'r achos o blaid gostyngiad mewn arian Ewropeaidd. Rwyf yn cydnabod y gwaith a wnaeth Derek Vaughan, ond ni chyfeiriais at y gwaith a wnaeth Jill Evans, a hynny'n fwiadol, oherwydd nid oeddwn am i hyn fod yn fater o wleidyddiaeth bleidiol. Roeddwn yn hapus i longyfarch Gweinidogion y Llywodraeth am eu gwaith hwy hefyd. Fodd bynnag, y gwir amdani yw mai Jill Evans oedd yr unig ASE i ddadlau yn erbyn gostyngiad yn y gyllideb Ewropeaidd, felly mae'n gwbl anghywir rhoi'r argraff nad oedd hi'n ymladd dros Gymru. Roedd hi'n ymladd dros Gymru, a hoffwn i'r Aelod fyfyrion ar ei datganiad.</p>
16:02	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>That is not a point of order.</p>	<p>Nid yw hynny'n bwynt o drefn.</p>
16:02	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thought that it was. [Laughter.]</p>	<p>Roeddwn i'n meddwl ei fod. [Chwerthin.]</p>
16:02	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>You have succeeded in putting your view on the matter on the record, which was, perhaps, your only intention.</p>	<p>Rydych wedi llwyddo i roi eich barn am y mater ar gofnod; efallai mai dyna oedd eich unig fwriad.</p>
16:02	Datganiad: Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin	Statement: Reform of the Common Agricultural Policy
	Alun Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food</i></p>	
	<p>The Council of Ministers for agriculture has now reached political agreement on the overall shape of the common agricultural policy for the next seven years. I am pleased that I was able to secure our key negotiating priorities for Welsh farming and to support a package that, taken as a whole, is good for Wales and for Welsh farmers. While there remains further detail to finalise, today, I want to update Members on progress and outline the approach that I will now take on how we implement this agreement in Wales. This follows my statement on CAP reform on 29 January, when I published the latest paper on my extensive conversation with stakeholders.</p>	<p>Mae Cyngor y Gweinidogion amaeth bellach wedi dod i gytundeb gwleidyddol ynglŷn â ffurf gyffredinol y polisi amaethyddol cyffredin ar gyfer y saith mlynedd nesaf. Rwyf yn falch fy mod wedi gallu sicrhau ein blaenoriaethau trafod allweddol ar gyfer ffermio yng Nghymru a chefnogi pecyn sy'n dda, at ei gilydd, i Gymru ac i ffermwyr Cymru. Er bod manylion pellach i'w cwblhau, heddiw, rwyf am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd ac amlinellu fy ymagwedd tuag at y ffordd y byddwn yn rhoi'r cytundeb hwn ar waith yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn fy natganiad ar ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin ar 29 Ionawr, pan gyhoeddais y papur diweddaraf ar fy sgwrs helaeth â rhanddeiliaid.</p>
	<p>Members will be aware that I have placed a great emphasis on representing Wales and our farming and rural communities at Council throughout these negotiations. I have made sure that the agreement took proper account of Wales's agriculture industry, natural environment and economy, delivering on our manifesto pledge to stand up for Wales.</p>	<p>Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod wedi rhoi pwyslais mawr ar gynrychioli Cymru a'n cymunedau ffermio a'n cymunedau gwledig yn y Cyngor drwy gydol y trafodaethau hyn. Rwyf wedi gwneud yn siŵr bod y cytundeb yn rhoi ystyriaeth briodol i ddiwydiant amaeth, amgylchedd naturiol ac economi Cymru, a thrwy hynny wedi cyflawni ein haddewid yn y manifesto i sefyll dros Gymru.</p>

The negotiating process has been lengthy and complex, in part due to a new co-decision process with the Commission, Council and Parliament and against a backdrop of severe budget cuts contained in the EU multi-annual financial framework. We now know that the CAP budget for 2014-20 will fall by €55 billion across the EU's 28 member states, which is a total reduction of 13.2%. It is inevitable that these cuts, which are a result of the UK Government's approach to the EU budget, will have a direct impact on Wales and our rural communities. I am deeply unhappy with this outcome, but it is clear that the overall CAP budget will continue to be eroded into the future. It is, therefore, essential that we work with farming businesses to help them to prepare for times when public funding is likely to be even lower.

The Council for agriculture and the European Parliament have agreed that there must be significant progress towards payments to farmers being on an area basis, in place of the increasingly irrelevant historic entitlements that distort the market and are a barrier to new entrants. Greening proposals remain at the core of reforms; it is right that the natural resources that support food production receive greater protection across the EU. I am pleased that many subsidiary features of the payments package have been kept optional and that we have discretion to make our own choices. The important issue of making sure that support goes only to active farmers has also been addressed. I also welcome the recognition that there should be a limit to the level of public support that any farmer should receive. Crucially, the regulations will take account of the United Kingdom's constitutional arrangements, so that the devolved administrations can develop and operate their own schemes.

These decisions, along with the very positive response to my spring conversation, the many discussions that we have held with the farming community, and the constructive dialogue at Wales's first farming conference, held in May, mean that we are now in a strong position to prepare for implementation of the new direct payments regime from January 2015. I have already stated that my approach will be based on transparency, fairness and delivering on our manifesto and programme for government commitments to underpin rural communities and to invest in a sustainable future for Welsh agriculture.

A number of key points emerged from the CAP conversation with stakeholders. There was broad recognition that we need to move to an area-based payment system, but, inevitably, there were differing views about the speed of the transition and the form that the new arrangements should take. Some organisations argued for a slow and gradual pace of change, but a significant group of other respondents urged us to push on quickly with the reform process. There was widespread support that more should be done to help young and new people enter the industry, and the further move away from coupling payments to production was widely endorsed. The industry recognised that farming must become more sustainable, but were concerned that greening requirements should be introduced in such a way as to keep Welsh farming competitive compared with other parts of the UK or EU.

Mae'r broses drafod wedi bod yn un hir a chymhleth, yn rhannol oherwydd proses gyd-benderfynu newydd â'r Comisiwn, y Cyngor a'r Senedd ac yn erbyn cefndir o doriadau llym i'r gyllideb yn fframwaith ariannol aml-flwydd yr UE. Rydym bellach yn gwybod y bydd gostyngiad o €55 biliwn yng nghyllideb y PAC ar gyfer 2014-20 ledled 28 aelod-wladwriaeth yr UE, sy'n ostyngiad cyfansymiol o 13.2%. Mae'n anochel y bydd y toriadau hyn, sy'n ganlyniad i ymagwedd Llywodraeth y DU tuag at gyllideb yr UE, yn cael effaith uniongyrchol ar Gymru a'n cymunedau gwledig. Rwyf yn hynod anhapus â'r canlyniad hwn, ond mae'n amlwg y bydd cyllideb gyffredinol y PAC yn parhau i gael ei herydu yn y dyfodol. Mae'n hollbwysig, felly, ein bod yn gweithio gyda busnesau ffermio er mwyn eu helpu i baratoi at adegau pan fydd cyllid cyhoeddus yn debygol o fod hyd yn oed yn is.

Mae'r Cyngor amaeth a Senedd Ewrop wedi cytuno bod yn rhaid cymryd camau sylweddol tuag at roi taliadau i ffermwyr sy'n seiliedig ar arwynebedd, yn lle'r hawliau hanesyddol cynyddol amherthnasol sy'n ystumio'r farchnad ac yn rhwystr i newydd-ddyfodiaid. Mae cynigion gwyrdd yn dal i fod wrth wraidd y diwygiadau, ac mae'n iawn fod yr adnoddau naturiol sy'n cefnogi'r gwaith o gynhyrchu bwyd yn cael eu diogelu'n well ledled yr UE. Rwyf yn falch bod llawer o nodweddion ychwanegol y pecyn taliadau wedi eu cadw'n ddewisol a bod gennym ddisgresiwn i wneud ein dewisiadau ein hunain. Mae mater pwysig sicrhau mai dim ond ffermwyr gweithredol sy'n cael cymorth wedi cael sylw hefyd. Rwyf hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth y dylai fod terfyn ar lefel y cymorth cyhoeddus y dylai unrhyw ffermwr ei dderbyn. Yn allweddol, bydd y rheoliadau'n ystyried trefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, er mwyn i'r gweinyddiaethau datganoledig allu datblygu a gweithredu eu cynlluniau eu hunain.

Mae'r penderfyniadau hyn, ynghyd â'r ymateb cadarnhaol iawn i'm sgwrs yn y gwanwyn, y trafodaethau niferus yr ydym wedi'u cynnal â'r gymuned ffermio, a'r ddeialog adeiladol yng nghynhadledd ffermio gyntaf Cymru, a gynhaliwyd ym mis Mai, yn golygu ein bod bellach mewn sefyllfa gref i baratoi i roi'r drefn taliadau uniongyrchol newydd ar waith o fis Ionawr 2015. Rwyf eisoes wedi datgan y bydd fy ymagwedd wedi ei seilio ar dryloywder, tegwch a chyflawni ymrwymadau ein manifesto a'n rhaglen lywodraethu i gynnal cymunedau gwledig a buddsoddi mewn dyfodol cynaliadwy i amaethyddiaeth yng Nghymru.

Daeth nifer o bwyntiau allweddol i'r amlwg yn y sgwrs ynglŷn â'r PAC â rhanddeiliaid. Roedd cydnabyddiaeth eang fod angen inni symud tuag at system o daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd, ond, yn anochel, roedd gwahaniaeth barn ynglŷn â chyflymder y newid a'r math o drefniadau newydd y dylid eu sefydlu. Roedd rhai sefydliadau'n dadlau dros newid araf a graddol, ond roedd grŵp sylweddol o ymatebwyr eraill yn ein hannog i fwrw ymlaen yn gyflym â'r broses ddiwygio. Roedd cefnogaeth eang i'r farn y dylid gwneud mwy i helpu pobl ifanc a phobl newydd i ddechrau yn y diwydiant, a chymeradwyaeth eang i'r syniad o symud ymhellach i ffwrdd oddi wrth yr arfer o gysylltu taliadau â chynhyrchiant. Roedd y diwydiant yn cydnabod bod yn rhaid i ffermio fod yn fwy cynaliadwy, ond roedd o'r farn y dylai gofynion gwyrdd gael eu cyflwyno mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod ffermio yng Nghymru'n dal i fod yn gystadleuol o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU neu'r UE.

It is my intention to move to a formal consultation on the main elements of the direct payments system and the specific decisions that I intend to take. Work is under way on the detail, and I will launch the consultation at the Royal Welsh Show on 23 July. The main issues that I will consult on include: a payment system that will be made up of land categories, recognising the different characteristics and productivity of different parts of Wales; the timescale and rate for a move to completely area-based payments; how I will use the new payment capping provisions; my proposals for greening; my intentions regarding the optional elements of the package for small farmers, coupling and the transfer of budgets between pillar 1 and pillar 2 to support the next rural development plan, although I will not take final decisions on transfers until we understand the budgets available to us. I am keen to continue the direct conversation with the whole of the farming community, and with other interested parties, so I will be holding a further series of meetings across the whole of Wales in September and October.

My goal is to use the reform to help strengthen farm businesses' resilience, to make them more economically and environmentally sustainable, to support and build supply chains, and win new markets for our food. Direct payments must be used to best effect, but should not stand alone. The two pillars of CAP need to work together more effectively. The RDP will have a strong focus both on the competitiveness of agricultural and rural businesses—investing in jobs and growth and helping tackle poverty—but also on protecting and enhancing our natural environment. These two aspects can and must go hand in hand. I will build on the excellent Farming Connect programme, our strengths in knowledge transfer and innovation support services, including the LEADER approach at local level, and our existing agri-environment schemes. I shall also be working with the Minister for Finance to secure co-ordinated investment through the European structural and investment funds to help shape the future of Welsh farming and rural Wales.

The new CAP period offers farm businesses the opportunity to start adjusting for a future beyond 2020, when public funding and public support is likely to be even lower. I understand that change can sometimes be difficult and that some people will not find this process easy, but the alternative—to do little or ignore what lies ahead—would be worse. I believe that Welsh agriculture has a great future. We produce world-class produce and world-class products from a wonderful natural environment. The challenge today is to put in place the structures that will enable us to succeed tomorrow. I believe that Welsh agriculture will both relish and rise to that challenge, and I look forward to working with our farmers and the wider rural community to help them do so.

Fy mwriad yw cynnal ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â phrif elfennau'r system taliadau uniongyrchol a'r penderfyniadau penodol yr wyf yn bwriadu eu cymryd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y manylion, a byddaf yn lansio'r ymgynghoriad yn Sioe Frenhinol Cymru ar 23 Gorffennaf. Ymhlith y prif faterion y byddaf yn ymgynghori arnynt mae: system dalu a fydd yn cynnwys categorïau tir, gan gydnabod amrywiol nodweddion a chynhyrchiant gwahanol rannau o Gymru; amserlen a chyflymder newid i daliadau sy'n seiliedig yn llwyr ar arwynebedd; sut y byddaf yn defnyddio'r darpariaethau newydd i gapio taliadau; fy nghynigion ar gyfer y gofynion gwyrdd; fy mwriadau ynglŷn â ffurfiol elfennau dewisol y pecyn i ffermwyr bach, cysylltu a throsglwyddo cyllidebau rhwng colofn 1 a cholofn 2 i gefnogi'r cynllun datblygu gwledig nesaf, er na fyddaf yn gwneud penderfyniadau terfynol ynglŷn â throsglwyddiadau hyd nes ein bod yn deall y cyllidebau sydd ar gael inni. Rwyf yn awyddus i barhau â'r sgwrs uniongyrchol â'r holl gymuned ffermio, a chyda charfanau eraill sydd â diddordeb, felly byddaf yn cynnal cyfres arall o gyfarfodydd ledled Cymru ym mis Medi a mis Hydref.

Fy nod yw defnyddio'r diwygiadau i gynorthwyo i gryfhau gwytnwch busnesau fferm, er mwyn eu gwneud yn fwy cynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol, i gefnogi ac adeiladu cadwyni cyflenwi, ac ennill marchnadoedd newydd ar gyfer ein bwyd. Rhaid i daliadau uniongyrchol gael eu defnyddio yn y ffordd orau, ond ni ddylent fod yn annibynnol. Mae angen i ddwy golofn y PAC weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol. Bydd y cynllun datblygu gwledig yn canolbwyntio'n gryf ar natur gystadleuol busnesau amaethyddol a busnesau gwledig—buddsoddi mewn swyddi a thwf a helpu i fynd i'r afael â thlodi—ond hefyd ar warchod a gwella ein hamgylchedd naturiol. Mae'n rhaid i'r ddwy agwedd fynd law yn llaw ac fe allant wneud hynny. Byddaf yn adeiladu ar y rhaglen Cyswllt Ffermio ragorol, ein cryfderau o ran trosglwyddo gwybodaeth a gwasanaethau cefnogi arloesedd, gan gynnwys y dull LEADER ar lefel leol, a'n cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol. Byddaf hefyd yn gweithio gyda'r Gweinidog Cyllid i sicrhau buddsoddiad wedi ei gydlynu drwy gronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd i helpu i lunio dyfodol ffermio yng Nghymru a chefn gwlad Cymru.

Mae cyfnod newydd y PAC yn gyfle i fusnesau fferm ddechrau addasu ar gyfer dyfodol y tu hwnt i 2020, pan fydd cyllid cyhoeddus a chymorth cyhoeddus yn debygol o fod hyd yn oed yn is. Rwyf yn deall y gall newid fod yn anodd weithiau ac na fydd y broses hon yn ym hawdd i rai pobl, ond byddai'r dewis arall—gwneud ychydig neu anwybyddu'r hyn sydd o'n blaenau—yn waeth. Credaf fod dyfodol gwych i amaethyddiaeth yng Nghymru. Rydym yn cynhyrchu cynnyrch o'r radd flaenaf a chynhyrchion o'r radd flaenaf mewn amgylchedd naturiol gwych. Yr her heddiw yw sefydlu'r strwythurau a fydd yn ein galluogi i lwyddo yfory. Rwyf yn credu y bydd amaethyddiaeth yng Nghymru'n mwynhau ac yn ymateb i'r her honno, ac rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda'n ffermwyr a'r gymuned wledig ehangach i'w helpu i wneud hynny.

Thank you, Minister, for your statement. I know that these negotiations have been going on for a long time and have been particularly difficult because of the new procedure in the European Union, particularly around co-decision making. I would like to pay tribute as well to the work of the former Secretary of State, Caroline Spelman, and her Minister, Jim Paice, and, of course, the current Secretary of State, Owen Paterson, and David Heath, his Minister for farming, for the role that they played in the negotiations.

Minister, I am glad to hear that you are going to be making the announcement on 23 July regarding the consultations. Perhaps you could provide us with some details of what you are looking at in terms of Glastir in light of the agreement on greening. Can you confirm how many farms in Wales are likely to be affected by greening proposals as agreed? I know that your Government has been carrying out extensive modelling work. Will you be putting that modelling work into an easily understandable format, so that farmers can understand the findings and use them to inform their responses to the consultation that you are announcing?

On the agreement for the transition from the historic payments to area-based payments, and the requirement that all farmers should receive 60% of the national average payment per hectare by 2019, what new modelling will you be commissioning to assess the impact of this on different farm businesses? Can you confirm whether it is your intention to use the option available to prevent farmers—dairy farmers in particular—from losing more than 30% of their payments, which is one of the matters raised?

In terms of what were formerly called the less favoured areas, now called areas of natural constraint designation, you will be aware of the widely held concerns about the competitive disadvantages that Welsh farmers face because of the decision to remove LFA support under Tir Mynydd. Can you confirm what consideration and priority you are giving to introducing a scheme for areas of natural constraint designation? Will that be something that you will be consulting on, because that, of course, does not fall under the agri-environment model? What modelling work will you be commissioning to assess the number of Welsh farms previously included under the LFA designation that would subsequently qualify under areas of natural constraint?

I note your goal to make the farm businesses more resilient and more economically and environmentally sustainable, and particularly to win new markets for food. In terms of adding value, Minister, much marketing activity requires access to broadband. How closely are you working with the Minister for Economy, Science and Transport to make sure that the not spots and, of course, the slow spots, with very limited speeds, are dealt with quickly as a matter of priority in order that all farmers can have the opportunity to market their produce via the internet?

Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad. Rwyf yn gwybod bod y trafodaethau hyn wedi bod yn mynd rhagddynt ers tro byd a'u bod wedi bod yn arbennig o anodd oherwydd y weithdrefn newydd yn yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig o ran gwneud cyd-benderfyniadau. Hoffwn dalu teyrnged hefyd i waith y cyn Ysgrifennydd Gwladol, Caroline Spelman, a'i Gweinidog, Jim Paice, ac, wrth gwrs, i'r Ysgrifennydd Gwladol presennol, Owen Paterson, a David Heath, ei Weinidog amaeth, am eu rhan yn y trafodaethau.

Weinidog, rwyf yn falch o glywed y byddwch yn gwneud y cyhoeddiad ar 23 Gorffennaf ynghylch yr ymgynghoriadau. Efallai y gallech roi rhai manylion inni am yr hyn yr ydych yn ei ystyried o safbwynt Glastir yng ngoleuni'r cytundeb ar y gofynion gwyrdd. A allwch gadarnhau faint o ffermydd yng Nghymru y mae'r cynigion gwyrdd y cytunwyd arnynt yn debygol o effeithio arnynt? Gwn fod eich Llywodraeth wedi bod yn gwneud gwaith modelu helaeth. A fyddwch yn cyflwyno'r gwaith modelu hwnnw ar ffurf hawdd ei deall, fel y gall ffermwyr ddeall y canfyddiadau a'u defnyddio i lywio eu hymatebion i'r ymgynghoriad yr ydych yn ei gyhoeddi?

Ynglŷn â'r cytundeb ar gyfer y cyfnod pontio rhwng y taliadau hanesyddol a'r taliadau ar sail arwynebedd, a'r gofyniad y dylai pob ffermwr dderbyn 60% o'r taliad cyfartalog cenedlaethol fesul hectar erbyn 2019, pa foddelau newydd fyddwch chi'n eu comisiynu i asesu effaith hyn ar wahanol fusnesau fferm? A allwch gadarnhau a ydych yn bwriadu defnyddio'r opsiwn sydd ar gael i atal ffermwyr—a ffermwyr llaeth yn benodol—rhag colli mwy na 30% o'u taliadau, sy'n un o'r materion a godwyd?

O ran yr hyn a elwid gynt yn ardaloedd llai ffafriol, a elwir bellach yn ardaloedd â chyfyngiadau naturiol, byddwch yn ymwybodol o'r pryderon eang am yr anfanteision cystadleuol y mae ffermwyr Cymru'n eu hwynebu oherwydd y penderfyniad i gael gwared ar y cymorth i ardaloedd llai ffafriol dan Tir Mynydd. A allwch gadarnhau pa flaenoriaeth ac ystyriaeth yr ydych yn eu rhoi i gyflwyno cynllun ar gyfer ardaloedd â chyfyngiadau naturiol? A fydd hynny'n rhywbeth y byddwch yn ymgynghori ynglŷn ag ef, oherwydd nad yw hynny, wrth gwrs, yn dod o dan y model amaeth-amgylcheddol? Pa waith modelu fyddwch chi'n ei gomisiynu i asesu nifer y ffermydd yng Nghymru a oedd wedi eu cynnwys gynt o dan y dynodiad Ardaloedd Llai Ffafriol a fyddai'n cyfrif fel ardaloedd â chyfyngiadau naturiol?

Nodaf eich nod o wneud busnesau fferm yn fwy gwydn ac yn fwy cynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol, ac yn arbennig o ennill marchnadoedd newydd ar gyfer bwyd. O ran ychwanegu gwerth, Weinidog, mae llawer o weithgarwch marchnata'n gofyn am allu defnyddio band eang. Pa mor agos ydych chi'n gweithio gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i sicrhau yr ymdrinnir â'r manau gwan ac, wrth gwrs, y manau araf, sydd â chyflymder cyfyngedig iawn, yn gyflym ac fel mater o flaenoriaeth, er mwyn i bob ffermwr gael cyfle i farchnata ei gynnyrch trwy gyfrwng y rhyngwrdd?

Finally, in terms of tackling poverty, I note that none of the rural areas is designated as a Communities First area by the Welsh Government in terms of poverty designation. I wondered whether you will be looking at that in the RDP. Clearly, that has been something that we have been calling for, namely that there is an opportunity to look at programmes that tackle rural poverty on a basis of measurement that the Welsh Government does not use at the moment. It seems to me that, if you are going to look at that, you will have to work closely with other Ministers, as part of the rural-proofing agenda of the Welsh Government. I look forward to your answers.

Yn olaf, o ran trechu tlodi, sylwaf nad oes dim o'r ardaloedd gwledig wedi eu dynodi'n ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru o ran dynodiad tlodi. Tybed a fyddwch yn edrych ar hynny yn y cynllun datblygu gwledig. Yn amlwg, rydym wedi bod yn galw am hynny, sef cyfle i edrych ar raglenni sy'n mynd i'r afael â thlodi gwledig ar sail mesur nad yw Llywodraeth Cymru'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos i mi, os ydych yn mynd i edrych ar hynny, y bydd yn rhaid ichi weithio'n agos gyda Gweinidogion eraill, fel rhan o agenda prawfesur gwledig Llywodraeth Cymru. Edrychaf ymlaen at eich atebion.

16:14 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Conservative spokesperson, or perhaps I should say the Member for the United Kingdom Government in the way that she approaches some of these matters. [Interruption.]

Diolchaf i lefarydd y Ceidwadwyr, neu efallai y dylwn ddweud yr Aelod dros Lywodraeth y Deyrnas Unedig oherwydd y ffordd y mae'n ymdrin â rhai o'r materion hyn. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. She is a Member for North Wales, as the Minister well knows, and has every right to put her questions.

Trefn. Aelod dros Ogledd Cymru yw hi, fel y gwyr y Gweinidog yn dda, ac mae ganddi bob hawl i ofyn ei chwestiynau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:14 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Your point is made.

Rydych wedi gwneud eich pwynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of response on Glastir, the greening proposals as agreed, will, of course, impact all Welsh farms that claim direct payments under pillar 1. The greening proposals that now form a part of the overall architecture of the new CAP will, I believe, be sufficiently flexible to enable Welsh farms to meet the requirements under the new pillar 1 regime, while at the same time delivering some real benefits for the Welsh environment. I am particularly pleased that we have won the argument to enable farmers who are part of an agri-environment scheme, who have a Glastir contract, to be treated as equivalents, which will enable them to receive direct payments as part of pillar 1. We have got all the agreements that we sought on greening as part of pillar 1, which I believe is a good agreement for Welsh agriculture.

O ran ymateb ynglŷn â Glastir, bydd y cynigion gwyrdd y cytunwyd arnynt, wrth gwrs, yn effeithio ar holl ffermydd Cymru sy'n hawlio taliadau uniongyrchol o dan golofn 1. Rwyf o'r farn y bydd y cynigion gwyrdd sydd bellach yn rhan o bensaerniaeth gyffredinol y PAC newydd yn ddigon hyblyg i alluogi ffermydd Cymru i fodloni'r gofynion o dan drefn newydd colofn 1, a dod â rhai manteision gwirioneddol i amgylchedd Cymru ar yr un pryd. Rwyf yn arbennig o falch ein bod wedi ennill y ddatlled i alluogi ffermwyr sy'n rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol, sydd â chontract Glastir, i gael eu trin yn gyfartal, a fydd yn eu galluogi i dderbyn taliadau uniongyrchol fel rhan o golofn 1. Rydym wedi cael yr holl gytundebau yr oeddem am eu cael o safbwynt y cynigion gwyrdd fel rhan o golofn 1, ac rwyf yn credu bod hynny'n gytundeb da i amaethyddiaeth Cymru.

In terms of the overall modelling work that the Member asked about, we will produce a ready reckoner on our websites to enable individual farmers to understand how different payment systems might impact on their individual businesses. At the moment, much of this work will depend on the overall budget agreement, the overall payment rates and the relationship between the different payment rates that we finally agree on.

O ran y gwaith modelu cyffredinol yr oedd yr Aelod yn gofyn amdano, byddwn yn llunio canllaw cyflym ar ein gwefannau er mwyn i ffermwyr allu deall sut y gallai gwahanol systemau talu effeithio ar eu busnesau unigol. Ar hyn o bryd, mae llawer o'r gwaith hwn yn dibynnu ar y gyllideb gyffredinol y cytunir arni, y cyfraddau talu cyffredinol a'r berthynas rhwng y gwahanol gyfraddau talu y byddwn yn cytuno arnynt yn y pen draw.

The Member asked about an ANC scheme for those farms located in what is currently designated as a less favoured area. At the moment, we do not know what our budgets will be. We know that the Conservative-Liberal cuts will hit farmers across the whole Wales, but we do not yet know how that will impact on them. When we have taken decisions on different payment rates, we will be able to model the impacts in different parts of Wales, on different farming systems and in different sectors. At that point, we will understand what level of public support is available to individual farmers in different parts of the country, and we will be able to consider whether we need an individual ANC scheme. I have said repeatedly since I have held this office that I have an open mind on these matters, and I continue to have an open mind on these matters. However, the way in which we balance the different payment rates will need to be transparent. I can see that the leader of the opposition would not necessarily support transfers from pillar 1 to pillar 2 to pay for an ANC scheme, and his reticence is repeated elsewhere. We will consider these different matters as part of an overall debate on payment rates and different models. When we understand the impact on individual farms, we will be in a position to understand whether additional funding and support are necessary. One of my objectives, as I have stated many times in this Chamber, is to ensure that no farm or farmer loses more than about 10% of their public support at any one time. We recognise that some payment rates and payment systems might lead to considerable impacts on intensive beef and dairy cattle systems. We recognise that, and we are continuing to carry out modelling to understand what that impact might be.

In terms of other matters, I am working closely with the Minister for environment in terms of broadband. One of the reasons why I have made announcements on the move to a wholly online system is to reduce the administration and bureaucracy that farmers have to face, and we will ensure that broadband is available to enable them to do that.

I note the Member's concern about issues regarding rural poverty. In that regard, I would simply invite her to vote for the next piece of legislation.

16:19

Llyr Huws Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad. Nid wyf yn credu mai chi yw'r unig un sy'n anhapus am safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyllideb yr Undeb Ewropeaidd. I mi, mae hynny'n cryfhau'r angen i Gymru gael llais uniongyrchol wrth fwrdd yr Undeb Ewropeaidd, felly edrychwn ymlaen at glywed am eich cefnogaeth i hynny.

Gofynnodd yr Aelod am y cynllun ardaloedd â chyfyngiadau naturiol ar gyfer y ffermydd hynny sydd mewn mannau sydd wedi eu dynodi ar hyn o bryd yn ardaloedd llai ffafriol. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod beth fydd ein cyllidebau. Rydym yn gwybod y bydd toriadau'r Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr yn effeithio ar ffermwyr ledled Cymru, ond nid ydym yn gwybod eto sut y bydd hynny'n effeithio arnynt. Pan fyddwn wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwahanol gyfraddau talu, byddwn yn gallu modelu'r effeithiau mewn gwahanol rannau o Gymru, ar wahanol systemau ffermio ac mewn gwahanol sectorau. Bryd hynny, byddwn yn deall pa lefel o gymorth cyhoeddus fydd ar gael i ffermwyr unigol mewn gwahanol rannau o'r wlad, a byddwn yn gallu ystyried a oes angen cynllun ardaloedd â chyfyngiadau naturiol unigol arnom. Rwyf wedi dweud dro ar ôl tro ers dechrau'r swydd hon fod gennyf feddwl agored ar y materion hyn, ac mae gennyf feddwl agored o hyd ar y materion hyn. Fodd bynnag, bydd angen bod yn dryloyw ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn cydbwysu'r gwahanol gyfraddau talu. Gallaf weld na fyddai arweinydd yr wrthblaid o reidrwydd yn cefnogi trosglwyddiadau o golofn 1 i golofn 2 i dalu am gynllun ardal â chyfyngiadau naturiol, a gwelir ei amharodrwydd mewn meysydd eraill hefyd. Byddwn yn ystyried y gwahanol faterion hyn fel rhan o ddaidl gyffredinol ynghylch cyfraddau taliadau a gwahanol fodolau. Pan fyddwn yn deall yr effaith ar ffermydd unigol, byddwn mewn sefyllfa i ddeall a oes angen cyllid a chymorth ychwanegol. Un o fy amcanion, fel yr wyf wedi dweud droeon yn y Siambr hon, yw sicrhau na fydd yr un fferm neu ffermwr yn colli mwy na tua 10% o'u cymorth cyhoeddus ar unrhyw adeg. Rydym yn cydnabod y gallai rhai cyfraddau talu a systemau talu effeithio gryn dipyn ar systemau gwartheg eidion a gwartheg godro dwys. Rydym yn cydnabod hynny, ac rydym yn parhau i wneud gwaith modelu er mwyn deall yr effeithiau posibl.

O ran materion eraill, rwyf yn gweithio'n agos gyda Gweinidog yr Amgylchedd ar y materion sy'n ymwneud â band eang. Un o'r rhesymau dros wneud fy nghyhoeddiadau am y newid i system sy'n gyfan gwbl ar-lein yw lleihau'r gwaith gweinyddol a'r fiwrocratiaeth y mae ffermwyr yn gorfod eu hwynebu, a byddwn yn sicrhau bod band eang ar gael i'w galluogi i wneud hynny.

Nodaf bryder yr Aelod ynghylch materion yn ymwneud â thlodi gwledig. Yn hynny o beth, byddwn yn ei gwahodd i bleidleisio dros y darn nesaf o ddeddfwriaeth.

Thank you, Minister, for the statement. I do not think that you are the only one who is unhappy about the UK Government's position on the European Union's budget. For me, that strengthens the need for Wales to have a direct voice at the European Union's table, so we look forward to hearing your support for that.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n croesawu'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi ymgynghoriad ac y bydd hwnnw yn cael ei lansio yn yr wythnosau nesaf. Bydd ystod eang o bynciau lle bydd amrywiaeth barn fawr yn bodoli. Felly, a allwch ddweud ychydig mwy am natur yr ymgynghoriad, oherwydd os yw'n rhy benagored, y perygl yw y bydd yr ymatebion yn cael eu polareiddio, ac y bydd yn anodd dod i gasgliad ynglŷn â chonsensus? Er enghraifft, a fyddwch chi fel Llywodraeth yn awgrymu man cychwyn ar y pynciau hyn? Mae rhywun yn rhagweld efallai y bydd polareiddio sylweddol yn y ddadl o gwmpas symud arian o biler 1 i biler 2, dweder. Felly, a fyddwch chi, fel man cychwyn, yn awgrymu beth fydd dymuniad y Llywodraeth neu beth yr ydych chi'n ystyried fel opsiwn penodol? A fyddwch chi'n cychwyn o sefyllfa lle mae llechen lân, neu a fyddwch chi'n sicrhau bod ffocws ar symud i gyfeiriadau penodol ar rai o'r materion y bydd ymgynghori arnynt?

Rydych chi wedi cyfeirio ac mae cwestiynau wedi cael eu gofyn am y gwaith modelu sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau bod trafodaeth wybodus yn digwydd o gwmpas rhai o'r pynciau hyn. Yr hyn sy'n bwysig, fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, yw bod y wybodaeth honno ar gael yn gyhoeddus, mewn da bryd, fel ei bod yn gallu cynorthwyo cyfraniadau pobl i'r ymgynghoriad. Felly, mae nifer o bethau sydd angen eu gwneud, ond y pwynt byddwn i'n leicio ei wneud yw bod angen bod y wybodaeth ar gael mewn pryd, neu'r perygl yw y bydd y drafodaeth yn digwydd mewn rhyw fath o 'vacuum'.

Mae rhywun yn rhagweld y bydd diwygio CAP yn cynnig cyfle i wneud diwygiadau i gynllun Glastir yng ngoleuni'r diwygiadau ehangach. Mae'ch datganiad yn sôn am adeiladu ar raglenni amaeth-amgylcheddol presennol. A allwch sôn wrthym ychydig ynglŷn â sut yr ydych chi'n rhagweld y bydd hynny'n digwydd, ac efallai pa broses ymgynghorol y byddwch chi'n ei fabwysyadau ar gyfer hynny? Er enghraifft, a fydd hynny'n rhan o'r drafodaeth a'r ymgynghoriad a fydd yn cael ei lansio yn y sioe? Mae cyfeiriad wedi bod at newid y disgrifiad o fod yn ardaloedd llai ffatriol i fod yn ardaloedd o gyfyngiadau naturiol. Mae'ch datganiad yn sôn am drefn daliadau yn seiliedig ar categorïau tir, ac rwy'n cymryd mai dyna sydd gennych mewn golwg yn hynny o beth. A ydych chi'n rhagweld bod modd, mewn egwyddor—roeddech yn dweud nad oedd posibilrwydd gwybod nes ein bod yn gwybod faint yw'r gyllideb—i fedru ailgyfeirio taliadau sy'n cydnabod y pwysau ychwanegol sy'n dod yn sgîl amaethu ar dir sydd bellach yn cael ei adnabod fel ardal o gyfyngiad naturiol? Os ydych chi, a yw hynny'n rhywbeth yr ydych yn disgwyl delio ag ef yn y modd y byddwch chi'n symud ymlaen fel Llywodraeth?

I gloi, Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn leicio ymuno â fi i longyfarch llywyddiaeth yr Iwerddon o'r Undeb Ewropeaidd, oherwydd roedd nifer o bobl yn dweud na fyddai modd cael cytundeb ar y polisi amaethyddol cyffredin, ond, er tegwch, maen nhw wedi llwyddo i gyflawni'r hyn yr oedd rhai pobl yn dweud ei fod yn amhosibl.

I welcome the fact that you are announcing the consultation and that is to be launched over the next few weeks. There will be a broad range of issues where there will be a great divergence of opinion. Therefore, could I ask you to tell us a little more about the nature of the consultation, because if it is too open-ended, the risk is that the responses will be polarised and it will be difficult to come to any conclusion as to a consensus on those issues? For example, will you as a Government suggest a starting point on these issues? One would anticipate perhaps that there will be significant polarisation in the debate in terms of shifting funds from pillar 1 to pillar 2, for example. So, as a starting point, will you be suggesting what the Government's aspiration would be or what you are considering as a particular option? Will you be starting with a clean slate, or will you ensure that there is a focus on moving in certain directions on some of the issues that will be consulted on?

You have referred to and questions have already been asked on the modelling work that will be required to ensure that there is an informed debate around some of these issues. What is important, as part of that consultation, is that the information should be publicly available, in good time, so that it can assist people in responding to the consultation. So, there are a number of things that need to be done, but the point that I would like to make is that we need to ensure that the information is available in good time, or the risk is that the debate will happen in some sort of vacuum.

One would anticipate that CAP reform will provide opportunities to make changes to the Glastir scheme in the light of the wider reforms. Your statement mentions building on current agri-environment schemes. Can you tell us a little as to how you anticipate that happening, and what consultation process you will adopt for that? For example, is that going to be included in the discussion and the consultation that you are to launch at the Royal Welsh? There has been reference already to changing the description from being less favoured areas to areas of natural constraint. Your statement talks about a payment system based on land categories, and I assume that that is what you have in mind there. Do you anticipate that there will be a means, in principle—you said that it would be impossible to know until we know what the scale of the budget is—of redirecting payments that recognise the additional pressures that come from farming on lands that are now designated as areas of natural constraint? If you do, is that something that you would expect to be dealt with as you move forward as a Government?

To conclude, Minister, I am sure that you would like to join me in congratulating the Irish presidency of the EU, because many people were saying that it would be impossible to reach agreement on the common agricultural policy, but, in fairness, they have achieved what some people thought was impossible.

Fe wnaif i ddechreu gyda dy bwynt olaf di. Ces i air â Simon Coveney ar ddiwedd y drafodaeth yn Luxembourg, ac fe wnes i siglo ei law a'i longyfarch ar y gwaith a wnaeth ef. Fe wnaeth ef waith aruthrol, rwy'n meddwl, yn arwain y cyngor trwy drafodaethau anodd tu hwnt dros y misoedd diwethaf. Rwy'n credu bod pobl ar draws y cyfandir yn cytuno bod yr Iwerddon wedi llywio'r trafodaethau mewn ffordd arbennig o dda. Rwy'n credu bod pobl ar draws Ewrop yn gwerthfawrogi'r gwaith mae Simon Coveney wedi ei wneud fel Gweinidog, a'i swyddogion a Llywodraeth Iwerddon, yn y ffordd maen nhw wedi arwain y broses.

Trwy hynny, rwyf hefyd yn cytuno â chi a'ch dadansoddiad o'r cyfraniad y gallwn ei wneud i'r Undeb Ewropeaidd. Mae aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd a chytundeb ar gyllideb a fydd yn ein galluogi i fuddsoddi yn y cymunedau mwyaf bregus ar draws Ewrop yn hynod o bwysig. Rwy'n gwybod ein bod yn gweld llygad yn llygad pan mae'n dod at amddiffyn y gyllideb Ewropeaidd. Rwy'n gwybod eich bod yn rhannu'r siom rwy'n ei deimlo bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi arwain y galwadau am doriadau i biler 1 a philer 2, ac mae pobl ar draws Cymru a fydd yn dioddef oherwydd hynny dros y blynyddoedd nesaf.

Rydych wedi gofyn aboutu natur yr ymgynghoriad: ni fydd yr ymgynghoriad yn hollol ben agored. Yn amlwg, rydym yn dod i sefyllfa lle'r ydym yn gweithredu polisiâu ac nid trafod polisi. Pan ddaw, er enghraifft, at 'payment rates' ar draws Gymru a'r nifer o 'rates' gwahanol y byddwn yn eu cael, rwy'n credu y byddai'n anodd cyfiawnhau cael un 'rate' ar gyfer Cymru gyfan. Byddai hefyd yn anodd cyfiawnhau cael mwy na thri 'rate' gwahanol ar draws Cymru, oherwydd nid ydym eisiau gormod o 'complexity' yn y system chwaith. Felly, yn amlwg, mae fy meddwl yn dechrau symud tuag at benderfyniadau, a dyna pam rwyf eisiau cynnal y drafodaeth hon nawr gyda phobl er mwyn sicrhau, pan wyf yn dod i wneud penderfyniadau cyn y Nadolig, y byddwn yn gwybod bod gennym gefnogaeth ar draws Cymru ar gyfer y penderfyniadau hynny.

Ar yr un pryd, rwy'n credu fy mod i wedi penderfynu fy mod eisiau gweithredu system gapio yng Nghymru. Nid wyf yn credu ein bod yn gallu cyfiawnhau taliadau uchel iawn i fusnesau ffermio. Nid wyf yn credu bod unrhyw un yn y fan hon sy'n mynd i ddadlau dros y system bresennol, felly, rwy'n cymryd ein bod yn mynd i weithredu polisi o'r fath.

Mae'n rhaid i ni weithredu polisi ffermwyr ifanc. Byddai wedi bod yn well gennyf weld hynny yn rhan o biler 2. Mae'n rhan o biler 1 ac mae'n rhaid i ni drafod sut rydym yn mynd i wneud hynny. Rwy'n cytuno â'r polisi ar 'active farmers', ond mae'n rhaid i ni wedyn benderfynu a ydym eisiau ychwanegu ato yng Nghymru. Dyna'r fath o ymgynghoriad rydym yn mynd i'w gael.

I will start with your last point. I had a word with Simon Coveney at the end of the negotiation in Luxembourg, and I shook his hand and congratulated him on the work that he had done. He did great work, I think, in leading the council through very difficult negotiations over the last few months. I think that people across the continent agree that Ireland steered those negotiations in an extremely good way. I think that people across Europe appreciate the work that Simon Coveney has done as Minister, and his officials and the Irish Government, in the way that they led the process.

Through that, I also agree with you in terms of your analysis of the contribution that we can make to the European Union. Membership of the EU and agreement on a budget that will allow us to invest in the most vulnerable communities across Europe are very important. I know that we see eye when it comes to protecting the European budget. I know that you share the disappointment that I feel that the UK Government has led the calls for cuts to pillar 1 and pillar 2, and people across Wales will be suffering because of that over the years to come.

You have asked about the nature of the consultation: the consultation will not be completely open-ended. Evidently, we are coming to a situation where we are implementing policies and not discussing policy. When it comes to, for example, payment rates across Wales and the number of different rates that we will have, I believe that it would be difficult to justify having one rate for the whole of Wales. It would also be difficult to justify having more than three rates across Wales, because we do not want too much complexity in the system either. So, evidently, my mind is starting to move towards decisions and that is why I want to have this discussion now, in order to ensure that when I come to make these decisions before Christmas, we will know that we have support across Wales for those decisions.

At the same time, I think that I have decided that I want to implement a capping system in Wales. I do not think that we can justify having very high payments to farming businesses. I do not think that anyone here is going to argue in favour of the current system, so I take it that we will implement that kind of policy.

We have to implement a policy on young farmers. I would like to have seen that as part of pillar 2. It is part of pillar 1 and we have to discuss how we are going to do that. I agree with the policy on active farmers, but then we have to decide whether we want to add to that in Wales. That is the kind of consultation that we are going to have.

Rwy'n deall pam yr oeddech yn fy ngwthio ar y cwestiwn o arian a symud arian o biler 1 i biler 2. Rwy'n gobeithio nad wyf yn profi'ch amynedd gormod, Llyr, pan wyf yn dweud nad wyf eisiau dechrau trafodaeth felly y prynhawn yma. Nid ydym eto'n gwybod faint o arian rydym yn mynd i'w gael. Rydym yn gwybod ein bod yn mynd i weld gostyngiad yn y gyllideb, ond nid ydym yn deall eto faint o ostyngiad a fydd na beth fydd yr impact ar biler 1 a philer 2. Felly, nes ein bod yn deall hynny, rwy'n credu y byddwn yn camarwain pobl pe bawn yn dechrau cynnal trafodaeth o'r fath.

Yr hyn y byddwn yn trafod bennaf yn y sioe fydd piler 1 a'r system daliadau uniongyrchol, ond roeddech yn hollol iawn, mae'n rhaid i ni ddechrau cynnal trafodaeth amboutu Glastir. Rwy'n mynd i wneud mwy o ddatganiadau ar Glastir cyn diwedd wythnos nesaf pan fyddwn yn mynd i mewn i 'recess' a byddaf yn gwneud datganiad ar sut rwyf yn disgwyl gweld Glastir yn datblygu bryd hynny.

Fodd bynnag, ar eich pwynt olaf—ailgyfeirio taliadau er mwyn cyrraedd nod polisi arbennig—oes, mae modd i ni wneud hynny. Dyna'n union y fath o drafodaeth mae'n rhaid i ni ei chael, achos yn rhy aml rydym wedi bod yn 'transfixed' gan syniadau o gynllun ANC a chynllun LFA. Os mai nod y polisi yw symud arian o'r tir isel i'r ucheldir, rydym yn gallu gwneud hynny drwy 'payment rates', a byddai hynny yn ffordd lot symlach o wneud hynny. Os ydym eisiau gwneud hynny, dyna'r fath o drafodaeth rydym eisiau ei chael, achos bydd hynny'n golygu symud arian o un rhan o Gymru i ran wahanol o'r wlad. Os ydym eisiau gwneud hynny—rwy'n ddigon hapus gwneud—mae'n rhaid bod rheswm dros hynny a rhaid i ni ei wneud mewn ffordd sy'n drylwyr ac yn ddealladwy i bobl. Felly, bydd y bobl a fydd yn colli oherwydd hynny yn deall hynny a bydd y bobl a fydd yn elwa yn deall y cyfrifoldeb sydd ganddynt oherwydd eu bod wedi elwa drwy'r system. Rwy'n hapus i gynnal y drafodaeth a dyna'n union y fath o drafodaeth rwyf eisiau ei chynnal dros yr haf a'r misoedd nesaf. Ar ddiwedd y drafodaeth hon, rwy'n gobeithio y bydd system o daliadau gennym a fydd yn cryfhau amaethyddiaeth Cymru yn mhob man.

I understand why you were pressing me on the question of funding and moving money from pillar 1 to pillar 2. I hope that I do not try your patience too much, Llyr, by saying that I do not want to start that discussion this afternoon. We do not yet know how much money we are going to have. We know that we are going to see a cut in the budget, but we do not know yet how much that will be or what the impact will be on pillar 1 and pillar 2. So, until we understand that, I think that we would be misleading people if we started that discussion now.

Primarily, in the Royal Welsh, we are going to discuss pillar 1 and direct payments, but you are perfectly right that we have to have a discussion about Glastir. I am going to make more statements on Glastir before the end of next week when we go into recess and I will be making a statement on how I expect to see Glastir developing at that time.

However, on your final point—redirecting payments in order to achieve a particular policy objective—yes, it is possible to do that. That is exactly the kind of discussion that we need to have because, far too often, we have been transfixed by ideas of ANC or LFA schemes. If the policy objective is to move money from the lowlands to the uplands, we can do that through payment rates, and that would be a much simpler way of doing that. If we want to do that, that is the kind of discussion that we need to have, because that would mean moving money from one part of Wales to a different part of the country. If we want to do that—and I am happy to do so—there must be a reason for it and we must do it in a way that is transparent and understandable to people, so that the people who will miss out because of that will understand why and the people who benefit will understand the responsibility that they have because they will have benefited through the system. I am happy to have that discussion and that is exactly the kind of discussion that I want to have over the summer and the next few months. At the end of that discussion, I hope that we will have a payment system that will strengthen agriculture in Wales in every sector.

16:28

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

In thanking you for the statement, I would also like to put on record the thanks of the Welsh Liberal Democrat group for the considerable energy and commitment that you have shown in the many months that this process has taken. In the Constitutional and Legislative Affairs Committee yesterday, I think that it is fair to say that you gave a very interesting insight into the way in which you seek to operate as part of the wider UK team to advance Welsh interests, away from the public gaze.

In terms of the settlement, there are a number of very positive elements that we need to acknowledge. The framework is now in place to support Welsh farmers, and it is now down to the Welsh Government to ensure that these decisions are effectively enacted on the ground back home. Over the weekend, you spoke on a number of occasions about the importance of a payment system that is both transparent and fair to the whole of Wales.

Thank you, Minister, for the statement today.

Wrth ddiolch ichi am y datganiad, byddwn hefyd yn hoffi nodi bod grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru'n diolch ichi am yr egni a'r ymrwymiad sylweddol yr ydych wedi'u dangos dros y misoedd lawer y mae'r broses hon wedi para. Yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddoe, rwyf yn meddwl ei bod yn deg dweud eich bod wedi rhoi cipolwg diddorol iawn ar y ffordd yr ydych yn ceisio gweithredu fel rhan o dîm ehangach y DU i hybu buddiannau Cymru, o olwg y cyhoedd.

O ran y setliad, mae nifer o elfennau cadarnhaol iawn y mae angen inni eu cydnabod. Mae'r fframwaith bellach ar waith i gefnogi ffermwyr Cymru, a dyletswydd Llywodraeth Cymru bellach yw sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ar lawr gwlad. Dros y penwythnos, soniasoch ar sawl achlysur am bwysigrwydd system dalu sy'n dryloyw ac yn deg i bob rhan o Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Indeed, I commend that approach, in principle, but I wanted to question you on how you assess this fairness across the wider UK, and, indeed, the wider European Union. Obviously, Welsh farmers are competing with others across the European Union. In many ways, one could argue that competition between member states and regions is more relentless and significant than between farmers of differing agricultural markets within Wales. Surely, if we are truly going to deliver the fairness that you seek, these external competitors must also be taken into account. To that end, I would be grateful if you could outline the work that you are currently undertaking to establish this in the light of the final settlement. Clearly, areas of natural constraint have a major role to play in this, and, again, I welcome the emerging commitment that is evident to help to address the unique challenges that parts of Wales face and await further information on how you feel that this can best be delivered.

One key element of the reform relates to young and new entrant farmers. As you have already acknowledged, it is increasingly difficult to attract the next generation back to the farm, or indeed, to come into farming for the first time. We must do as much as we can to make the industry appealing and sustainable. Further to this, what assessment have you made of the agreed age limit of 40 that has emerged? Naturally, as our national age profile, and the age profile of farmers, changes, more and more young people may wish to explore the opportunity to come into farming or, indeed, to return to the family farm. Are you satisfied that the age limit, as currently set, is the right way to achieve this?

I also want to quickly touch upon optional coupled aid. Given the arguments that there have been about decoupling the CAP, what assessment has been made by the Welsh Government of the agreement to allow member states to grant it in specific special circumstances in the context of Wales? I am thinking, in particular, about the move away from historic payments.

Finally, and more significantly, is the whole issue of milk quotas. Only a year ago, we faced the major disruption and concern that culminated in the negotiations at the Royal Welsh Show. Milk quotas will be up for consultation again in September of this year. Would you please outline how you intend to feed into that process, and will you commit to making a comprehensive statement on these matters in the Chamber when we return from the summer recess?

Yn wir, rwyf yn canmol yr agwedd honno, mewn egwyddor, ond roeddwn am eich holi ynghylch y ffordd yr ydych yn asesu'r tegwch hwn ar draws y DU yn ehangach, ac, yn wir, yr Undeb Ewropeaidd yn ehangach. Wrth gwrs, mae ffermwyr Cymru'n cystadlu ag eraill ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Mewn sawl ffordd, gellid dadlau bod cystadleuaeth rhwng aelod-wladwriaethau a rhanbarthau yn fwy di-baid ac arwyddocaol na rhwng ffermwyr o wahanol farchnadoedd amaethyddol yng Nghymru. Yn sicr, os ydym o ddiffrif am ddarparu'r tegwch yr ydych yn ei geisio, rhaid ystyried y cystadleuwyr allanol hyn hefyd. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'r gwaith yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd i sefydlu hyn yn sgil y setliad terfynol. Yn amlwg, mae gan ardaloedd â chyfyngiadau naturiol swyddogaeth bwysig yn hyn o beth, ac, unwaith eto, rwyf yn croesawu'r ymrwymiad amlwg i helpu i fynd i'r afael â'r heriau unigryw y mae rhannau o Gymru'n eu hwynebu a disgwyliaf wybodaeth bellach ynglŷn â'r modd gorau o ddarparu hyn, yn eich barn chi.

Mae un elfen allweddol o'r diwygiadau'n ymwneud â ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid. Fel yr ydych eisoes wedi'i gydnabod, mae'n mynd yn fwyfwy anodd denu'r genhedlaeth nesaf yn ôl i'r fferm, neu yn wir, i ddod i ffermio am y tro cyntaf. Mae'n rhaid inni wneud cymaint ag y gallwn i wneud y diwydiant yn ddeniadol ac yn gynaliadwy. O ystyried hynny, pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o'r terfyn oedran y cytunwyd arno, sef 40, sydd wedi dod i'r amlwg? Wrth gwrs, wrth i broffil oedran y genedl, a phroffil oedran ffermwyr, newid gallai mwy a mwy o bobl ifanc fod eisiau archwilio'r cyfle i ddod i ffermio neu, yn wir, i ddychwelyd i'r fferm deuluol. A ydych yn fodlon mai'r terfyn oedran sydd wedi'i bennu ar hyn o bryd yw'r ffordd iawn i gyflawni hyn?

Rwyf hefyd am sôn yn gyflym am gymorth cysylltiedig dewisol. O ystyried y dadleuon a fu ynghylch datgysylltu'r PAC, pa asesiad sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru o'r cytundeb i alluogi aelod-wladwriaethau i'w ganiatáu dan amgylchiadau arbennig penodol yng nghyd-destun Cymru? Rwyf yn meddwl, yn benodol, am y symudiad oddi wrth daliadau hanesyddol.

Yn olaf, ac yn fwy arwyddocaol, mae holl fater cwotâu llaeth. Gwta flwyddyn yn ôl, roeddem yn wynebu'r aflonyddwch a'r pryder sylweddol a arweiniodd at y trafodaethau yn Sioe Frenhinol Cymru. Bydd ymgynghoriad eto ynglŷn â'r cwotâu llaeth ym mis Medi eleni. A wnewch chi amlinellu sut yr ydych yn bwriadu cyfrannu at y broses honno, ac a wnewch chi ymrwymo i wneud datganiad cynhwysfawr ar y materion hyn yn y Siambwr pan ddychwelwn ar ôl toriad yr haf?

16:32

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I start by thanking Bill Powell for his very close to complimentary remarks at the beginning of his statement. I thought, perhaps, that you had employed a new speech writer when you started your contribution, Bill.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Bill Powell am ei sylwadau a oedd bron iawn yn ganmoliaethus ar ddechrau ei ddatganiad. Roeddwn yn meddwl, efallai, eich bod wedi cyflogi awdur areithiau newydd pan ddechreuasoch eich cyfraniad, Bill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of where we are, the definition of 'fairness' will obviously differ from person to person. Something that one person regards as being fair might be regarded by another as a terrible unfairness. What I have said is that the decisions that we will take on payment risk will be fair, based on objective criteria, and will be transparent. I think that that is absolutely essential, because, in terms of where we are with CAP, you will know that the Government that you support in London has pursued a policy of significant reductions to pillar 1, which will mean that you and other farmers will see a direct fall in the payments available to you. We therefore need to ensure that the payment systems that we have are fair to everybody. In doing so—as I said in reply to an earlier question from Llyr—we have to recognise what our policy objectives are.

Do we wish to move money from more productive areas to less productive areas? Do we wish to protect a particular farming system or protect all farming systems? Do we wish to move money from one place to another place? Do we wish to move money from the lowlands to the uplands? These are the questions that we will need to ask ourselves as a country. The answers will determine the payment rates and the payment systems that we will define, and the payment framework that we will operate over the next seven years. I have already said in answer to previous questions that I have an open mind on whether we do employ an ANC payment that will be available to us in this next CAP. Whether we do so or not will depend on the analysis of the new budget available to us, and what the payment rates do for individual farm businesses and for different sectors and for different farmers in different geographical areas.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 4.34 p.m.

Alun Davies [Bywgraffiad Biography](#)

It may well be possible—and I believe that it probably will be—to achieve our policy objectives through differential payment rates and through a payment rate system that provides farmers in different parts of Wales with differential support. Clearly, that is something that we will have to review in terms of the modelling, when that is available.

You asked me about the age limit of 40 for young farmers. Obviously, I disagreed with it; I do not believe that simply providing additional support for a young farmer is the best way to support new entrants into agriculture. I prefer, and I argued for, a system of providing new entrants with support, not simply young farmers. That is an argument that we lost at that time.

In terms of where we are going, we have consistently argued that coupled payments are regressive and should be phased out. I am prepared to review coupled payments in terms of a transition from historic to area-based payments, but that, too, will be dependent on the payment rates that we finally agree and the structures in which we operate.

O ran ein sefyllfa ni, bydd diffiniad 'tegwch' yn amlwg yn amrywio o berson i berson. Gallai rhywbeth y mae un person yn ei ystyried yn deg fod yn annhegwch ofnadwy ym marn rhywun arall. Yr hyn yr wyf wedi'i ddweud yw y bydd y penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud ynglŷn â risg taliadau yn rhai teg, yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol, ac yn dryloyw. Credaf fod hynny'n gwbl hanfodol, oherwydd, o ran ein sefyllfa gyda'r PAC, byddwch yn gwybod bod y Llywodraeth yr ydych yn ei chefnogi yn Llundain wedi dilyn polisi o ostyngiadau sylweddol i golofn 1, a fydd yn golygu y byddwch chi a ffermwyr eraill yn gweld gostyngiad uniongyrchol yn y taliadau sydd ar gael i chi. Felly mae angen inni sicrhau bod y systemau talu sydd gennym yn deg i bawb. Wrth wneud hynny—fel y dywedais mewn ateb i gwestiwn cynharach gan Llyr—mae'n rhaid inni gydnabod beth yw ein hamcanion polisi.

A ydym am symud arian o ardaloedd mwy cynhyrchiol i ardaloedd llai cynhyrchiol? A ydym am warchod system ffermio benodol neu warchod yr holl systemau ffermio? A ydym am symud arian o un lle i rywle arall? A ydym am symud arian o'r iseldir i'r ucheldir? Dyma'r cwestiynau y bydd angen inni eu gofyn inni ein hunain fel gwlad. Bydd yr atebion yn pennu'r cyfraddau talu a'r systemau talu y byddwn yn eu diffinio, a'r fframwaith talu y byddwn yn ei weithredu dros y saith mlynedd nesaf. Rwyf eisoes wedi dweud wrth ateb cwestiynau blaenorol fod gennyf feddwl agored ar p'un a ydym yn defnyddio taliad ardaloedd â chyfyngiadau naturiol a fydd ar gael inni yn y PAC nesaf hwn. P'un a ydym yn gwneud hynny neu beidio, bydd yn dibynnu ar y dadansoddiad o'r gyllideb newydd sydd ar gael inni, a'r hyn y mae'r cyfraddau talu'n ei wneud i fusnesau fferm unigol ac i wahanol sectorau a gwahanol ffermwyr mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.

The Presiding Officer took the Chair at 4.34 p.m.

Gall fod yn bosibl—ac rwyf yn credu ei bod yn debyg y bydd—cyflawni ein hamcanion polisi drwy gyfraddau talu gwahaniaethol a thrwy system gyfraddau talu sy'n rhoi cymorth gwahaniaethol i ffermwyr mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn amlwg, mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid inni ei adolygu o ran y modelu, pan fydd ar gael.

Roeddech yn holi am y terfyn oedran o 40 ar gyfer ffermwyr ifanc. Wrth gwrs, roeddwn yn anghytuno ag ef; nid wyf yn credu mai darparu cymorth ychwanegol i ffermwr ifanc a dim byd arall yw'r ffordd orau o gefnogi newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth. Mae'n well gennyf, ac rwyf wedi dadlau dros hynny, system o ddarparu cymorth i newydd-ddyfodiaid, nid dim ond ffermwr ifanc. Mae honno'n ddadl na lwyddasom i'w hennill ar y pryd.

O ran ble yr ydym yn mynd, rydym wedi dadlau'n gyson fod taliadau cysylltiedig yn atchweliadol ac y dylid eu diddymu'n raddol. Rwyf yn barod i adolygu taliadau cysylltiedig o ran newid o daliadau hanesyddol i daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd, ond bydd hynny hefyd yn dibynnu ar y cyfraddau talu y byddwn yn cytuno arnynt yn y pen draw a'r strwythurau yr ydym yn gweithredu oddi mewn iddynt.

16:36

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, thank you for your statement this afternoon. Obviously, the next couple of months are going to be of critical importance, not only to the industry, but to businesses and communities that depend on the industry having a vibrant and profitable future.

Weinidog, diolch am eich datganiad y prynhawn yma. Wrth gwrs, bydd yr ychydig fisoedd nesaf yn hollbwysig, nid yn unig i'r diwydiant, ond i fusnesau a chymunedau sy'n dibynnu ar ddyfodol hyfyw a phroffidiol i'r diwydiant.

At the end of your statement, you said that you were going to have a conversation with the industry, and that you were going to start those discussions at the Royal Welsh Show. Indeed, you said that you are going to go around in September/October and discuss this with farmers face-to-face. Could I have your assurance that you have learned much in your tenure as a Minister? Back in the spring, in your response to the winter crisis that hit the industry, the industry ended up calling for the resignation. So, I very much hope that you will very much listen to the industry and take on board the points that it puts to you, rather than turn a deaf ear and end up alienating the industry, as you did back in the spring.

Ar ddiwedd eich datganiad, dywedasoch eich bod yn mynd i gael sgwrs â'r diwydiant, a'ch bod yn mynd i ddechrau'r trafodaethau hynny yn Sioe Frenhinol Cymru. Yn wir, dywedasoch eich bod yn bwriadu mynd o gwmpas ym mis Medi/Hydref a thrafod hyn â ffermwyr wyneb yn wyneb. A gaf i sicrwydd gennych eich bod wedi dysgu llawer yn ystod eich cyfnod fel Gweinidog? Yn y gwanwyn, yn eich ymateb i'r argyfwng a darodd y diwydiant yn ystod y gaeaf, galwodd y diwydiant am eich ymddiswyddiad. Felly, rwyf yn gobeithio'n fawr y byddwch yn gwrandao ar y diwydiant ac yn derbyn y pwyntiau y mae'n eu cyflwyno ichi, yn hytrach na throi clust fyddar a dieithrio'r diwydiant yn y pen draw, fel y gwnaethoch yn ôl yn y gwanwyn.

16:37

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I was with a number of different industry representatives in Luxembourg at the end of June. The industry representatives—and, I think, the NFU—described the UK Government's approach to agriculture policy as catastrophic, and said that the current incumbents at DEFRA were the biggest disaster for English farmers and the biggest threat to English agriculture that they had ever faced. So, Andrew, let me say this: you called me at the beginning of the problems that we faced with the weather in the spring. You asked me to do two things; I did both within three days. I think that it is only fair that, if we have the sort of relationship in which you can call me and we can speak directly to people, you also acknowledge, Andrew, the speed at which I move. At the time, you told me that you made no criticism at all of my actions.

Roeddwn gyda nifer o wahanol gynrychiolwyr y diwydiant yn Lwcsembwrg ddiwedd mis Mehefin. Roedd cynrychiolwyr y diwydiant—ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr rwyf yn meddwl—yn dweud bod ymagwedd Llywodraeth y DU at bolisiau amaethyddiaeth yn drychinebus, ac mai'r deiliaid presennol yn DEFRA yw'r drychineb fwyaf i ffermwyr Lloegr a'r bygythiad mwyaf i amaethyddiaeth yn Lloegr a wynebwyd ganddynt erioed. Felly, Andrew, gadewch imi ddweud hyn: cefais alwad gennych ar ddechrau'r problemau yr oeddem yn eu hwynebu o ran y tywydd yn y gwanwyn yn gofyn imi wneud dau beth. Gwneuthum y ddau o fewn tridiau. Rwyf yn meddwl ei bod ond yn deg, os oes gennym y math o berthynas lle gallwch fy ffonio a'n bod yn gallu siarad yn uniongyrchol â phobl, y dylech hefyd gydnabod, Andrew, pa mor gyflym yr wyf yn symud. Ar y pryd, dywedasoch wrthyf nad oedd gennych ddim beirniadaeth o gwbl o'm gweithredoedd.

16:38

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for his statement. Of course, I believe that the CAP agreement reached just over a week ago is a positive agreement that gives Wales the framework to allow the implementation of a scheme that can continue to support Welsh farmers.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Wrth gwrs, rwyf yn credu bod cytundeb y PAC y cytunwyd arno ychydig dros wythnos yn ôl yn gytundeb cadarnhaol sy'n rhoi fframwaith i Gymru sy'n golygu y gallwn roi ar waith gynllun a fydd yn gallu parhau i gefnogi ffermwyr Cymru.

Proposed safeguards have been secured to limit losses to farmers in the move to the new system, alongside measures that can allow for a more phased and managed transition period. What modelling work has the Welsh Government undertaken to determine whether these provisions can be used to help further minimise the redistribution between farming businesses, sectors and regions of Wales in the move across to the new scheme? Also, what discussions have you had with Peter Davies since the agreement was reached, as the RDP will be a key delivery mechanism to tackle the weaknesses, but also to maximise the opportunities initially identified for farm business diversification?

Mae mesurau diogelu arfaethedig wedi eu sicrhau i gyfyngu'r colledion i ffermwyr wrth symud tuag at y system newydd, ochr yn ochr â mesurau a fydd yn caniatáu cyfnod pontio a reolir fesul cam. Pa waith modelu y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i benderfynu a ellir defnyddio'r darpariaethau hyn i helpu i leihau ymhellach yr aiddosbarthu rhwng busnesau ffermio, sectorau a rhanbarthau Cymru wrth newid i'r cynllun newydd? Hefyd, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â Peter Davies ers sefydlu'r cytundeb, oherwydd y bydd y cynllun datblygu gwledig yn fecanwaith cyflawni allweddol i fynd i'r afael â'r gwendidau, ond hefyd i wneud y gorau o'r cyfleoedd a nodwyd ar y dechrau ar gyfer arallgyfeirio busnes y fferm?

Finally, I recently spoke to young farmers in my constituency who were very keen to understand how the new reforms were going to support and benefit them. I appreciate that you have mentioned this in your statement, but I would be grateful if you could just unpack that a little more.

Yn olaf, rwyf yn ddiweddar, wedi siarad â ffermwyr ifanc yn fy etholaeth a oedd yn awyddus iawn i ddeall sut y mae'r diwygiadau newydd yn mynd i'w cynorthwyo a sut y byddant o fudd iddynt. Rwyf yn sylweddoli eich bod wedi crybwyll hyn yn eich datganiad, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ychydig ar hynny.

16:39

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Russell. On your final point, we are looking at how we can improve support for new entrants. I think that there is general agreement that the young entrants support scheme has been a great success since it was introduced by my predecessor, and that is something we wish to build upon. I have also spoken to young farmers in your constituency who have made very similar points to me. That is why I expressed a level of disappointment in response to Bill Powell earlier that the scheme that has been agreed as part of this reform is a young farmers scheme and not a new entrants scheme, as I think that a new entrants scheme would have been far preferable.

I have received today a letter from Peter Davies outlining the findings and the conclusions of the advisory group on the rural development plan. When I am provided with an opportunity, I will report back to the Assembly on that. I have not yet had an opportunity to read through that correspondence and refer to it, but the relationship between pillar 1 and pillar 2 is clearly going to be of significant importance. In taking decisions on pillar 1, we will recognise the relationship with pillar 2.

The modelling work is being carried out at the moment. We have been through a very intensive period of modelling work over the last year, looking at all the different schemes and possibilities and combinations available to us, and understanding the impact of individual farm systems and farm types. We will continue to do that, and we will do it with different payment rates and different ratios between rates to understand all the alternatives. I said in response to a question from Llyr Huws Gruffydd that that will all be published, and we will ensure that that is available on the website.

Finally, in terms of the safeguards available to people, the safeguard is the commitment of this Government to fairness.

Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol y Bil Sector Amaethyddol (Cymru)

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham.

Cynnig NDM5289 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.102:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Sector Amaethyddol (Cymru).

Diolch yn fawr iawn, Russell. O ran eich pwynt olaf, rydym yn edrych ar sut y gallwn wella'r cymorth i newydd-ddyfodiadaid. Rwyf yn meddwl bod cytundeb cyffredinol fod y cynllun cymorth i newydd-ddyfodiadaid ifanc wedi bod yn llwyddiant mawr ers i'm rhagflaenydd ei gyflwyno, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym am adeiladu arno. Rwyf hefyd wedi siarad â ffermwyr ifanc yn eich etholaeth chi sydd wedi dweud pethau tebyg iawn wrthyf. Dyna pam y mynegais rywfaint o siom wrth ymateb i Bill Powell yn gynharach fod y cynllun y cytunwyd arno'n rhan o'r diwygiadau hyn yn gynllun ar gyfer ffermwyr ifanc nid ar gyfer newydd-ddyfodiadaid, gan fy mod yn meddwl y byddai cynllun newydd-ddyfodiadaid wedi bod yn llawer gwell.

Rwyf wedi cael llythyr heddiw gan Peter Davies yn amlinellu canfyddiadau a chasgliadau'r grŵp cynghori ar y cynllun datblygu gwledig. Pan gaf gyfle, byddaf yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar hynny. Nid wyf eto wedi cael cyfle i ddarllen yr ohebiaeth honno a chyfeirio ati, ond mae'r berthynas rhwng colofn 1 a cholofn 2 yn amlwg yn mynd i fod o bwys mawr. Wrth wneud penderfyniadau ar golofn 1, byddwn yn cydnabod y berthynas â cholofn 2.

Mae'r gwaith modelu'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Rydym wedi bod trwy gyfnod dwys iawn o waith modelu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn edrych ar yr holl wahanol gynlluniau a phosibiliadau a chyfuniadau sydd ar gael inni, ac yn deall effaith systemau fferm unigol a mathau o ffermydd. Byddwn yn parhau i wneud hynny, a byddwn yn ei wneud â gwahanol gyfraddau talu a gwahanol gymarebau rhwng cyfraddau i ddeall yr holl ddewisiadau. Dywedais wrth ymateb i gwestiwn gan Llyr Huws Gruffydd y bydd hynny i gyd yn cael ei gyhoeddi, a byddwn yn sicrhau ei fod ar gael ar y wefan.

Yn olaf, o ran y mesurau diogelu sydd ar gael i bobl, drwy'r diogelu hwnnw y mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymo i degwch.

Motion to Approve the General Principles of the Agricultural Sector (Wales) Bill

The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3, 4 and 5 in the name of William Graham.

Motion NDM5289 Alun Davies

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.102:

Agrees to the general principles of the Agricultural Sector (Wales) Bill.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:41

Alun Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

'It is great to see the Agricultural Sector (Wales) Bill being introduced in an effort to maintain the current system of statutory regulation for the engagement of agricultural workers in Wales.'

Mae'n wych gweld y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) yn cael ei gyflwyno mewn ymdrech i gynnal y system bresennol o reoleiddio statudol ar gyfer cyflogi gweithwyr amaethyddol yng Nghymru.

Those are not my words, but the words of the 'Western Mail' this morning in the farming comment and editorial. That editorial went on to say that:

Nid fy ngeiriau i, ond geiriau'r 'Western Mail' y bore yma yn yr eitem ar ffermio a'r erthygl olygyddol. Aeth yr erthygl olygyddol honno ymlaen i ddweud:

'There was a great deal of unease among the farming community when the Agricultural Wages Board for England and Wales was scrapped.'

Roedd llawer o anesmwythyd ymhlith y gymuned ffermio pan gafodd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr ei ddiddymu.

Absolutely right. There was not just unease; there was disappointment and fury. A body that has helped develop the agriculture industry for many years was abolished not only against the wishes of this Assembly and this Government, but without support from the agricultural community in Wales. Let me be absolutely clear about that: in terms of my tenure of this office, I have met representatives, individuals, people and organisations from across the whole spectrum of the agricultural farming community, and, in county meeting after county meeting, not one person has ever said that abolishing the Agricultural Wages Board would improve the running of the agricultural community. I listen to what is said on the benches opposite, and let me say this as well: when we ran, for 18 months, the Working Smarter process with Gareth Williams and asked people, 'What can we do to reduce the burden of bureaucracy in agriculture? What can we do to improve the administration of this business? What can we do to improve the business of agriculture?', nobody—not one of you, nor anyone else—said 'Abolish the AWB'. Nobody said it then, and nobody has said it since.

Yn hollol gywir. Nid dim ond anesmwythyd; roedd siom a llid. Cafodd corff sydd wedi helpu i ddatblygu'r diwydiant amaethyddol am flynyddoedd lawer ei ddiddymu, nid yn unig yn groes i ddymuniad y Cynulliad hwn a'r Llywodraeth hon, ond heb gefnogaeth gan y gymuned amaethyddol yng Nghymru. Gadewch imi fod yn gwbl glir am hynny: o ran fy nghyfnod yn y swydd hon, rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr, unigolion, pobl a sefydliadau ar draws sbectrum cyfan y gymuned ffermio, ac, mewn cyfarfod sir ar ôl cyfarfod sir, nid oes neb erioed wedi dweud y gellid rhedeg y gymuned amaethyddol yn well trwy ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Rwyf yn gwrandao ar yr hyn sy'n cael ei ddweud ar y meinciau gyferbyn, a gadewch imi ddweud hyn hefyd: pan oeddem, am 18 mis, yn cynnal y broses Hwyluso'r Drefn gyda Gareth Williams ac yn gofyn i bobl, 'Beth allwn ni ei wneud i leihau baich biwrocratiaeth mewn amaethyddiaeth? Beth allwn ni ei wneud i wella gweinyddiaeth y busnes hwn? Beth allwn ni ei wneud i wella'r busnes amaethyddiaeth?', wnaeth neb—dim un ohonoch chi, na neb arall—ddweud 'Diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol'. Wnaeth neb ei ddweud bryd hynny, ac nid oes neb wedi ei ddweud ers hynny.

16:43

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Andrew R.T. Davies, will you stop muttering? If you wish to speak, please indicate.

Andrew R.T. Davies, wnewch chi roi'r gorau i siarad dan eich gwynt? Os ydych yn dymuno siarad, nodwch hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:43

Alun Davies [Bywgraffiad Biography](#)

And perhaps he should declare his interest.

Ac efallai y dylai ddatgan ei fuddiannau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:43

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Excuse me, Minister; we do not need direction from you. Please just make your contribution to the debate, and then I will call other speakers.

Esgusodwch fi, Weinidog, nid oes arnom angen cyfarwyddyd gennych chi. Gwnewch eich cyfraniad i'r ddadl os gwelwch yn dda, ac yna byddaf yn galw siaradwyr eraill.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Presiding Officer. We have introduced this Bill because the UK Government's decision to move ahead with the abolition of the Agricultural Wages Board—without our consent, and without even reaching an agreement with the Welsh Government regarding the timing of the abolition—is a decision that has fundamental impacts on the agriculture industry in Wales. We were actively engaged with the UK Government over a considerable period of time to secure what we felt the industry here in Wales needed to meet the challenges ahead. We did not believe that abolishing the AWB at this time was helpful to the sector or the right thing to do. We were hopeful of reaching an understanding with the UK Government, but it was determined to press ahead in this way. We hoped that we would be able to retain the functions of the AWB in Wales using a different mechanism. An Order under the Public Bodies Act 2011 was sought time and again, and let me put it on the record today: it is not correct that, in the relationship between Governments in these islands, an amendment is made to legislation to circumvent the demands of the devolution settlement on the last day of term prior to recess, and pushed through the House of Lords without allowing a vote in the elected House of Commons.

Antoinette Sandbach a godod—

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not going to let you make an intervention, Antoinette; the UK Government can speak for itself.

Today, we are debating the main purpose and principles of a Bill that will seek to ensure that there is continued support for the agriculture industry in Wales. The purpose of this Bill is to preserve the key features of a statutory regime that is well established, well understood and well known in the agricultural sector. It is designed to support the functioning of the industry.

The existing regime does not simply set rates of pay but recognises and rewards experience and qualifications through a career matrix that differentiates between six grades. The system provides the incentive for personal and professional growth, and encourages new entrants into the industry to ensure the future of the agriculture industry in Wales.

I believe that this Bill will preserve the key features of the existing system by retaining, in effect, the provisions of the Agricultural Wages Order (England and Wales) 2012. At the same time, it will provide us with an opportunity to develop a new statutory system in Wales that will support the functioning of the industry by focusing on issues that affect the industry in Wales.

Agriculture faces a number of challenges at present, and will face challenges in the near future. By introducing this Bill, we are also following the wishes of the Welsh people. I would like to thank everybody who has taken the time to respond to the consultation. I have now published a summary of the responses to the Welsh Government's consultation, together with the individual responses themselves.

Diolch i chi, Lywydd. Rydym wedi cyflwyno'r Bil hwn oherwydd bod penderfyniad Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol—heb ein cydsyniad, a heb hyd yn oed ddod i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru ynghylch amseriad y diddymu—yn benderfyniad sy'n cael effaith sylfaenol ar y diwydiant amaeth yng Nghymru. Buom yn ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth y DU dros gyfnod sylweddol o amser i sicrhau'r hyn yr oedd ar y diwydiant yma yng Nghymru ei angen, yn ein barn ni, i wynebu'r heriau sydd o'n blaenau. Nid oeddem yn credu bod diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar yr adeg hon yn ddefnyddiol i'r sector na'r peth iawn i'w wneud. Roeddem yn obeithiol y gellid dod i ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU, ond roedd yn benderfynol o fwrw ymlaen yn y ffordd hon. Roeddem yn gobeithio gallu cadw swyddogaethau'r Bwrdd yng Nghymru gan ddefnyddio mecanwaith gwahanol. Ceisiwyd Gorchymyn o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 dro ar ôl tro, a gadewch imi ei roi ar y cofnod heddiw: nid yw'n iawn, yn y berthynas rhwng Llywodraethau yn yr ynysoedd hyn, gwneud gwelliant i ddeddfwriaeth i osgoi gofynion y setliad datganoli ar ddiwrnod olaf y tymor cyn toriad, a'i wthio drwy Dŷ'r Arglwyddi heb ganiatáu pleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin etholedig.

Antoinette Sandbach rose—

Nid wyf yn mynd i adael i chi wneud ymyriad, Antoinette; gall Llywodraeth y DU siarad drosti'i hun.

Heddiw, rydym yn trafod prif bwrpas ac egwyddorion Bil a fydd yn ceisio sicrhau y parheir i roi cefnogaeth i'r diwydiant amaeth yng Nghymru. Diben y Bil hwn yw gwarchod nodweddion allweddol trefn statudol sydd wedi'i hen sefydlu, a ddeallir yn dda ac sy'n hysbys iawn yn y sector amaethyddol. Mae wedi ei gynllunio i gefnogi gweithrediad y diwydiant.

Mae'r drefn bresennol yn gwneud mwy na phennu cyfraddau cyflog; mae'n cydnabod ac yn gwobrwyo profiad a chymwysterau trwy fatrics gyrfa sy'n gwahaniaethu rhwng chwe gradd. Mae'r system yn darparu'r cymhelliant ar gyfer twf personol a phroffesiynol, ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant er mwyn sicrhau dyfodol y diwydiant amaeth yng Nghymru.

Rwyf yn credu y bydd y Bil hwn yn cadw nodweddion allweddol y system bresennol trwy gadw, i bob pwrpas, ddarpariaethau Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012. Ar yr un pryd, bydd yn rhoi cyfle inni ddatblygu system statudol newydd yng Nghymru a fydd yn cefnogi gweithrediad y diwydiant drwy ganolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar y diwydiant yng Nghymru.

Mae amaethyddiaeth yn wynebu nifer o heriau ar hyn o bryd, a bydd yn wynebu heriau yn y dyfodol agos. Trwy gyflwyno'r Bil hwn, rydym hefyd yn dilyn dymuniadau pobl Cymru. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Rwyf bellach wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r ymatebion unigol eu hunain.

As Members will see, the consultation shows an overwhelming response in favour of maintaining a regulated and bespoke system in Wales. The responses also highlight the opportunity to do so to an even greater extent for the industry through legislation that meets our specific needs in Wales. Many respondents have focused on the wider potential for the acceleration of modernisation in the sector that could be delivered through these provisions. Respondents felt that the Bill can help us to achieve the ultimate twin objectives of improving profitability and sustainability. The maintenance in Wales of a system that recognises skills and provides incentives for additional training is identified as fundamental to delivering these objectives. The Government is, therefore, proposing what the people of Wales expect from us.

The Bill will give Welsh Ministers the powers to establish an agricultural advisory panel that will have the capacity to advise on matters related to agriculture and affecting the functioning of the sector. It will also allow the flexibility to enable us to vary the composition and remit of the panel to continue to help and support the agriculture industry in current and emerging challenges.

I understand the concerns that were raised last week by Members due to a shortage of time for scrutiny; I recognise that those are well-held and well-founded concerns. I made myself available to the Constitutional and Legislative Affairs Committee yesterday afternoon, and I am grateful to the Chair for the report that was published this morning. I say to the Chair of that committee that I am reading very closely what the committee has said, and I will respond positively to its report.

I say to other Members that I will be actively listening to this afternoon's debate. I will be listening to the points that are made. I will also be seeking agreement, wherever necessary, to create the widest possible consensus in the Chamber for this legislation. I think that it is incumbent on a Government that seeks legislation in an expedited way to listen to criticism and suggestions, and also to listen to Members when they are seeking to make amendments to that legislation. I will not only listen to the debate, I will listen actively and will respond positively wherever I feel that the case has been made to strengthen the legislation.

My vision is to see an increasingly resilient and sustainable agriculture industry in Wales, with well-trained workers and professionally run farm businesses to help the industry address present and future challenges. I believe that this can only be achieved by promoting upskilling and introducing a bespoke statutory regime that is tailored to the needs of the agriculture industry in Wales. The Welsh Government believes that this Bill will improve the prosperity of the agriculture industry—underpinning rural communities and providing wider benefits for the people of Wales.

Fel y bydd yr Aelodau'n gweld, mae mwyafrif llethol yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid cynnal system bwrpasol wedi'i rheoleiddio yng Nghymru. Mae'r ymatebion hefyd yn tynnu sylw at y cyfle i wneud hynny i raddau mwy fyth ar gyfer y diwydiant trwy ddeddfwriaeth sy'n diwallu ein hanghenion penodol yng Nghymru. Mae llawer o ymatebwyr wedi canolbwyntio ar y potensial ehangach i foderneiddio'r sector yn gyflymach trwy'r darpariaethau hyn. Mae ymatebwyr yn teimlo y gall y Bil ein helpu i gyflawni'r ddau amcan yn y pen draw, sef gwella proffidioldeb a chynaliadwyedd. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, dynodir ei bod yn hanfodol cynnal system yng Nghymru sy'n cydnabod sgiliau ac yn darparu cymhellion ar gyfer hyfforddiant ychwanegol. Mae'r Llywodraeth, felly, yn cynnig yr hyn y mae pobl Cymru yn ei ddisgwyl gennym.

Bydd y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu panel cyngori ar amaethyddiaeth a fydd â'r gallu i roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth ac sy'n effeithio ar weithrediad y sector. Bydd hefyd yn caniatáu hyblygrwydd er mwyn ein galluogi i amrywio cyfansoddiad a chylch gwaith y panel i barhau i helpu a chefnogi'r diwydiant amaethyddiaeth yn wyneb heriau presennol a newydd.

Rwyf yn deall y pryderon a godwyd yr wythnos diwethaf gan Aelodau oherwydd prinder amser ar gyfer craffu; rwyf yn cydnabod bod y rheini yn bryderon teilwng a chadarn eu seiliau. Gofalais fy mod ar gael i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol brynhawn ddoe, ac rwyf yn ddiolchgar i'r Cadeirydd am yr adroddiad a gyhoeddwyd fore heddiw. Dywedaf wrth Gadeirydd y pwyllgor hwnnw fy mod yn darllen yn ofalus iawn yr hyn y mae'r pwyllgor wedi'i ddweud, ac y byddaf yn ymateb yn gadarnhaol i'w adroddiad.

Dywedaf wrth Aelodau eraill y byddaf yn gwrando'n astud ar y ddadl y prynhawn yma. Byddaf yn gwrando ar y pwyntiau a wneir. Byddaf hefyd yn ceisio cytundeb, lle bo angen, i greu'r consensws ehangaf posibl yn y Siambr ynglŷn â'r ddeddfwriaeth hon. Rwyf yn meddwl ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth sy'n ceisio deddfwriaeth trwy broses gyflym i wrando ar feiriadaeth ac awgrymiadau, a hefyd i wrando ar Aelodau pan fyddant yn ceisio gwneud gwelliannau i'r ddeddfwriaeth honno. Byddaf yn gwrando ar y ddadl, ond byddaf hefyd yn gwrando'n weithredol ac yn ymateb yn gadarnhaol lle bynnag yr wyf yn teimlo bod yr achos wedi ei wneud i gryfhau'r ddeddfwriaeth.

Fy ngweledigaeth yw diwydiant amaeth fwyfwy gwydn a chynaliadwy yng Nghymru, gyda gweithwyr wedi'u hyfforddi'n dda a busnesau fferm yn cael eu rhedeg yn broffesiynol i helpu'r diwydiant i fynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol. Rwyf yn credu mai'r unig ffordd o gyflawni hyn yw trwy annog gweithwyr i wella eu sgiliau a chyflwyno trefn statudol bwrpasol sydd wedi'i theilwra i anghenion y diwydiant amaeth yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y Bil hwn yn sicrhau diwydiant amaeth mwy ffyniannus—yn ategu cymunedau gwledig ac yn darparu manteision ehangach i bobl Cymru.

16:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

16:49 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I place on record the thanks of the committee to the Minister for his evidence yesterday, which was given at short notice. As he indicated, the committee has this morning written to him with the outcome of that scrutiny. A copy of our letter is publicly available on the committee's website and is attached to the Plenary agenda as a supporting document for this debate.

Diolch ichi, Lywydd. Rwyf am gofnodi diolch y pwyllgor i'r Gweinidog am ei dystiolaeth ddoe, a roddwyd ar fyr rybudd. Fel y dywedodd, mae'r pwyllgor wedi ysgrifennu ato fore heddiw gyda chanlyniad y gwaith craffu hwnnw. Mae copi o'n llythyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y pwyllgor ac ynghlwm wrth agenda'r Cyfarfod Llawn fel dogfen ategol ar gyfer y ddatl hon.

As I am sure the Minister will appreciate, we have not been able to scrutinise and consider the Bill and its implications in the way we would have liked to have done and, indeed, in the way that we are accustomed to doing. However, we acknowledge the reasons for this. However, as became apparent from the Minister's evidence, there are a number of significant issues that require further investigation, not only in relation to the provisions of the Bill, but to the process that is being followed. For that reason, we have agreed that we will undertake a retrospective inquiry on this Bill in the autumn. In particular, we simply have not had time to perform one of the committee's prime functions, namely to examine in detail whether the powers made available to Welsh Ministers to make subordinate legislation are subject to an appropriate procedure.

Fel yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn sylweddoli, nid ydym wedi gallu craffu ar y Bil a'i oblygiadau, a'u hystyried, yn y ffordd y byddem wedi hoffi ei wneud ac, yn wir, yn y ffordd yr ydym yn gyfarwydd â gwneud. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y rhesymau am hyn. Fodd bynnag, fel y daeth yn amlwg o dystiolaeth y Gweinidog, ceir nifer o faterion pwysig y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt, nid yn unig o safbwynt darpariaethau yn y Bil, ond hefyd y broses sy'n cael ei dilyn. Am y rheswm hwnnw, rydym wedi cytuno y byddwn yn cynnal ymchwiliad ôl-weithredol ar y Bil hwn yn yr hydref. Yn benodol, nid ydym wedi cael amser i gyflawni un o brif swyddogaethau'r pwyllgor, sef archwilio'n fanwl a yw'r pwerau sydd ar gael i Weiniogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth yn destun gweithdrefn briodol.

That said, it was immediately apparent to us that, should the Minister decide to persist with the powers to make agricultural wages Orders under section 3 of this Bill, such Orders should be subject to the affirmative procedure. We have made this recommendation to the Minister, and I appreciate that he has assured the Chamber that he intends to respond positively to our report.

Wedi dweud hynny, pe byddai'r Gweinidog yn penderfynu bwrw ymlaen â'r pwerau i wneud Gorchmynion cyflogau amaethyddol o dan adran 3 y Bil hwn, roedd yn amlwg ar unwaith i ni y dylai Gorchmynion o'r fath fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Rydym wedi gwneud yr argymhelliad hwn i'r Gweinidog, ac rwyf yn gwerthfawrogi'r ffaith ei fod wedi rhoi sicrwydd i'r Siambr ei fod yn bwriadu ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiad.

It is worth noting at this point, as our letter to the Minister today indicates, that section 3 of the Bill marks a departure from the provisions of the Agricultural Wages Act 1948, which gave the Agricultural Wages Board the power to make Orders fixing minimum rates of wages. That brings me on to section 2 of the Bill and the establishment of an agricultural advisory panel for Wales. The drafting of section 2 is curious in that it says that Welsh Ministers 'may' rather than 'must' establish such a panel by Order. Given the urgency with which this Bill is being taken through the legislative process and the role the agricultural advisory panel for Wales has to play in relation to advising on agricultural wages, we found that to be surprising. As a consequence, we recommended that the Minister table an amendment to section 2 of the Bill to require the establishment of this panel.

Mae'n werth nodi yn y fan hon, fel y mae ein llythyr at y Gweinidog heddiw yn dangos, bod adran 3 o'r Bil yn wahanol i ddarpariaethau Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948, a roddodd y pŵer i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wneud Gorchmynion yn pennu cyfraddau cyflogau isaf. Daw hynny â mi at adran 2 y Bil a sefydlu panel cynghori ar amaethyddiaeth Cymru. Mae adran 2 wedi'i drafftio mewn ffordd ryfedd gan ei bod yn dweud y 'caiff' Gweinidogion Cymru sefydlu panel o'r fath drwy Orchymyn yn hytrach na bod 'rhaid' gwneud hynny. O ystyried bod y Bil hwn yn cael ei symud drwy'r broses ddeddfwriaethol â chymaint o frys, ac o gofio swyddogaeth y panel cynghori ar amaethyddiaeth Cymru o ran cynghori ar gyflogau amaethyddol, roedd hynny'n peri syndod inni. O ganlyniad, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 2 y Bil i'w gwneud yn ofynnol sefydlu'r panel hwn.

During the evidence session, the Minister told us that he had not considered the inclusion of a sunset section in the Bill. Such a section would provide the Bill with an expiry date, once it has passed into law. Given the lack of time available for scrutiny of the Bill and in the interests of making good, sustainable law that has been robustly scrutinised, we consider that a sunset section is desirable, and we recommended that such a section be included. We recognise that the inclusion of such a sunset section would, in effect, require the Welsh Government to introduce another Bill on this subject at a later date. In our view, the advantage of this approach is that it would allow the National Assembly to undertake a more thorough scrutiny of the Welsh Government's policy proposals and, as part of that process, to engage and take evidence from relevant stakeholders during committee proceedings.

We also expressed in our letter to the Minister a number of concerns about the way in which certain provisions in the Bill have been drafted, and we sincerely hope that the Minister will take account of the points we raise, with a view to ensuring that we make good law.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd wedi ystyried cynnwys adran fachlud yn y Bil. Byddai adran o'r fath yn rhoi dyddiad pryd y byddai'r Bil yn dod i ben, wedi iddo ddod yn gyfraith. O ystyried y diffyg amser sydd ar gael ar gyfer craffu ar y Bil ac er budd gwneud cyfraith dda, gynaliadwy sydd wedi bod yn destun craffu cadarn, rydym yn ystyried bod adran fachlud yn ddymunol, ac rydym yn argymhell y dylid cynnwys adran o'r fath. Rydym yn cydnabod y byddid mewn gwirionedd, trwy gynnwys adran fachlud o'r fath, yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno Bil arall ar y pwnc hwn yn y dyfodol. Yn ein barn ni, mantais y dull hwn yw y byddai'n caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal gwaith craffu mwy trylwyr ar gynigion polisi Llywodraeth Cymru ac, fel rhan o'r broses honno, ymgysylltu a chymryd tystiolaeth gan randdeiliaid perthnasol yn ystod trafodion pwyllgor.

Rydym hefyd wedi mynegi nifer o bryderon yn ein llythyr at y Gweinidog ynghylch y ffordd y mae darpariaethau penodol yn y Bil wedi cael eu drafftio, ac rydym yn mawr obeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried y pwyntiau yr ydym yn eu codi, gyda golwg ar sicrhau ein bod yn gwneud cyfraith dda.

16:53

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I remind the speakers this afternoon that we will be observing the normal rules, which is five minutes per speaker.

Hoffwn atgoffa'r siaradwyr brynhawn heddiw y byddwn yn cadw at y rheolau arferol, sef pum munud i bob siaradwr.

Gwelliant 1—William Graham

Amendment 1—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i ddilyn y weithdrefn Bil Cyhoeddus lawn ar gyfer y Bil o ystyried y cyfle a gafodd i wneud hynny, a fyddai wedi cynnwys;

Regrets the failure of the Welsh Government to put the Bill through the full Public Bill procedure given the opportunity it had to do so, which would have included;

a) pwyllgor yn craffu'n fanwl ar y Bil; a

a) detailed committee scrutiny of the Bill; and

b) cyfle i gael adroddiad pwyllgor manwl am y Bil.

b) opportunity for a detailed committee report on the Bill.

Gwelliant 2—William Graham

Amendment 2—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn gresynu bod y Bil Brys wedi'i ddwyn gerbron y Cynulliad cyn bod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ei hun wedi cau, a chyn bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael i'w hystyried.

Regrets that the Emergency Bill was brought before the Assembly before the Welsh Government's own consultation had closed and before the consultation responses were available for consideration.

Gwelliant 3—William Graham

Amendment 3—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn gresynu y byddai'r Bil yn caniatáu i Weiniogion Cymru bennu isafswm cyflog heb gyfeirio'r mater at banel annibynnol o gwbl.

Regrets that the Bill would allow Welsh Ministers to set minimum wages without any reference to an independent panel.

Gwelliant 4—William Graham

Amendment 4—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi y byddai panel cynghori a fyddai'n cael ei sefydlu o dan y Bil o dan ddisgresiwn Gweinidogion Cymru, a fyddai'n rheoli:

Notes that the establishment of an advisory panel under the Bill would be at the discretion of Welsh Ministers, who would control:

a) cyfansoddiad a thrafodion y panel;

a) the constitution and proceedings of the panel;

b) penodi aelodau i'r panel;

b) the appointment of members to the panel;

c) pwerau cyffredinol y panel; a

c) the general powers of the panel; and

d) ychwanegu, dileu neu ddiwygio swyddogaethau'r panel.

d) the addition, removal or amendment of functions of the panel.

Gwelliant 5—William Graham

Amendment 5—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi:

Notes that:

a) bod dibenion allweddol y Bil yn cynnwys swyddogaethau pennu cyflogau; a

a) the key purposes of the Bill include wage-setting functions; and

b) nad yw cyfraith cyflogaeth wedi'i rhestru o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

b) employment law is not listed under Schedule 7 of the Government of Wales Act 2006.

16:54

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 2, 3, 4 and 5 in the name of William Graham.

Cynigiau welliannau 1, 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham.

The Welsh Conservatives want to see the agriculture industry equipped with a skilled and flexible workforce that is able to adapt to changing conditions and market demand. We have consistently argued in the Department for Environment, Food and Rural Affairs and Welsh Government consultations that the role and functions of the agricultural board have been superseded. In terms of the content of this Bill, it might appear that the Welsh Government also considers the role and function of the Agricultural Wages Board to be obsolete and not worth preserving, and that is because the content of this Bill would transfer the wage-setting powers to Welsh Ministers, and not to an AWB. It would reduce the scrutiny of agricultural wages Orders. It would reduce the independent oversight and the requirements for consultation. Amendments will need to be tabled to deal with those issues.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld diwydiant amaethyddol â gweithlu medrus a hyblyg sy'n gallu addasu wrth i amgylchiadau a'r galw yn y farchnad newid. Rydym wedi dadlau'n gyson yn ymgynghoriadau'r Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cymru fod rôl a swyddogaethau'r bwrdd amaethyddol wedi cael eu disodli. O ran cynnwys y Bil hwn, gallai ymddangos bod Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried bod rôl a swyddogaeth y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wedi darfod amdanynt ac nad ydynt werth eu cadw, a hynny oherwydd y byddai cynnwys y Bil hwn yn trosglwyddo'r pwerau pennu cyflog i Weinidogion Cymru, ac nid i Fwrdd Cyflogau Amaethyddol. Byddai'n golygu llai o graffu ar Orchmynion cyflogau amaethyddol. Byddai'n lleihau goruchwyliaeth annibynnol a'r gofynion i ymgynghori. Bydd angen cyflwyno gwelliannau i ymdrin â'r materion hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Our amendments 1 and 5 reflect concerns that we raised during last week's debate on the use of the emergency procedure. It is a bit rich for a Government Minister here to make criticisms of the UK Government and the process that it follows, and then watch it try to ram through a Bill through an emergency procedure on which there is very little guidance in the Assembly. Personally, I believe that it is outrageous that the Government is seeking to introduce legislation in this way when it has had plenty of opportunity, since July 2010, when the UK Government's intentions were made known, to introduce legislation in its own way. It had an opportunity to bring forward legislation through the full public Bill procedure.

There are potentially huge consequences for Wales, not least in terms of the precedent that this Bill might set for employment law in other areas. However, it is particularly regrettable that there has not been an opportunity to have scrutiny and oversight from the Constitutional and Legislative Affairs Committee about the Government's view on whether or not this will be considered as an agricultural wages Bill or a wages and employer Bill in terms of competence. It is really regrettable that this is likely, in the future, to be decided at a Supreme Court level. That level of scrutiny from both the Environment and Sustainability Committee and from the Constitutional and Legislative Affairs Committee has not been able to happen due to the pressure of time.

Amendment 2 regrets the fact that this emergency Bill was brought before the Assembly while the Welsh Government's own consultation into the future of the Agricultural Wages Board was still open, and it is regrettable that this consultation did not consider the substance of this Bill. I heard with interest what the Minister said. What he did not say was that there were only 22 responses, one of which had been counted twice, six were from Unite members and four were from Labour Assembly Members. Therefore, nearly 50% of the consultation responses come from one particular section of society and does not represent, necessarily, the breadth of submissions that the organisations made. I note particularly the submission from the Unite representative who gave evidence to the Environment and Sustainability Committee and who in his evidence described a significant number of farm employers as being 'backward'.

There seems to have been equal weight attached to submissions in the summary document, despite, for example, the views of organisations representing thousands of genuine members of the industry, such as NFU Cymru and the Tenant Farmers Association Cymru, which happen to support the abolition of the board, being unfairly undermined. The Tenant Farmers Association Cymru supported the abolition of the AWB and, in its submission to the Welsh Government consultation specifically stated that it would not support new legislation to recreate the functions of the AWB that have just been abolished. These views may not be to the Minister's liking, but they deserve to be put on the public record.

Mae ein gwelliannau 1 a 5 yn adlewyrchu pryderon a godwyd gennym yn ystod y ddafl yr wythnos diwethaf ar y defnydd o'r weithdrefn frys. Mae braidd yn ddigywilydd i un o Weinidogion y Llywodraeth yma feirniadu Llywodraeth y DU a'r broses y mae'n ei dilyn, ac yna'i gwyllo yn ceisio gwthio Bil trwy weithdrefn frys heb inni gael fawr o arweiniad arni yn y Cynulliad. Yn bersonol, rwyf yn credu ei bod yn warthus bod y Llywodraeth yn ceisio cyflwyno deddfwriaeth yn y ffordd hon a hithau wedi cael digon o gyfle, ers mis Gorffennaf 2010, pan wnaed bwriadau Llywodraeth y DU yn hysbys, i gyflwyno deddfwriaeth yn ei ffordd ei hun. Cafodd gyfle i gyflwyno deddfwriaeth trwy weithdrefn gyflawn Bil cyhoeddus.

Gallai fod canlyniadau enfawr i Gymru, yn enwedig o ran y cynsail y gallai'r Bil hwn ei osod ar gyfer cyfraith cyflogaeth mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, mae'n arbennig o anffodus na fu cyfle i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol graffu a goruchwyllo ynglŷn â barn y Llywodraeth ar ba un a fydd hwn yn cael ei ystyried yn Fil cyflogau amaethyddol ynteu'n Fil cyflogau a chyflogwyr o ran cymhwysedd. Mae'n peri gofid mawr fod hyn yn debygol o gael ei benderfynu, yn y dyfodol, ar lefel y Goruchaf Lys. Ni fu modd i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd na'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol graffu ar y lefel honno oherwydd pwysau amser.

Mae gweliant 2 yn gresynu at y ffaith bod y Bil brys hwn wedi ei ddwyn gerbron y Cynulliad tra bod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ei hun ynglŷn â dyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn dal ar agor, ac mae'n destun gofid na wnaeth yr ymgynghoriad hwn ystyried sylwedd y Bil hwn. Clywais â diddordeb yr hyn a ddywedodd y Gweinidog. Yr hyn na ddywedodd oedd mai dim ond 22 o ymatebion a gafwyd: cafodd un ohonynt ei gyfrif ddwywaith, roedd chwech gan aelodau Unite ac roedd pedwar gan Aelodau Llafur y Cynulliad. Felly, daw bron i 50% o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o un rhan benodol o'r gymdeithas ac nid ydynt yn cynrychioli, o reidrwydd, ehangder y cyflwyniadau a wnaeth y mudiadau. Nodaf yn arbennig y cyflwyniad gan gynrychiolydd Unite a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ac sydd, yn ei dystiolaeth yn dweud bod nifer sylweddol o gyflogwyr fferm 'ar ei hôl hi'.

Mae'n ymddangos y rhoddwyd pwys cyfartal ar gyflwyniadau yn y ddogfen gryno, er gwaethaf y ffaith bod barn cyrff sy'n cynrychioli miloedd o aelodau gwirioneddol y diwydiant, er enghraifft, megis Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru a Chymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru, sy'n digwydd bod o blaid diddymu'r bwrdd, yn cael ei thanseilio'n annheg. Roedd Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru o blaid dileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ac, yn ei chyflwyniad i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru roedd yn nodi'n benodol na fyddai'n cefnogi deddfwriaeth newydd i ail-greu swyddogaethau'r Bwrdd sydd newydd gael eu diddymu. Efallai nad yw'r farn hon at ddant y Gweinidog, ond mae'n haeddu cael ei rhoi ar y cofnod cyhoeddus.

Amendments 3 and 4 relate to the way that this Bill would concentrate power in the hands of Welsh Ministers and politicise the setting of agricultural wages. It would allow them to set wages directly, intervening or overriding wage rates set by the board—something that was never allowed under the 1948 Act. These amendments also address the huge discretion that Welsh Ministers would have over the role and composition of the advisory panel. The panel under the 1948 Act has a balanced constitution—

Mae gwelliannau 3 a 4 yn ymwneud â'r ffordd y byddai'r Bil hwn yn canolbwyntio grym yn nwylo Gweinidogion Cymru ac yn gwneud y broses o bennu cyflogau amaethyddol yn rhywbeth gwleidyddol. Byddai'n eu galluogi i osod cyflogau yn uniongyrchol, gan ymyrryd neu ddiystyru cyfraddau cyflog a osodwyd gan y bwrdd—rhywbeth na chafodd ei ganiatáu erioed o dan Ddeddf 1948. Mae'r gwelliannau hyn hefyd yn mynd i'r afael â'r disgrisiwn anferth y byddai gan Weinidogion Cymru dros rôl a chyfansoddiad y panel cynghori. Mae gan y panel gyfansoddiad cytbwys o dan Ddeddf 1948—

16:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Your time is up. Have you finished? You may wind up very quickly. I see that you do not wish to do so. Therefore, I call on Mick Antoniw.

Trefn. Mae eich amser ar ben. A ydych wedi gorffen? Cewch ddirwyo i ben yn gyflym iawn. Gwelaf nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Felly, galwaf ar Mick Antoniw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:59 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the introduction of this Bill, which is of major importance to the agriculture industry in Wales. I know that there are those who are ideologically opposed to the legislation because it maintains wage levels and the terms and conditions of agricultural workers as previously provided by the AWB, which was, in fact, abolished on 25 June this year. I ask that we look at this issue in a wholly different way and that we look at the whole of the agriculture industry in Wales as a business, where the greatest asset, as in any business, is the workforce—those working in the industry now and in the future. This Bill is about creating a sustainable and viable agriculture industry in Wales and one that will sustain itself and prosper over future generations. Support for the Agricultural Wages Board was never just about wages or employment issues. It has always been recognised that there is a synergy between the wellbeing of those who work in the industry and the rural economy itself. It is for this reason that the Agricultural Wages Board has never, since its creation, been treated as an employment issue under a Minister for employment, but has always been under the jurisdiction of a Minister for agriculture as an agricultural issue since its inception. It is clear that Westminster Governments of all political persuasions have always regarded the AWB and what it did as an agricultural, economic and social lever.

Rwyf yn croesawu cyflwyniad y Bil hwn, sydd o bwys mawr i'r diwydiant amaeth yng Nghymru. Rwyf yn gwybod bod rhai sy'n gwrthwynebu'r ddeddfwriaeth yn ideolegol am ei bod yn cynnal lefelau cyflog a thelerau ac amodau ar gyfer y gweithwyr amaethyddol fel y darperid ar eu cyfer yn flaenorol gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, a gafodd, mewn gwirionedd, ei ddi-ddymu ar 25 Mehefin eleni. Gofynnaf ein bod yn ystyried y mater hwn mewn ffordd hollol wahanol a'n bod yn edrych ar y diwydiant amaeth yng Nghymru yn ei gyfanrwydd fel busnes, lle mai'r ased mwyaf, fel mewn unrhyw fusnes, yw'r gweithlu—y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Bil hwn yn ymwneud â chreu diwydiant amaethyddiaeth cynaliadwy a hyfwyng yng Nghymru ac un a fydd yn ei gynnal ei hun ac yn ffynnu dros genedlaethau yn y dyfodol. Nid oedd cefnogaeth i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn ymwneud â chyflogau neu faterion cyflogaeth yn unig. Cydnabuwyd bob amser y ceir synergedd rhwng lles y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant a'r economi wledig ei hun. Dyna pam nad yw'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol erioed, ers iddo gael ei greu, wedi cael ei drin fel mater cyflogaeth o dan Weinidog cyflogaeth, ond bob amser ers ei sefydlu wedi bod dan awdurdodaeth Gweinidog amaethyddiaeth fel mater amaethyddol. Mae'n amlwg bod Llywodraethau San Steffan o bob lliw gwleidyddol bob amser wedi ystyried y Bwrdd a'r hyn a wnâi fel ysgogiad amaethyddol, economaidd a chymdeithasol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Under the Government of Wales Act 2006, agriculture in the round is devolved, as are many other aspects relating to agriculture, such as rural development, and other fields included in Schedule 7 to the Act, such as education, training, housing, social welfare and the Welsh language. All of these have a synergy with the aims of the Bill, which will include promoting careers in agriculture, remuneration, holidays, conditions and such other matters as the Minister may require, which undoubtedly will include overall economic and social wellbeing and sustainability of the agriculture industry in Wales. There are obviously matters that need to be scrutinised. This will take place. However, I can do no better in summing up my agreement with the vision than was expressed by the Minister before the Environment and Sustainable Committee in November 2012—and I hope he does not object to me quoting him on this—when he said:

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, datganolwyd amaethyddiaeth yn ei holl agweddau, yn ogystal â llawer o agweddau eraill yn ymwneud ag amaethyddiaeth, megis datblygu gwledig, a meysydd eraill a gynhwysir yn Atodlen 7 i'r Ddeddf, megis addysg, hyfforddiant, tai, lles cymdeithasol a'r iaith Gymraeg. Mae gan bob un o'r rhain synergedd ag amcanion y Bil, a fydd yn cynnwys hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, cyflogau, gwyliau, amodau a materion eraill y gall y Gweinidog eu gwneud yn ofynnol, a hynny'n sicr yn cynnwys lles cyffredinol economaidd a chymdeithasol a chynaliadwyedd y diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n amlwg bod materion y mae angen craffu arnynt. Bydd hyn yn digwydd. Fodd bynnag, ni allaf wneud yn well, wrth grynhofi fy nghytundeb â'r weledigaeth, na'r hyn a fynegwyd gan y Gweinidog gerbron y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ym mis Tachwedd 2012—a gobeithio nad yw'n gwrthwynebu imi ei ddyfynnu—pan ddywedodd:

'it is crucial that the matrix that exists within the Agricultural Wages Board continues to exist because it is one of the main drivers of the upskilling of the industry, and, in turn, I believe that that is one of the main drivers for its future success. Abolition of the Agricultural Wages Board will make agriculture less efficient and will not help us to drive forward profitability in the industry. It is a significant step backwards for the workers and the industry as a whole. We see the purpose of the Agricultural Wages Board as, yes, to protect the interests and pay of employees, but also to drive forward skills and training in the industry and to provide the incentive for that to happen.'

The UK Government has been clear that its purpose is to remove protection and lower wages. I think that is an appalling way to work. It is also short-sighted because it takes away an incentive to drive forward the upskilling within the industry and to make farming more efficient and more profitable. Those views have also been endorsed by Wales Young Farmers Clubs and the Farmers Union of Wales, as well as by the agricultural workers union, Unite. The future of rural communities, their social wellbeing and the elimination of rural poverty are not solved by this Bill. However, this Bill will make a vital contribution to achieving a more prosperous and a more sustainable economic future for all those involved in rural communities and not just the few.

Mae'n hanfodol fod y matrices sy'n bodoli o fewn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn parhau i fodoli oherwydd ei fod yn un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r broses o uwchsgilio'r diwydiant, ac, yn ei dro, rwyf yn credu yn un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno ei lwyddiant yn y dyfodol. Byddai amaethyddiaeth yn llai effeithiol yn sgil diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ac ni fydd yn ein helpu i hyrwyddo proffidioldeb yn y diwydiant. Mae'n gam mawr yn ôl i'r gweithwyr a'r diwydiant yn ei gyfanrwydd. Gwelwn mai diben y Bwrdd, ie, yw diogelu buddiannau a thâl gweithwyr, ond hefyd datblygu sgiliau a hyfforddiant yn y diwydiant a darparu'r cymhelliant i hynny ddiwydd.

Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn glir mai ei diben yw cael gwared ar amddiffyniad a chyflogau is. Credaf fod honno'n ffordd ofnadwy i weithio. Mae hefyd yn gibddall oherwydd ei fod yn cael gwared ar y cymhelliant i sbarduno'r broses uwchsgilio o fewn y diwydiant a'r broses o wneud ffermio yn fwy effeithlon ac yn fwy proffidiol. Mae'r safbwyntiau hynny hefyd wedi cael eu cymeradwyo gan Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru, yn ogystal â chan undeb y gweithwyr amaethyddol, Unite. Nid yw'r Bil hwn yn datrys dyfodol cymunedau gwledig a'u lles cymdeithasol, nac yn dileu tlodi gwledig. Fodd bynnag, bydd y Bil hwn yn gwneud cyfraniad hanfodol at gyflawni dyfodol economaidd mwy llewyrchus a mwy cynaliadwy ar gyfer pawb sy'n ymwneud â chymunedau gwledig, ac nid yr ychydig rai yn unig.

17:03

Llyr Huws Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf am ddweud i ddechrau fy mod, wrth gwrs, yn cefnogi'r angen am fwrdd er mwyn goruchwyllo'r meysydd yr ydym yn eu trafod. Rwy'n cydnabod, Weinidog, eich bod wedi dweud mai cynnal y nodweddion presennol yw un o'r pethau y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni. Rydych yn dweud bod y bwriad yno i amddiffyn y 'status quo'. Er hynny, y cwestiwn sydd yn fy meddwl i yw a yw'r Bil hwn yn gwneud hynny mewn gwirionedd, oherwydd y 'status quo' yw bod Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i Loegr a Chymru, wrth gwrs, yn gwneud penderfyniadau ar gyflogau. Yn ôl fy narlleniad i o'r Bil hwn, penderfyniad y Gweinidog fydd hyn, a'r Gweinidog yn unig. Mae sôn am ymgynghori â budd-ddeiliaid ac yn y blaen, ond nid oes rheidrwydd i wrando. Felly, os ydych am y 'status quo', pam nad ydyw wedi'i gwneud yn glir, neu'n gliriach beth bynnag, yn y Bil y bydd y panel yn pennu graddfeydd cyflog a thelerau gweithio, fel sy'n digwydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon?

Nid oedd eich ymgynghoriad diweddar yn gofyn barn pobl am roi'r penderfyniad hwn yn nwylo'r Gweinidog. Felly, ni allwch chi ddweud bod un o elfennau creiddiol y Bil hwn wedi cael ei wyntyllu yn yr ymgynghoriad hwnnw. Os nad ydym yn gwneud y cysylltiad hwnnw'n ddigon clir rhwng y penderfyniad gan y bwrdd a'r modd yr ydych yn gweithredu hynny, yna mae'n rhaid gofyn a yw'n werth cael panel mor wantan mewn gwirionedd. Er mwyn pigo lan gyfeiriad blaenorol gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, mae'r geiriad yn dweud 'caiff' y Gweinidog sefydlu panel. Caiff ei ddiddymu hefyd, gyda llaw, ac mae'n bwysig inni beidio ag anghofio hynny. Os nad yw'n rheidrwydd, pam ei gynnwys mewn deddfwriaeth frys? Felly, buaswn yn pwysu ar y Gweinidog i ystyried eto y defnydd o'r gair 'caiff' yn adran 3.

I start by saying that, of course, I support the need for a board to oversee the areas that we are discussing. I recognise, Minister, that you have said that maintaining the current features is one of the things that this Bill attempts to achieve. You say that the intention is to protect the status quo. However, there is a question in my mind as to whether the Bill actually achieves that, because the status quo is that there is an Agricultural Wages Board for England and Wales, of course, which makes decisions on wages. From my reading of this Bill, this will be a decision for the Minister, and the Minister alone. There is talk of consultation with stakeholders and so on, but there is no requirement to listen to responses. So, if you want the status quo, why not make it clear, or, at least, more clear, on the face of the Bill that the panel will decide on pay scales and conditions, as happens in Scotland and Northern Ireland?

Your recent consultation did not ask people's views on putting this decision in the hands of the Minister. So, you cannot say that one of the core elements of this Bill was actually discussed in that consultation. If we do not make that link clear between the decision of the board and the way in which you implement it, then one has to ask whether it is worth having such a weak panel in the first place. To pick up on the reference made by the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the wording says that the Minister 'may' establish a panel. He may also abolish the panel, by the way, and we should not lose sight of that. If it is not a requirement on the Minister, why include it in emergency legislation? Therefore, I would urge the Minister to think again about the use of the word 'may' in section 3.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Roeddwn yn disgwyl mwy o wybodaeth hefyd am natur y panel yn y Bil hwn. Rydym yn gwybod faint o aelodau sydd ar y panel presennol, a bod cynrychiolaeth o safbwynt cyflogwyr, gweithwyr ac aelodau annibynnol, ac yn y blaen. Roeddwn wedi gobeithio cael gwell syniad o hyn. Er enghraifft, rydych yn nodi bod £25,000 o gost ar gyfer y panel, ond nid ydym yn gwybod faint o aelodau fydd arno, felly nid wyf yn siŵr beth yw sail y swm hwnnw. Buaswn yn gwerthfawrogi ychydig o oleuni ar hynny.

Rwyf eisiau tynnu sylw at adran 13 ar ddarpariaeth ategol. A ydym wir, mewn darn o ddeddfwriaeth frys fel hwn, am roi'r hawl i'r Gweinidog addasu'r deddfiad hwn neu unrhyw ddeddfiad arall mewn perthynas â'r sector amaethyddol yng Nghymru? Os ydym yn gwneud hynny mewn deddfwriaeth frys, rwy'n credu ein bod yn gofyn gormod, a bod yn deg.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd yn gofyn am adran fachlud. Buaswn yn cefnogi hynny, ond gan ystyried fod angen diwygio'r Bil brys hwn fel ei fod yn ffocysu'n benodol ar adran 11 sy'n delio â darpariaeth drosiannol, a bod y Bil hwn yn ffocysu ar amddiffyn yr hawliau a'r lefelau presennol, a'n bod yn symud i edrych ar Fil arall a fyddai'n rhoi mwy o amser i ni ddelio â materion eraill mewn modd sy'n rhoi mwy o amser i ganiatáu ymghyghoriad mwy ystyrlon a chraffu mwy manwl.

Oes, mae angen amddiffyn trefn lle mae datblygu gyrfa yn cael ei gysylltu'n agos â datblygu sgiliau, achos mae hynny'n cael effaith bositif ar y diwydiant yng Nghymru. Oes, mae angen osgoi sefyllfa lle mae gweithwyr unigol yn gorfod negodi telerau gyda chyflogwyr unigol, gan fod hynny'n arwain at fwy o fiwrocratiaeth. Mae gan hynny hefyd y potensial i chwalu'r berthynas unigryw honno rhwng cyflogwr amaethyddol a gweithiwr amaethyddol—yn aml, mae un cyflogwr yn cyflogi un gweithiwr. Mae lle i ystyried ehangu'r diffiniad o weithwyr amaethyddol i gwmpasu cylch gwahanol ac ehangach o alwedigaethau, ac i sicrhau bod lle i fwrdd Cymreig chwarae rôl fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo cyfleoedd gyrfa ehangach o fewn y sector, ac yn y blaen. Fodd bynnag, nid wyf yn gweld sut mae'r Bil yn ei ffurf bresennol yn gwneud hynny, ac rwy'n ofni, Weindog, bod angen llawer o waith cyn y byddaf i yn hapus i gefnogi pethau fel maent yn sefyll.

I had expected more information to be included in the Bill about the nature of the panel. We know how many members constitute the current panel and that there is representation in terms of employers, workers and independent members, and so on. I had hoped to gain a better idea of this. For example, you note a cost of £25,000 for the panel, but we do not know how many members it will have and so I am not sure how you arrived at that figure. I would like you to elaborate on that.

I want to highlight section 13 on additional provisions. Are we in all honesty, in a piece of emergency legislation such as this, going to give the Minister the right to amend this legislation or any other legislation relating to the agricultural sector in Wales? If we are going to do that in emergency legislation, I think that we are asking too much, if truth be told.

The Constitutional and Legislative Affairs Committee has also called for a sunset clause. We would support that, but I would have thought that there would be a need to amend this emergency Bill so that it focuses specifically on section 11, which deals with the transitional provision, and that this Bill in reality should focus on protecting current rights and entitlements, and that we then move to look at another Bill that would give us more time to deal with other issues in a way that gives more time to allow a more considered consultation and more detailed scrutiny.

Yes, we need to protect a system where career development is closely linked with skills development, because that has a positive impact on the industry in Wales. Yes, we need to avoid a situation where individual workers have to negotiate terms and conditions with individual employers, as that leads to greater bureaucracy. That also has the potential to destroy the unique relationship that exists between an agricultural employer and an agricultural worker—very often, a single employer employs a single employee. There is room to consider extending the definition of agricultural workers so that it includes a broader range of vocations, and to ensure that there is room for a Welsh board to play a more proactive role in promoting career opportunities more widely within the sector, and so on. However, I do not see how the Bill as it is currently worded would actually achieve that, and I fear, Minister, that a great deal of work needs to be done before I will be happy to give my support.

17:08

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to begin by thanking the Minister for appearing at short notice in front of the Constitutional and Legislative Affairs Committee yesterday. This enabled members of that committee to undertake an initial level of scrutiny of the Bill that is before us. This also resulted in a number of significant issues that are detailed in the report delivered to the Minister this morning.

Hoffwn ddechrau trwy ddiolch i'r Gweinidog am ymddangos ar fyr rybudd gerbron y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddoe. Roedd hyn yn galluogi aelodau o'r pwyllgor i graffu ar y Bil sydd ger ein bron ar lefel gychwynnol. Arweiniodd hyn hefyd at nifer o faterion arwyddocaol a nodir yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Gweinidog fore heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Last week, we had a long discussion about whether or not this Bill justifies being termed an 'emergency Bill', and whether or not its contents are within the competence of this Assembly. While I remain sceptical of the former, it is likely that the final word on the latter may be decided in another place. Given this and in the spirit of what I will term 'constructive opposition', I want to limit my comments today to the contents of the Bill before us, and to outline why I and my group are unable to support it as currently drafted.

This is a regrettable state of affairs. Since we began our regular discussions on the AWB, I have stated on a number of occasions my support for a number of the principles enshrined within the board as originally constituted, and my belief that ways could be sought to strengthen it and make it more fit-for-purpose in future years for Wales. However, I have also said that we need to see a robust business case for any action that we undertake, and that this Assembly needs a detailed and full debate on the path that we need to follow. I am as yet unsatisfied on a number of these points, and, as such, I am pleased to see that the Constitutional and Legislative Affairs Committee intends to hold a retrospective inquiry into this Bill in the autumn to cover all of the issues that arose yesterday but which could not be afforded sufficient time for scrutiny.

Looking at the Bill, I am forced to question the Minister's confident assertion that its wording maintains the status quo. As written and as has been outlined by Llyr Huws Gruffydd in his contribution, the reality is that this Bill would lead to something very different to the previous AWB and very different to the equivalents that exist in Scotland and in Northern Ireland. As other Members have stated, the present wording does not adequately require the Minister to establish the advisory board. This should be on the face of the Bill. It gives him exclusive control over who is on it and what they deal with, and indeed, there is nothing to require the Minister even to act upon the recommendations of the board.

In the hands of a less moderate and possibly a more power-hungry Minister who is less likely to be wracked with self-doubt, this would indeed be dangerous. I also believe that it is wrong for a Minister to have the exclusive, direct power to set wages. This is an unnecessary, unhelpful and unconstitutional politicisation of wages, and I believe that it sends us very much down the wrong path. In terms of union representation—both trade unions and farming unions—there is not sufficient guarantee; this needs to be addressed.

I also agree with the sunset clause proposed by the CLA committee. I found it extraordinary to hear yesterday that the option had not even been given serious consideration by the Welsh Government. To me, this is just a reflection of the undue haste with which this Bill is being brought before the house.

Finally, I want to touch on the future of the farming industry. I am concerned that annex C identifies the risk that this course of action might have a negative impact on the competitiveness of the Welsh farming sector, particularly in respect of competitors across the border.

Yr wythnos diwethaf, cawsom drafodaeth hir am ba un a ellir cyfiawnhau galw'r Bil hwn yn 'Fil brys' ai peidio, ac a yw ei gynnwys o fewn cymhwysedd y Cynulliad hwn. Er fy mod yn parhau'n amheus ynglŷn â'r cyntaf, mae'n debygol y bydd y gair olaf ynglŷn â'r ail yn cael ei benderfynu mewn man arall. O ystyried hyn ac yn ysbryd yr hyn y byddaf yn ei alw'n 'wrthwynebiad adeiladol', rwyf am gyfyngu fy sylwadau heddiw i gynnwys y Bil sydd ger ein bron, ac i amlinellu pam nad wyf i a'm grŵp yn gallu ei gefnogi fel y'i draffitiwyd ar hyn o bryd.

Mae hon yn sefyllfa anffodus. Ers inni ddechrau ar ein trafodaethau rheolaidd am y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, rwyf wedi nodi ar sawl achlysur fy nghefnogaeth i nifer o'r egwyddorion a ymgorfforir o fewn y bwrdd fel y'i cyfansoddwyd yn wreiddiol, a'm cred y gellid chwilio am ffyrdd i'w gryfhau a'i wneud yn fwy addas i'r diben yn y dyfodol i Gymru. Fodd bynnag, rwyf hefyd wedi dweud bod angen inni weld achos busnes cadarn ar gyfer unrhyw gamau a gymerwn, a bod ar y Cynulliad hwn angen trafodaeth fanwl a llawn ar y llwybr y mae angen inni ei ddilyn. Rwyf yn anfodlon hyd yma ynglŷn â nifer o'r pwyntiau hyn, ac, fel y cyfryw, rwyf yn falch o weld bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn bwriadu cynnal ymchwiliad ôl-weithredol i'r Bil hwn yn yr hydref i ymdrin â phob un o'r materion a gododd ddoe ond na ellid rhoi digon o amser i graffu arnynt.

O edrych ar y Bil, caf fy ngorfodi i gwestiynu honiad hyderus y Gweinidog bod ei eiriad yn cynnal y status quo. Fel y mae wedi'i ysgrifennu ac fel yr amlinellwyd gan Llyr Huws Gruffydd yn ei gyfraniad, y gwir amdani yw y byddai'r Bil hwn yn arwain at rywbeth gwahanol iawn i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol blaenorol, a gwahanol iawn i'r sefydliadau cyfatebol sy'n bodoli yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Fel y mae Aelodau eraill wedi nodi, nid yw'r geiriad presennol yn ddigonol i'w gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog sefydlu'r bwrdd cyngori. Dylai hyn fod ar wyneb y Bil. Mae'n rhoi rheolaeth unigryw iddo dros bwy yw ei aelodau ac â beth y maent yn delio, ac yn wir, nid oes dim i fynnu bod y Gweinidog hyd yn oed yn gweithredu ar argymhellion y bwrdd.

Yn nwylo Gweinidog llai cymedrol a mwy awchus am bŵer ac o bosibl sydd yn llai tebygol o gael ei ddiryngnu gan hunan-amheuaeth, byddai hyn wir yn beryglus. Rwyf hefyd yn credu ei bod yn anghywir i Weinidog fod â'r pŵer unigryw, uniongyrchol i bennu cyflogau. Mae hwn yn gam diangen, di-fudd ac anghyfansoddiadol i wneud cyflogau'n fater gwleidyddol, a chredaf ei fod wir yn ein hanfon ar hyd y trywydd anghywir. O ran cynrychiolaeth undeb—undebau llafur ac undebau ffermio—nid oes gwarant ddigonol; mae angen mynd i'r afael â hynny.

Rwyf hefyd yn cytuno â'r cymal machlud a gynigir gan bwyllgor y CLA. Roeddwn yn ei chael yn anhygoel clywed ddoe nad oedd yr opsiwn hyd yn oed wedi cael ystyriaeth ddifrifol gan Lywodraeth Cymru. I mi, nid yw hyn ond yn adlewyrchu'r ffaith fod y Bil hwn wedi'i ddwyn gerbron y tŷ â brys gormodol.

Yn olaf, rwyf am grybwyll dyfodol y diwydiant ffermio. Rwyf yn pryderu bod atodiad C yn nodi'r perygl y gallai'r dull hwn o weithredu gael effaith negyddol ar allu'r sector ffermio yng Nghymru i gystadlu, yn enwedig â chystadleuwyr ar draws y ffin.

In summary, this is a highly problematic Bill, which has been presented in a way that is deeply disappointing. While it would be irresponsible for Members to support it in its present form, I see no reason why it could not be substantially improved by taking on board the recommendations of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and a number of the additional points that have been raised today by Members around this Chamber. I very much hope that the Welsh Government will take heed of these essential changes and deliver a Bill that is worthy of our support.

Yn gryno, mae hwn yn Fil problematig iawn, sydd wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n siomedig dros ben. Er y byddai'n anghyfrifol i Aelodau ei gefnogi yn ei ffurf bresennol, ni welaf unrhyw reswm pam na ellid ei wella'n sylweddol drwy dderbyn argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a nifer o'r pwyntiau ychwanegol a godwyd heddiw gan Aelodau o gwmpas y Siambr hon. Gobeithiaf yn fawr y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i'r newidiadau hanfodol hyn a chyflwyno Bil sy'n haeddu ein cefnogaeth.

17:13

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Members might remember that I was among the many who expressed their unhappiness about the use of the expedited procedure to introduce a Bill that most of us had not even seen in draft. Since then, as we have heard, the Constitutional and Legislative Affairs Committee has taken some evidence from you, Minister, on the Bill as laid. That hastily arranged session in committee yesterday underscored the very points being made today about scrutiny and our ability as an Assembly to draw conclusion from that scrutiny.

There are many questions about the balance of what is and is not in the Bill, and the procedures applied to secondary legislation, but I would like to start by asking a bit more about the policy. As I understand it, Minister, from your evidence yesterday, you said that you wish to 'preserve the status quo'—and, I will add, as far as devolved competence allows you to import the status quo into Wales-only law—and to add to the status quo by allowing in the legislation, for mechanisms by which skills for those working in agriculture might be improved. Like most Members, I have not had the time to look at the record of a committee of which I am not a member. I think that it would have helped if we had had a report from the Environment and Sustainability Committee, in order to help me to understand your policy intention. So, in your response, Minister, could you outline, for the record, the particular rights for agricultural workers that are not currently protected by the law on the minimum wage, unlawful dismissal and other case law and statute general to all workers?

On the basis that you can do that—otherwise what is the essential point of this Bill—can you explain why agricultural workers need a particular type of protection over and above that offered to other types of workers who might see you as perhaps discriminating against those other kinds of workers, by offering enhanced terms and protection to agricultural workers?

Efallai y bydd aelodau'n cofio fy mod i ymhlith y nifer a fynegodd eu hanfodlonrwydd ynghylch y defnydd o'r weithdrefn frys i gyflwyno Bil nad oedd y rhan fwyaf ohonon wedi ei weld hyd yn oed ar ffurf drafft. Ers hynny, fel yr ydym wedi clywed, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi cymryd rhywfaint o dystiolaeth gennych, Weinidog, ar y Bil fel y'i gosodwyd. Roedd y sesiwn honno a drefnwyd ar frys yn y pwyllgor ddoe yn tanlinellu'r union bwyntiau a wneir heddiw ynglŷn â chraffu a'n gallu fel Cynulliad i ddod i gasgliad yn sgil y craffu hwnnw.

Ceir llawer o gwestiynau am gydbwysedd yr hyn sydd ac nad yw yn y Bil, a'r gweithdrefnau a ddefnyddir ar gyfer is-ddeddfwriaeth, ond hoffwn ddechrau trwy ofyn ychydig mwy am y polisi. Fel y'i deallaf, Weinidog, o'ch tystiolaeth ddoe, dywedasoch eich bod yn dymuno 'cadw'r statws quo'—a, byddaf yn ychwanegu, cyn belled ag y mae cymhwysedd datganoledig yn eich galluogi i fewnforio'r statws quo i gyfraith ar gyfer Cymru yn unig—ac ychwanegu at y statws quo drwy ganiatáu yn y ddeddfwriaeth, ar gyfer mecanweithiau i wella sgiliau'r rhai sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth. Fel y rhan fwyaf o'r Aelodau, nid wyf wedi cael amser i edrych ar gofnod pwyllgor nad wyf yn aelod ohono. Credaf y byddai wedi bod o gymorth pe byddem wedi cael adroddiad gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, er mwyn fy helpu i ddeall eich bwriad polisi. Felly, yn eich ymateb, Weinidog, a allech chi amlinellu, ar gyfer y cofnod, yr hawliau penodol ar gyfer gweithwyr amaethyddol nad ydynt yn cael eu hamddiffyn ar hyn o bryd gan y gyfraith ar yr isafswm cyflog, diswyddo anghyfreithlon a chyfraith achos arall a statud cyffredinol i bob gweithiwr?

Gan gymryd y gallwch wneud hynny—fel arall, beth yw diben hanfodol y Bil—a allwch chi egluro pam y mae angen math arbennig o amddiffyniad ar weithwyr amaethyddol y tu hwnt i'r hyn a gynnigir i fathau eraill o weithwyr a allai ystyried efallai eich bod yn gwahaniaethu yn erbyn y mathau eraill hynny o weithwyr, trwy gynnig telerau ac amddiffyniad gwell i weithwyr amaethyddol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It would also help me to understand what part of the status quo you are not signing up to and which of the more arcane elements of the 1948 law you will be ditching. I hope that your response will also help me to understand whom the Bill excludes. How about people who are employed just to look after agricultural machinery, individuals who work in an on-farm ice cream or yoghurt processing plant or people who work in a farm shop as part of their duties? What about those who work in woodland management where wood waste accrues as a usable by-product, rather than those who work as foresters?

My second point relates to the drafting of the Bill. We have heard that the opening sections empower, but do not oblige, Welsh Government to establish an agricultural advisory panel or, indeed, to maintain the status quo. There is nothing in this Bill as drafted that immediately preserves an agricultural wages board or its equivalent. Neither does the good news on compulsory consultation contribute to the argument of urgency at the core of the Minister's decision to use the emergency procedure.

However, later sections of the Bill are less timorous when it comes to imposing obligations on third parties. Sections 5 and 12 refer to criminal offences. This place has no competence to make or transpose criminal law unless it can be shown to be incidental to a law with a main purpose that sits firmly within a devolved subject area. The incidental argument is used by the Welsh Government so that this Bill can include the power to set wages—an employment issue—as the main context is, indeed, agriculture. However, section 5 introduces into Wales only law a criminal offence in relation to an employment issue—holiday entitlement. That, at best, is an attempt to introduce something that is incidental to something that is, itself, incidental. Section 12 does something similar, where the role of company law may have a bearing. Therefore, I ask the Welsh Government to revisit those two sections to be as certain as it can be that it has not stretched the incidental argument too far for the current devolution settlement.

Byddai hefyd yn fy helpu i ddeall pa ran o'r status quo nad ydych yn cytuno â hi a pha elfennau mwy cyfrin o gyfraith 1948 y byddwch yn cael gwared â nhw. Rwyf yn gobeithio y bydd eich ymateb hefyd yn fy helpu i ddeall pwy sy'n cael ei eithrio o'r Bil. Beth am bobl sy'n cael eu cyflogi yn unig i ofalu am beiriannau amaethyddol, pobl sy'n gweithio mewn ffatri brosesu hufen iâ neu iogwrt ar fferm, neu bobl sy'n gweithio mewn siop fferm fel rhan o'u dyletswyddau? Beth am y rhai sy'n gweithio ym maes rheoli coetiroedd lle mae gwastraff pren yn cronni fel sgil-gynnyrch y gellir ei ddefnyddio, yn hytrach na'r rhai sy'n gweithio fel coedwigwyr?

Mae fy ail bwynt yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio'r Bil. Rydym wedi clywed bod y rhannau agoriadol yn grymuso, ond nid yn gorfodi, Llywodraeth Cymru i sefydlu panel cynghori ar amaethyddiaeth ac, yn wir, i gynnal y status quo. Nid oes dim yn y Bil hwn fel y'i drafftiiwyd, sydd yn uniongyrchol yn cadw bwrdd cyflogau amaethyddol neu'r hyn sy'n cyfateb iddo. Ac nid yw'r newyddion da ar ymgynghori gorfodol ychwaith yn cyfrannu at y ddadl ynglŷn â brys sydd wrth wraidd penderfyniad y Gweinidog i ddefnyddio'r weithdrefn frys.

Fodd bynnag, mae adrannau diweddarach o'r Bil yn llai ofnus o ran gosod rhwymedigaethau ar drydydd partion. Mae adrannau 5 a 12 yn cyfeirio at droseddau. Nid oes gan y lle hwn gymhwysedd i wneud neu drosi cyfraith droseddol oni bai y gellir dangos ei bod yn gysylltiedig â chyfraith y mae ei phrif bwrpas yn gadarn o fewn maes pwnc datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r ddadl ynglŷn â darpariaeth gysylltiedig fel y gall y Bil hwn gynnwys y pŵer i bennu cyflogau—mater cyflogaeth—gan mai'r prif gyd-destun, yn wir, yw amaethyddiaeth. Fodd bynnag, mae adran 5 yn cyflwyno trosedd mewn cyfraith sy'n berthnasol i Gymru yn unig, o ran mater cyflogaeth—hawl gwyliau. Mae hynny, ar y gorau, yn ymgais i gyflwyno rhywbeth sy'n gysylltiedig â rhywbeth sydd, ynddo'i hun, yn fater cysylltiedig. Mae adran 12 yn gwneud rhywbeth tebyg, lle y gall rôl cyfraith cwmnïau fod yn berthnasol. Felly, gofynnaf i Lywodraeth Cymru ailystyried y ddwy adran i fod mor sicr ag y bo modd nad yw wedi ymestyn y ddadl ynglŷn â darpariaeth gysylltiedig yn rhy bell i'r setliad datganoli presennol.

Minister, you have made much of the UK Government showing disregard for the devolution settlement on this issue. However, I challenge you to show whether you have done any better. Here today and in committee yesterday you have said that you were pushed into introducing emergency legislation because the UK Government, intent on scrapping the wages board, had sat on its hands for about two years over the transfer of functions Orders that you were seeking in order to keep these safeguards in Wales. My question is: why did you waste time on that? The UK Government was clear in its intention from 2010. If you were confident on competence, you did not need transfer of functions Orders to give you a legislative basis upon which to build. If you had been serious about introducing an advisory panel and if you had thought that the Welsh Government's strategies for skills were so poor as to need separate legislation for agricultural workers' skills, you should have introduced coherent primary legislation in the usual way, and you should have left the UK Government to its own devices. Instead, as with the council tax regulations—your Government's last-minute attempt to circumnavigate this place—you have made it a matter of trying to embarrass the UK Government. What you have done is embarrass those of us who voted for primary legislative powers.

Weinidog, rydych wedi sôn llawer am y ffaith fod Llywodraeth y DU yn diystyru'r setliad datganoli ar y mater hwn. Fodd bynnag, rwyf yn eich herio i ddangos a ydych chi wedi gwneud yn well. Yma heddiw ac yn y pwyllgor ddoe, rydych wedi dweud eich bod wedi cael eich gwthio i gyflwyno deddfwriaeth frys oherwydd bod Llywodraeth y DU, a'i bryd ar gael gwared ar y bwrdd cyflogau, wedi llasu dwylo am tua dwy flynedd ynglŷn â'r Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau yr oeddech yn eu ceisio er mwyn cadw'r camau diogelu hyn yng Nghymru. Fy nghwestiwn yw: pam wnaethoch chi wastraffu amser ar hynny? Roedd bwriad Llywodraeth y DU yn glir ers 2010. Os oeddech yn hyderus ynglŷn â chymhwysedd, nid oedd angen Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau arnoch i roi sail deddfwriaethol ichi adeiladu arno. Os oeddech o ddifrif ynglŷn â chyflwyno panel cynghori ac os oeddech wedi meddwl bod strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer sgiliau mor wael fel bod angen deddfwriaeth ar wahân ar gyfer sgiliau gweithwyr amaethyddol, dylech fod wedi cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol gydlynol yn y ffordd arferol, a gadael i Lywodraeth y DU wneud fel y mynnai. Yn lle hynny, fel gyda rheoliadau'r dreth gyngor—ymgais munud olaf eich Llywodraeth i osgoi gweithdrefnau'r lle hwn—rydych wedi ei wneud yn fater o geisio codi cywilydd ar Lywodraeth y DU. Yr hyn yr ydych wedi ei wneud yw codi cywilydd ar y rhai ohonom a bleidleisiodd dros bwerau deddfu sylfaenol.

17:18

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am quite happy, clearly, to support the Minister on this emergency Bill. I am happy on a number of fronts. First of all, if the Welsh Government does not intervene, there is the potential loss of nearly £30 million, taken out of the pockets of the lowest-paid farm workers in this country. I do not think that Wales can afford to lose nearly £30 million of wages, taken out of the pockets of farm workers. Neither do I accept the appalling race to the bottom that was put forward by William Powell in his representation, I can only assume, of the Liberal party, in the name of competition across borders. I think that that is an appalling statement, and I hope that he might reflect on it.

The Bill also makes provision to protect things like holiday entitlement, which has just been alluded to, and I am really happy that here we are again, with a Labour-run Government putting in holiday entitlement for people, in the same way that part-time workers got holiday entitlement through the previous Labour Government. Also—it is worth restating—most farmers support this legislation. The current board will reduce red tape for them, and it will help with contractual arrangements. Those are not my words; they are the words of the FUW and the YFC.

Rwyf yn eithaf hapus, yn amlwg, i gefnogi'r Gweinidog ar y Bil brys hwn. Rwyf yn hapus ar sawl cyfrif. Yn gyntaf, os nad yw Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, mae posibilrwydd o gollu bron i £30 miliwn, a fyddai'n cael ei gymryd o bocedi'r gweithwyr fferm â'r cyflogau isaf yn y wlad. Nid wyf yn credu y gall Cymru fforddio colli bron i £30 miliwn o gyflogau o bocedi gweithwyr fferm. Nid wyf ychwaith yn derbyn y ras erchyll i'r gwaelod a gyflwynwyd gan William Powell yn ei ddarlun, ni allaf ond tybio, o'r blaidd Ryddfrydol yn enw cystadleuaeth ar draws ffiniau. Credaf fod hwnnw'n ddatganiad gwarthus, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn myfyrio yn ei gylch.

Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i amddiffyn pethau fel hawl i wyliau, sydd newydd gael ei grybwyll, ac rwyf yn hapus iawn ein bod yma unwaith eto, gyda Llywodraeth sy'n cael ei rhedeg gan y blaidd Lafur yn cynnwys yr hawl i bobl gael gwyliau, yn yr un modd ag y cafodd gweithwyr rhan amser hawl i wyliau drwy'r Llywodraeth Lafur flaenorol. Hefyd—mae'n werth ailddatgan—mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn cefnogi'r deddfwriaeth hon. Bydd y bwrdd presennol yn lleihau mân reolau ar eu cyfer, a bydd yn helpu gyda threfniadau cytundebol. Nid fy ngeiriau i yw'r rhain, dyma eiriau Undeb Amaethwyr Cymru a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

That is also backed up by DEFRA's original consultation, in which only five out of 29 responses from Wales supported abolition. It is clear that we are on the right side of the argument here. Most importantly, though, maintaining the current wages structure and grade progression will protect the livelihoods of 13,000 and more workers in Wales, as well as those of 7,000 casual workers. Whether it is employment, housing or anything else that might crop up, the board would continue to offer invaluable advice and support to both sides. Let us remember that this is about support for both sides, which, of course, has been conveniently forgotten. It will place a duty on employers to keep proper records.

Antoinette Sandbach a gododd—

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No. You do not take interventions. When you do, I will start.

Welsh farm workers—

Mae hynny hefyd yn cael ei ategu gan ymgynghoriad gwreiddiol DEFRA, lle nad oedd ond pump o'r 29 o ymatebion o Gymru yn cefnogi'r syniad o ddi-ddymu'r Bwrdd. Mae'n amlwg ein bod ar ochr iawn y ddadl yma. Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, trwy gynnal y strwythur cyflogau a'r datblygiad graddau presennol, byddwn yn diogelu bywoliaeth 13,000 a mwy o weithwyr yng Nghymru, yn ogystal â bywoliaeth 7,000 o weithwyr achlysurol. Byddai'r bwrdd yn parhau i gynnal cyngor a chefnogaeth amhrisiadwy i'r ddwy ochr, ynglŷn â chyflogaeth, tai neu unrhyw beth arall a allai godi. Gadewch inni gofio bod hyn yn ymwneud â chefnogaeth i'r ddwy ochr—rhywbeth sydd, wrth gwrs, wedi cael ei anghofio yn gyfleus. Bydd yn gosod dyletswydd ar gyflogwyr i gadw cofnodion priodol.

Antoinette Sandbach rose—

Na. Nid ydych chi'n cymryd ymyriadau. Pan fyddwch chi'n gwneud, fe ddechreuaf innau.

Bydd gweithwyr fferm Cymru—

17:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Excuse me, Joyce Watson, is that a 'no'? Are you not taking an intervention?

Esgusodwch fi, Joyce Watson, ai 'na' yw eich ateb? Ydych chi'n derbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:21 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not. No.

Nac ydw. Na.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hope that it is a gracious 'no'.

Rwyf yn gobeithio ei fod yn 'na' graslon.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:21 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If anything, Welsh farm workers will need better pay and conditions and a stronger collective voice. We need to attract more people into the industry, not price people out of it. If we were to listen to the voice of the people of Wales, we would find that we are doing the right things.

Os rhywbeth, bydd ar weithwyr fferm yng Nghymru angen gwell cyflog ac amodau a llais torfol cryfach. Mae angen i ni ddenu mwy o bobl i mewn i'r diwydiant, nid prisio pobl allan ohono. Pe byddem yn gwrandao ar lais pobl Cymru, byddem yn gweld ein bod yn gwneud y pethau iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The Tories, on the other hand, attach themselves to some ideological fantasy that only exists in Tory land. The talk about political independence from Tory benches is a red herring. They said that the Minister should detach himself from setting the wages, yet they talk about accepting the minimum wage as a base on which farmworkers should be paid. Unless I have completely misunderstood the setting of the minimum wage, is that not a political mechanism? I would just like some explanation as to how they find themselves wrapped up in such a misunderstanding about political interference in setting farm wages and minimum wages.

Mae'r Ceidwadwyr, ar y llaw arall, yn cysylltu eu hunain wrth ryw ffantasi ideolegol sydd ond yn bodoli yng ngwlad y Toriaid. Codi sgwarnog yw'r siarad ar y meinciau Ceidwadol am annibyniaeth wleidyddol. Maent yn dweud na ddylai'r Gweinidog fod yn gysylltiedig â phennu cyflogau, ac eto maent yn siarad am dderbyn yr isafswm cyflog fel sylfaen ar gyfer talu i weithwyr fferm. Oni bai fy mod wedi camddeall isafswm cyflog yn llwyr, onid mecanwaith gwleidyddol yw hwnnw? Hoffwn gael rhywfaint o eglurhad ynghylch sut y maent yn eu cael eu hunain mewn camddealltwriaeth o'r fath ynglŷn ag ymyrraeth wleidyddol wrth osod cyflogau fferm ac isafswm cyflog.

I welcome very much this Government looking after not only the interests of the workers but, in this case, the interests of those who employ them, who have come to the table and asked us to do just that.

Rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith fod y Llywodraeth hon yn gofalu am fuddiannau'r gweithwyr, ond hefyd, yn yr achos hwn, am fuddiannau'r rhai sy'n eu cyflogi, sydd wedi dod at y bwrdd a gofyn inni wneud hynny.

17:22

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf am wneud un pwynt. Rydym yma i drafod egwyddorion sylfaenol y Bil hwn, ac rwyf eisiau eu cefnogi, ac rwyf am weld bod y drefn bresennol o ran amodau gwaith a chyflogau yn parhau. Felly, rwyf eisiau gweithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau bod hynny'n digwydd. Cawsom ddatl ynglŷn â'r broses yr wythnos diwethaf. Mae un peth yn fy mhoeni yn fwy na dim heddiw—bydd gwelliannau yn cael eu cyflwyno wythnos nesaf, rwy'n siŵr—sef y cyswllt uniongyrchol rhwng y Gweinidog a gosod cyflogau. Rwy'n anghytuno'n llwyr â Joyce Watson, ac mae gennyf ofn nad yw'n deall beth sy'n digwydd gydag isafswm cyflog. Nid yw'n cael ei osod gan Weinidogion; mae'n cael ei osod yn annibynnol gan banel sy'n edrych ar sefyllfa'r economi ac sy'n pennu beth yw'r isafswm cyflog. Rwyf am weld yr un peth yn cael ei wneud yma, sef panel yn gosod argymhellion ar gyfer cyflogaeth ac amodau yn y sector a'r Gweinidog yn gweithredu ar yr argymhellion hynny. Mae'n hollol briodol bod gan y Gweinidog ffordd o wrthod argymhellion y panel, drwy reoliadau y pleidleisir arnynt yn y lle hwn. Byddai hynny'n ddull cwbl briodol i'r Gweinidog ei weithredu. Ond rwyf am weld, erbyn diwedd y broses hon, fod y Bil hwn yn ei gwneud yn glir mai'r panel sy'n gosod yr amodau a'r cyflogau ac mai'r Gweinidog sy'n gweithredu. Wedyn, byddwn yn parhau i amddiffyn gweithwyr yng nghefn gwlad.

I want to make one point. We are here to discuss the basic principles of this Bill, and I want to support them, and I want to see the current system in terms of terms and conditions and pay continue. Therefore, I want to work with the Government to ensure that that happens. We had a debate about the process last week. There is one thing that concerns me more than anything today—I am sure that amendments will be tabled next week—namely the direct link between the Minister and the setting of wages. I disagree entirely with Joyce Watson, and I am afraid that she does not understand what happens with the minimum wage. It is not set by Ministers; it is set independently by a panel that looks at the economic situation and then makes a determination on the minimum wage. I want to see the same thing done here, namely a panel setting recommendations on employment and terms and conditions within the sector, and the Minister implementing those recommendations. It is wholly appropriate for the Minister to have a mechanism to reject the panel's recommendations, by introducing regulations that will be voted upon in this place. That would be totally appropriate for the Minister. However, I want to see, by the end of this process, that this Bill makes clear that it is the panel that sets terms and conditions and pay and that it is the Minister who implements them. We will then continue to protect workers in rural areas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:24

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I listened carefully to what the Minister said in the Chamber last week and what was put on record in the scrutiny session with the Constitutional and Legislative Affairs Committee yesterday afternoon. I am still not convinced of his arguments or his questionable motives for trying to hijack this institution's legislative process with this Bill. I use that term carefully but deliberately because, as I see it, it is nothing more than a shameful abuse of process. Of course, protecting the rights of agricultural workers is important. The Agricultural Wages Board was outdated and inflexible, and it caused unnecessary duplication in the agriculture sector that is not imposed on other sectors of the economy.

Gwrandawais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog yn y Siambr yr wythnos diwethaf a'r hyn a roddwyd ar gofnod yn y sesiwn graffu gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol brynhawn ddoe. Rwyf yn dal heb fy argyhoeddi gan ei ddadleuon na'i gymhellion amheus dros geisio herwgipio proses ddeddfwriaethol y sefydliad hwn gyda'r Bil hwn. Defnyddiaf y term hwnnw'n ofalus, ond yn fwriadol oherwydd, fel yr wyf i'n gweld pethau, nid yw'n ddim mwy na chamdefnydd cywilyddus ar y broses. Wrth gwrs, mae'n bwysig amddiffyn hawliau gweithwyr amaethyddol. Roedd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn hen ffasiwn ac yn anhyblyg, ac yn achosi dyblygu diangen yn y sector amaethyddol nad yw'n cael ei orfodi ar sectorau eraill o'r economi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:25

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Is not the fact of the matter that, if the Tory party had its way, it would bring back serfdom? [Laughter.]

Onid gwir y mater yw y byddai'r blaid Geidwadol, pe bai'n cael ei ffordd, yn dod â thaeogaeth yn ôl? [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:25

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I believe that the UK Government is committed to protecting and enhancing agricultural workers' rights. The agricultural wages Order, coupled with existing stringent employment legislation and EU directives, means that the harmonisation of employment rights with other sectors will not be detrimental to agricultural workers in Wales. Therefore, the way in which the Government has framed this Bill as emergency legislation to preserve workers' rights in Wales is not acceptable.

Rwyf yn credu bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddiogelu a gwella hawliau gweithwyr amaethyddol. Mae'r Gorchymyn cyflogau amaethyddol, ynghyd â'r ddeddfwriaeth cyflogaeth lem bresennol a chyfarwyddbau'r UE, yn golygu na fydd yn andwyol i weithwyr amaethyddol yng Nghymru gysoni hawliau cyflogaeth â sectorau eraill. Felly, nid yw'r ffordd y mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno'r Bil hwn fel deddfwriaeth frys er mwyn diogelu hawliau gweithwyr yng Nghymru yn dderbyniol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As the Government, you have a right, of course, to bring forward policy and legislation that you believe is in the best interests of the people of Wales. However, what I believe is disrespectful to this institution is the approach that you have adopted to try to force this legislation through, and the rationale by which you are trying to justify it. To say that you had no choice because there was no flexibility in our legislative system is to undermine the legislative process, and to undermine the integrity of this institution. Trying to circumvent the legislative process in this way shows once again that you are a Government that is arrogantly taking this institution and the Welsh people for granted.

The Minister has said that he has examined other possible ways of doing this and that there is no other way. I would argue that that is a complete falsehood, and I will briefly set out why I believe that is the case. First, I think that we can ascertain that the Welsh Government knew of the UK Government's intentions before Christmas, in that amendment to the Enterprise and Regulatory Reform Bill would bring an end to the Agricultural Wages Board. This, coupled to the earlier point relating to the date that was printed on the draft Bill, suggests that this is not as last-minute an issue as the Minister suggests. It is clear that you had been working on this for a while, and, therefore, you have had sufficient time to legislate for this properly, following set procedures.

Secondly, the business schedule of the Assembly, in terms of the recess, should not be a barrier to following due process. Consultation could happen over the summer recess. The Assembly, and its relevant committees—the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Environment and Sustainability Committee—would, I am sure, be happy to return early from the summer recess to scrutinise this Bill properly, if that was the will of Members here and with the Presiding Officer's agreement.

Thirdly, it seems from yesterday's committee session that you have perhaps not given due regard either to retrospective legislation or to appropriate sunset provisions that could have allowed you to progress, or would have given Members here the assurance that the legislation would be curtailed and re-evaluated at a later date. While that would not have been ideal, it would have been a pragmatic alternative. Why was that not considered properly? It seems something that you could have lived with, because, having been pressed on the matter yesterday, you admitted as much to Members.

Fel y Llywodraeth, mae gennych hawl, wrth gwrs, i gyflwyno polisi a deddfwriaeth sydd, yn eich barn chi, er budd pennaf pobl Cymru. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amharchus i'r sefydliad hwn yn fy marn i yw'r dull yr ydych wedi ei fabwysiadu i geisio gorfodi'r ddeddfwriaeth hon trwodd, a'r rhesymeg a ddefnyddir gennych i geisio cyfiawnhau hynny. Trwy ddweud nad oedd gennych unrhyw ddewis oherwydd nad oedd unrhyw hyblygrwydd yn ein system ddeddfwriaethol, rydych yn tansellio'r broses ddeddfwriaethol, ac yn tansellio hygredd y sefydliad hwn. Trwy geisio osgoi'r broses ddeddfwriaethol yn y ffordd hon, rydych yn dangos unwaith eto eich bod yn Llywodraeth drahaus sy'n cymryd y sefydliad hwn a phobl Cymru yn ganiataol.

Mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod wedi archwilio ffyrdd posibl eraill o wneud hyn ac nad oes unrhyw ffordd arall. Byddwn yn dadlau bod hynny'n anwiredd llwyr, a byddaf yn nodi'n fras pam yr wyf yn credu hynny. Yn gyntaf, rwyf yn meddwl y gallwn weld bod Llywodraeth Cymru yn gwybod am fwradau Llywodraeth y DU cyn y Nadolig, yn yr ystyr y byddai gwelliant i'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio yn dod â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i ben. Roedd hyn, ynghyd â'r pwynt cynharach yn ymwneud â'r dyddiad a argraffwyd ar y Bil drafft, yn awgrymu nad yw hyn yn fater munud olaf i'r graddau y mae'r Gweinidog yn ei awgrymu. Mae'n amlwg eich bod wedi bod yn gweithio ar hyn ers cryn amser, ac, felly, wedi cael digon o amser i ddeddfu ar gyfer hyn yn iawn, gan ddilyn gweithdrefnau penodedig.

Yn ail, ni ddylai amserlen fusnes y Cynulliad, o ran y toriad, fod yn rhwystr i ddilyn y broses briodol. Gellid ymgynghori dros doriad yr haf. Byddai'r Cynulliad, a'i bwyllgorau perthnasol—y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd—rwyf yn siŵr, yn hapus i ddychwelyd yn gynnar ar ôl toriad yr haf i graffu ar y Bil hwn yn iawn, os mai dyna oedd ewyllys yr Aelodau yma a chyda chytundeb y Llywydd.

Yn drydydd, mae'n ymddangos o sesiwn y pwyllgor ddoe nad ydych efallai wedi rhoi sylw dyledus i ddeddfwriaeth ôl-weithredol nac i ddarpariaethau machlud priodol a allai fod wedi caniatáu i chi symud ymlaen, neu a fyddai wedi rhoi sicrwydd i'r Aelodau yma y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei dirwyn i ben a'i hail-werthuso'n ddiweddarach. Er na fyddai hynny wedi bod yn ddelfrydol, byddai wedi bod yn ddewis amgen ymarferol. Pam na chafodd hynny ei ystyried yn briodol? Mae'n ymddangos yn rhywbeth y gallech fod wedi byw ag ef, oherwydd eich bod, ar ôl pwyso arnoch ynglŷn â'r mater ddoe, wedi cyfaddef hynny i'r Aelodau.

Fourthly, if you believe that the UK Government has somehow circumvented agreements with you, and that this is a matter of constitutional significance that potentially undermines the devolution settlement, why was it not in your Government's recent submission to the Silk commission? I think that you are politicising this issue. You have borderline competence in this, and I can only see that this issue will be played out in the courts at a later date, and that certainly will not benefit Welsh agricultural workers. If you are not going to reconsider this, then I hope that Members of all parties, including backbenchers in the Labour Party, will stand up for this institution, and not allow it to be undermined.

Yn bedwerydd, os ydych yn credu bod Llywodraeth y DU rhywsut wedi osgoi cytundebau gyda chi, a bod hyn yn fater o bwys cyfansoddiadol a allai danseilio'r setliad datganoli, pam nad oedd yng nghyflwyniad diweddar eich Llywodraeth i gomisiwn Silk? Rwyf yn meddwl eich bod yn gwneud hwn yn fater gwleidyddol. Nid yw eich cymhwysedd yn hyn o beth yn eglur, ac ni allaf ond gweld y bydd y mater hwn yn cael ei drafod yn y llysoedd yn ddiweddarach, ac ni fydd hynny o fudd i weithwyr amaethyddol Cymru yn sicr. Os nad ydych yn mynd i ailystyried hyn, yna rwyf yn gobeithio y bydd Aelodau o bob plaid, gan gynnwys aelodau meinciau cefn yn y Blaid Lafur, yn sefyll o blaid y sefydliad hwn, ac yn peidio â gadael iddo gael ei danseilio.

17:29

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to participate in the debate. Just to make it clear, the Minister said that I should declare my interest. I declare that I have no interest in this Bill, because I do not employ anybody under the agricultural workers legislation as was, nor do I envisage any such employment in the future. So, it is quite clear that I come at this from the point of view of interest in the agriculture industry, and also in the legislative process that this place employs to scrutinise Government proposals and make sure that robust legislation is brought before this place.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y ddatl. Dim ond i nodi'n eglur, dywedodd y Gweinidog y dylwn ddatgan fy muddiannau. Rwyf yn datgan nad oes gennyf unrhyw fuddiant yn y Bil hwn, oherwydd nad wyf yn cyflogi neb o dan y ddeddfwriaeth gweithwyr amaethyddol fel yr oedd, ac nid wyf yn rhagweld unrhyw gyflogaeth o'r fath yn y dyfodol. Felly, mae'n eithaf clir fy mod yn ystyried hyn o safbwynt diddordeb yn y diwydiant amaeth, a hefyd yn y broses ddeddfwriaethol y mae'r lle hwn yn ei defnyddio i graffu ar gynigion y Llywodraeth a gwneud yn siŵr bod deddfwriaeth gadarn yn cael ei dwyn gerbron y lle hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I look at the agenda for this week, and at the agenda for next week, and many of the issues over the last couple of weeks in First Minister's questions and in the media have focused on the health service and, in particular, the scandal at Betsi Cadwaladr University Local Health Board in the north, yet we have not taken one statement from the Minister for health on these pressing issues that that huge area of Wales faces, and the complete lack of executive accountability or, indeed, board responsibility.

Rwyf yn edrych ar yr agenda ar gyfer yr wythnos hon, ac ar yr agenda ar gyfer yr wythnos nesaf, ac mae llawer o'r materion dros yr ychydig wythnosau diwethaf yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog ac yn y cyfryngau wedi canolbwyntio ar y gwasanaeth iechyd ac, yn arbennig, y sgandal ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y gogledd. Eto, nid ydym wedi cymryd yr un datganiad gan y Gweinidog iechyd ar y materion pwysig hyn y mae'r ardal enfawr honno o Gymru'n eu hwynebu, a'r diffyg atebolrwydd gweithredol llwyr nac, yn wir, gyfrifoldeb y bwrdd.

17:30

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you coming back to the point?

A ydych yn dod yn ôl at y pwynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:30

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am going to come back to the point. This is a debate, so I will proceed, if I am allowed.

Rwyf yn mynd i ddod yn ôl at y pwynt. Dadl yw hon, felly byddaf yn bwrw ymlaen, os caniateir imi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Government has chosen to clear its programme to bring this emergency legislation forward. I have to say, and other speakers in this debate have said, that this issue has not been raised with them at all by the agriculture industry or representative bodies. As someone who works in the agriculture industry and has an interest in it, I can confirm that there is no widespread uprising about this issue within the agriculture industry. What people in the agriculture industry want is a future that is structured around a modern industry in the twenty-first century. In 1948, when the Agricultural Wages Board was established, it was relevant for its time. Here, in 2013, I would suggest that what is being proposed by the Welsh Government is not appropriate for the modern agriculture industry that we require in the twenty-first century. The Minister says that he has not received any representations about the winding up of the Agricultural Wages Board, or any views contrary to his own or those of his Government, but I draw his attention to the points made by the rural affairs spokesman from the Conservative benches about the Tenant Farmers Association Cymru and NFU Cymru, which have made their position clear and are two substantial representative bodies within the agriculture industry.

I accept that the Minister has the right to bring this legislation forward. It is within the gift of the Government. I question whether it is within competence, but that is my own personal view, and that might well be tested at a later date. However, it would be due respect to this institution and its functions for Members to be afforded the opportunity to scrutinise this legislation fully, and to take evidence objectively, rather than just having political views expressed, as has been done here today. That is the whole point of the Stage 1 process: outside organisations can come in and give their opinions on the legislation, whatever legislation it is, that has been drafted. Otherwise, why do we not just do this with every piece of legislation? Why do we not just rush it all through? We would save a considerable amount of money and time. You have gone about this the wrong way, Minister, and I urge you to reconsider.

The remarks of the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and the letter that has come from that committee on the evidence that you gave yesterday, really do pose serious questions for consideration, and demand reflection on the issues that you have been asked to consider. I hope that, in your summing up, you will be more indicative of taking those proposals on board.

Mae'r Llywodraeth wedi dewis clirio ei rhaglen i ddod â'r ddeddfwriaeth frys hon yn ei blaen. Mae'n rhaid i mi ddweud, ac mae siaradwyr eraill yn y ddatl hon wedi dweud, nad yw'r diwydiant amaethyddiaeth na chyrrff cynrychiadol wedi codi'r mater hwn gyda nhw o gwbl. Fel rhywun sy'n gweithio yn y diwydiant amaethyddol ac sydd â diddordeb ynddo, gallaf gadarnhau nad oes unrhyw wrthryfel eang ynglŷn â'r mater hwn o fewn y diwydiant amaeth. Yr hyn y mae pobl yn y diwydiant amaethyddol ei eisiau yw dyfodol wedi'i strwythuro o amgylch diwydiant modern yn yr unfed ganrif ar hugain. Ym 1948, pan sefydlwyd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, roedd yn berthnasol i'w gyfnod. Yma, yn 2013, byddwn yn awgrymu nad yw'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru yn briodol ar gyfer y diwydiant amaethyddol modern sydd ei angen arnom yn yr unfed ganrif ar hugain. Dywed y Gweinidog nad yw wedi derbyn unrhyw sylwadau ynghylch dirwyn y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i ben, nac unrhyw farn groes i'w farn ef ei hun neu ei Lywodraeth, ond hoffwn dynnu ei sylw at y pwyntiau a wnaed gan y llefarydd materion gwledig ar feinciau'r Ceidwadwyr am Gymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru ac NFU Cymru, sydd wedi gwneud eu safbwynt yn glir ac sy'n ddau gorff cynrychiadol sylweddol o fewn y diwydiant amaeth.

Rwyf yn derbyn bod gan y Gweinidog yr hawl i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Mae o fewn pŵer y Llywodraeth. Rwyf yn amau a yw o fewn cymhwysedd, ond dyna fy marn bersonol i, a gallai hynny gael ei brofi'n ddiweddarach. Fodd bynnag, byddai'n rhoi dyledus barch i'r sefydliad hwn a'i swyddogaethau i'r Aelodau gael y cyfle i graffu ar y ddeddfwriaeth hon yn llawn, ac i gymryd tystiolaeth yn wrthrychol, yn hytrach na dim ond clywed safbwyntiau gwleidyddol yn cael eu mynegi, fel sydd wedi digwydd yma heddiw. Dyna holl bwynt y broses Cyfnod 1: gall sefydliadau allanol ddod i mewn a rhoi eu barn am y ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei drafftio, pa bynnag ddeddfwriaeth yw hi. Fel arall, pam nad ydym yn gwneud hyn gyda phob darn o ddeddfwriaeth? Pam nad ydym yn rhuthro popeth trwyddo? Byddem yn arbed llawer iawn o arian ac amser. Rydych wedi mynd o gwmpas hyn yn y ffordd anghywir, Weinidog, ac rwyf yn eich annog i ailstyried.

Mae sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'r llythyr a ddaeth gan y pwyllgor hwnnw ar y dystiolaeth a roddoch ddoe, mewn gwirionedd yn codi cwestiynau difrifol i'w hystyried, ac yn galw am fyfyrion ar y materion y gofynnwyd i chi eu hystyried. Rwyf yn gobeithio, wrth i chi grynhoi, y byddwch yn rhoi mwy o arwydd y byddwch yn cadw'r cynigion hynny mewn cof.

I go back to my opening remarks: is this an emergency situation that we face in the agriculture industry? No, it is not. This could be done in a far more sensible manner, with an approach that everyone could have participated in, and if it was deemed necessary you would have had far better buy-in from all concerned. I draw the Minister's attention again to my opening remarks about the catastrophic impacts in Betsi Cadwaladr health board. The Government chooses not to come forward and answer questions on that. Yes, it took an urgent question that I tabled last Tuesday, but it has not brought a statement forward, yet on agricultural wages it clears its timetable for two weeks to ram this through. This is Len McCluskey instructing the Welsh Government what to do, rather than the Minister having at heart any real interest in developing an agriculture industry for the twenty-first century. I will take the intervention.

Rwyf yn mynd yn ôl at fy sylwadau agoriadol: a yw hon yn sefyllfa o argyfwng sy'n ein hwynebu yn y diwydiant amaeth? Nac ydyw. Gellid gwneud hyn mewn modd llawer mwy synhwyrol, gyda dull y byddai pawb wedi gallu cymryd rhan ynddo, ac os oedd hynny'n angenrheidiol byddech wedi cael llawer gwell derbyniad gan bawb dan sylw. Tynnaf sylw'r Gweinidog unwaith eto at fy sylwadau agoriadol am yr effeithiau trychinebus ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Mae'r Llywodraeth yn dewis peidio â dod ymlaen ac ateb cwestiynau ar hynny. Do, derbyniodd gwestiwn brys a gyflwynais ddydd Mawrth diwethaf, ond nid yw wedi cyflwyno datganiad, ac eto ym maes cyflogau amaethyddol mae'n clirio'i hamserlen am bythefnos i wthio hyn trwodd. Len McCluskey sy'n rhoi cyfarwyddiadau yma i Lywodraeth Cymru ynglŷn â beth i'w wneud, yn hytrach na bod y Gweinidog unrhyw ddiddordeb go iawn mewn datblygu diwydiant amaeth ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Cymeraf yr ymyriad.

17:33 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you agree with me that this Unite-sponsored Bill—and we understand from the union that 20 Assembly Members are affiliated to it—is actually opposed by the National Farmers Union of Wales, the Tenant Farmers Association and the Women's Farming Union?

A fyddech yn cytuno â mi bod y Bil hwn a noddir gan Unite—ac rydym yn deall gan yr undeb bod 20 o Aelodau'r Cynulliad yn gysylltiedig ag ef—yn cael ei wrthwynebu mewn gwirionedd gan Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, y Gymdeithas Ffermwyr Tenant ac Undeb Ffermio'r Menywod?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sorry, but that is out of order.

Mae'n ddrwg gennyf, ond mae hynny'n annerbyniol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:34 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do take that point, and I think that it is something that those on the benches opposite should reflect on. We want a modern, diverse agriculture industry for the twenty-first century. We do not want legislation and regulation that is fit for the 1940s, as was the old Agricultural Wages Board.

Rwyf yn cymryd y pwynt hwnnw, a chredaf ei fod yn rhywbeth y dylai'r rhai sydd ar y meinciau gyferbyn fyfyrir arno. Rydym am gael diwydiant amaethyddol modern, amrywiol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nid ydym am gael deddfwriaeth a rheoliadau sy'n addas ar gyfer y 1940au, fel yr oedd yr hen Fwrdd Cyflogau Amaethyddol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:34 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, his time is up, sorry.

Na, mae ei amser ar ben, mae'n ddrwg gennyf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I too rise to raise my concerns over the legislative process for this Bill. Not very long ago we debated the Human Transplantation (Wales) Bill, and what an amazing day that was for us all. I felt that we all contributed in a constructive way to real scrutiny of a piece of policy put forward by the Welsh Government, and yet today we are rushing through this Bill. For an Assembly Member like me who does not cover this area—it is not my portfolio—it is an extremely difficult time frame for me to try to pick this up and remember that, next week, I have to sit here as an Assembly Member, representing my constituents in a committee, and I will not have at my fingertips all the information that I need. This is really important, because this is the one thing that I can do here that nobody else in Wales can do. Only we 60 can scrutinise, and only the opposition parties can effectively scrutinise the Government; that is our prime job, and if we cannot do that here, no-one else is going to do it. Other people can help people with debt problems, and other people can help people with health problems. However, my primary role, which nobody else in my constituency can do, is to hold you to account. By rushing this through, you are not letting me do that.

Only last week, we had a great example of proper scrutiny working well. This week, we plumb back down to the depths again, and I am really concerned about it. I want to make that point very clear and put it on the record, because we do need to change. We are supposed to be here to be a parliament for the future.

I have a couple of questions that I hope that you will address, Minister. I will admit that, as I have not had a chance to read the Bill because it was only tabled yesterday, there are things that you may have covered elsewhere. However, as I see it from my brief reading of the Bill, there is no properly quantified assessment of the benefits and costs to farm businesses. The impact assessment in the explanatory memorandum reaches no conclusion on this matter. We have no detailed indications of how cross-border issues are going to be resolved. There is no quantification of the competition issues between Wales and England.

Why is the proposed panel going to have greater powers? Is this part of the centralisation agenda? This is really important, because if we are going to scrutinise legislation, I have to say that an awful lot of Bills that go through talk about Ministers taking power unto themselves—not giving it out, which is what we are supposed to be doing, what devolution is about and what empowering people is about, but sucking that power in. I am asking you this Minister, because I think that Llyr and Simon Thomas in particular clearly made the point about you taking powers rather than the panel having them.

Rwyf innau hefyd yn mynegi fy mhryderon ynghylch y broses ddeddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn. Yn ddiweddar iawn, cawsom ddadl ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), a dyna ddiwrnod anhygoel oedd hwnnw inni i gyd. Rwyf yn teimlo ein bod i gyd wedi cyfrannu mewn ffordd adeiladol at graffu go iawn ar ddarn o bolisi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac eto heddiw rydym yn rhuthro trwy'r Bil hwn. I Aelod Cynulliad fel fi nad yw'n ymdrin â'r maes hwn—nid fy mhorthffolio i ydyw—mae'n anodd iawn imi geisio ymgymryd â hyn o fewn yr amser sydd ar gael a chofiwch y bydd yn rhaid imi, yr wythnos nesaf, eistedd yma fel Aelod o'r Cynulliad, yn cynrychioli fy etholwyr mewn pwyllgor, heb fod â'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnaf ar flaenau fy mysedd. Mae hyn yn bwysig iawn, gan mai dyma'r un peth y gallaf ei wneud yma na all neb arall yng Nghymru ei wneud. Dim ond y 60 ohonom a all graffu, a dim ond y gwrthbleidiau a all graffu ar y Llywodraeth yn effeithiol; dyna yw ein prif waith, ac os na allwn ni wneud hynny yma, ni fydd neb arall yn ei wneud. Gall pobl eraill helpu pobl sydd â phroblemau dyled, a gall pobl eraill helpu pobl sydd â phroblemau iechyd. Fodd bynnag, fy mhrif rôl i, na all neb arall yn fy etholaeth ei gwneud, yw eich dwyn i chi i gyfrif. Drwy ruthro hyn trwodd, nid ydych yn gadael i mi wneud hynny.

Dim ond yr wythnos diwethaf, cawsom enghraifft wych o graffu priodol yn gweithio'n dda. Yr wythnos hon, rydym yn plymio'n ôl i lawr i'r dyfnderoedd eto, ac rwyf yn bryderus iawn am y peth. Rwyf am wneud y pwynt yn glir iawn a'i roi ar y cofnod, oherwydd bod angen inni newid. Rydym i fod yma i fod yn senedd ar gyfer y dyfodol.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau y gobeithiaf y byddwch yn rhoi sylw iddynt, Weinidog. Rwyf yn cyfaddef ei bod yn bosibl, gan nad wyf wedi cael cyfle i ddarllen y Bil am mai ddoe yn unig y'i cyflwynwyd, eich bod wedi ymdrin â rhai pethau mewn manau eraill. Fodd bynnag, fel yr wyf yn deall, ar ôl darllen y Bil yn gyflym iawn, ni chynhaliwyd asesiad wedi'i fesur yn briodol o'r manteision a'r costau i fusnesau fferm. Nid yw'r asesiad effaith yn y memorandumw esboniadol yn dod i unrhyw gasgliad ar y mater hwn. Nid oes gennym unrhyw arwyddion manwl o sut y bwriedir datrys materion traws-ffiniol. Nid yw materion yn ymwneud â chystadleuaeth rhwng Cymru a Lloegr wedi'u mesur o gwbl.

Pam y mae'r panel arfaethedig yn mynd i gael mwy o bwerau? A yw hyn yn rhan o'r agenda ganoli? Mae hyn yn bwysig iawn, oherwydd os ydym yn mynd i graffu ar ddeddfwriaeth, rhaid imi ddweud bod llawer iawn o'r Biliau sy'n mynd trwodd yn siarad am Weinidogion yn cymryd pŵer iddynt eu hunain—yn hytrach na'i ddsbarthu, sef yr hyn yr ydym i fod i'w wneud, yr hyn y mae datganoli'n ei olygu a'r hyn y mae grymuso pobl yn ei olygu, ond yn sugno'r pŵer hwnnw i mewn. Rwyf yn gofyn hyn ichi Weinidog, oherwydd y credaf fod Llyr a Simon Thomas yn arbennig wedi gwneud yn glir y pwynt amdanoch chi yn cymryd pwerau yn hytrach na'u rhoi i'r panel.

To my knowledge, UK employment law offers enormous protection to agricultural workers. There is law on the national minimum wage and the working time directive, and there is the gangmasters legislation. Minister, are you telling me that all of this UK employment law is not sufficient to protect an employee of a farm or a farm-related business, because that is what I seem to be hearing?

I do not understand how this Bill can be tabled before the consultation closes. Other people have commented on the number of responses. I will just say that I am really puzzled how one person in Pembrokeshire has managed to put forward two responses that have been judged as two separate consultation responses, helping to make a grand total of 23 responses.

I would also like to know whether or not you agree with me that it is utterly disgraceful for Ivan Monckton from Unite to describe smaller farms in Wales as being backwards. I am really cross about this, because I can tell you, Minister, that small farms in my constituency are essential to the fabric of Wales, to farming and to keeping local people employed. Small farms in my constituency have struggled to survive, to expand and diversify and to find staff. They need support, not unnecessary union-driven red tape such as this Bill.

Hyd y gwn i, mae cyfraith cyflogaeth y DU yn cynnig amddiffyniad enfawr i weithwyr amaethyddol. Ceir cyfraith ynglŷn â'r isafswm cyflog cenedlaethol a'r gyfarwydddeb oriau gwaith, a cheir deddfwriaeth ynglŷn â gangfeistri. Weinidog, a ydych yn dweud wrthyf nad yw holl gyfraith cyflogaeth y DU yn ddigonol i amddiffyn gweithiwr fferm neu fusnes sy'n gysylltiedig â fferm, Mae'n ymddangos mai dyna'r wyf yn ei glywed?

Nid wyf yn deall sut y gellir cyflwyno'r Bil hwn cyn i'r ymgynghoriad gau. Mae pobl eraill wedi gwneud sylwadau ynglŷn â nifer yr ymatebion. Yr unig beth a ddywedaf yw nad wyf yn deall o gwbl sut mae un person yn Sir Benfro wedi llwyddo i gyflwyno dau ymateb sydd wedi cael eu barnu'n ddau ymateb ymgynghori ar wahân, gan helpu i wneud cyfanswm enfawr o 23 o ymatebion.

Byddwn hefyd yn hoffi gwybod a ydych yn cytuno â mi ei bod yn gwbl warthus i Ivan Monckton o Unite ddisgrifio ffermydd llai yng Nghymru fel bod ar ei hôl hi. Rwyf yn wirioneddol ddiog am hyn, oherwydd y gallaf ddweud wrthyf, Weinidog, bod ffermydd bach yn fy etholaeth yn hanfodol i wead Cymru, i ffermio ac i gadw pobl leol mewn gwaith. Mae ffermydd bach yn fy etholaeth wedi ei chael yn anodd goroesi, ehangu ac arallgyfeirio, a dod o hyd i staff. Mae angen cefnogaeth arnynt, nid biwrocratiaeth ddiangen sy'n cael ei gyrru gan undeb fel y Bil hwn.

17:38

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I do sometimes wonder which legislation we are discussing here this afternoon. Bill Powell described this proposal as being entirely unconstitutional and then outlined the reasons why he would support it. We need to focus on what we are trying to do here. I have heard the speeches from the Conservative benches, all of which seemed to be about last week's debate rather than this week's debate on the legislation. I suggest to Russell, the Member for Montgomeryshire, that if he wishes to have answers to the questions that he raised, he should simply read the transcript, as we discussed all of those matters last week.

I recognise the very real issues that were raised by some Members during this debate. In my opening remarks, I said that I would actively listen to the debate and respond to it positively. I said to David Melding, the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, that I would respond positively to that committee's report, and I will respond positively to the points that were made by that committee in our scrutiny session yesterday and in the report that I have received today. I thank the committee for its time and for the effort it has made in producing that report, and I will respond positively to it.

The points that were made by Llyr Huws Gruffydd and Simon Thomas from Plaid Cymru were very positive, and I will respond positively to the points that were raised by both of those Members.

Weithiau byddaf yn meddwl tybed pa ddeddfwriaeth yr ydym yn ei thrafod yma y prynhawn yma. Disgrifiodd Bill Powell y cynnig hwn fel un hollol anghyfansoddiadol ac yna amlinellodd y rhesymau pam y byddai'n ei gefnogi. Mae angen inni ganolbwyntio ar yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yma. Rwyf wedi clywed yr areithiau o feinciau'r Ceidwadwyr, a phob un ohonynt yn ymddangos fel pe bai am ddadl yr wythnos diwethaf yn hytrach na dadl yr wythnos hon ar y ddeddfwriaeth. Rwyf yn awgrymu i Russell, yr Aelod dros Sir Drefaldwyn, y dylai ddarllen y trawsgrifiad os yw'n dymuno cael atebion i'r cwestiynau a gododd, gan ein bod wedi trafod pob un o'r materion hynny yr wythnos diwethaf.

Rwyf yn cydnabod y materion real iawn a godwyd gan rai Aelodau yn ystod y ddadl hon. Yn fy sylwadau agoriadol, dywedais y byddwn yn mynd ati i wrando ar y ddadl ac ymateb iddi'n gadarnhaol. Dywedais wrth David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y byddwn yn ymateb yn gadarnhaol i adroddiad y pwyllgor, a byddaf yn ymateb yn gadarnhaol i'r pwyntiau a wnaethpwyd gan y pwyllgor hwnnw yn ein sesiwn graffu ddoe ac yn yr adroddiad yr wyf wedi'i dderbyn heddiw. Diolch i'r pwyllgor am ei amser ac am yr ymdrech y mae wedi'i wneud wrth baratoi'r adroddiad hwnnw, a byddaf yn ymateb yn gadarnhaol iddo.

Mae'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Llyr Huws Gruffydd a Simon Thomas o Blaid Cymru yn gadarnhaol iawn, a byddaf yn ymateb yn gadarnhaol i'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

May I say as we debate and discuss scrutiny that scrutiny is clearly important? It is important in terms of accountability and democratic legitimacy, and that is why it is appalling that the AWB was abolished against the express wish of this place. The only vote that has been taken on AWB abolition was in this place. This Assembly voted against it and asked the UK Government to reconsider. That took place in January. The United Kingdom Government paid no attention to it. It is also a disgrace—and we talk about scrutiny again—that no elected politician in Westminster had the opportunity to vote on that matter. Not one elected politician was given the opportunity to vote on it, and you talk to me about scrutiny and accountability.

While I understand the points that have been made about the role of ministerial decision making in this place versus a decision of a board—and I am quite happy to have this debate over the coming few days—I will say that ministerial decision making provides for greater scrutiny, transparency and accountability. I recognise that some people might have concerns about that, and I am willing to debate how those concerns can be resolved. However, I believe that the process we have outlined in this Bill provides for greater transparency and scrutiny than the present regime or any alternative. However, if people wish to take that further, I am happy to do so.

I have said that I will listen, and I will listen positively. I have described how we will continue to debate this matter over the coming days and have said that the Government will respond to the debate that we have had this afternoon. I will say again that it was not my choice to bring forward legislation in this way. I have negotiated with eight UK Ministers over a period of two years to try to find a resolution to this matter that would have avoided the process that we are going through at the moment. It is not my choice that we are in this position, but we are in this position because I wish, and this Government wishes, and I believe that most Members in this Chamber wish, to ensure that the current methods of providing support to agricultural businesses are maintained when the AWB is abolished and when the Order runs out in October. [Interruption.] I will not take an intervention.

Had the UK Government engaged constructively with me, I would have taken that opportunity. I was appalled to find out that it had deliberately, and by planning, sought to avoid the demands of the devolution settlement in the United Kingdom, undermining the constitution of this place and of the Westminster Parliament.

It is a shame, Bill, that you did not have a view on that at the time. It is a shame that you have only discovered your strong convictions in the last few weeks. It is a shame that you had no view at all when the UK Government was treating this place like a football all of that time. It is a tragedy that you did not have any views and opinions, but now you have opinions coming out of your ears.

A allaf ddweud, wrth i ni ddadlau a thrafod craffu, bod craffu yn amlwg yn bwysig? Mae'n bwysig o ran atebolrwydd a chyfreithlondeb democrataidd, a dyna pam ei bod yn warthus bod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol wedi cael ei ddiddymu yn erbyn dymuniad penodol y lle hwn. Yn y lle hwn y cymerwyd yr unig bleidlais ar ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Pleidleisiodd y Cynulliad hwn yn ei erbyn gan ofyn i Lywodraeth y DU ailystyried. Digwyddodd hynny ym mis Ionawr. Ni chymerodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddim sylw ohono. Mae hefyd yn warth—ac rydym yn sôn am graffu eto—nad oes unrhyw wleidydd etholedig yn San Steffan wedi cael y cyfle i bleidleisio ar y mater hwnnw. Ni chafodd yr un gwleidydd etholedig y cyfle i bleidleisio arno, ac rydych yn siarad â mi am graffu ac atebolrwydd.

Er fy mod yn deall y pwyntiau a wnaethpwyd am rôl penderfyniadau gan Weinidogion yn y lle hwn o'i gymharu â phenderfyniad gan fwrdd—ac rwyf yn berffaith fodlon cael y ddadl hon yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf—byddaf yn dweud bod proses lle y gwneir penderfyniadau gan Weinidogion yn darparu ar gyfer mwy o graffu, tryloywder ac atebolrwydd. Rwyf yn cydnabod y gall fod pryderon gan rai pobl am hynny, ac rwyf yn barod i drafod sut y gellir datrys y pryderon hynny. Fodd bynnag, rwyf yn credu bod y broses yr ydym wedi'i hamlinellu yn y Bil hwn yn darparu ar gyfer mwy o dryloywder a chraffu na'r drefn bresennol neu unrhyw ddewis arall. Fodd bynnag, os yw pobl yn dymuno trafod hynny ymhellach, rwyf yn hapus i wneud hynny.

Rwyf wedi dweud y byddaf yn gwrandao, a byddaf yn gwrandao'n gadarnhaol. Rwyf wedi disgrifio sut y byddwn yn parhau i drafod y mater hwn dros y dyddiau nesaf ac wedi dweud y bydd y Llywodraeth yn ymateb i'r ddadl a gawsom y prynhawn yma. Dywedaf eto nad fy newis i oedd cyflwyno deddfwriaeth yn y ffordd hon. Rwyf wedi trafod gydag wyth o Weinidogion y DU dros gyfnod o ddwy flynedd i geisio dod o hyd i ateb i'r mater hwn a fyddai wedi osgoi'r broses yr ydym yn mynd drwyddi ar hyn o bryd. Nid fy newis i yw ein bod yn y sefyllfa hon, ond rydym yn y sefyllfa hon oherwydd fy mod yn dymuno, a bod y Llywodraeth hon yn dymuno, a chredaf fod y rhan fwyaf o Aelodau yn y Siambr hon yn dymuno, sicrhau bod y dulliau cyfredol o ddarparu cymorth i fusnesau amaethyddol yn parhau pan fydd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn cael ei ddiddymu a phan ddaw'r Gorchymyn i ben ym mis Hydref. [Torri ar draws.] Nid wyf am gymryd ymyriad.

Petai Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu'n adeiladol gyda mi, byddwn wedi cymryd y cyfle hwnnw. Cefais fy nychryn i ddarganfod ei bod yn fwrddol, a thrwy gynllunio, wedi ceisio osgoi gofynion y setliad datganoli yn y Deyrnas Unedig, gan danseilio cyfansoddiad y lle hwn a Senedd San Steffan.

Mae'n drueni, Bill, nad oedd gennych farn ar hynny ar y pryd. Mae'n drueni nad ydych ond wedi darganfod eich argyhoeddiadau cryf yn yr wythnosau diwethaf. Mae'n drueni nad oedd gennych unrhyw farn o gwbl pan oedd Llywodraeth y DU yn trin y lle hwn fel pêl-droed gydol y cyfnod hwnnw. Mae'n drasiedi nad oedd gennych unrhyw safbwyntiau a barn, ond yn awr mae gennych safbwyntiau'n dod allan o'ch clustiau.

Kirsty Williams a gododd—

Kirsty Williams rose—

- 17:43 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Let me say this. You still have room to vote in favour of it next week, I know—Liberals.
Gadwch imi ddweud hyn. Mae gennych le o hyd i bleidleisio o'i blaidd yr wythnos nesaf, rwyf yn gwybod—Rhyddfrydwyr.
- Let me say this: what we are seeking to do today—
Gadwch imi ddweud hyn: yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud heddiw—
- 17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am sorry, but we do not want a cross-conversation across the Chamber.
Mae'n ddrwg gennyf, ond nid ydym am gael sgwrs ar draws y Siambr.
- 17:44 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I will take an intervention.
Byddaf yn cymryd ymyriad.
- 17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You will take an intervention. From whom?
Byddwch yn cymryd ymyriad. Gan bwy?
- 17:44 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
No, there is no intervention.
Na, nid oes unrhyw ymyriad.
- 17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
There is no intervention.
Nid oes unrhyw ymyriad.
- 17:44 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
What we are seeking to do with this Bill is to create a framework that facilitates the effective functioning of a system of support for agriculture. We acknowledge the nature of work that prevails in this sector, and we wish to safeguard the provisions that currently exist, and we want to create a new framework that will enable us to invest in the future of the agriculture industry. The statement I made this afternoon, prior to this debate was about establishing a new financial framework for agriculture about public support and public resources supporting the agriculture industry.
Yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud gyda'r Bil hwn yw creu fframwaith sy'n cynorthwyo i sicrhau bod system o gefnogaeth ar gyfer amaethyddiaeth yn gweithredu'n effeithiol. Rydym yn cydnabod natur y gwaith yn y sector hwn, ac rydym yn dymuno diogelu'r darpariaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac rydym yn awyddus i greu fframwaith newydd a fydd yn ein galluogi i fuddsoddi yn nyfodol y diwydiant amaeth. Roedd y datganiad a wneuthum y prynhawn yma, cyn y ddadl hon, yn ymwneud â sefydlu fframwaith ariannol newydd ar gyfer amaethyddiaeth, cymorth cyhoeddus ac adnoddau cyhoeddus i gefnogi'r diwydiant amaeth.

Antoinette Sandbach a gododd—

Antoinette Sandbach rose—

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not going to take an intervention.

Nid wyf yn mynd i gymryd ymyriad.

It is about supporting the agriculture industry. This is a part of that framework and a part of that support. We cannot simply provide funding for agriculture without, at the same time, providing further public support in terms of business support and ensuring that we have functioning businesses that are able to have strong roots in rural Wales and develop the strength of that industry. The Bill will provide a framework for skills development and career progression that can attract new entrants into the industry, which, again, is something that we discussed earlier today.

Mae'n ymwneud â chefnogi'r diwydiant amaeth. Mae hyn yn rhan o'r fframwaith hwnnw ac yn rhan o'r gefnogaeth honno. Ni allwn ddarparu cyllid yn unig ar gyfer amaethyddiaeth heb ddarparu rhagor o gefnogaeth gyhoeddus, ar yr un pryd, o ran cymorth busnes a sicrhau bod gennym fusnesau gweithredol sy'n gallu plannu gwreiddiau cryf yn y Gymru wledig a datblygu cryfder y diwydiant hwnnw. Bydd y Bil yn darparu fframwaith ar gyfer datblygiad sgiliau a dilyniant gyrfa a all ddenu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth a drafodwyd gennym yn gynharach heddiw.

Young people will see a sector that values and rewards skills, experience and qualifications and provides opportunities for personal and professional growth. Again, that is something that we all want to see for the agriculture industry. The objectives correspond with the overarching strategy of the Working Smarter agenda of the Welsh Government in delivering well-trained workers and professionally run farm businesses in Wales.

Bydd pobl ifanc yn gweld sector sy'n gwerthfawrogi ac yn gwobrwyo sgiliau, profiad a chymwysterau ac sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer twf personol a phroffesiynol. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth yr ydym i gyd am ei weld ar gyfer y diwydiant amaeth. Mae'r amcanion yn cyd-fynd â strategaeth gyffredinol agenda Hwyluso'r Drefn Llywodraeth Cymru o ran darparu gweithwyr wedi'u hyfforddi'n dda a busnesau fferm sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol yng Nghymru.

I will finish by saying to the leader of the opposition that I recognise the positive nature of his contribution and I would be happy to continue conversations over the next few days to reach agreement on this legislation.

Rwyf am orffen trwy ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid fy mod yn cydnabod natur gadarnhaol ei gyfraniad, ac y byddwn yn hapus i barhau i drafod dros y dyddiau nesaf i ddod i gytundeb ar y ddeddfwriaeth hon.

17:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Cynnig i Gymeradwyo Penderfyniad Ariannol y Bil Sector Amaethyddol (Cymru)

Cynnig NDM5290 Lesley Griffiths

Motion to Approve the Financial Resolution of the Agricultural Sector (Wales) Bill

Motion NDM5290 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69 sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Agricultural Sector (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

17:46 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers for this item. You obviously do not want to reply, Minister.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr ar gyfer yr eitem hon. Mae'n amlwg nad ydych eisiau ateb, Weinidog.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:46 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will not reply.

Nid wyf am ateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As voting on the general principles of the Agricultural Sector (Wales) Bill has been deferred until voting time, I will defer voting on this item until voting time as well.

Gan fod pleidleisio ar egwyddorion cyffredinol y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) wedi cael ei ohirio tan y cyfnod pleidleisio, gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio hefyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 (Cymru) 2013 a Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygiad i Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I propose that these motions be grouped for discussion. Does any Member object? There are no objections. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motions.

Cynnig NDM5287 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2013.

Cynnig NDM5286 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2013.

The Housing and Regeneration Act 2008 (Consequential Amendments to the Mobile Homes Act 1983) (Wales) Order 2013 and the Mobile Homes Act 1983 (Amendment of Schedule 1 and Consequential Amendments) (Wales) Order 2013

Rwyf yn cynnig bod y cynigion hyn yn cael eu grwpio ar gyfer y drafodaeth. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynigion.

Motion NDM5287 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Housing and Regeneration Act 2008 (Consequential Amendments to the Mobile Homes Act 1983) (Wales) Order 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 18 June 2013.

Motion NDM5286 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Mobile Homes Act 1983 (Amendment of Schedule 1 and Consequential Amendments) (Wales) Order 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 18 June 2013.

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I move the motions.

Cynigiau y cynigion.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to speak briefly in support of these motions, which are, in effect, amendments to the Bill that is coming before us tomorrow. It is absolutely right that we bring Gypsy and Traveller sites under the auspices of the 1983 Act and, of course, subsequently under what will, hopefully, be the Mobile Homes (Wales) Act 2013. Clearly, there is a need to put in place protection for tenants of these sites to safeguard against eviction, and to make sure that pitch fees are regulated and that there is an opportunity to demand documentation with evidence of costs and a right to challenge pitch fee changes. There also needs to be greater input from tenants into changes to sites and their management through mandatory consultation. Therefore, I think that this is a good step forward and one that is long overdue. Hopefully, if they become part of the Bill that we will discuss tomorrow, when that Bill finally makes it through the Assembly, we will have a comprehensive Welsh Act that deals not just with residential mobile home sites, but with Gypsy and Traveller sites in Wales as well.

Rwyf am siarad yn gryno o blaid y cynigion hyn, sydd, i bob pwrpas, yn welliannau i'r Bil sy'n dod ger ein bron yfory. Mae'n hollol iawn ein bod yn dod â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr dan gwmpas Deddf 1983 ac, wrth gwrs, wedi hynny dan yr hyn a fydd, gobeithio, yn Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Yn amlwg, mae angen sefydlu mesurau i amddiffyn tenantiaid y safleoedd hyn i'w diogelu rhag cael eu troi allan, ac i wneud yn siŵr bod ffioedd lleiniau yn cael eu rheoleiddio a bod cyfle i fynnu dogfennau gyda thystiolaeth o gostau a hawl i herio newidiadau i ffioedd lleiniau. Mae angen hefyd i denantiaid wneud mwy o gyfraniad i newidiadau i safleoedd a'r dull o'u rheoli, trwy ei gwneud yn orfodol ymgynghori â nhw. Felly, rwyf yn meddwl bod hwn yn gam da ymlaen ac yn un y mae'n hen bryd ei gymryd. Os ydynt yn dod yn rhan o'r Bil y byddwn yn ei drafod yfory, pan fydd y Bil hwnnw o'r diwedd yn mynd drwy'r Cynulliad, y gobaith yw y bydd gennym Ddeddf gynhwysfawr i Gymru sy'n ymdrin â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru yn ogystal â safleoedd cartrefi symudol preswyl.

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also welcome the progress that is being made with these Orders before us today. I was very involved in Westminster as the chair of the all-party Gypsy and Traveller reform group, lobbying for protection from eviction and greater security of tenure for Gypsies and Travellers on local authority sites. This reform was incorporated into the Housing and Regeneration Act 2008. The relevant section, section 318, was brought into force in England on 30 April 2011, and I wholeheartedly welcome the implementation of this reform in Wales now.

Rwyf hefyd yn croesawu'r camau ymlaen sy'n cael eu cymryd gyda'r Gorchmynion hyn sydd ger ein bron heddiw. Roeddwn yn ymwneud llawer iawn yn San Steffan, fel cadeirydd y grŵp diwygio hollbleidiol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yn lobio dros amddiffyn Sipsiwn a Theithwyr rhag cael eu troi allan a thros fwy o sicrwydd deiliadaeth iddynt ar safleoedd awdurdodau lleol. Cafodd y diwygiad hwn ei gynnwys yn Neddf Tai ac Adfywio 2008. Cafodd yr adran berthnasol, adran 318, ei dwyn i rym yn Lloegr ar 30 Ebrill 2011, ac rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith bod y diwygiad hwn yn dod i rym yng Nghymru yn awr.

However, I am concerned about some aspects of these Orders. In particular, I am concerned about the transfer of jurisdiction over disputes other than possession to the residential property tribunal, rather than it staying with the county court. I believe that there is a mistaken idea that because, very sadly, legal aid has largely disappeared, there is no advantage in disputes remaining with the county court. I do not think adequate regard has been given to the widespread illiteracy among Gypsies and Travellers, their lack of schooling and the help that they need in interpreting the law. In the county court, even after draconian legal aid cuts, personal support units are increasingly available and they offer practical, emotional and procedural help. Volunteers read and explain papers, and can even speak on behalf of the litigant in the court with the judge's permission. A residential property tribunal, however, has little experience of adjudicating on public housing issues or landlord and tenant disputes, which, of course, are very familiar to the county court. I would have thought that the residential property tribunal is more concerned with property; it can, in fact, be chaired by a lawyer or a valuer. That, I think, illustrates the nature of the residential property tribunal. I think that Gypsies and Travellers will be at a disadvantage. I do not think it can be regarded as a more informal setting, because local authorities will be represented by lawyers and this may leave Gypsies and Travellers in a more vulnerable situation.

Fodd bynnag, rwyf yn bryderus am rai agweddau ar y Gorchmynion hyn. Yn benodol rwyf yn bryderus am drosglwyddo awdurdodaeth dros anghydfodau, ac eithrio rhai'n ymwneud â meddiant, i'r tribiwnlys eiddo preswyl, yn hytrach na'i chadw yn nwylo'r llys sirol. Credaf y ceir syniad anghywir nad oes unrhyw fantais mewn cadw anghydfodau gyda'r llys sirol oherwydd bod cymorth cyfreithiol, yn anffodus iawn, wedi diflannu i raddau helaeth. Nid wyf yn credu y rhoddwyd ystyriaeth ddigonol i'r anllythrennedd eang ymysg Sipsiwn a Theithwyr, eu diffyg addysg a'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddehongli'r gyfraith. Yn y llys sirol, hyd yn oed ar ôl toriadau llym mewn cymorth cyfreithiol, mae unedau cymorth personol yn gynyddol ar gael ac maent yn cynnig cymorth ymarferol, emosïynol a gweithdrefnol. Mae gwirfoddolwyr yn darllen ac yn esbonio papurau, a gallant hyd yn oed siarad ar ran yr ymgyfreithiwr yn y llys gyda chaniatâd y barnwr. Nid oes gan driwiwnlys eiddo preswyl, fodd bynnag, lawer o brofiad o ddyfarnu ar faterion tai cyhoeddus neu anghydfodau rhwng landlord a thenant—materion sydd, wrth gwrs, yn gyfarwydd iawn i'r llys sirol. Byddwn wedi meddwl bod y tribiwnlys eiddo preswyl yn ymwneud yn fwy ag eiddo; mewn gwirionedd, gall cyfreithiwr neu bisriwr ei gadeirio. Mae hynny, rwyf yn meddwl, yn dangos natur y tribiwnlys eiddo preswyl. Credaf y bydd Sipsiwn a Theithwyr dan anfantais. Nid wyf yn meddwl y gellir ei ystyried yn lleoliad mwy anffurfiol, gan y bydd awdurdodau lleol yn cael eu cynrychioli gan gyfreithwyr ac fe allai hyn adael Sipsiwn a Theithwyr yn fwy agored i niwed.

So, although I welcome very strongly giving greater security to Gypsies and Travellers on local authority sites, trying to bring them into line with other people living on mobile home sites, and also giving them some of the rights that local authority tenants in houses have, I am concerned about this transfer from the county court to the residential property tribunal. So, I would ask the Minister to reconsider that particular bit of these Orders.

Felly, er fy mod yn croesawu'n fawr iawn yr egwyddor o roi mwy o sicrwydd i Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd awdurdodau lleol, gan geisio sicrhau eu bod yn cyd-fynd â phobl eraill sy'n byw ar safleoedd cartrefi symudol, a hefyd roi rhai o'r hawliau iddynt sydd gan denantiaid awdurdodau lleol mewn tai, rwyf yn pryderu am y trosglwyddo hwn o'r llys sirol i'r tribiwnlys eiddo preswyl. Felly, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog ailystyried y darn penodol hwn o'r Gorchmynion hyn.

17:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:51 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I am grateful to Members who have contributed to this debate today. I would also like to thank all the organisations and individuals who replied to our consultation process on these proposals earlier this year. The Orders before us today will ensure that Gypsies and Travellers can receive equal security of tenure in Wales. They will also help local authorities to manage their Gypsy and Traveller sites effectively.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon heddiw. Hoffwn hefyd ddiolch i'r holl sefydliadau ac unigolion a ymatebodd i'n proses ymgynghori ar y cynigion hyn yn gynharach eleni. Bydd y Gorchmynion ger ein bron heddiw yn sicrhau y gall Sipsiwn a Theithwyr dderbyn sicrwydd deiliadaeth gyfartal yng Nghymru. Byddant hefyd yn helpu awdurdodau lleol i reoli eu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn effeithiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Government is committed to providing equality of opportunity for all communities in Wales. In 2011, we published the 'Travelling to a Better Future: Gypsy and Traveller Framework for Action and Delivery Plan', which set out a new deal for our only indigenous ethnic minorities. Part of that new deal was to ensure that Gypsies and Travellers have appropriate accommodation provision in Wales. Clearly, a lack of safeguards against unfair evictions cannot be considered appropriate. We are therefore implementing the Mobile Homes Act 1983 on these sites, thus giving these residents similar rights to those living on other types of mobile home park. By implementing the Mobile Homes Act 1983, we have also made amendments to ensure that we do not produce a system that is unmanageable, unduly bureaucratic, or discriminatory. We have proposed a limited right for occupiers of these sites to assign their agreement to another party. This limit strikes a balance between the rights of the occupier and the ability of the local authority to manage the allocation of pitches. Currently, residents do not have any right to assignment, while residents living on other types of mobile home parks or in social housing do. On the other hand, providing full assignment rights would remove the local authority's ability to allocate pitches to families who are most in need of accommodation.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal i bob cymuned yng Nghymru. Yn 2011, cyhoeddwyd 'Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr', a oedd yn cyflwyno bargaen newydd ar gyfer ein hunig leiafrifoedd ethnig brodorol. Rhan o'r fargen newydd honno oedd sicrhau bod Sipsiwn a Theithwyr yn cael llety priodol yng Nghymru. Yn amlwg, ni ellir ystyried ei bod yn briodol peidio â chael mesurau i amddiffyn pobl rhag cael eu troi allan yn annheg. Felly, rydym yn gweithredu Deddf Cartrefi Symudol 1983 ar y safleoedd hyn, gan roi hawliau tebyg i'r trigolion hyn a'r rhai sy'n byw ar fathau eraill o barciau cartref symudol. Trwy weithredu Deddf Cartrefi Symudol 1983, rydym hefyd wedi gwneud diwygiadau i sicrhau nad ydym yn cynhyrchu system sy'n rhy fiwrocataidd neu sy'n gwahaniaethu, neu un na ellir ei rheoli. Rydym wedi cynnig hawl cyfyngedig i ddeiliaid y safleoedd hyn aseinio eu cytundeb i barti arall. Mae'r terfyn hwn yn taro cydbwysedd rhwng hawliau'r deiliad a gallu'r awdurdod lleol i reoli dyraniad lleiniau. Ar hyn o bryd, nid oes gan drigolion unrhyw hawl i aseinio, tra bod hawl o'r fath gan drigolion sy'n byw ar fathau eraill o barciau cartrefi symudol neu mewn tai cymdeithasol. Ar y llaw arall, trwy ddarparu hawliau aseinio llawn, byddem yn cael gwared ar allu'r awdurdod lleol i ddyrannu lleiniau i deuluoedd sydd â'r angen mwyaf am lety.

We have also proposed a simple system of transition from the current arrangements to those required under the Mobile Homes Act 1983. Local authorities will simply need to produce a written statement, to be agreed with residents, containing existing site terms plus those included in the Mobile Homes Act. This process should minimise the administrative impact on local authorities.

Rydym hefyd wedi cynnig system syml o drosglwyddo o'r trefniadau presennol i'r rhai sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol 1983. Yn syml, bydd angen i awdurdodau lleol baratoi datganiad ysgrifenedig, y cytunir arno gyda thrigolion, yn cynnwys amodau'r safle presennol a'r rhai a gynhwysir yn y Ddeddf Cartrefi Symudol. Dylai'r broses hon leihau'r effaith weinyddol ar awdurdodau lleol.

As Julie Morgan has said, disputes arising on these sites will be decided at the residential property tribunal rather than at the county court. However, this change will bring consistency to the manner in which all mobile home park disputes in Wales are decided. It also mirrors the transfer of jurisdiction on English local authority Gypsy and Traveller sites that took place in 2011. We are working with the tribunal to ensure that chairs receive cultural awareness training, and guidance will be produced in an accessible format. I can add that 71% of the Gypsy and Traveller representatives consulted supported that move.

Fel y mae Julie Morgan wedi dweud, penderfynir ar anghydfodau sy'n codi ar y safleoedd hyn yn y tribiwnlys eiddo preswyl yn hytrach nag yn y llys sirol. Fodd bynnag, bydd y newid hwn yn dod â chysondeb i'r modd y penderfynir ar bob anghydfod ynglŷn â pharciau cartrefi symudol yng Nghymru. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith y trosglwyddwyd awdurdodaeth dros safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn Lloegr yn 2011. Rydym yn gweithio gyda'r tribiwnlys i sicrhau bod cadeiryddion yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol, a bydd canllawiau'n cael eu paratoi mewn fformat hygyrch. Gallaf ychwanegu bod 71% o gynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr yr ymgynghorwyd â nhw yn cefnogi'r newid hwnnw.

Peter Black also mentioned the importance of this being compatible with the legislation that he is pushing through, which we will deal with tomorrow. I can give the assurance that my officials have worked hard to ensure that these provisions dovetail with the Bill that we will debate tomorrow. I can also say to Julie Morgan that we will keep an eye on the operation of the tribunals. If there are issues, we will look to address them in terms of development and training needs. However, I take the point that you made.

Soniodd Peter Black hefyd pa mor bwysig yw hi bod hyn yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth y mae'n ei gwthio trwodd, ac y byddwn yn delio â hi yfory. Gallaf roi'r sicrwydd bod fy swyddogion wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cydblethu â'r Bil y byddwn yn ei drafod yfory. Gallaf hefyd ddweud wrth Julie Morgan y byddwn yn cadw llygad ar weithrediad y tribiwnlysoedd. Os oes cwestiynau, byddwn yn ceisio mynd i'r afael â hwy o safbwynt anghenion datblygu a hyfforddi. Fodd bynnag, rwyf yn derbyn y pwynt a wnaethoch.

Through consultation with Gypsy and Traveller residents, local authorities, and organisations representing both, we believe that we have found the correct balance on each of these points. On that basis, I commend these Orders to you.

Trwy ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr, awdurdodau lleol, a sefydliadau sy'n cynrychioli'r ddau, rydym yn credu ein bod wedi dod o hyd i'r cydbwysedd cywir ar bob un o'r pwyntiau hyn. Ar y sail honno, rwyf yn cymeradwyo'r Gorchmynion hyn i chi.

17:55

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the Housing and Regeneration Act 2008 (Consequential Amendments to the Mobile Homes Act 1983) (Wales) Order 2013. Does any Member object? There are no objections; therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar Orchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983) (Cymru) 2013. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Motion agreed.

17:56

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The next proposal is to agree the Mobile Homes Act 1983 (Amendment of Schedule 1 and Consequential Amendments) (Wales) Order 2013. Does any Member object? There are no objections; therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig nesaf yw cytuno ar Orchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Motion agreed.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 5.56 p.m.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 5.56 p.m.

Y GIG yng Nghymru—Dysgu o Ymchwiliad Francis

Delholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw William Graham, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts.

Cynnig NDM5288 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The NHS in Wales—Learning from the Francis Inquiry

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of William Graham, and amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts.

Motion NDM5288 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn ymateb i Adroddiad Francis.

Notes the actions to be taken by the Welsh Government in response to the Francis Report.

17:56

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Llywodraeth ei ymateb manwl i adroddiad Francis. Mae'n dilyn, adran wrth adran, brif strwythur yr adroddiad ei hun, ac mae'n disgrifio'r camau sydd eisoes ar waith yng ngwasanaethau iechyd gwladol Cymru, neu gamau at y dyfodol sy'n ymateb i agenda Francis. Heddiw, rwyf am osod y manylion hynny yng nghyd-destun darlun ehangach ein dull o weithredu.

Last week, the Government published its detailed response to the Francis report. It follows, section by section, the main structure of the report itself, and it describes the measures that are already in place in Welsh NHS services, or the steps for the future to respond to the Francis agenda. Today, I wish to set those details in the context of our wider approach.

Y man cychwyn yw bod pobl ar draws Cymru ac ar draws y gwasanaeth iechyd gwladol yn cael gofal sy'n ofalus ac yn cael ei ddarparu gydag urddas a pharch. Mae adroddiad Francis yn rybudd clir fod angen cynnal ac amddiffyn y diwylliant hwnnw, a sicrhau ei fod yn cyrraedd bob rhan o'r hyn rydym yn ei wneud. Mae rhybudd clir hefyd fod angen sicrhau ein bod yn datblygu'r diwylliant hwnnw yn frwd a chydag arddeliad wrth i ni lunio gwasanaethau iechyd gwladol y dyfodol.

The starting point is that people across Wales and across the NHS get care that is careful and is delivered with dignity and respect. The Francis report is a clarion call about the need to tend and defend that culture, and to ensure that it reaches into every part of what we do. It is also a clarion call about the need to ensure that we develop that culture actively and with determination as we shape the NHS services of the future.

Is it the Government's contention that, in Wales, we are immune from the ingredients that were found in Francis, and that Francis could not happen here? Of course, it is not. We hope that we have in place some structural arrangements that help. Francis clearly acknowledges, for example, the weaknesses in ensuring the effective representation of patients' voices in England following the abolition of community health councils. Those have been retained and strengthened in Wales.

Ai honiad y Llywodraeth yw ein bod, yng Nghymru, yn ddiogel rhag yr elfennau a ganfuwyd yn Francis, ac na allai Francis ddigwydd yma? Nage wrth gwrs. Rydym yn gobeithio bod gennym ar waith rai trefniadau strwythurol sy'n helpu. Mae Francis yn cydnabod yn glir, er enghraifft, y gwendidau o ran sicrhau bod lleisiau cleifion yn Lloegr yn cael eu cynrychioli'n effeithiol ar ôl diddymu cynghorau iechyd cymuned. Mae'r rheini wedi cael eu cadw a'u cryfhau yng Nghymru.

While I believe that the central message to be taken from the Francis report is not that the events at Mid Staffordshire NHS Foundation Trust expose some grand new truth about the NHS, I do believe that it reminds us forcefully that the delivery of safe and compassionate care has to be pursued positively at every level and throughout every day, rather than being taken for granted.

Er fy mod yn credu nad y neges ganolog i'w chymryd o adroddiad Francis yw bod y digwyddiadau yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford yn datgelu rhyw wirionedd newydd mawr am y GIG, rwyf yn credu ei fod yn ein hatgoffa'n rymus bod raid mynd ati'n gadarnhaol i ddarparu gofal diogel a thosturiol ar bob lefel a thrwy gydol bob dydd, yn hytrach na'i gymryd yn ganiataol.

At the top of the list for such a positive pursuit has to be a culture that listens to patients and their families, and that listens to staff who work directly with them—a culture which listens, particularly when things go wrong. Many steps have already been taken in Wales to make it easier for anyone with a concern to make that known, without fear among patients that it might impact on their care or treatment, and, among staff, that it might affect their jobs or career prospects. We are determined to go on taking this agenda forward.

Ar frig y rhestr ar gyfer mynd ar drywydd gweithgaredd cadarnhaol o'r fath, rhaid cael diwylliant sy'n gwrandao ar gleifion a'u teuluoedd, ac sy'n gwrandao ar staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda hwy— diwylliant sy'n gwrandao, yn enwedig pan fydd pethau'n mynd o chwist. Mae nifer o gamau wedi eu cymryd eisoes yng Nghymru i'w gwneud yn haws i unrhyw un roi gwybod am unrhyw bryder sydd ganddynt, heb ofn ymhlith cleifion y gallai effeithio ar eu gofal neu eu triniaeth, ac, ymysg staff, y gallai effeithio ar eu swyddi neu ragolygon gyrfa. Rydym yn benderfynol o barhau i symud yr agenda hon yn ei blaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Commissioner for Older People in Wales, using her independent authority, leads a national programme involving statutory organisations, the third sector, staff groups and patients' voices, all coming together to find ways in which it can be made easier to raise concerns, and to make responding positively to those concerns part of the everyday practice of the organisation. I look forward to receiving her recommendations.

The Francis report also highlights the need for a clear set of essential standards that are easily understood by all and against which the provision of care can be judged. The 'Fundamentals of Care' standards were published here as long ago as 2003. Last month, the chief nursing officer published her annual report of performance against those standards, showing both progress against them, and the very high levels of satisfaction reported by patients. However, the standards are now 10 years old, and our response to Francis provides a timely opportunity to update them, and that work will be set in hand.

As well as having standards, it is important to be able to provide assurance that these standards are being met, and that there are early warning systems in place to identify when they are not. In addition to its planned and announced programme of inspections, the Healthcare Inspectorate Wales carries out unannounced inspections of dignified care, including lay and specialist reviewers. Those unannounced inspections predate the Francis inquiry and include, as part of their basic routine, discussions with patients, their families and staff.

Healthcare Inspectorate Wales itself will also be 10 years old this year, and it has a new chief inspector recently in post. Now is the time to consider whether the broader regulatory system needs amendment to enable it to meet the needs of the post-Francis world, and I have already indicated the Government's willingness to consider legislating in this field to bring that about, should that be needed.

There is a great deal more detail of the Government's response to Francis in the document circulated to Members last week, which I do not have time to go over this afternoon. For the final part of what I have to say in opening this debate, I would like to concentrate on one aspect: staffing.

Safe and compassionate care clearly cannot be produced simply by systems and measurements. It depends, fundamentally, on people. Staff are the greatest resource of the NHS and the staffing we need for the future has to match changing patterns of need. Our hospital in-patient population now consists predominantly of older people, often with a complex mixture of social and clinical conditions. The chief nursing officer is leading work to introduce a new way of determining the number of nurses needed on any ward to meet those needs. Work so far has concentrated on acute medical and surgical wards. It shows that we need more nurses and healthcare support workers in order to reach the staffing levels that we will need in future. I expect health boards to have robust arrangements in place to ensure safe staffing levels at all times.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru, gan ddefnyddio ei hawdurdod annibynnol, yn arwain rhaglen genedlaethol sy'n cynnwys sefydliadau statudol, y trydydd sector, grwpiau staff a lleisiau cleifion. Maent i gyd yn dod at ei gilydd i geisio ffyrdd i'w gwneud yn haws codi pryderon, a sicrhau bod ymateb cadarnhaol i'r pryderon hynny yn rhan o arfer bob dydd y sefydliad. Edrychaf ymlaen at dderbyn ei hargymhellion.

Mae adroddiad Francis hefyd yn amlgu'r angen am gyfres glir o safonau hanfodol sy'n hawdd i bawb eu deall ac y gellir eu defnyddio i farnu'r gofal a ddarperir. Cafodd y safonau 'Hanfodion Gofal' eu cyhoeddi yma mor bell yn ôl â 2003. Y mis diwethaf, cyhoeddodd y prif swyddog nyrsio ei hadroddiad blynyddol ar berfformiad o'i gymharu â'r safonau hynny. Gwelwyd bod datblygiad wedi'i wneud o'i gymharu â'r safonau a bod cleifion yn nodi lefelau bodddhad uchel iawn. Fodd bynnag, mae'r safonau yn awr yn 10 mlwydd oed, ac mae ein hymateb i Francis yn rhoi cyfle amserol i'w diweddarau, a bydd y gwaith hwnnw mewn llaw.

Yn ogystal â chael safonau, mae'n bwysig gallu rhoi sicrwydd bod y safonau hyn yn cael eu bodloni, a bod systemau rhybuddio cynnar ar waith i nodi pan nad ydynt. Yn ychwanegol at ei rhaglen o arolygiadau a gynlluniwyd ac a gyhoeddwyd, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal archwiliadau dirybudd o ofal ag urddas, gan gynnwys adolygwyr lleyg ac arbenigol. Roedd yr arolygiadau dirybudd hynny'n cael eu cynnal cyn ymchwiliad Francis ac yn cynnwys trafodaethau gyda chleifion, eu teuluoedd a staff, fel rhan o'r drefn sylfaenol.

Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ei hun hefyd yn 10 mlwydd oed eleni, a phenodwyd prif arolygydd newydd iddi yn ddiweddar. Nawr yw'r amser i ystyried a oes angen diwygio'r system reoleiddio ehangach er mwyn ei galluogi i fodloni anghenion y byd ôl-Francis, ac rwyf eisoes wedi nodi parodrwydd y Llywodraeth i ystyried deddfu yn y maes hwn i wireddu hynny, pe byddai angen.

Mae llawer iawn mwy o fanylion ynglŷn ag ymateb y Llywodraeth i Francis yn y ddogfen a ddogfenwyd i'r Aelodau yr wythnos diwethaf, ac nid oes gennyf amser i fynd trwyddynt brynhawn heddiw. Ar gyfer rhan olaf yr hyn sydd gennyf i'w ddweud wrth agor y ddadl hon, hoffwn ganolbwyntio ar un agwedd: staffio.

Mae'n amlwg na all systemau a mesuriadau ar eu pen eu hunain sicrhau gofal diogel a thosturiol. Mae'n dibynnu, yn y bôn, ar bobl. Staff yw adnodd mwyaf y GIG ac mae'n rhaid i'r staff sydd eu hangen arnom ar gyfer y dyfodol gyd-fynd â phatrymau angen wrth iddynt newid. Pobl hŷn yw'r rhan fwyaf o boblogaeth cleifion mewnol ein hysbytai bellach, a'r rheiny'n aml â chymysgedd gymhleth o gyflyrau cymdeithasol a chlinigol. Mae'r prif swyddog nyrsio yn arwain gwaith i gyflwyno ffordd newydd o benderfynu ar nifer y nyrsys sydd eu hangen ar unrhyw ward i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae gwaith hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar wardiau llawfeddygol a meddygol aciwt. Mae'n dangos bod angen mwy o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd er mwyn cyrraedd y lefelau staffio y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol. Rwyf yn disgwyl i fyrdau iechyd sefydlu trefniadau cadarn i sicrhau lefelau staffio diogel bob amser.

I recognise that meeting these new requirements of the post-Francis world comes at a cost. I am therefore very pleased to announce today that an additional £10 million will be provided in the current financial year, to allow health boards to accelerate their plans to secure additional acute medical and surgical ward nurses. That money will be recurrent. It is sufficient to meet the cost of the equivalent of some 290 posts and will also contribute to reducing the need to employ agency nurses.

Finally, and more broadly, there is no doubt that there are wider budgetary implications that flow from making our NHS Francis-compliant. In addition to the specific announcement of extra funding for nurses, therefore, I can also announce this afternoon that, jointly with the Minister for Finance, I will be undertaking a review of the NHS budget over the summer, to ensure that it reflects the lessons to be learned from Francis, that it acknowledges the additional burdens that face the health service and to ensure that there is a proper match between the quality of care and patient safety issues, and that there are the budgets to support them. I expect that work to be completed by the autumn and will assist us further in carrying forward our response in Wales to the Francis report.

Gwelliant 1—William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod data ar farwolaethau wedi cyfrannu at y penderfyniad i gomisiynu Adroddiad Francis, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau a gymerir i ddatrys pryderon a gododd yn sgil data marwolaethau GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013.

Rwyf yn cydnabod bod cost ynghlwm wrth fodloni gofynion newydd y byd ôl-Francis. Rwyf felly'n falch iawn o gyhoeddi heddiw y bydd £10 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu yn y flwyddyn ariannol gyfredol, i ganiatáu i fyrddau iechyd gyflymu eu cynlluniau i sicrhau nyrsys ychwanegol ar gyfer wardiau llawfeddygol a meddygol aciwt. Bydd yn gyllid rheolaidd. Mae'n ddigon i dalu am yr hyn sy'n cyfateb i tua 290 o swyddi a bydd hefyd yn cyfrannu at leihau'r angen i gyflogi nyrsys asiantaeth.

Yn olaf, ac yn fwy cyffredinol, nid oes amheuaeth bod goblygiadau cyllidebol ehangach sy'n deillio o wneud i'n GIG gydymffurfio â Francis. Yn ychwanegol at y cyhoeddiad penodol ynglŷn â'r arian ychwanegol ar gyfer nyrsys, felly, gallaf hefyd gyhoeddi y prynhawn yma, ar y cyd â'r Gweinidog Cyllid, y byddaf yn cynnal adolygiad o gyllideb y GIG yn ystod yr haf, er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r gwersi sydd i'w dysgu gan Francis, ei bod yn cydnabod y beichiau ychwanegol sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd ac i sicrhau bod cyfatebiaeth briodol rhwng ansawdd y gofal a materion diogelwch cleifion, a bod y cyllidebau ar gael i'w cefnogi. Disgwyliaf i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau erbyn yr hydref a bydd yn ein cynorthwyo ymhellach wrth ddatblygu ein hymateb yng Nghymru i adroddiad Francis.

Amendment 1—William Graham

Add as new point at end of motion:

Notes that mortality data contributed to the decision to commission the Francis Report and calls upon the Welsh Government to provide an update on any action being taken to resolve concerns which arose as result of the Welsh NHS mortality data published in March 2013.

18:05

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 1 in the name of William Graham.

Cynigaf welliant 1 yn enw William Graham.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for opening the debate today. I am pleased to be discussing the Welsh Government's response to the Francis report today. The Francis report revealed the extent of unnecessary suffering of many patients of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust. Although national targets and balancing the books are important, at the end of the day, patient safety should always come first. When we last debated this report in March, the Welsh Conservatives gave a clear warning, and our health spokesman said at the time that Wales is not immune to such failures in care, and he was right. The joint Health Inspectorate Wales and Wales Audit Office report uncovered serious failings at Betsi Cadwaladr University Local Health Board. There were some stark similarities to Mid Staffordshire over infection control management, for example. I have regularly raised concerns over the savage cuts being made to the Welsh NHS by the Welsh Government, and I welcome the Minister's acknowledgement of that today with his announcement that he will undertake a review with the Minister for Finance into health service budgets over the summer. I look forward to the outcome of that review, and, in his summing up, perhaps he will give more details about the scope of the review that he will be undertaking. Therefore, looking at the financial pressures that have been placed on it, I was not entirely surprised to hear that the Betsi Cadwaladr board had delayed operations and extended waiting times to meet its financial targets.

Despite the then Minister for health saying that she had met each health board in March and discussed how they had planned to eliminate preventable hospital infections, it is clear that, certainly in the case of north Wales, the systems for reporting and dealing with C. difficile outbreaks have been unacceptable. I welcome the Welsh Government's intention to increase the focus on eliminating these infections, but it clearly has a lot of work to do.

Despite the First Minister declaring in response to me at First Minister's questions that there can be no room for complacency in our health care system, there clearly has been. In responding to the Francis report, the Welsh Government should not underestimate the problems highlighted by the HIW/WAO report into Besti Cadwaladr. For example, the Welsh Government's response to Francis states that

'NHS bodies must be listening organisations. This means listening to patients; listening to staff and ... then acting on what is heard'.

However, the Betsi report highlights that only 16% of the staff at Betsi think that senior managers will act on the results of the NHS Wales staff survey. That is hardly a 'listening' organisation. This morning, at the Public Accounts Committee, doctors' evidence was another example of how the national health service in Wales and the Welsh Government are not good listening organisations.

Diolch i'r Gweinidog am agor y ddaidl heddiw. Rwy'n falch o fod yn trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Francis heddiw. Roedd adroddiad Francis yn datgelu maint dioddefaint diangen llawer o gleifion o Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Canol Swydd Stafford. Er bod targedau cenedlaethol a mantoli'r cyfrifon yn bwysig, ar ddiwedd y dydd, dylai diogelwch cleifion ddod yn gyntaf bob amser. Pan gawsom y ddaidl ddiwethaf ar yr adroddiad hwn ym mis Mawrth, rhoddodd y Ceidwadwyr Cymreig rybudd clir, a ddywedodd ein llefarydd iechyd ar y pryd nad yw Cymru'n ddiogel rhag methiannau o'r fath mewn gofal, ac roedd e'n iawn. Datgelodd adroddiad ar y cyd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru fethiannau difrifol ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd tebygrwydd amlwg i Ganol Swydd Stafford dros reoli heintiau, er enghraifft. Rwyf wedi codi pryderon yn rheolaidd dros y toriadau anferth sy'n cael eu gwneud i'r GIG yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, ac rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y Gweinidog o hynny heddiw gyda'i gyhoeddiad y bydd yn cynnal adolygiad gyda'r Gweinidog Cyllid i gyllidebau'r gwasanaeth iechyd dros yr haf. Edrychaf ymlaen at ganlyniad yr adolygiad hwnnw, ac wrth grynhoi, efallai y bydd yn rhoi mwy o fanylion ynghylch cwrpas yr adolygiad y bydd yn ymgymryd ag ef. Felly, gan edrych ar y pwysau ariannol sydd wedi'u gosod arno, nid oeddwn wedi llwyr synnu o glywed bod bwrdd Betsi Cadwaladr wedi gohirio llawdriniaethau ac ymestyn amseroedd aros i gyflawni ei dargedau ariannol.

Er bod y Gweinidog ar y pryd wedi dweud ei bod wedi cwrdd â phob bwrdd iechyd ym mis Mawrth a thrafod sut yr oeddent wedi cynllunio i gael gwared ar heintiau ataliadwy mewn ysbytai, mae'n amlwg, yn sicr yn achos y gogledd, bod systemau ar gyfer adrodd ac ymdrin ag achosion o C. difficile wedi bod yn annerbyniol. Rwy'n croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r pwyslais ar ddileu'r heintiau hyn, ond mae'n amlwg fod ganddi lawer o waith i'w wneud.

Er bod y Prif Weinidog wedi datgan mewn ymateb i mi yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog nad oes lle i fod yn hunanfodlon yn ein system gofal iechyd, mae'n amlwg fod hynny wedi digwydd. Wrth ymateb i adroddiad Francis, ni ddylai Llywodraeth Cymru fychanu'r problemau a amlygwyd gan adroddiad AGIC / Swyddfa Archwilio Cymru i Betsi Cadwaladr. Er enghraifft, mae ymateb Llywodraeth Cymru i Francis yn datgan bod:

yn rhaid i gyrff y GIG fod yn sefydliadau sy'n gwrando. Mae hyn yn golygu gwrando ar gleifion; gwrando ar staff ac ... yna gweithredu ar yr hyn a glywir.

Fodd bynnag, mae adroddiad Betsi yn amlygu mai dim ond 16% o'r staff yn Betsi sy'n credu y bydd uwch reolwyr yn gweithredu ar ganlyniadau arolwg staff GIG Cymru. Go brin fod hynny'n cynrychioli sefydliad sy'n 'gwrando'. Y bore yma, yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, roedd tystiolaeth meddygon yn enghraifft arall o'r modd nad yw'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru yn sefydliadau da am wrando.

Looking at the amendments tabled today, the Welsh Conservatives amendment, amendment 1, refers to mortality data and so does the Liberal Democrat amendment, amendment 2, which we shall be supporting. The publication of mortality data is a welcome step, but there needs to be a strong set of actions that arise from their publication. I think that this is an important thread throughout all the actions on Francis, namely that there needs to be a strong set of actions rather than lip-service being paid to the recommendations and the directions that are put in place. Rates are higher than average in 11 out of 17 district general hospitals, and the public deserve to know what you are doing to reduce that, Minister. There are serious concerns over the way that the data are collected. The data are only worth having if they are collected and presented consistently. What has the Welsh Government done to rectify this?

Looking at the Liberal Democrats' amendment 3 about staffing levels, they are critical to providing good-quality care. It is quite clear that the Welsh Government has failed in its long-term workforce planning and, again, I welcome the Minister's announcement today of the extra money that has been made available. I think that the Minister talked about a potential extra 290 acute nurses being provided by that spend. However, we need to see more detail on how that money will be allocated through the health boards and what the Minister will expect in return for that additional allocation.

Countless HIW reports have highlighted critical staffing shortages, as did the Public Accounts Committee report on maternity services. The medical staff shortage, alongside the nursing staff shortage, is well known. We should look into the nursing rota system and into putting an end to the inclusion of the long-term sick on ward rotas. As the Minister for health has pointed out in the past, minimum staffing levels do not take into account the severity of conditions being treated, for example. One concern that I would have with a minimum staffing level is that it could encourage a race to the bottom, although this is not a reason in itself not to explore this possibility.

I therefore welcome the Minister's opening remarks today and I look forward to a continuation of the debate. I would hope that our first amendment will find favour with the Chamber to supplement the motion.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder bod y mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg yn uwch na'r cyfartaledd mewn 11 o'r 17 o ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran codio clinigol ac i sefydlu dull o ymchwilio pan fydd ysbyty neu Fwrdd Iechyd Lleol yn croesi trothwy penodol ar gyfer y mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg yn gyson dros gyfnod.

Gwelliant 3—Aled Roberts

O edrych ar y gwelliannau a gyflwynwyd heddiw, mae gwelliant Ceidwadwyr Cymru, gwelliant 1, yn cyfeirio at ddata marwolaethau ac felly hefyd welliant y Democratiaid Rhyddfrydol, gwelliant 2, y byddwn ni'n ei gefnogi. Mae cyhoeddi'r data marwolaethau yn gam i'w groesawu, ond mae angen cael cyfres gref o gamau gweithredu sy'n codi o'u cyhoeddi. Rwy'n credu bod hyn yn llinyn pwysig trwy'r holl gamau gweithredu ar Francis, sef bod angen cyfres gref o gamau gweithredu yn hytrach na gwasanaeth gwefus sy'n cael ei dalu i'r argymhellion a'r cyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi ar waith. Mae cyfraddau yn uwch na'r cyfartaledd mewn 11 o'r 17 o ysbytai dosbarth cyffredinol, ac mae'r cyhoedd yn haeddu cael gwybod am yr hyn yr ydych yn ei wneud i leihau hynny, Weinidog. Ceir pryderon difrifol ynghylch y ffordd y mae'r data yn cael ei gasglu. Nid yw'r data ond yn werth ei gael os yw'n cael ei gasglu a'i gyflwyno'n gyson. Beth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i unioni hyn?

Gan edrych ar welliant 3 y Democratiaid Rhyddfrydol am lefelau staffio, maent yn hanfodol i ddarparu gofal o ansawdd da. Mae'n gwbl glir fod Llywodraeth Cymru wedi methu yn ei gwaith cynllunio gweithlu hirdymor ac, unwaith eto, rwy'n croesawu cyhoeddiad y Gweinidog heddiw am yr arian ychwanegol sydd wedi ei neilltuo. Rwy'n credu bod y Gweinidog wedi sôn am 290 o nyrsys aciwt ychwanegol posibl yn cael eu darparu drwy'r gwariant hwnnw. Fodd bynnag, mae angen i ni weld mwy o fanylion am sut y bydd yr arian yn cael ei ddyrannu drwy'r byrddau iechyd a beth fydd y Gweinidog yn disgwyl ei gael am y dyraniad ychwanegol hwnnw.

Mae adroddiadau AGIC di-ri wedi amlygu prinder staff critigol, fel y gwnaeth adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar wasanaethau mamolaeth. Mae'r prinder staff meddygol, ochr yn ochr â'r prinder staff nyrsio, yn hysbys. Dylem edrych i mewn i'r system rota nyrsio ac ar roi diwedd ar gynnwys y rhai syn sâl yn y tymor hir ar rotas ward. Fel y mae'r Gweinidog iechyd wedi nodi yn y goffennol, nid yw lefelau staffio gofynnol yn ystyried difrifoldeb y cyflyrau sy'n cael eu trin, er enghraifft. Un pryder a fyddai gennyf gyda lefel staffio gofynnol yw y gallai annog ras i'r gwaelod, er nad yw hyn yn rheswm ynddo'i hun i beidio ag archwilio'r posibilrwydd hwn.

Rwyf felly'n croesawu sylwadau agoriadol y Gweinidog heddiw, ac edrychaf ymlaen at barhau â'r ddadl. Rwyf yn gobeithio y bydd ein gwelliant cyntaf yn cael croeso gan y Siambr i ategu'r cynnig.

Amendment 2—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Notes with concern that the risk adjusted mortality index (RAMI) is higher than average in 11 of the 17 district general hospitals in Wales and calls on the Welsh Government to support LHBs to address the backlogs in clinical coding and establish a mechanism for investigation where a hospital or LHB consistently exceeds a specific RAMI threshold over a period of time.

Amendment 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder bod Adroddiad Francis yn nodi lefelau staffio isel hirdymor fel un rheswm a gyfrannodd at driniaeth wael, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried potensial deddfwriaeth i osod lefel staffio sylfaenol ar gyfer nyrsys yng Nghymru.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ymrwymiad i gyhoeddi polisi newydd ar chwythu'r chwiban cyn diwedd mis Gorffennaf 2013, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu ei llinell gymorth ddi-dâl ei hun ar gyfer chwythu'r chwiban er mwyn ategu'r polisi hwn a galluogi holl staff a chleifion y GIG i roi gwybod am eu pryderon yn ddiennw.

Add as new point at end of motion:

Notes with concern that the Francis Report cited long-term low staffing levels as one reason which contributed to poor treatment and calls on the Welsh Government to examine the potential of legislation to set a minimum staffing level for nurses in Wales.

Amendment 4—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Welcomes the commitment to issue a new policy on whistle blowing before the end of July 2013 and calls on the Welsh Government to establish its own free whistle blowing hotline to support this policy and enable all NHS staff and patients to anonymously report their concerns.

18:10

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts.

I begin by thanking the Minister for his opening comments, and for the opportunity a little while ago to receive the Government's response. The amendments focus on three aspects that we believe are fundamentally important if we are to ensure that we do not see a repeat of the Mid Staffordshire situation in Wales. I take very much the spirit in which the Minister for health opened his comments this afternoon, being one of not being complacent and acknowledging, at the very least—even if the First Minister is not able to do so—that there is always the potential to get it wrong, and therefore we need to be constantly on our guard and testing our systems to ensure that that cannot happen here.

Cynigiad welliannau 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts.

Dechreuaf drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei sylwadau agoriadol, ac am y cyfle ychydig amser yn ôl i dderbyn ymateb y Llywodraeth. Mae'r gwelliannau'n canolbwyntio ar dair agwedd yr ydym yn credu sydd yn hanfodol bwysig os ydym i sicrhau nad ydym yn gweld ailadrodd sefyllfa Canol Swydd Stafford yng Nghymru. Rwyf yn llwyr dderbyn ysbryd y Gweinidog dros iechyd wrth iddo agor ei sylwadau y prynhawn yma, sef peidio â bod yn hunanfodlon a chydabod, o leiaf—hyd yn oed os nad yw'r Prif Weinidog yn gallu gwneud hynny—bod potensial bob amser i fod yn anghywir, ac felly mae angen i ni fod ar ein gwyliadwriaeth yn gyson a phrofi ein systemau i sicrhau na all hynny ddigwydd yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The first amendment from the Liberal Democrats refers to the issue of mortality data. When I first raised the issue of publishing mortality data here, I was accused of scaremongering by the First Minister. That is fine if it then leads to the Welsh Government publishing the data, which it then went on to do. In answer to the issue raised by Andrew Davies about what the Welsh Government is doing about the consistency of mortality data, then, fair play to the Government, it has asked the chief medical officer of Aneurin Bevan Local Health Board to look at how we can have a robust set of data. My concern is that, until we get a nationally consistent clinical coding system that is applied consistently, not just in health boards, but within health boards and individual hospitals, there will be the opportunity for healthcare managers to hide behind the lack of consistent clinical coding to divert attention away from poor mortality data. Let us be clear about what the Public Accounts Committee heard this morning about what is going on in one hospital in north Wales. It was reporting risk-adjusted mortality index data standing at 122. That was the point that set alarm bells ringing in Mid Staffordshire and sent inspectors back in to see what was going on. This morning, the committee was told, 'Ah, but we do not know whether that is correct or not'. Of course, that is exactly what was said in Mid Staffordshire. They tried to hide behind errors in clinical coding to try to divert attention from what was going on in the hospital. We need a nationally clear and consistent collection of clinical coding that we can use to set an automatic alarm trigger if the figures go too high. Of course, we also need the infrastructure to do that. I would be grateful to hear from the Minister what is happening in Cardiff and Vale University Local Health Board, where there is an amazing backlog of clinical coding that has not been carried out. Therefore, at the moment, we cannot be confident that we know what is going on in our hospitals.

On the issue of staffing, the surprise announcement by the Minister today of the additional £10 million is welcome. I would be grateful to know how that will be distributed between the individual health boards, and whether that will allow those health boards to meet the guidance issued by the chief nursing officer. A year ago she said that there should be a minimum ratio of 1:7. We know that at least three health boards are not meeting that. In another health board it is only an average of one in seven, which means that sometimes the figures are better, but if it is an average, then that means that there are times when the figures are worse on those wards. Will those 290 posts be enough to meet the chief nursing officer's own standards for nurse to patient ratios? Will the Minister give further consideration to the international evidence that seems to support the view that entrenching these in law makes a difference to clinical care and patient outcomes, as witnessed in the USA and in Australia?

Mae'r gwelliant cyntaf gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn cyfeirio at y mater o ddata marwolaethau. Pan godais y mater o gyhoeddi data marwolaethau yma am y tro cyntaf, cefais fy nghyhuddo o godi bwganod gan y Prif Weinidog. Mae hynny'n iawn os yw wedyn yn arwain at Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r data, yr aeth ymlaen i'w wneud wedyn. Yn ateb i'r mater a godwyd gan Andrew Davies am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud am gysondeb data marwolaethau, yna, chwarae teg i'r Llywodraeth, mae wedi gofyn i brif swyddog meddygol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan i edrych ar sut y gallwn gael cyfres gadarn o ddata. Fy mhryder i yw, hyd nes y cawn system godio clinigol sy'n gyson yn genedlaethol, sy'n cael ei defnyddio'n gyson, nid yn unig mewn byrddau iechyd, ond o fewn byrddau iechyd ac ysbytai unigol, bydd cyfle i reolwyr gofal iechyd guddio y tu ôl i'r diffyg codio clinigol cyson i ddargyfeirio sylw oddi wrth ddata marwolaethau gwael. Gadewch inni fod yn glir am yr hyn a glywodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bore yma am yr hyn sy'n digwydd mewn un ysbyty yn y gogledd. Yr oedd yn adrodd ar ddata mynegai marwolaethau wedi'i haddasu yn ôl risg yn sefyll ar 122. Dyna oedd y pwynt a achosodd i glychau larwm ganu yng Nghanol Swydd Stafford ac a anfonodd arolygwyr yn ôl i weld beth oedd yn mynd ymlaen. Y bore yma, dywedwyd wrth y pwyllgor, 'Ah, ond nid ydym yn gwybod a yw hynny'n gywir ai peidio'. Wrth gwrs, dyna'n union yr hyn a ddywedwyd yng Nghanol Swydd Stafford. F wnaethant geisio cuddio y tu ôl i gamgymeriadau mewn codio clinigol i geisio tynnu sylw oddi wrth yr hyn a oedd yn digwydd yn yr ysbyty. Mae arnom angen casgliad clir a chyson o godio clinigol yn genedlaethol y gallwn ei ddefnyddio i osod sbardun larwm awtomatig os yw'r ffigurau'n mynd yn rhy uchel. Wrth gwrs, rydym hefyd angen y seilwaith i wneud hynny. Byddwn yn falch o gael clywed gan y Gweinidog beth sy'n digwydd ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, lle y ceir ôl-groniad anhygoel o godio clinigol nad yw wedi ei gynnal. Felly, ar hyn o bryd, ni allwn fod yn hyderus ein bod yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen yn ein hysbytai.

Ar y mater o staffio, mae croeso i gyhoeddiad annisgwyl y Gweinidog heddiw am y £10 miliwn ychwanegol. Byddwn yn falch o gael gwybod sut y bydd hynny'n cael ei ddosbarthu rhwng y byrddau iechyd unigol, a pha un a fydd yn caniatáu i'r byrddau iechyd hynny fodloni'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y prif swyddog nyrsio. Flwyddyn yn ôl dywedodd hi y dylai fod cymhareb o 1:7 o leiaf. Rydym yn gwybod bod o leiaf tri bwrdd iechyd nad ydynt yn bodloni hynny. Mewn bwrdd iechyd arall nid yw'r cyfartaledd ddim ond yn un i bob saith, sy'n golygu bod y ffigurau weithiau yn well, ond os mai cyfartaledd yw hyn, yna mae hynny'n golygu bod adegau pan fydd y ffigurau'n waeth ar y wardiau hynny. A fydd y 290 o swyddi hynny'n ddigon i fodloni safonau y prif swyddog nyrsio ei hun ar gyfer cymarebau nyrsys i gleifion? A wnaiff y Gweinidog roi ystyriaeth bellach i'r dystiolaeth ryngwladol sy'n ymddangos i gefnogi'r farn bod ymsefydlu'r rhain yn y gyfraith yn gwneud gwahaniaeth i ofal clinigol a chanlyniadau i gleifion, fel y gwelwyd yn yr Unol Daleithiau ac yn Awstralia?

Finally, the Minister knows that there is not a dedicated Welsh NHS whistleblowing helpline. As the divergence of health policy continues in England and Wales, I believe that it is now time to look again at the mechanisms that staff have available to them to blow the whistle, not just within their own organisation, but outside it. It is also time to look at the possibility of allowing that to also be opened up to members of the public, who often are reluctant to engage with complaint procedures within hospitals because they fear prejudicing the care of their relatives on the ward, and also because they just do not have the time and the energy to be embroiled in a formal complaints process. However, they do need a mechanism to highlight concerns about patient care, should they witness something.

Yn olaf, mae'r Gweinidog yn gwybod nad oes llinell gymorth chwythu'r chwiban benodol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Gan fod y gwahaniaeth mewn polisi iechyd yn parhau yng Nghymru a Lloegr, rwy'n credu ei bod yn bryd edrych eto ar y dulliau sydd gan y staff ar gael iddynt i chwythu'r chwiban, nid yn unig o fewn eu sefydliad eu hunain, ond y tu allan iddo. Mae hefyd yn bryd i edrych ar y posibilrwydd o ganiatáu i hynny gael ei agor hefyd i aelodau o'r cyhoedd, sy'n aml yn amharod i ymgysylltu â gweithdrefnau cwyno mewn ysbytai oherwydd eu bod yn ofni peryglu gofal eu perthnasau ar y ward, a hefyd oherwydd nad yw'r amser na'r egni ganddynt i gael eu dal yn nhrafferthion y broses gwyno ffurfiol. Fodd bynnag, mae angen dull arnynt i dynnu sylw at bryderon ynghylch gofal cleifion, pe digwydd iddynt weld rhywbeth.

18:15

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that there have been changes arising out of the Francis report into Mid Staffs that have been very important. It is notable that the deficiencies in the Tameside hospital, which have emerged in the last week or so, emerged as a result of action taken by junior doctors and GPs in the area served by Tameside hospital. So, I think that there has been a change in the mood music and an understanding that it is everybody's concern to raise issues, particularly where we are dealing with people who are vulnerable as a result of their illness or because of mental health issues.

Rwy'n meddwl y bu newidiadau sy'n codi o adroddiad Francis i Ganol Swydd Stafford sydd wedi bod yn bwysig iawn. Mae'n werth nodi bod y diffygion yn ysbyty Tameside, sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf, wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r camau a gymerwyd gan feddygon iau a meddygon teulu yn yr ardal a wasanaethir gan ysbyty Tameside. Felly, rwy'n credu y bu newid o ran naws yr ymateb a dealltwriaeth ei fod a wnelo pawb â chodi materion, yn enwedig pan fyddwn yn ymdrin â phobl sy'n agored i niwed o ganlyniad i'w salwch neu oherwydd materion iechyd meddwl.

I agree with the Minister that the enduring role of CHCs in Wales does help to make sure that patients' voices are heard properly, particularly from among those who find it difficult to challenge authority themselves. Those bodies are there to provide the level of advocacy that is required for people who find it very difficult to put their case forward without that support.

Rwy'n cytuno â'r Gweinidog fod swyddogaeth barhaus y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru yn helpu i sicrhau bod lleisiau cleifion yn cael eu clywed yn iawn, yn enwedig o blith y rhai sy'n ei chael hi'n anodd i herio awdurdod eu hunain. Mae'r cyrff hynny yno i ddarparu'r lefel o eiriolaeth sydd ei hangen ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd iawn i gyflwyno eu hachos heb y cymorth hwnnw.

I think that mental health services have a particularly difficult job in getting it right in terms of being organisations that learn from their mistakes without putting the patient at risk, or putting others at risk. I find it a particularly difficult area myself to be able to pinpoint whether or not a person with a mental health problem who is complaining about the service that is being delivered actually has a good case or is simply challenging the messages that they are receiving from the health service, which may be in their best interests and in the interests of other people.

Rwy'n credu bod gan wasanaethau iechyd meddwl waith arbennig o anodd i gael pethau'n iawn o ran bod yn sefydliadau sy'n dysgu o'u camgymeriadau heb roi'r claf mewn perygl, neu roi eraill mewn perygl. Rwy'n ei weld yn faes arbennig o anodd fy hun i allu nodi pa un a oes achos da mewn gwirionedd gan berson sydd â phroblem iechyd meddwl, ac sydd yn cwyno am y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, neu, a yw ond yn herio'r negeseuon y mae'n eu cael gan y gwasanaeth iechyd, a allai fod er ei les gorau ac er lles pobl eraill.

One of the enduring messages from the Francis report is that we all have a duty, as elected Members, to ensure that we follow complaints through with the relevant health authorities in our areas. I have to say that, in my area, the Cardiff and Vale area, I do get responses that I find comprehensive and coherent, and I think that that is something that we all need to make sure is happening in our areas.

Un o'r negeseuon parhaol o adroddiad Francis yw bod gan bob un ohonom ddyletswydd, fel Aelodau etholedig, i sicrhau ein bod yn dilyn cwynion gyda'r awdurdodau iechyd perthnasol yn ein hardaloedd. Mae'n rhaid i mi ddweud, yn fy ardal i, ardal Caerdydd a'r Fro, rwyf yn cael ymatebion yr wyf yn eu hystyried yn gynhwysfawr a chydlynol, a chredaf fod hynny'n rhywbeth y mae angen i ni i gyd wneud yn siŵr sy'n digwydd yn ein hardaloedd.

One of the messages from the Betsi Cadwaladr report, which others have already mentioned, is the importance of leadership at board level. There are some significant shortcomings in the Betsi Cadwaladr board, which I hope will—I am sure they will—be addressed by the Minister for health. They are very much around the failure to tackle the turf wars between clinicians in different parts of the organisation, and, simply, inadequate forward planning.

Un o'r negeseuon o adroddiad Betsi Cadwaladr, y mae eraill wedi sôn eisoes amdani, yw pwysigrwydd arweinyddiaeth ar lefel y bwrdd. Mae rhai diffygion sylweddol ym mwrdd Betsi Cadwaladr, yr wyf yn gobeithio y byddant—rwy'n siŵr y byddant—yn cael sylw gan y Gweinidog Iechyd. Maent yn ymwneud i raddau helaeth â'r methiant i fynd i'r afael â'r rhyfeloedd tiriogaeth rhwng clinigwyr mewn gwahanol rannau o'r sefydliad, ac, yn syml, cynllunio annigonol ar gyfer y dyfodol.

18:18 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you also recognise, Jenny Rathbone, that one of the other failings in the Betsi Cadwaladr area has been the failure of the community health council to properly scrutinise the actions of the health board?

A fyddech chi'n cydnabod hefyd, Jenny Rathbone, mai un o'r methiannau eraill yn ardal Betsi Cadwaladr fu methiant y cyngor iechyd cymuned i graffu'n briodol ar weithredoedd y bwrdd iechyd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:19 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am afraid that I am not familiar with that. You will no doubt be making a contribution along those lines. That is serious, if that is the case. I can only speak about my own area, Cardiff and Vale, where I find that the community health council does take complaints very seriously and is very open to supporting patients to make sure that their voices are heard and that their concerns are addressed properly.

Mae arnaf ofn nad wyf yn gyfarwydd â hynny. Byddwch yn ddiau yn gwneud cyfraniad ar y llinellau hynny. Mae hynny'n ddifrifol, os yw'n wir. Ni allaf ond siarad am fy ardal fy hun, Caerdydd a'r Fro, lle'r wyf yn gweld bod y cyngor iechyd cymuned yn cymryd cwynion o ddifrif ac sy'n agored iawn i gefnogi cleifion i wneud yn siŵr bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac yr eir i'r afael â'u pryderon yn briodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that this is a very difficult area. This is not something that is about a single debate; it is an ongoing issue and we have to constantly address the ways in which we constantly improve the health service. I very much welcome the reflective and thoughtful response that we have had from the Minister for health.

Rwyf yn credu bod hwn yn faes anodd iawn. Nid yw hyn yn rhywbeth sydd yn ymwneud â dadl sengl; mae'n fater parhaus ac mae'n rhaid i ni fynd i'r afael yn gyson â'r ffyrdd yr ydym yn gyson yn gwella'r gwasanaeth iechyd. Croesawaf yn fawr iawn yr ymateb myfyriol a meddylgar a gawsom gan y Gweinidog Iechyd.

18:19 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The debate that has emerged since the publication of Francis is very much to be welcomed, and I think it is appropriate that the Assembly discuss it extensively, and that the Government act on the recommendations. After all, health is an almost entirely devolved subject, and healthcare is an issue that touches all of our lives, so it is right that we concentrate efforts on it.

Mae'r ddadl sydd wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi Francis i'w chrosawu'n fawr, ac rwy'n credu ei bod yn briodol bod y Cynulliad yn ei thrafod yn helaeth, a bod y Llywodraeth yn gweithredu ar yr argymhellion. Wedi'r cyfan, mae iechyd yn bwnc datganoledig bron yn gyfan gwbl, ac mae gofal iechyd yn fater sy'n cyffwrdd bywydau pob un ohonom, felly mae'n iawn ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion arno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think we would all agree that the majority of health workers do a fantastic job in very difficult circumstances. That said, there is never any justification for denying patients dignity while they are in the care of the NHS, and those who deny patients dignity offend the very principles upon which our health service is based.

Rwy'n credu y byddem i gyd yn cytuno bod y rhan fwyaf o weithwyr iechyd yn gwneud gwaith gwych mewn amgylchiadau anodd iawn. Wedi dweud hynny, nid oes byth unrhyw gyfiawnhad dros wrthod urddas i gleifion tra eu bod dan ofal y GIG, ac mae'r rhai sy'n gwrthod urddas i gleifion yn tramgwyddo'r union egwyddorion y mae ein gwasanaeth iechyd yn seiliedig arnynt.

The public debate since the publication of Francis has focused on the dreadful treatment of patients at Mid Staffs, and the shocking number of avoidable deaths that occurred there. It is right and proper that such issues are debated publicly, and we need to consider all 290 recommendations.

Mae'r ddadl gyhoeddus ers cyhoeddi Francis wedi canolbwyntio ar y driniaeth echrydus o gleifion yng Nghanol Swydd Stafford, a nifer brawychus o farwolaethau y gellid bod wedi eu hosgoi a ddiwyddodd yno. Mae'n iawn ac yn briodol bod materion o'r fath yn cael eu trafod yn gyhoeddus, ac mae angen i ni ystyried pob un o'r 290 o argymhellion.

In this country, challenges and concerns have been highlighted in recent years, and a number of previous speakers have mentioned these. There were warning signs, some of which will sound familiar to us: poor governance, lack of leadership, lack of focus on standards, wrong priorities, patients not being heard, professional disengagement, a negative culture, denying the reality of the situation, and finance and targets coming above the care of patients.

I am pleased to hear the Minister acknowledge that Wales is not immune to these problems, because let us remember that the Commissioner for Older in People in Wales specifically looked at dignity in patient care, and concluded that many wards were cramped, that there were inadequate bath and shower facilities, and that staff response to the buzzer being pressed by patients for attention was often poor. Concerns were raised about patients being left for far too long in getting assistance to use the toilet, and many patients were left in dirty clothing as a result. I am very grateful to the Minister for intervening on behalf of a family in my area recently, but I know that he cannot be everywhere all the time.

The Commissioner for Older People in Wales and the Francis report make it clear how important the way in which we staff the NHS is, and that the culture within it is crucial to patient dignity and wellbeing. Organisational and cultural factors go hand in hand, and transparency must be a priority. The Royal College of Nursing's timely call for appropriate regulation deserves our full support, and so should the establishment of a website where all information about Welsh hospitals and their performance can be easily accessed.

I will be tabling a medical accountability Bill in the ballot again in coming weeks, because I am convinced that a legal requirement for medical professionals to give a truthful account of the circumstances leading to a patient's death is morally paramount. As Francis and the Robbie Powell case have identified, it can never be right to tamper with or alter a patient's medical records to cover up professional malpractice. A duty of candour for medical professionals must happen.

So, the extra money is very welcome, but organisational strengthening is vital, including appropriate staffing levels, appropriate regulation and ensuring that fit-and-proper people are appointed to senior positions in the NHS. A cultural shift is crucial, too. Transparency on hospital performance, patients being at the centre of everything that the NHS does, and a legal obligation to be truthful would, I think, be a very good start.

Yn y wlad hon, mae heriau a phryderon wedi cael eu hamlygu yn y blynyddoedd diweddar, ac mae nifer o siaradwyr blaenorol wedi crybwyll y rhain. Roedd arwyddion rhybuddio yn bodoli, bydd rhai ohonynt yn swnio'n gyfarwydd i ni: llywodraethu gwael, diffyg arweinyddiaeth, diffyg pwyslais ar safonau, blaenoriaethau anghywir, cleifion ddim yn cael eu clywed, ymddieithrio proffesiynol, diwylliant negyddol, gwadu realiti'r sefyllfa, a chyllid a thargedau yn dod o flaen gofal cleifion.

Rwy'n falch o glywed y Gweinidog yn cydnabod nad yw Cymru yn ddiogel rhag y problemau hyn, oherwydd gadewch i ni gofio bod y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru wedi edrych yn benodol ar urddas mewn gofal cleifion, a daeth i'r casgliad bod llawer o wardiau yn gyfyng, bod cyfleusterau bath a chawod annigonol, a bod ymateb y staff yn aml yn wael i'r botwm galw yn cael ei wasgu gan gleifion er mwyn cael sylw. Mynegwyd pryderon am gleifion yn cael eu gadael am lawer rhy hir i gael cymorth i ddefnyddio'r toiled, ac roedd llawer o gleifion yn cael eu gadael mewn dillad budron o ganlyniad. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ymyrryd ar ran teulu yn fy ardal i yn ddiweddar, ond rwy'n gwybod na all fod ym mhob man drwy'r amser.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru ac adroddiad Francis yn ei gwneud hi'n glir pa mor bwysig yw'r ffordd yr ydym yn staffio'r GIG, a bod y diwylliant o'i fewn yn hanfodol i urddas a lles cleifion. Mae ffactorau sefydliadol a diwylliannol yn mynd law yn llaw, ac mae'n rhaid i dryloywder fod yn flaenoriaeth. Mae cais amserol y Coleg Nyrsio Brenhinol ar gyfer rheoleiddio priodol yn haeddu ein cefnogaeth lwyr, ac felly hefyd sefydlu gwefan lle y gellir cael mynediad rhwydd i'r holl wybodaeth am ysbtyai Cymru a'u perfformiad.

Byddaf yn cyflwyno Bil atebolrwydd meddygol yn y bleidlais eto yn ystod yr wythnosau i ddod, oherwydd rwy'n argyhoeddedig fod gofyniad cyfreithiol i weithwyr proffesiynol meddygol roi cyfrif gwir o'r amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth claf yn foisol hollbwysig. Fel y mae Francis ac achos Robbie Powell wedi ei ddangos, ni all fyth fod yn iawn i ymyrryd â chofnodion meddygol claf neu eu newid i guddio esgeulustod proffesiynol. Mae'n rhaid i ddyletswydd gonestrwydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol meddygol ddirigwydd.

Felly, mae'r arian ychwanegol yn cael ei groesawu'n fawr, ond mae cryfhau sefydliadol yn hanfodol, gan gynnwys lefelau staffio priodol, rheoleiddio priodol a sicrhau bod pobl addas a phriodol yn cael eu penodi i swyddi uwch yn y GIG. Mae newid diwylliannol yn hanfodol, hefyd. Byddai tryloywder o ran perfformiad yr ysbty, cleifion yn ganolog i bopeth y mae'r GIG yn ei wneud, a rhwymedigaeth gyfreithiol i fod yn onest, mi gredaf, yn ddechrau da iawn.

The right to be treated with dignity, safely and with compassion in hospital must be at the centre of the NHS, our national health service. 'Delivering Safe Care, Compassionate Care' is the Welsh Government's attempt to avoid such systemic failings taking place within NHS Wales, and the fundamentals of delivering quality care dictate that patients should be at the centre of any delivery plan. I welcome the Welsh Government's commitment to this, and that an all-Wales annual quality statement will be published from 2014.

However, let us not delude ourselves that the current situation does not warrant important debate. As Darren Millar AM correctly predicted in March, Wales is not immune to such failures in care. As has already been highlighted, the recent joint Healthcare Inspectorate Wales and Wales Audit Office report has uncovered many serious failings in the Betsi Cadwaladr health board, with some stark similarities to Mid Staffs. We learned only today that senior doctors at Ysbyty Gwynedd have expressed a lack of faith in the ability of managers to provide acceptable levels of care for patients, and they call into question the health board's internal structures, deeming them not fit for purpose. The risk-adjusted mortality index for the hospital is now 122, as Kirsty Williams has mentioned, with a score of over 100 indicating that a hospital has more deaths than should be expected. In 2005-06, the RAMI score for mid Staffordshire was 127. The issues around the reporting of and dealing with C. difficile outbreaks are unacceptable, and it is concerning to think that 16% of staff, who have committed to a vocation of care, are basically ignored when highlighting many serious failings.

My own local authority is in the process of now putting forward a motion calling on the Minister and the Welsh Government to move Betsi Cadwaladr into special measures. This health board is in crisis mode, and yet there is an intolerable lack of action on the part of the Welsh Government to allay the immediate concerns and fears of many. From my own casework perspective, I have seen numerous delayed operations. On one occasion, a patient was anaesthetised and then sent home without having had the operation. There are outrageous waiting times, cancelled appointments, and a lack of responses to serious clinical issues raised by my constituents and my own office. Those complaints were raised at management level, and, as we speak, there are hundreds of patients now left not knowing whether there is actually any clinical governance and leadership in place. I want to be able to return to my constituency of Aberconwy on Thursday safe in the knowledge that my own health board can provide safe, compassionate and quality clinical care for our residents and patients. Can you give me such assurances here today? I am afraid it is 'ye, of little faith' as far as I am concerned.

Mae'n rhaid i'r hawl i gael eich trin gydag urddas, yn ddiogel ac yn drugarog yn yr ysbyty fod wrth wraidd y GIG, ein gwasanaeth iechyd gwladol. 'Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol' yw ymgais Llywodraeth Cymru i osgoi methiannau systemig o'r fath rhag digwydd o fewn GIG Cymru, ac mae hanfodion darparu gofal o ansawdd yn golygu y dylai cleifion fod yn ganolog i unrhyw gynllun cyflenwi. Rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyn, ac y bydd datganiad o ansawdd blynyddol ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei gyhoeddi o 2014 ymlaen.

Fodd bynnag, gadewch inni beidio â thwylio ein hunain nad yw'r sefyllfa bresennol yn gwarantu dadl bwysig. Fel y rhagwelodd Darren Millar AC yn gywir ym mis Mawrth, nid yw Cymru yn ddiogel rhag methiannau o'r fath mewn gofal. Fel y dywedwyd eisoes, mae adroddiad ar y cyd diweddar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgelu nifer o ddiffygion difrifol ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, gyda rhai cyffelybiaethau amlwg â Chanol Swydd Stafford. Rydym wedi dysgu heddiw ddiwethaf bod uwch feddygon yn Ysbyty Gwynedd wedi mynegi diffyg ffydd yng ngallu'r rheolwyr i ddarparu lefelau derbynol o ofal ar gyfer cleifion, ac maent yn amau strwythurau mewnol y bwrdd iechyd, ac yn tybio nad ydynt yn addas i'w diben. Mae'r mynegai marwolaethau a addaswyd yn ol risg ar gyfer yr ysbyty bellach yn 122, fel y dywedodd Kirsty Williams, gyda sgôr o dros 100 yn nodi bod mwy o farwolaethau mewn ysbyty na ddylid eu disgwyl. Yn 2005-06, y sgôr RAMI ar gyfer canol Swydd Stafford oedd 127. Mae'r materion yn ymwneud ag adrodd am ac ymdrin ag achosion o C. difficile yn annerbyniol, ac mae'n destun pryder i feddwl bod 16% o staff, sydd wedi ymrwymo i alwedigaeth gofal, yn cael eu hanwybyddu yn y bôn pan eu bod yn tynnu sylw at nifer o fethiannau difrifol.

Mae fy awdurdod lleol fy hunan yn y broses yn awr o gyflwyno cynnig yn galw ar y Gweinidog a Llywodraeth Cymru i symud Betsi Cadwaladr i fesurau arbennig. Mae'r bwrdd iechyd hwn mewn sefyllfa o argyfwng, ac eto mae diffyg annerbyniol o weithredu ar ran Llywodraeth Cymru i leddfu pryderon ac ofnau uniongyrchol llawer o bobl. O safbwynt fy ngwaith achos fy hun, rwyf wedi gweld nifer o lawdriniaethau wedi'u hoedi. Ar un achlysur, cafodd claf anesthetig ac yna ei anfon adref heb gael y llawdriniaeth. Ceir amseroedd aros gwarthus, canslo apwyntiadau, a diffyg ymatebion i'r materion clinigol difrifol a godwyd gan fy etholwyr a fy swyddfa fy hun. Codwyd y cwynion hynny ar lefel rheoli, ac, ar y funud hon, mae cannoedd o gleifion wedi'u gadael heb fod yn gwybod pa un a oes unrhyw lywodraethu clinigol ac arweinyddiaeth ar waith mewn gwirionedd. Rwyf eisiau gallu dychwelyd i fy etholaeth yn Aberconwy ddydd lau yn fodlon fy meddwl y gall fy mwrdd iechyd fy hun ddarparu gofal clinigol diogel, tosturiol ac o ansawdd ar gyfer ein trigolion a'n cleifion. A allwch chi roi sicrwydd o'r fath i mi yma heddiw? Rwy'n ofni mai 'chwi, o ychydig ffydd' yw hi cyn belled ag yr wyf i yn y cwestiwn.

I wish to underline the importance of the quality of care. Nurses in Wales are increasingly responsible for delivery of front-line services, and, as such, their ability and capability to care has a significant impact. In Wales, many health boards are near the bare minimum of one nurse to every eight patients during day shifts. The importance of nursing care, if we are to put patients at the centre of the NHS, is self-evident, but the cuts to the Welsh NHS have taken their toll on nurses' morale and capacity. The links are clear: wards with lower nurse-to-patient ratios have been found to have mortality rates as much as 26% higher, and I know that our colleague, Kirsty Williams AM, has raised the issue of minimum staffing levels many times. I would add my voice to the call for clarity on what actions the Welsh Government is actually taking to re-empower nurses and introduce a statutory duty on health boards regarding minimum staffing levels. Minister, what actions are being taken to give power back to nurses so that they can provide care, which is, after all, the fundamental aspect of their role? The well-publicised campaign by Ann Clwyd MP to embed care within care in the NHS has proven heart-wrenching for us all, but, more worrying is the alarming frequency with which she receives communication from patients in Wales—25% of the letters that she has received outline a fundamental failing—

Hoffwn danlinellu pwysigrwydd ansawdd y gofal. Mae nyrsys yng Nghymru yn gynyddol gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rheng flaen, ac, fel y cyfryw, mae eu gallu a'u medrusrwydd i ofalu yn cael effaith sylweddol. Yng Nghymru, mae llawer o fyrddau iechyd yn agos at yr isafswm lleiaf o un nyrs i bob wyth claf yn ystod sifftiau dydd. Mae pwysigrwydd gofal nyrsio, os ydym am roi cleifion wrth wraidd y GIG, yn amlwg, ond mae'r toriadau yn y GIG yng Nghymru wedi effeithio'n andwyol ar ysbryd a gallu nyrsys. Mae'r cysylltiadau yn glir: canfuwyd bod gan wardiau â chymarebau nyrsys i gleifion is gyfraddau marwolaethau cymaint â 26% yn uwch, ac rwy'n gwybod bod ein cydweithiwr, Kirsty Williams AC, wedi codi'r mater o lefelau staffio gofynnol nifer o weithiau. Rwyf yn ychwanegu fy llais at y galw am eglurder ar ba gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn gwirionedd i ail-rymuso nyrsys a chyflwyno dyletswydd statudol ar fyrddau iechyd o ran lefelau staffio gofynnol. Weinidog, pa gamau sy'n cael eu cymryd i roi grym yn ôl i nyrsys fel y gallant ddarparu gofal, a dyna, wedi'r cyfan, yw'r agwedd sylfaenol ar eu swyddogaeth? Mae'r ymgyrch hysbys iawn gan Ann Clwyd AS i ymgorffori gofal o fewn gofal yn y GIG wedi profi'n ddirdynol i bob un ohonom, ond, yr hyn sy'n achosi mwy o bryder yw pa mor frawychus o aml y mae hi'n derbyn cyfathrebiaeth gan gleifion yng Nghymru— mae 25% o'r llythyrau y mae hi wedi'u derbyn yn amlinellu methiant sylfaenol—

- 18:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Please finish with this now. Dewch â hyn i ben yn awr os gwelwch yn dda
- 18:29 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
What actions are you taking on this, Minister? We will all easily recall— Pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd ar hyn, Weinidog? Byddwn i gyd yn cofio yn hawdd—
- 18:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Finish quickly now. Gorffennwch yn gyflym yn awr.
- 18:29 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We will all recall where we were when we heard of patients having to dial 999 for a drink of water. Byddwn i gyd yn cofio ble yr oeddem pan glywsom am gleifion yn gorfod ffonio 999 i gael diod o ddŵr.
- 18:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you. I call Mark Isherwood. Diolch. Galwaf ar Mark Isherwood.

We have heard about the data from doctors at Ysbyty Gwynedd. We have heard about the very worrying mortality data, almost comparable with the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust scandal, so I will not repeat those. However, healthcare support workers are being asked to undertake tasks previously carried out by registered nurses, who are subject to statutory regulation, and, as the Royal College of Nursing states, it is unclear why voluntary regulation is now considered appropriate for healthcare support workers performing the very same tasks. After all, the Francis inquiry report on the Mid Staffordshire NHS Foundation Trusts stated that, currently, healthcare support workers, whether working for the NHS or for independent healthcare providers, in the community or for agencies, are not subject to any system of registration. It also stated that a registration system should be created under which no unregistered person should be permitted to provide, for reward, direct physical care to patients. The Royal College of Nursing believes that only mandatory regulation of healthcare support workers can provide the peace of mind to patients and assurances to nurses that all healthcare support workers have the appropriate level of knowledge and skills required for the role.

A related concern raised with me this week is the understanding that possibly Wrexham County Borough Council, and others perhaps, has contracted some domiciliary care work to agencies that are registered with the Care Quality Commission in England, but not the Care and Social Services Inspectorate Wales, which means that some domiciliary care provided in Wales is done in a vacuum of regulation. If anything untoward were to happen, neither the Care Quality Commission in England nor CSSIW would be able to step in.

In its submission for this debate, the Royal College of Physicians in Wales calls for the patient to be the centre of the NHS as equal partners, and for better integrated care for patients by improved and expanded community services. If we change the way that we look at things, the things that we look at change. However, growing concern is being expressed that political resistance to the changes needed might threaten disaster. It is now over three years since the College of Occupational Therapists, Chartered Society of Physiotherapy, Age Concern, Wales Council for Voluntary Action and Crossroads Care highlighted the need to involve the voluntary sector in the development of primary care services across Wales, as equal partners focused on community resource teams and collaboration as a primary care solution, using skills and knowledge appropriately, and ensuring that community resource teams are fit for purpose. They considered that, in the current financial climate, the more that we can provide the right skills and the right people in the right places at the right time, the better. They championed person-led and community-led services, bringing together the independent third sector and public sector, and they feared that the move to community care would be more expensive than it needed to be if we changed the way that we do things.

Rydym wedi clywed am y data gan feddygon yn Ysbyty Gwynedd. Rydym wedi clywed am y data marwolaethau gofidus iawn, bron yn debyg i sgandal Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Canol Swydd Stafford, felly nid wyf am ailadrodd hynny. Fodd bynnag, gofynnir i weithwyr cymorth gofal iechyd ymgymryd â thasgau a wnaed yn flaenorol gan nyrsys cofrestredig, sy'n ddarostyngedig i reoleiddio statudol, ac, fel y mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn nodi, nid yw'n glir pam mae rheoleiddio gwirfoddol yn cael ei ystyried yn briodol bellach ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n perfformio'r union un tasgau. Wedi'r cyfan, roedd adroddiad ymchwiliad Francis ar y Sefydliad Ymddiriedolaethau GIG Canol Swydd Stafford yn datgan, ar hyn o bryd, nad yw gweithwyr cymorth gofal iechyd, pa un a ydynt yn gweithio i'r GIG neu i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol, yn y gymuned neu i asiantaethau, yn ddarostyngedig i unrhyw system o gofrestru. Roedd yn datgan hefyd y dylai system gofrestru gael ei chreu, lle na ddylid caniatáu i unrhyw berson anghofrestredig ddarparu, ar gyfer gwobr, gofal corfforol uniongyrchol i gleifion. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn credu mai dim ond rheoleiddio gorfodol o weithwyr cymorth gofal iechyd a all roi tawelwch meddwl i gleifion a sicrwydd i nyrsys fod gan bob gweithiwr cymorth gofal iechyd y lefel briodol o wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddogaeth.

Un pryder cysylltiedig a godwyd gyda mi yr wythnos hon yw'r ddealltwriaeth fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o bosibl, ac eraill efallai, wedi contractio peth gwaith gofal cartref i asiantaethau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr, ond nid ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sy'n golygu bod peth gofal cartref a ddarperir yng Nghymru yn cael ei wneud mewn gwagle o ran rheoleiddio. Pe byddai unrhyw beth anffodus yn digwydd, ni fyddai'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr nac AGGCC yn gallu ymyrryd.

Yn ei gyflwyniad ar gyfer y ddatl hon, mae Coleg Brenhinol y Meddygon yng Nghymru yn galw am i'r claf fod wrth wraidd y GIG fel partneriaid cyfartal, ac am ofal wedi'i integreiddio'n well ar gyfer cleifion drwy wasanaethau cymunedol gwell a mwy eang. Os ydym yn newid y ffordd yr ydym yn edrych ar bethau, mae'r pethau yr ydym yn edrych arnynt yn newid. Fodd bynnag, mae pryder cynyddol yn cael ei fynegi y gallai gwrthwynebiad gwleidyddol i'r newidiadau sydd eu hangen fygwth trychineb. Mae dros dair blynedd bellach ers i Goleg y Therapyddion Galwedigaethol, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, Age Concern, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Crossroads Care dynnu sylw at yr angen i gynnwys y sector gwirfoddol yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru, fel partneriaid cyfartal yn canolbwyntio ar dimau adnoddau cymunedol a chydweithio fel ateb gofal sylfaenol, gan ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth yn briodol, a sicrhau bod timau adnoddau cymunedol yn addas i'w diben. Roeddent o'r farn, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, gorau po fwyaf y gallwn ddarparu'r sgiliau iawn a'r bobl iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Roeddent yn hyrwyddo gwasanaethau a arweinir gan unigolion ac a arweinir gan y gymuned, gan ddwyn ynghyd y trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus, ac roeddent yn ofni y byddai symud i ofal cymunedol yn fwy costus nag y mae angen iddo fod pe byddem yn newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau.

As the former Archbishop of Canterbury said in the Pierhead building in March 2012, community must push back against managerial and functionalist approaches, preparing people to understand themselves and the society that they inhabit.

Local area co-ordination is an evidence-based approach to supporting people who may be vulnerable due to age, disability, mental health needs or sensory impairments, to pursue and achieve their vision for a good life and to create more welcoming and inclusive communities. It recognises the contribution that local communities can make as alternatives to formal social care and health services for many people. In some local authorities across Wales—an increasing number, in fact—new discussions have already started around local area co-ordination as a key approach to building mutually supportive communities as a new front end of the service system.

Throughout Wales, of course, the independent sector provides the great majority of palliative care and mental health beds, and the great majority of care through independent hospitals, care homes, nursing care homes and supported living. With all that it can and should contribute towards innovation, it must not be alienated. The Welsh Government response has focused on the importance of the Francis inquiry in relation to the NHS, quite rightly, but to be effective, its resulting actions must embrace all healthcare providers and sectors in Wales in mutual and respectful partnership.

Fel y dywedodd cyn Archesgob Caergaint yn adeilad y Pierhead ym mis Mawrth 2012, mae'n rhaid i gymuned wthio'n ôl yn erbyn dulliau rheolaethol a swyddogaethol, gan baratoi pobl i ddeall eu hunain a'r gymdeithas y maent yn byw ynddi.

Mae cydlynau ardal leol yn ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi pobl a allai fod yn agored i niwed oherwydd oedran, anabledd, anghenion iechyd meddwl neu nam ar y synhwyr, i ddilyn a chyflawni eu gweledigaeth ar gyfer bywyd da ac i greu cymunedau mwy croesawgar a chynhwysol. Mae'n cydnabod y cyfraniad y gall cymunedau lleol ei wneud fel dewisiadau amgen i ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd ffurfiol i lawer o bobl. Mewn rhai awdurdodau lleol ar draws Cymru—nifer cynyddol mewn gwirionedd—mae trafodaethau newydd eisoes wedi dechrau ynglŷn â chydlynau ardal leol fel dull allweddol o adeiladu cymunedau sy'n gefnogol i'w gilydd fel pen blaen newydd y system gwasanaeth.

Ledled Cymru, wrth gwrs, mae'r sector annibynnol yn darparu'r mwyafrif helaeth o ofal lliniarol a gwelyau iechyd meddwl, ac mae mwyafrif helaeth y gofal drwy ysbytai annibynnol, cartrefi gofal, cartrefi gofal nyrsio a byw â chymorth. Gyda'r holl bethau y gall ac y dylai gyfrannu tuag at arloesi, rhaid iddo beidio â chael ei ddiethrio. Mae ymateb Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd ymchwiliad Francis o ran y GIG, yn gwbl briodol, ond i fod yn effeithiol, mae'n rhaid i'r camau a fydd yn deillio ohono gynnwys yr holl ddarparwyr a sectorau gofal iechyd yng Nghymru mewn partneriaeth gydfuddiannol a pharchus.

18:34

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will, no doubt, be delighted to hear that I will keep my contribution very short. Given the concern that has been raised about Ysbyty Gwynedd and the fact that the chair of the Gwynedd consultants and specialists committee has stated that infection rates and mortality rates are higher than they have ever been, and that consultants in the hospital have no faith that managers will make the changes needed to provide good care to patients, I wonder why that is a surprise to the Assembly. In 2011, Betsi Cadwaladr local health board had the second lowest compliance rate in the whole of Wales with patient safety alerts. There were 64 patient safety alerts that hospitals across Wales had not complied with. Not a single health board in Wales had complied with all patient safety alerts. There were 170 instances of alerts not complied with in total, with 11 of the alerts not complied with by at least one health board being over three years old. Given those statistics, I simply do not understand why it is a surprise that there has been this increase in the mortality rate. In 2009, following the events that happened with my son, I took the decision not to sue the health board. I am afraid to say that my advice to constituents would be very different now, and, knowing what has come out since in terms of the way in which this board has been run, I think that many families would feel the same.

Weinidog, byddwch, heb os, yn falch iawn o glywed y byddaf yn cadw fy nghyfraniad yn fyr iawn. O ystyried y pryder a godwyd am Ysbyty Gwynedd a'r ffaith fod cadeirydd pwyllgor arbenigwyr ac ymgynghorwyr Gwynedd wedi datgan bod cyfraddau heintiau a chyfraddau marwolaethau yn uwch nag erioed o'r blaen, ac nad oes gan ymgynghorwyr yn yr ysbyty ffydd y bydd rheolwyr yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen i ddarparu gofal da i gleifion, pam mae hynny'n peri syndod i'r Cynulliad tybed. Yn 2011, roedd gan fwrdd iechyd lleol Betsi Cadwaladr y gyfradd cydymffurfio ail isaf yng Nghymru gyfan gyda rhybuddion diogelwch cleifion. Roedd 64 rhybudd cydymffurfio â hwy. Nid oedd yr un bwrdd iechyd yng Nghymru wedi cydymffurfio â'r holl rybuddion diogelwch cleifion. Cafwyd 170 o achosion o rybuddion i gyd na chydymffurfiwyd â hwy, gydag 11 o'r rhybuddion na chydymffurfiwyd â hwy gan o leiaf un bwrdd iechyd, dros dair blwydd oed. O ystyried yr ystadegau hynny, nid wyf yn deall pam y mae'n syndod y bu'r cynnydd hwn yn y gyfradd farwolaethau. Yn 2009, yn dilyn y digwyddiadau a ddigwyddodd gyda fy mab, penderfynais beidio ag erlyn y bwrdd iechyd. Rwy'n ofni y byddai fy nghyngor i etholwyr yn wahanol iawn erbyn hyn, ac, o wybod beth sydd wedi dod yn hysbys ers hynny o ran y ffordd y mae'r bwrdd hwn wedi cael ei redeg, rwy'n meddwl y byddai llawer o deuluoedd yn teimlo'r un fath.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Therefore, I hope that you are listening to the warnings. You should be looking at which patient safety alerts still have not been complied with by these health boards. There is a duty of candour. I welcome your additional funding, because we know in north Wales that a number of vacancies have not been filled and they need to be filled in order to have safe care. I want you to follow the recommendations of the Francis report, and I am glad of what you have said today, but I know, from freedom of information requests that I have made to the Betsi Cadwaladr LHB, that it is not transparent, that it does not give open answers and that it seeks to obfuscate as much as it can. The emphasis in the health board should be otherwise. I am very glad that the chair and the chief executive have gone, because, quite frankly, they needed to.

Felly, rwy'n gobeithio eich bod yn gwranddo ar y rhybuddion. Dylech fod yn edrych ar ba rybuddion diogelwch cleifion y mae'r byrddau iechyd yn dal i fod heb gydymffurfio â nhw. Mae dyletswydd o onestrwydd. Rwy'n croesawu eich cyllid ychwanegol, oherwydd ein bod yn gwybod yn y gogledd bod nifer o swyddi gwag heb eu llenwi ac mae angen eu llenwi er mwyn cael gofal diogel. Rwyf am i chi ddilyn argymhellion adroddiad Francis, ac rwy'n falch o'r hyn yr ydych wedi'i ddweud heddiw, ond gwn, o'r ceisiadau rhyddid gwybodaeth yr wyf wedi'u gwneud i BILL Betsi Cadwaladr, nad yw'n dryloyw, nad yw'n rhoi atebion agored a'i fod yn ceisio cymylu cymaint ag y gall. Dylai'r pwyslais yn y bwrdd iechyd fod fel arall. Rwy'n falch iawn bod y cadeirydd a'r prif weithredwr wedi mynd, oherwydd, a dweud y gwir, roedd angen iddynt fynd.

18:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:37 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I begin by indicating that the Government will accept both amendments that refer to improvements in mortality data and responding to the position in Wales. The Francis report contains almost 40 recommendations about information, and we will go on in Wales to make both information and explanation equally available in greater measure. In response to one of the points that Kirsty Williams raised, I am pleased to be able to say that updated RAMI figures for UHW in Cardiff show that there has been a significant fall already in the RAMI score of that hospital. That is the result of the extra effort that has gone into coding and dealing with the backlog of coding. More generally, it shows that transparent publication drives improvement, and, when we can get to a position of proper coding right across Wales, we will do even better.

Dechreuaf drwy nodi y bydd y Llywodraeth yn derbyn y ddau welliant sy'n cyfeirio at welliannau yn y data marwolaethau ac ymateb i'r sefyllfa yng Nghymru. Mae adroddiad Francis yn cynnwys bron i 40 o argymhellion ynghylch gwybodaeth, a byddwn yn mynd ymlaen yng Nghymru i sicrhau bod mwy o wybodaeth ac esboniad ar gael yn gyfartal. Mewn ymateb i un o'r pwyntiau a gododd Kirsty Williams, rwy'n falch o allu dweud bod y ffigurau RAMI wedi'u diweddarau ar gyfer Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd yn dangos y bu gostyngiad sylweddol eisoes yn sgôr RAMI yr ysbyty hwnnw. Mae hynny o ganlyniad i'r ymdrech ychwanegol sydd wedi'i gwneud i godio ac ymdrin â'r ôl-groniad o godio. Yn fwy cyffredinol, mae'n dangos bod cyhoeddi tryloyw yn sbarduno gwelliant, a, phan fyddwn yn cyrraedd sefyllfa o godio priodol ar draws Cymru gyfan, byddwn yn gwneud hyd yn oed yn well.

Amendment 3 refers to staffing levels, and I hope that this afternoon's announcement demonstrates the seriousness with which this matter has been taken. I am yet to be convinced that legislation is the best vehicle to secure the staffing that we need. However, the amendment calls on the Government to examine the potential of such an approach, and I am happy to accept it on that basis.

Mae gwelliant 3 yn cyfeirio at lefelau staffio, ac rwy'n gobeithio fod cyhoeddiad y prynhawn yma yn dangos pa mor ddifrifol yr ystyriwyd y mater hwn. Nid wyf wedi fy argyhoeddi mai deddfwriaeth yw'r ffordd orau o sicrhau'r staff sydd eu hangen arnom. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn galw ar y Llywodraeth i edrych ar botensial ymagwedd o'r fath, ac rwy'n fodlon ei dderbyn ar y sail honno.

The Government cannot accept the final amendment on whistleblowing, not because we do not share the sentiments that have been expressed, but because we think that there are better ways of allowing staff and users to raise concerns, rather than an anonymous hotline. The evidence for the success of that method is pretty poor. Patient Concern, the leading organisation in this field, recently completed a report for the older persons' commissioner that found that there had been fewer than 30 such complaints in a 10-year period in Wales. That does not demonstrate that there are not complaints to be made, but does demonstrate that a whistleblowing hotline is not the best way to capture them.

Ni all y Llywodraeth dderbyn y gwelliant olaf ar chwythu'r chwiban, nid oherwydd nad ydym yn rhannu'r teimladau a fynegwyd, ond oherwydd ein bod yn credu bod ffyrdd gwell o alluogi staff a defnyddwyr i godi pryderon, yn hytrach na llinell gymorth ddiennw. Mae'r dystiolaeth ynghylch llwyddiant y dull hwnnw'n eithaf gwael. Yn ddiweddar, cwblhaodd Patient Concern, y sefydliad blaenllaw yn y maes hwn, adroddiad ar gyfer y comisiynydd pobl hŷn a ganfu y bu llai na 30 o gwynion o'r fath mewn cyfnod o 10 mlynedd yng Nghymru. Nid yw hynny'n profi nad oes cwynion i'w gwneud, ond mae'n dangos nad llinell gymorth chwythu'r chwiban yw'r ffordd orau o'u cael.

I turn briefly to some of the individual contributions that have been made this afternoon. I am not prepared to be drawn into the Conservative Party's attempt to turn this into a debate on Betsi Cadwaladr University Local Health Board. However, I will say this in response to Andrew R.T. Davies: I entirely reject the suggestion that he made that there is a parallel between what has gone on in north Wales and what was revealed in the report about Mid Staffordshire. What the Mid Staffordshire report reveals is not just that there was poor care, but that there was a complete inability to identify the fact that care was poor. In north Wales, where there have been difficulties—I do not deny at all that there have been difficulties; I answered questions on that here in the Assembly last week and I will publish a written statement on it within the next week—and concerns over C. difficile and the governance of the board, we have immediately had teams of people in there from Public Health Wales, in relation to hospital-acquired infections, and from the two most senior inspectorates in Wales in relation to the board. It should be of comfort to patients in north Wales that, having been in that organisation over many weeks, carrying out an in-depth inquiry into it, they found no further evidence that services are unsafe.

Other than that, I thought that Andrew R.T. Davies's contribution was very constructive. I share his concern at the low levels of staff who reported in the survey that they believed that their views would be taken seriously. However, I think that he, like I, will be more encouraged by the fact that, in the same survey, eight out of 10 staff in Wales reported that they believe that their organisation encouraged them in the reporting of safety incidents, and nine out of 10 believed that if they made such a report, it would be taken seriously by senior staff and by the organisation. You asked me, as did Kirsty Williams, whether I could give you the allocations by health board for the £10 million that I announced earlier on. I have published those proposed allocations this afternoon.

Trof yn fyr at rai o'r cyfraniadau unigol sydd wedi cael eu gwneud y prynhawn yma. Nid wyf yn barod i gael fy nhynnu i mewn i ymdrech y Blaid Geidwadol i droi hyn yn ddadl ar Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fodd bynnag, rwyf am ddweud hyn mewn ymateb i Andrew R.T. Davies: rwy'n gwrthod yn llwyr yr awgrym a wnaeth bod tebygrwydd rhwng yr hyn sydd wedi digwydd yng ngogledd Cymru a'r hyn a ddatgelwyd yn yr adroddiad am Ganol Swydd Stafford. Yr hyn y mae adroddiad Canol Swydd Stafford yn ei ddatgelu yw nad gofal gwael yn unig a gafwyd, ond y bu anallu llwyr i nodi'r ffaith fod y gofal yn wael. Yng ngogledd Cymru, lle mae anawsterau wedi bod—nid wyf yn gwadu o gwbl y bu anawsterau; atebais gwestiynau ar hynny yma yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf, a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig arno o fewn yr wythnos nesaf—a phryderon ynghylch C. difficile a llywodraethu'r bwrdd, rydym wedi sicrhau bod timau o bobl yno ar unwaith, o Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, a gan y ddwy arolygiaeth uchaf yng Nghymru ar gyfer y bwrdd. Dylai fod yn gysur i gleifion yn y Gogledd, ar ôl bod yn y sefydliad hwnnw am nifer o wythnosau, yn cynnal ymchwiliad manwl iddo, nad ydynt wedi canfod unrhyw dystiolaeth bellach fod gwasanaethau'n anniogel.

Heblaw am hynny, rwy'n meddwl bod cyfraniad Andrew R.T. Davies yn adeiladol iawn. Rwy'n rhannu ei bryder ar y lefelau isel o staff a ddywedodd yn yr arolwg eu bod yn credu y byddai eu barn yn cael ei chymryd o ddirif. Fodd bynnag, credaf y bydd ef, fel finnau, wedi ei galonogi fwy gan y ffaith fod wyth allan o 10 aelod o staff yng Nghymru, yn yr un arolwg, wedi dweud eu bod yn credu bod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd am ddiwyddiadau diogelwch, a bod naw allan o 10 yn credu pe byddent yn gwneud adroddiad o'r fath, y byddai'n cael ei gymryd o ddirif gan uwch staff a chan y sefydliad. Roeddech yn gofyn i mi, fel y gwnaeth Kirsty Williams, a allwn i roi'r dyraniadau i chi yn ôl bwrdd iechyd ar gyfer y £10 miliwn a gyhoeddais yn gynharach. Rwyf wedi cyhoeddi'r dyraniadau arfaethedig hynny y prynhawn yma.

18:41 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One point on which I seek clarification is this: is this new money that you have extracted from the Minister for Finance, or is it reallocated from within existing NHS resources?

Un pwynt yr wyf yn ceisio eglurhad arno yw hyn: a yw hwn yn arian newydd yr ydych wedi ei gael gan y Gweinidog Cyllid, neu a yw wedi ei ailddyrrannu o adnoddau presennol y GIG?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:42 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is money from within the health main expenditure group, rather than new money from the Minister for Finance, but it is new money to the NHS. As I said, I have published the allocations this afternoon.

Mae'n arian o'r prif grŵp gwariant iechyd, yn hytrach nag arian newydd gan y Gweinidog Cyllid, ond mae'n arian newydd i'r GIG. Fel y dywedais, rwyf wedi cyhoeddi'r dyraniadau y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Kirsty Williams asked me whether it will be enough to reach Francis compliance under the chief nursing officer's figures. Let us remember that her figures are more sophisticated than simply a one-figure ratio. What the chief nursing officer argues is that you have to take into account the number of patients on a ward, and also their acuity. That changes all the time—it can change many times during a single day. The tool allows you to make a calibrated judgment of how many staff you need at any one time, and the £10 million will go a very long way to helping to ensure that we are at the level that we need to reach.

Gofynnodd Kirsty Williams i mi a fydd yn ddigon i gyrraedd cydymffurfio â Francis o dan ffigurau'r prif swyddog nyrσιο. Gadewch inni gofio bod ei ffigurau yn fwy soffistigedig na dim ond cymhareb un-ffigwr. Yr hyn y mae'r prif swyddog nyrσιο yn ei ddadlau yw bod yn rhaid i chi ystyried y nifer o gleifion ar ward, a hefyd eu craffter. Mae hynny'n newid drwy'r amser—gall newid sawl gwaith yn ystod un diwrnod. Mae'r offeryn hwn yn caniatáu i chi ddod i gasgliad wedi'i raddnodi o faint o staff sydd ei angen arnoch ar unrhyw un adeg, a bydd y £10 miliwn yn mynd yn bell iawn i helpu i sicrhau ein bod ar y lefel y mae angen i ni ei gyrraedd.

Jenny Rathbone got it right when she talked not about a culture of complaint but a culture of conversation, in which concerns are followed up and there is a dialogue with health boards when that happens.

Jocelyn Davies mentioned the duty of candour. The redress regulations passed here by the Assembly in 2011 place a duty of openness on health boards now. In a sense, a duty of candour is already implicit, if not explicit, in those regulations. I would be prepared to look at amending those regulations if we felt that we needed to make that an explicit obligation.

Janet Finch-Saunders looked forward to returning to her constituency, and I am prepared to associate myself with that sentiment.

Mark Isherwood raised the issue of healthcare support workers, which is an important issue. As he will know, it is a non-devolved matter. We continue to work closely with the UK Government on its response to Francis in that regard. He also raised the very important issue of domiciliary care registration and inspection. The Deputy Minister issued a statement in June that drew attention to the fact that there are domiciliary care agencies in Wales that are satellites of English providers and, therefore, are not registered here, and set out her plans to respond to that.

Finally, I say to Antoinette Sandbach that, of course, I am alert to patient safety notices. I have here the latest figures available in Wales. She, I hope, will be comforted a little to know that in five of the seven LHBs in Wales, there is over 90% compliance with those patient safety notices. In our trusts, it is at 100%.

Dirprwy Lywydd, I will conclude by saying that anyone who is familiar with the history of the Welsh NHS and the groundbreaking report published into the conditions in Ely Hospital, here in Cardiff, as far back as 1969, will know the dangers that lurk in any institutional setting: the corruption of care; the blunting of sensibilities; the development of institutional blindness; and the small collusions that create a wider culture of neglect.

The Francis report has provided an important opportunity to take stock and to review and strengthen the systems that we have in place to ensure that care in Wales is of high quality and is safe in delivery, and more than anything, that it is permeated by that sense of common humanity that means so much and which, here in Wales, we can go on ensuring so that no matter how ill you may be, the treatment you receive will recognise your standing as a person every bit as much as it recognises your needs as a patient.

Roedd Jenny Rathbone yn iawn pan oedd hi'n sôn nid am ddiwylliant o gwyno ond diwylliant o sgwrs, lle y ceir ymateb i bryderon a lle y ceir deialog gyda byrddau iechyd pan fo hynny'n digwydd.

Crybwyllodd Jocelyn Davies y ddyletswydd o onestrwydd. Mae'r rheoliadau gwneud iawn a basiwyd yma gan y Cynulliad yn 2011 yn gosod dyletswydd o fod yn agored ar fyrddau iechyd yn awr. Mewn ffordd, mae dyletswydd o onestrwydd eisoes ymhlyg, os nad yn amlwg, yn y rheoliadau hynny. Byddwn yn barod i edrych ar ddiwygio'r rheoliadau hynny os ydym yn teimlo bod angen i ni wneud hynny'n rhwymedigaeth benodol.

Roedd Janet Finch-Saunders yn edrych ymlaen at ddychweyd i'w hetholaeth, ac rwy'n barod i gysylltu fu hyn â'r teimlad hwnnw.

Cododd Mark Isherwood y mater o weithwyr cymorth gofal iechyd, sy'n fater pwysig. Fel y bydd yn gwybod, mae'n fater na chafodd ei ddatganoli. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar ei hymateb i Francis yn hynny o beth. Cododd hefyd y mater pwysig iawn o gofrestru ac arolygu gofal yn y cartref. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ddatganiad ym mis Mehefin a oedd yn tynnu sylw at y ffaith fod asiantaethau gofal cartref yng Nghymru sy'n ategol i ddarparwyr yn Lloegr ac, felly, nid yn cael eu cofrestru yma, ac amlinellodd ei chynlluniau i ymateb i hynny.

Yn olaf, dywedaf wrth Antoinette Sandbach, wrth gwrs, fy mod yn effro i hysbysiadau diogelwch cleifion. Mae gennyf yma y ffigurau diweddaraf sydd ar gael yng Nghymru. Bydd hi, rwy'n gobeithio, yn cael ei chysuro ychydig o gael gwybod bod dros 90% o gydymffuriad â'r hysbysiadau diogelwch cleifion hynny mewn pump o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Yn ein hymddiriedolaethau, mae'n 100%.

Dirprwy Lywydd, rwyf am gloi drwy ddweud y bydd unrhyw un sy'n gyfarwydd â hanes y GIG yng Nghymru a'r adroddiad arloesol a gyhoeddwyd ar yr amodau yn Ysbyty Trelái, yma yng Nghaerdydd, cyn belled yn ôl â 1969, yn gwybod y peryglon sy'n llechu mewn unrhyw leoliad sefydliadol: llygredd y gofal; pylu synwyruswydd; datblygiad dallineb sefydliadol; a'r cydgyngllwynion bychain sy'n creu diwylliant ehangach o esgeulustod.

Mae adroddiad Francis wedi rhoi cyfle pwysig i bwysu a mesur ac i adolygu a chryfhau'r systemau sydd gennym ar waith i sicrhau bod gofal yng Nghymru o ansawdd uchel ac yn ddiogel o ran ei ddarpariaeth, ac yn fwy na dim, ei fod wedi'i dreiddio gan yr ymdeimlad hwnnw o ddynoliaeth gyffredin sy'n golygu cymaint ac, yma yng Nghymru, y gallwn barhau i sicrhau, pa bynnag mor wael yr ydych, y bydd y driniaeth a gewch yn cydnabod eich statws fel unigolyn i'r un graddau ag y mae'n cydnabod eich anghenion fel claf.

18:46

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is no objection. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd gwelliant 2.

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? There is objection. I defer all further voting until voting time, which will follow.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Byddaf yn gohirio pob pleidlais arall tan y cyfnod pleidleisio, a fydd yn dilyn.

I will proceed to the first vote unless there are three Members who wish for the bell to be rung. I see that there are not.

Byddaf yn symud ymlaen at y bleidlais gyntaf os nad oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu. Gwelaf nad oes.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5289.](#)

Voting Time

[Result of the vote of amendment 1 to motion NDM5289.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5289.](#)

[Result of the vote of amendment 2 to motion NDM5289.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5289.](#)

[Result of the vote of amendment 3 to motion NDM5289.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5289.](#)

[Result of the vote of amendment 4 to motion NDM5289.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5289.](#)

[Result of the vote of amendment 5 to motion NDM5289.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 34, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 17, Against 34, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5289.](#)

[Result of the vote of motion NDM5289.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 33, Yn erbyn 17, Ymatal 0.

Motion agreed: For 33, Against 17, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5290.](#)

[Result of the vote of motion NDM5290.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 34, Yn erbyn 17, Ymatal 0.

Motion agreed: For 34, Against 17, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5288.](#)

[Result of the vote of the vote on amendment 3 to motion NDM5288.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 0, Ymatal 12.

Amendment agreed: For 39, Against 0, Abstain 12.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5288.](#)

[Result of the vote of the vote on amendment 4 to motion NDM5288.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

Cynnig NDM5288 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5288 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn ymateb i Adroddiad Francis.

Notes the actions to be taken by the Welsh Government in response to the Francis Report.

Yn nodi bod data ar farwolaethau wedi cyfrannu at y penderfyniad i gomisiynu Adroddiad Francis, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau a gymerir i ddatrys pryderon a gododd yn sgîl data marwolaethau GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013.

Notes that mortality data contributed to the decision to commission the Francis Report and calls upon the Welsh Government to provide an update on any action being taken to resolve concerns which arose as result of the Welsh NHS mortality data published in March 2013.

Yn nodi gyda phryder bod y mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg yn uwch na'r cyfartaledd mewn 11 o'r 17 o ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran codio clinigol ac i sefydlu dull o ymchwilio pan fydd ysbyty neu Fwrdd Iechyd Lleol yn croesi trothwy penodol ar gyfer y mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg yn gyson dros gyfnod.

Notes with concern that the risk adjusted mortality index (RAMI) is higher than average in 11 of the 17 district general hospitals in Wales and calls on the Welsh Government to support LHBs to address the backlogs in clinical coding and establish a mechanism for investigation where a hospital or LHB consistently exceeds a specific RAMI threshold over a period of time.

Yn nodi gyda phryder bod Adroddiad Francis yn nodi lefelau staffio isel hirdymor fel un rheswm a gyfrannodd at driniaeth wael, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried potensial deddfwriaeth i osod lefel staffio sylfaenol ar gyfer nyrsys yng Nghymru.

Notes with concern that the Francis Report cited long-term low staffing levels as one reason which contributed to poor treatment and calls on the Welsh Government to examine the potential of legislation to set a minimum staffing level for nurses in Wales.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5288 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote of motion NDM5288 as amended.](#)

Derbyniwyd y cynnis fel y'i diwygiwyd: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Motion as amended agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.

18:52

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's business; thank you.

Dyna ddiwedd busnes heddiw, diolch i chi.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.52 p.m.

The meeting ended at 6.52 p.m.